



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion  
The Record of Proceedings**

**Dydd Mawrth, 14 Hydref 2008  
Tuesday, 14 October 2008**

**Cynnwys**  
**Contents**

3	Atal Rheolau Sefydlog Suspension of Standing Orders
3	Sefydlu ac Ethol Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru Establishment and Election of the Proposed Welsh Red Meat Industry LCO Committee
4	Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister
35	Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement
41	Datganiad ar Fanciau Gwlad yr Iâ Statement on Icelandic Banks
60	Datganiad ar Arddangos Celf Statement on the Display of Art
74	Datganiad am Adfywio Strategol Statement on Strategic Regeneration
95	Datganiad Atodol gan y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus Supplementary Statement by the Minister for Finance and Public Service Delivery
96	Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Pobl Hŷn The Annual Report of the Older People's Commissioner

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.  
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Galwaf y Cynulliad i drefn.

**The Presiding Officer:** I call the Assembly to order.

### **Atal Rheolau Sefydlog Suspension of Standing Orders**

**Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones):** Cynigaf fod

**The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones):** I propose that

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog Rhifau 35.6 a 35.8:*

*the National Assembly for Wales in accordance with Standing Orders Nos. 35.6 and 35.8:*

*yn atal Rheol Sefydlog Rhif 7.18(i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog Rhif 6.10 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.3 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i'r cynnig o dan eitem 1 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 14 Hydref 2008.(NDM4034)*

*suspends Standing Order No. 7.18(i) and that part of Standing Order No. 6.10 that requires the weekly announcement under Standing Order No. 6.3 to constitute the timetable for business in Plenary for the following week, to allow the motions under item 1 to be considered in Plenary on Tuesday 14 October 2008. (NDM4034)*

**Y Llywydd:** Y cynnig yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

**The Presiding Officer:** The proposal is that the motion be agreed. Is there any objection? I see that there is not. In accordance with Standing order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

### **Sefydlu ac Ethol Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru Establishment and Election of the Proposed Welsh Red Meat Industry LCO Committee**

**Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones):** Cynigaf fod

**The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones):** I propose that

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 21.1, yn sefydlu pwyllgor i ystyried Gorchymyn arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig) 2008 mewn cysylltiad â Diwydiant Cig Coch Cymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Medi 2008, ac i gyflwyno adroddiad arno.*

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 21.1, establishes a committee to consider and report on the proposed National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Agriculture and Rural Development) Order 2008 in relation to the Welsh Red Meat Industry, laid in the Table Office on 22 September 2008.*

*Bydd y pwyllgor yn dod i ben ar ôl iddo gyflwyno'i adroddiad. (NNDM4035)*

*The committee shall cease to exist once the Committee has reported.*

Cynigiaf fod

I propose that

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 10.3, yn ethol Ann Jones (Llafur), Val Lloyd (Llafur), Nerys Evans (Plaid Cymru), Brynle Williams (Ceidwadwyr) a Mick Bates (Democratiaid Rhyddfrydol) yn Aelodau o'r Pwyllgor ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru. (NNDM4036)*

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 10.3, elects Ann Jones (Labour), Val Lloyd (Labour), Nerys Evans (Plaid Cymru), Brynle Williams (Conservative) and Mick Bates (Liberal Democrat) as members of the Proposed Welsh Red Meat Industry LCO Committee. (NNDM4036)*

**Y Llywydd:** Y cynnig yw bod y cynigion yn cael eu derbyn. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynigion eu derbyn.

**The Presiding Officer:** The proposal is that the motions be agreed. Is there any objection? I see that there is not. In accordance with Standing order No. 7.35, the motions are therefore agreed.

*Derbyniwyd y cynigion.  
Motions carried.*

## **Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister**

### **Teachers Trained in Wales**

### **Athrawon a Hyfforddwyd yng Nghymru**

**Q1 Kirsty Williams:** Will the First Minister make a statement on the retention of teachers trained in Wales? OAQ(3)1350(FM)

**C1 Kirsty Williams:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gadw athrawon a hyfforddwyd yng Nghymru? OAQ(3)1350(FM)

**The First Minister (Rhodri Morgan):** The latest count of the 2007 initial teacher training completers in Wales shows that over 90 per cent were in employment, over two thirds of which were in teaching posts in Wales. There are cross-border flows in teacher training, but our rationalisation and reduction of provision will help further improve the supply and demand match.

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Dengys y cyfrifiad diwethaf o'r bobl a gwblhaodd hyfforddiant cychwynnol athrawon yn 2007 fod dros 90 y cant mewn gwaith, a thros ddwy ran o dair o'r rheini mewn swyddi addysgu yng Nghymru. Mae pobl yn mynd dros y ffin i'r ddau gyfeiriad ym maes hyfforddi athrawon, ond wrth inni resymoli a lleihau'r ddarpariaeth, byddwn yn helpu i sicrhau bod y cyflenwad yn cyfateb yn well i'r galw.

**Kirsty Williams:** Figures for 2007 show that, of those training to become secondary school teachers, less than half trained in Wales go on to teach in secondary schools in Wales: 22 per cent go to teach somewhere else, and 11 per cent are not in teaching. Do you agree that instead of that money being spent on training people who will not go on

**Kirsty Williams:** Dengys y ffigurau ar gyfer 2007 mai llai na hanner y rhai sy'n hyfforddi i fod yn athrawon mewn ysgolion uwchradd sy'n mynd ymlaen i ddysgu mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru: mae 22 y cant ohonynt yn mynd i ddysgu yn rhywle arall, ac nid yw 11 y cant ohonynt yn addysgu. A gytunwch y byddai'n well gwario'r arian

to teach in our classrooms, it would be better spent on continuing professional development for existing and newly qualified teachers? The chartered teacher programme in Scotland, for example, allows teachers who do not want to go into managerial roles to develop their skills and remain in the classroom. That resource would be better spent on continuing professional development for existing staff.

**The First Minister:** You are confirming that 89 per cent of those who have been trained to teach at secondary level are teaching. As far as we know, only 11 per cent are not. We have been reducing the number of teacher training places available, except in shortage subjects such as mathematics and the sciences. You cannot always do that in exactly the same way, because you have staff commitments and university commitments to departments of education. Therefore, it is not easy to cope with the drop in the birth rate. We know that this year's crop of 18-year-olds is the largest that we will have for 12 years, so we have to reduce the provision, but you cannot switch it on and off like a tap. That is the tricky thing. However, we are matching supply and demand far better than in the past.

**Janet Ryder:** Are you aware that, within the next 10 years, Wales will face a shortfall of around 67 teachers in teachers who deal with children who are deaf or have a hearing problem? That figure has been arrived at by all the groups that work in this area, based on assessment work that the Assembly has produced and on the number of teachers who have already trained in this area. Unfortunately, the bulk of the current teachers are due to retire within the next five years. The Assembly has made money available for training to date, but that money will come to an end very soon. Do you agree that this needs urgent action? Everyone is concerned about the attainment of children with hearing problems. Would you undertake, with your colleague, the Minister

hwnnw ar ddatblygiad proffesiynol parhaus i athrawon sydd eisoes wrth eu gwaith ac athrawon sydd newydd gymhwyso, yn hytrach na'i wario ar hyfforddi pobl na fyddant yn mynd i ddysgu yn ein hystafelloedd dosbarth? Mae'r rhaglen athrawon siartredig yn yr Alban, er enghraifft, yn galluogi athrawon nad ydynt yn awyddus i gael swyddi rheoli i ddatblygu eu sgiliau ac aros yn yr ystafell ddosbarth. Byddai'n well gwario'r adnodd hwnnw ar ddatblygiad proffesiynol parhaus i staff sydd eisoes wrth eu gwaith.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydych yn cadarnhau bod 89 y cant o'r rhai sydd wedi cael eu hyfforddi i addysgu ar lefel uwchradd yn addysgu. Hyd y gwyddom, dim ond 11 y cant yw'r ffigur ar gyfer y rhai nad ydynt yn addysgu. Yr ydym wedi bod yn lleihau nifer y lleoedd gwag sydd ar gael ar gyrsgiau hyfforddi athrawon, ac eithrio mewn pynciau sydd â phrinder athrawon megis mathemateg a'r gwyddorau. Ni allwch wneud hynny yn yr un modd yn union bob amser, oherwydd y mae gennych ymrwymadau o ran y staff ac ymrwymadau i adrannau addysg prifysgolion. Felly, nid yw'n hawdd ymdopi â'r gostyngiad yn y gyfradd genedigaethau. Gwyddom mai'r rhai 18 oed sy'n dechrau eleni yw'r nifer fwyaf a fydd gennym am 12 mlynedd, felly rhaid inni leihau'r ddarpariaeth, ond ni allwch ei hagog a'i chau megis tap. Dyna sy'n anodd. Fodd bynnag, yr ydym yn sicrhau bod y cyflenwad yn cyfateb i'r galw yn well o lawer nag yn y gorffennol.

**Janet Ryder:** A ydych yn ymwybodol y bydd Cymru, o fewn y 10 mlynedd nesaf, yn wynebu prinder o tua 67 o athrawon o ran athrawon y'n ymdrin â phlant sy'n fyddar neu sydd â phroblem â'u clyw? Mae pob grŵp sy'n gweithio yn y maes hwn wedi pennu'r ffigur hwnnw, ar sail gwaith asesu a gynhyrchwyd gan y Cynulliad a nifer yr athrawon sydd eisoes wedi'u hyfforddi yn y maes hwn. Yn anffodus, bydd y rhan fwyaf o'r athrawon presennol yn ymddeol o fewn y pum mlynedd nesaf. Mae'r Cynulliad wedi darparu arian ar gyfer hyfforddiant hyd yn hyn, ond bydd yr arian hwnnw'n dod i ben cyn bo hir. A gytunwch fod angen gweithredu ar frys ynghylch hyn? Mae pawb yn pryderu am gyrhaeddiad plant sydd â phroblemau â'u clyw. A fydddech, ynghyd

for Children, Education, Lifelong Learning and Skills, to look at the funding to see how it can be extended and increased and to see how this situation can be addressed so that we can meet this shortfall in teachers?

**The First Minister:** I am trying to relate this to the exchange that I just had with Kirsty. We give specific grants to teachers of subjects that currently have a shortage of teachers: £5,000 for maths and sciences and £2,500 for other priority subjects at secondary and postgraduate level. You are talking about a sub-specialisation, however, and the numbers would be far smaller. You say that there is a concentration in the number of teachers due to retire. I will have to look into the matter in detail and come back to you to tell you whether we accept the figures that you have given, which you have heard from the profession, and what we think the solution is in relation to training more teachers specifically for children who are deaf or hard of hearing.

**Andrew R.T. Davies:** The retention of senior management teams in schools is crucial to the delivery of various Welsh Assembly Government initiatives. From evidence to the Proposed Learning and Skills (Wales) Measure Committee and in various representations that I have received from the National Association of Head Teachers, I know that many schools are under enormous pressure because of their budget settlements, and are having to shed senior management positions, including deputy and assistant principals. First Minister, is the Welsh Assembly Government proactively trying to manage that situation? Many of your flagship projects rely on the professionalism and dedication of senior management teams in implementing what we hope will be positive agenda changes for the education community in Wales.

**The First Minister:** I have certainly heard it said that an insufficient premium is put on being a headteacher as compared with being a deputy headteacher. Despite the additional leadership responsibilities of being a headteacher, the pay is not that much more than the pay of a deputy head. A deputy head

â'ch cyd-Weinidog, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, yn addo edrych ar y cyllid i weld sut y gellir ei ymestyn a'i gynyddu a gweld sut y gellir rhoi sylw i'r sefyllfa hon er mwyn inni allu delio â'r prinder athrawon hwn?

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn ceisio cysylltu hyn â'r deialog yr wyf newydd ei gael â Kirsty. Yr ydym yn rhoi grantiau penodol i athrawon pynciau sydd â phrinder athrawon ar hyn o bryd: £5,000 ar gyfer mathemateg a'r gwyddorau a £2,500 ar gyfer pynciau eraill sy'n cael blaenoriaeth ar lefel uwchradd ac ôl-radd. Yr ydych yn siarad am is-arbenigaeth, fodd bynnag, a byddai'r niferoedd yn llai o lawer. Yr ydych yn dweud bod llawer o athrawon sydd ar fin ymddeol. Bydd yn rhaid imi ymchwilio i'r mater yn fanwl a chysylltu â chi i ddweud a ydym yn derbyn y ffigurau a roddwyd gennych, sef ffigurau yr ydych wedi'u clywed gan y proffesiwn, ai peidio, ac i ddweud beth yw'r ateb, yn ein tyb ni, yng nghyswllt hyfforddi mwy o athrawon yn benodol ar gyfer plant sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw.

**Andrew R.T. Davies:** Mae cadw uwch dimau rheoli mewn ysgolion yn hanfodol i gyflawni amrywiol fentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar sail tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru) ac amryw o sylwadau yr wyf wedi'u cael gan Gymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, gwn fod llawer o ysgolion dan bwysau enfawr oherwydd eu setliadau cyllideb, ac mae'n rhaid iddynt gael gwared â swyddi uwch reoli, gan gynnwys dirprwy bennaethiaid a phenaethiaid cynorthwyol. Brif Weinidog, a yw Llywodraeth Cynulliad Cymru'n mynd ati'n rhagweithiol i geisio rheoli'r sefyllfa honno? Mae llawer o'ch prif brosiectau'n dibynnu ar broffesiynoldeb ac ymroddiad uwch dimau rheoli i weithredu newidiadau y gobeithiwn y byddant yn newidiadau cadarnhaol yn yr agenda ar gyfer y gymuned addysg yng Nghymru.

**Y Prif Weinidog:** Yn sicr, yr wyf wedi clywed sôn na roddir pris digonol ar fod yn bennaeth o'i gymharu â bod yn ddirprwy bennaeth. Er gwaethaf y cyfrifoldebau arwain ychwanegol sydd gan bennaeth, nid yw'r cyflog yn llawer mwy na chyflog dirprwy bennaeth. Bydd dirprwy bennaeth yn cael y

gets most of the benefits of a headteaching post, such as high pay, but does not have the additional responsibility implied by being the public face of the school 24 hours a day, seven days a week, as the headteacher does. I do not know whether that is the kind of problem that you are referring to, as that would not apply to the entire senior management team. However, it is certainly the case that the number of willing applicants for headships is not as high as it should be, and we need to look at that. However, I did not know that that applied—and it may not—to other senior management positions.

### Ad-drefnu Addysg Uwchradd

**C2 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynllun arfaethedig i ad-drefnu addysg uwchradd yn ardal Dinefwr yn sir Gaerfyrddin? OAQ(3)1346(FM)

**Y Prif Weinidog:** ‘Arfaethedig’ yw’r gair allweddol yn y cwestiwn hwnnw, oherwydd megis dechrau mae unrhyw gynllun i ad-drefnu addysg uwchradd yn ardal Dinefwr yn sir Gaer. Cyfrifoldeb y cyngor sir yw ad-drefnu addysg pan fydd yn dymuno gwneud hynny, ac mae’r trafodaethau wedi dechrau o ran ad-drefnu addysg ar gyfer disgyblion 11 i 19 oed.

**Rhodri Glyn Thomas:** Diolch am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog, ond mae braidd yn gamarweiniol ar ddau gyfrif. Mae’r ad-drefnu yn seiliedig ar ddwy ddogfen a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru: ‘Trawsnewid Darpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru’, a ‘Sgiliau sy’n Gweithio i Gymru’. Nid yw’n ddyddiau cynnar o ran yr amserlen. Galwyd am gynlluniau cychwynnol erbyn mis Tachwedd. Bydd y cyngor sir wedyn yn ymgynghori ar gynlluniau penodol ym mis Ionawr, gan lunio cynlluniau terfynol ym mis Mai gyda’r bwriad o’u gweithredu ym mis Medi 2009. Ni chafwyd ymgynghoriad hyd yn hyn, ac ni roddwyd unrhyw ystyriaeth i addysg cyfrwng Cymraeg yn y sector uwchradd yn Ninefwr. A allwch chi, ar ran Llywodraeth Cymru, roi ymrwymiad clir i ni y prynhawn yma na fydd y cynlluniau hyn yn symud yn eu blaen yn ôl yr amserlen honno, y bydd ymgynghoriad

rhan fwyaf o fanteision swydd pennaeth, megis cyflog uchel, ond ni fydd yn ysgwyddo’r cyfrifoldeb ychwanegol a geir yn sgîl bod yn wyneb cyhoeddus yr ysgol 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos, fel y mae’r pennaeth. Ni wn ai dyna’r math o broblem y cyfeiriwch ati, gan na fyddai hynny’n berthnasol i’r uwch dîm rheoli i gyd. Fodd bynnag, mae’n sicr yn wir nad yw nifer yr ymgeiswyr sy’n awyddus i fod yn brifathrawon cyfuwch ag y dylai fod, ac mae angen inni edrych ar hynny. Fodd bynnag, ni wyddwn fod hynny’n wir—ac efallai nad yw’n wir—am swyddi eraill yn yr uwch dîm rheoli.

### Reorganisation of Secondary Education

**Q2 Rhodri Glyn Thomas:** Will the First Minister make a statement on the proposed reorganisation of secondary education in the Dinefwr area of Carmarthenshire? OAQ(3)1346(FM)

**The First Minister:** ‘Proposed’ is the key word in that question, since any plans for the reorganisation of secondary education in the Dinefwr area of Carmarthenshire are at a formative stage. It is the county council’s responsibility to reorganise education as and when it wishes to do so, and discussions are under way as regards reorganising education for pupils aged 11 to 19.

**Rhodri Glyn Thomas:** Thank you for that response, First Minister, but it is slightly misleading on two counts. The reorganisation is based on two documents that were produced by the Welsh Assembly Government: ‘Transforming Education and Training Provision in Wales’ and ‘Skills That Work for Wales’. It is not early days according to the timetable. Initial plans have been called to be submitted by November. The county council will then consult on specific plans in January, drawing up final plans in May with a view to implementing them in September 2009. No consultation has taken place thus far, and no consideration has been given to Welsh-medium education in the secondary sector in Dinefwr. Could you, on behalf of the Welsh Assembly Government, give us a clear commitment this afternoon that these plans will not proceed according to that timetable, that a full public

llawn â'r cyhoedd cyn gweithredu, ac y bydd y newidiadau hyn yn rhoi ystyriaeth lawn i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg?

**Y Prif Weinidog:** Yr ydych wedi ateb eich cwestiwn gyda'ch gosodiad. Yr ydych wedi dweud nad yw'r ymgynghoriad eto wedi dechrau, a dyna'n union yr oeddwn i'n ceisio ei ddweud. Yr oeddwn ar fin dweud, 'Gan nad yw'r ymgynghoriad wedi dechrau, ni allaf siarad am rywbeth nes ei fod bron wedi cyrraedd terfyn y broses'. Dyma ddechrau'r broses, ac felly nid yw'r ymgynghoriad eto wedi digwydd. Dyna a ddywedwyd gennyh, ac yr wyf yn cytuno. Bydd ymgynghoriad.

O ran y broses, pe bai'r cyngor—a sylw hollol ddamcaniaethol yw hwn—yn penderfynu cau ysgol, dyweder, ac yn gwneud hynny heb ymgynghori'n llawn â'r rhieni, byddai'r Gweinidog cyfrifol yn cael bwrw'r cynllun i lawr am nad oedd wedi dilyn y broses gywir. Dyna sy'n digwydd bob amser gyda phroses fel yr un sydd ar fin dechrau yn ardal Dinefwr yn awr.

1.40 p.m.

**Alun Davies:** Mae'n amlwg nad yw'r *status quo* yn opsiwn ar gyfer addysg yn yr ardal hon, ond mawr obeithiaf y byddwch yn cytuno bod rhaid i'r cyngor sir gydweithio gyda rhieni a'r gymuned, i sicrhau darpariaeth addysg Gymraeg ac addysg yn y ddwy iaith, ac i sicrhau ein bod yn adeiladu arni i'r dyfodol.

**Y Prif Weinidog:** Ni allaf ddweud, fel Prif Weinidog, nad oes gan sir Gâr, fel uned o lywodraeth leol sy'n gyfrifol am addysg, yr hawl i ystyried opsiynau. Dyna mae'r cyngor yn dechrau ei wneud yn awr—ystyried opsiynau—ac yna bydd yn ymgynghori. Mae gan y cyngor syniad o'r hyn y mae am ei wneud, a bydd yn ymgynghori gyda rhieni ynglŷn â darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Yna cawn weld beth fydd yn digwydd. Os yw'n arwain at newid mawr yn y patrwm, bydd unrhyw un sy'n gwrthwynebu yn gallu gwneud hynny'n statudol drwy apelio i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Jane Hutt.

consultation will take place before any action is taken, and that these changes will give full consideration to the provision of Welsh-medium education?

**The First Minister:** You have answered your own question with that statement. You said that the consultation has not yet started and that is exactly what I was trying to say. I was about to say, 'Since the consultation has not yet begun, I cannot talk about anything until the process is nearly completed'. This is the beginning of the process and therefore the consultation has not yet taken place. That is what you said, and I agree. A consultation will take place.

As regards the process, if the council—and this is a purely hypothetical comment—were to decide to close a school, let us say, without fully consulting the parents, the relevant Minister would be entitled to terminate the scheme since the correct process was not followed. That is what always happens with processes such as the one that is about to commence in Dinefwr.

**Alun Davies:** It is apparent that the *status quo* is not an option for education in this area, but I hope that you will agree that the county council must co-operate with parents and the community to provide Welsh-medium education and bilingual education and to ensure that we build on that for the future.

**The First Minister:** As First Minister, I cannot say that Carmarthenshire, as a unit of local government with responsibility for education, does not have the right to consider its options. That is what the council is starting to do now—considering its options—and then there will be a process of consultation. The council has an idea of what it wants to do, and will consult with parents on Welsh-medium and English-medium provision. We shall then see what will happen. If it leads to a major change in the system, anyone who objects can do so on a statutory basis by appealing to the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills, Jane Hutt.



**Autistic Spectrum Disorder Action Plan****Cynllun Gweithredu ar gyfer  
Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig**

**Q3 The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German):** Will the First Minister make a statement on the progress of the autistic spectrum disorder action plan? OAQ(3)1345(FM)

**C3 Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd ar y cynllun gweithredu ar gyfer anhwylderau'r sbectrwm awtistig? OAQ(3)1345(FM)

**The First Minister:** This ground-breaking strategy was launched in April this year. An implementation manager has been seconded to the Welsh Assembly Government, and a number of key action points have been progressed. Funding has been identified to support implementation.

**Y Prif Weinidog:** Lanswyd y strategaeth arloesol hon ym mis Ebrill eleni. Mae rheolwr gweithredu wedi'i secondio i Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac mae nifer o bwyntiau gweithredu allweddol wedi'u datblygu. Mae cyllid wedi'i ganfod ar gyfer cefnogi'r gweithredu.

**Michael German:** It was only in the last seven days that money for the project in this financial year was announced. Will funding be included more speedily in the programme in future? I am told that many recipients are worried that this money will not go directly to those in need of it. Can you guarantee that the money will go to the end user, rather than being held up on the way?

**Michael German:** Dim ond yn ystod y saith niwrnod diwethaf y cyhoeddwyd yr arian ar gyfer y prosiect yn y flwyddyn ariannol hon. A fydd cyllid yn cael ei gynnwys yn gyflymach yn y rhaglen yn y dyfodol? Dywedir wrthyf fod llawer o'r rhai sy'n derbyn yr arian yn pryderu na fydd yr arian hwn yn mynd yn uniongyrchol i'r rhai y mae ei angen arnynt. A allwch warantu y bydd yr arian yn mynd i'r defnyddiwr terfynol, yn hytrach na bod oedi ar y ffordd?

**The First Minister:** I see no reason to suppose that the hypothesis is correct, so I do not know. It is a bit of an Aunt Sally—you are asking me whether I can, if this dreadful thing happens, give a guarantee that it will not happen. Why do we assume that it will happen? Is there a pattern that shows that this has happened before? I do not know. You need to show me. What we know is that we have made £1.8 million of new money available this year to support local authorities in mapping services already available across all statutory, voluntary and independent provision, identifying service gaps and how they will be addressed. That is in addition to the recurrent £1.7 million made available to local authorities specifically to develop specialist services for the autistic spectrum disorder.

**Y Prif Weinidog:** Ni welaf ddim rheswm pam y dylid tybio bod y ddamcaniaeth yn gywir, felly ni wn. Cocyn hitio yw hynny braidd—yr ydych yn gofyn imi, os bydd y peth ofnadwy hwn yn digwydd, a allaf roi sicrwydd na fydd yn digwydd. Pam yr ydym yn tybio y bydd yn digwydd? A oes patrwm sy'n dangos bod hyn wedi digwydd o'r blaen? Ni wn. Bydd angen ichi ddangos imi. Yr hyn a wyddom yw ein bod wedi darparu £1.8 miliwn o arian newydd eleni i gefnogi awdurdodau lleol i fapio'r gwasanaethau sydd eisoes ar gael ar draws yr holl ddarpariaeth statudol, gwirfoddol ac annibynnol, gan ddod o hyd i fylchau yn y ddarpariaeth a sut y rhoddir sylw iddynt. Mae hynny'n ychwanegol at y £1.7 miliwn rheolaidd a ddarperir i awdurdodau lleol yn benodol ar gyfer datblygu gwasanaethau arbenigol ar gyfer anhwylderau'r sbectrwm awtistig.

**David Lloyd:** Under the new action plan, will provision be made for the appointment of autistic spectrum disorder champions for

**David Lloyd:** Dan y cynllun gweithredu newydd, a ddarperir ar gyfer penodi hyrwyddwyr anhwylderau'r sbectrwm

every local authority?

**The First Minister:** I do not know whether it has gone as far as making a specific proposal of that kind. We have set out the funding arrangements for local authorities, along with the expectations. The expression used is a 'named lead', and that may be what you have in mind; perhaps I had better explore that issue with the relevant Minister, to check whether a named lead is the same as a champion.

**Alun Cairns:** I cannot believe the First Minister's response to Dai Lloyd. Having a champion is the whole premise of the action plan—it is the focal point. To come out with a statement saying that he does not know whether they have got that far yet, when the action plan was agreed, with great fanfare and the support of all parties, in April, demonstrates the First Minister's lack of understanding. Furthermore, the National Autistic Society says that a third of adults with autism in Wales do not receive support because their local authorities do not have provision. Without such a champion, how do we expect to make progress in all parts of Wales, on a uniform basis, ensuring an adequate baseline of support?

**The First Minister:** You are getting terribly excited about a difference in the wording used. I was asked whether there were nominated champions, and I said that, while I do not recognise that term, I recognise the term 'named lead'. That is what local authorities have been asked to identify, to oversee the mapping of need and existing services, the production of local action plans and the formation of local stakeholder groups to engage with the families concerned. You may think that there is something wrong with that statement, but you must tell me what you think it is that is wrong. It seems to me that, apart from a difference in wording, it is very much along the lines that Dai Lloyd was referring to.

### The State of the Economy

**Q4 Eleanor Burnham:** Will the First Minister make a statement on the state of the Welsh economy? OAQ(3)1351(FM)

awtistig i bob awdurdod lleol?

**Y Prif Weinidog:** Ni wn a yw wedi cyrraedd y cam lle y gellir gwneud cynnig penodol o'r fath. Yr ydym wedi gosod y trefniadau cyllido ar gyfer awdurdodau lleol, ynghyd â'r disgwyliadau. Yr ymadrodd a ddefnyddir yw 'arweinydd a enwir', ac efallai mai hynny sydd gennych mewn golwg; efallai y byddai'n well imi ymchwilio i'r mater hwnnw gyda'r Gweinidog perthnasol, er mwyn gweld a yw arweinydd a enwir yn gyfystyr â hyrwyddwr.

**Alun Cairns:** Ni allaf gredu ymateb y Prif Weinidog i Dai Lloyd. Penodi hyrwyddwr yw cynsail y cynllun gweithredu—dyna'r canolbwynt. Mae gwneud datganiad na wŷr a ydynt wedi cyrraedd y cam hwnnw eto, er bod cytuno wedi bod ar y cynllun gweithredu, gyda sylw mawr a chefnogaeth gan bob plaid, ym mis Ebrill, yn dangos diffyg dealltwriaeth y Prif Weinidog. Ar ben hynny, dywed Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth nad yw traean yr oedolion sydd ag awtistiaeth yng Nghymru yn cael cymorth am nad oes darpariaeth gan eu hawdurdodau lleol. Heb hyrwyddwr o'r fath, sut y gallwn ddisgwyl gwneud cynnydd ym mhob rhan o Gymru, mewn modd unffurf, gan sicrhau sylfaen ddigonol o gymorth?

**Y Prif Weinidog:** Yr ydych yn cyffroi'n ofnadwy ynghylch y gwahaniaeth yn y geiriad a ddefnyddir. Gofynnwyd imi a oedd hyrwyddwyr a enwebir, a dywedais, er nad wyf yn gyfarwydd â'r term hwnnw, fy mod yn gyfarwydd â'r term 'arweinydd a enwir'. Dyna y gofynnwyd i awdurdodau lleol ei ganfod, i oruchwylio'r gwaith o fapio'r angen a'r gwasanaethau presennol, cynhyrchu cynlluniau gweithredu lleol a ffurfio grwpiau rhanddeiliaid i ymgysylltu â'r teuluoedd dan sylw. Efallai y credwch fod rhywbeth o'i le ar y datganiad hwnnw, ond rhaid ichi ddweud wrthyf beth sydd o'i le yn eich barn chi. Mae'n ymddangos i mi, ar wahân i wahaniaeth o ran geiriad, ei fod yn debyg iawn i'r hyn yr oedd Dai Lloyd yn cyfeirio ato.

### Cyflwr yr Economi

**C4 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyflwr economi Cymru? OAQ(3)1351(FM)

**The First Minister:** We are convening a summit meeting this Thursday of the leading stakeholders in the Welsh economy to get a snapshot of how the economy has stood up to the perfect storm that is blowing through the credit markets at the moment, with a particular impact on the retail, housebuilding and property sectors, along with certain others, and what to do by way of response, with very close collaboration between the UK Government, the Assembly Government and industry.

**Eleanor Burnham:** Some people have described it as a tsunami—I think that Vince Cable did, for instance—and I am sure that we all feel that it has had a huge impact on us. Will you be making a statement about where Welsh Assembly Government funds are held? Will we be exposed to any difficulties, if we have lost any moneys, in shoring up the Welsh economy?

**The First Minister:** We are not aware of any money being lost—I cannot think of what you are referring to. If you are referring to the frozen accounts of Icelandic banks, I believe that Brian Gibbons will attend a meeting tomorrow to consider whether guidelines need to be changed in order to discourage local authorities, universities, police authorities and so on, from depositing money in high interest accounts without keeping a very close watch on credit ratings and so forth. As to the economy of Wales, clearly, something very serious happened between the end of the second quarter and the beginning of the third quarter in terms of orders falling off a cliff and a huge lockdown of the banking system. We now hope that the banking system will be restarted, following the pretty dramatic actions taken by the UK Government yesterday, and the way in which they are now, apparently, being followed in many countries.

**Lesley Griffiths:** At the economic summit this Thursday, to which you just referred, will you encourage the UK Government to start to think outside of the box on how Wales can best survive the current economic difficulties? In Ireland last week, the chambers of commerce began lobbying the

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn cynnal uwchgynhadledd ddydd Iau o brif randdeiliaid economi Cymru er mwyn cael golwg ar sut y mae'r economi wedi gwrthsefyll y storm enfawr sy'n chwythu drwy'r marchnadoedd credyd ar hyn o bryd, gan gael effaith arbennig ar y sectorau manwerthu, adeiladu tai ac eiddo, ynghyd â rhai eraill, a beth i'w wneud i ymateb iddi, gyda chydweithio agos iawn rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth y Cynulliad a diwydiant.

**Eleanor Burnham:** Mae rhai pobl wedi'i ddisgrifio fel tswnami—credaf fod Vince Cable wedi gwneud hynny, er enghraifft—ac yr wyf yn siŵr ein bod oll yn teimlo ei fod wedi cael effaith aruthrol arnom. A fyddwch yn gwneud datganiad ynghylch lle y mae cronfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael eu cadw? A fydd unrhyw anawsterau inni, os ydym wedi colli unrhyw arian, wrth sefydlogi economi Cymru?

**Y Prif Weinidog:** Nid ydym yn ymwybodol bod dim arian wedi'i golli—ni allaf feddwl at beth yr ydych yn cyfeirio. Os ydych yn cyfeirio at gyfrifon banciau Gwlad yr Iâ sydd wedi'u rhewi, credaf y bydd Brian Gibbons yn mynd i gyfarfod yfory i ystyried a oes angen newid canllawiau er mwyn annog awdurdodau lleol, prifysgolion, awdurdodau heddlu ac yn y blaen i beidio â rhoi arian mewn cyfrifon llog uchel heb gadw golwg ofalus iawn ar statws credyd ac yn y blaen. O ran economi Cymru, yn amlwg, digwyddodd rhywbeth difrifol iawn rhwng diwedd yr ail chwarter a dechrau'r trydydd chwarter o ran y gostyngiad mewn archebion ac atal y system fancio ar raddfa fawr. Yr ydym yn awr yn gobeithio y caiff y system fancio ei hailgychwyn, ar ôl y camau eithaf dramatig a gymerwyd gan Lywodraeth y DU ddoe, a'r ffordd y maent yn awr, mae'n debyg, yn cael eu dilyn mewn llawer o wledydd.

**Lesley Griffiths:** Yn yr uwchgynhadledd economaidd ddydd Iau, yr ydych newydd gyfeirio ati, a wnewch annog Llywodraeth y DU i ddechrau meddwl yn greadigol am y ffyrdd gorau i Gymru oroesi'r anawsterau economaidd presennol? Yn Iwerddon yr wythnos diwethaf, dechreuodd y siambrau

Government for a reduction in stamp duty on commercial property and to look again at corporation tax to ensure that Ireland can continue to attract international capital and inward investment. Do you agree that when the economic upturn does come, it is crucial that Wales should be best placed to take advantage of it, and will you please tell the UK Government on Thursday that, if such forward-looking initiatives are good enough for Ireland, they are good enough for Wales?

**The First Minister:** That was an interesting set of observations. I think that the Prime Minister and the Chancellor of the Exchequer deserve credit for thinking outside the box in taking over banks. I do not think that any one of us would have thought that a possibility even as recently as two months ago, and that is the pattern that appears to be being followed now in other European countries, and, as of an hour or so ago, by the USA. So, they have thought outside of the box. As regards Thursday's summit, Paul Murphy, the Secretary of State, will be there to listen to what business has to say about how the shoe is pinching, and it is pinching, of course, more so in some sectors than in others, particularly, as I mentioned, in the retail, banking, insurance and finance, property and housebuilding sectors. As to how we recover from it, it is crucial that banks begin to lend to each other, and then lend to business in order to get liquidity and credit back out there, so that businesses can begin to rely on banks again as they have traditionally done, in order to help the economy to survive what will, undoubtedly, be a very difficult winter.

**The Leader of the Opposition (Nick Bourne):** We all wish the economic summit well. It is important that that does succeed, and I welcome the statements from the First Minister and, previously, the Deputy First Minister, about a bipartisan approach. We will be presenting proposals that are intended to be constructive and helpful, given the difficulties that we face. I have some questions on the draft budget, which has now been published. Some issues have arisen, some of which have already been tackled in the Finance Committee. The first issue relates

masnach lloŷio'r Llywodraeth am ostyngiad mewn treth stamp ar eiddo masnachol ac am iddynt edrych eto ar dreth gorfforaeth er mwyn sicrhau y gall Iwerddon barhau i ddenu cyfalaf rhyngwladol a mewnfuddsoddiad. A gytunwch, pan ddaw'r gwelliant economaidd, ei bod yn hanfodol i Gymru fod yn y sefyllfa orau i fanteisio arno, ac a ddywedwch wrth Lywodraeth y DU ddydd Iau, os yw mentrau blaengar o'r fath yn ddigon da i Iwerddon, eu bod yn ddigon da i Gymru?

**Y Prif Weinidog:** Dyna sylwadau diddorol. Credaf fod y Prif Weinidog a Changhellor y Trysorlys yn haeddu clod am feddwl yn greadigol wrth gymryd banciau drosodd. Nid wyf yn credu y byddai neb ohonom wedi ystyried bod hynny'n bosibilrwydd mor ddiweddar â deufis yn ôl, hyd yn oed, ac ymddengys fod y patrwm hwnnw'n awr yn cael ei ddilyn yng ngwledydd eraill Ewrop, a, thuag awr yn ôl, gan UDA. Felly, maent wedi meddwl yn greadigol. O ran yr uwchgynhadledd ddydd Iau, bydd Paul Murphy, yr Ysgrifennydd Gwladol, yno i wrando ar yr hyn sydd gan fusnesau i'w ddweud ynghylch sut y mae'r esgid yn gwasgu, ac, wrth gwrs, mae'n gwasgu mwy mewn rhai sectorau nag eraill, yn enwedig, fel y dywedais, yn y sectorau manwerthu, bancio, yswiriant a chyllid, eiddo ac adeiladu tai. O ran sut y mae goresgyn y sefyllfa, mae'n hanfodol i fanciau ddechrau benthycu i'w gilydd, ac yna benthycu i fusnesau er mwyn iddynt gael hylifedd a chredyd yn ôl, fel y gall busnesau ddechrau dibynnu ar fanciau eto fel y maent wedi gwneud yn draddodiadol, er mwyn helpu'r economi i oroesi gaeaf a fydd heb amheuaeth yn un caled iawn.

**Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne):** Yr ydym oll yn dymuno'n dda i'r uwchgynhadledd economaidd. Mae'n bwysig i honno lwyddo, a chroesawaf y datganiadau gan y Prif Weinidog, a chyn hynny, gan y Dirprwy Brif Weinidog, ynghylch dull gweithredu dwybleidiol. Byddwn yn cyflwyno cynigion â'r nod o fod yn adeiladol a defnyddiol, o ystyried yr anawsterau yr ydym yn eu hwynebu. Mae gennyf rai cwestiynau am y gyllideb ddrafft, sydd bellach wedi'i chyhoeddi. Mae rhai materion wedi codi, ac mae'r Pwyllgor Cyllid eisoes

to the budget for local government, which is receiving an allocation of 3.1 per cent for next year, in contrast to a consumer price index increase of 4.7 per cent—the current inflation rate. Clearly, inflation is higher for local government, which had a very poor settlement last year, and saw a massive increase in energy costs. That has bitten particularly hard in rural Wales, but is a very real concern for councils across Wales. I am sure that all Assembly Members are being lobbied on that issue, so I would welcome the First Minister's comments on it.

wedi ymdrin â rhai ohonynt. Mae'r mater cyntaf yn ymwneud â chyllideb llywodraeth leol, sy'n cael dyraniad o 3.1 y cant ar gyfer y flwyddyn nesaf, o'i gymharu â chynnydd o 4.7 y cant ym mynegai prisiau defnyddwyr—cyfradd chwyddiant ar hyn o bryd. Yn amlwg, mae chwyddiant yn uwch i lywodraeth leol, a gafodd setliad gwael iawn y llynedd, ac a welodd gynnydd enfawr mewn costau ynni. Mae hynny wedi bod yn ergyd arbennig o drom yng Nghymru wledig, ond mae'n bryder gwirioneddol i gynghorau ledled Cymru. Yr wyf yn siŵr bod holl Aelodau'r Cynulliad yn cael eu lobïo ynghylch y mater hwnnw, felly byddwn yn croesawu sylwadau'r Prif Weinidog am y mater.

1.50 p.m.

I am aware that we will have a statement later on the Icelandic banking situation, so I will not probe too far into that, except to seek to understand where the responsibility lies for any assistance. The Minister for Finance and Public Service Delivery said in the Finance Committee that it was a matter for Westminster, but I understand that the Secretary of State for Wales has said something different, in relation to providing lifeboat funds for local authorities or public authorities. So, can the First Minister deal with that issue?

Yr wyf yn ymwybodol y byddwn yn cael datganiad yn ddiweddarach ynghylch sefyllfa banciau Gwlad yr Iâ, felly ni soniaf ormod am hynny, heblaw ceisio deall lle y mae'r cyfrifoldeb am unrhyw gymorth. Dywedodd y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus yn y Pwyllgor Cyllid mai mater i San Steffan ydoedd, ond deallaf fod Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi dweud rhywbeth gwahanol, yng nghyswllt darparu arian i achub awdurdodau lleol neu awdurdodau cyhoeddus. Felly, a all y Prif Weinidog ddelio â'r mater hwnnw?

The third matter is what Eleanor Burnham may have been referring to—I am not sure. In the Finance Committee, the Minister for Finance and Public Service Delivery and his officials did not know where the Assembly banked, which seems astounding; we were promised information, which still has not come through. I accept that a lot of money is drawn down straight from Westminster, but the Assembly has bank accounts and there must be, at times, potential exposure to banking problems. I do not know whether or not the First Minister can enlighten the Assembly on that matter; if not, perhaps a note could be sent pretty quickly, because it seems that it should be a fairly straightforward matter.

Efallai mai'r trydydd mater yw'r hyn yr oedd Eleanor Burnham yn cyfeirio ato—nid wyf yn siŵr. Yn y Pwyllgor Cyllid, nid oedd y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus a'i swyddogion yn gwybod lle'r oedd y Cynulliad yn bancio, sy'n ymddangos yn syfrdanol; addawyd gwybodaeth inni, nad ydym byth wedi'i chael. Yr wyf yn derbyn bod llawer o arian yn dod yn syth o San Steffan, ond mae gan y Cynulliad gyfrifon banc ac mae'n rhaid ei bod yn bosibl i broblemau o ran bancio effeithio arno weithiau. Ni wn a all y Prif Weinidog oleuo'r Cynulliad ynghylch y mater hwnnw ai peidio; os na all, efallai y gellid anfon nodyn yn eithaf buan, oherwydd ymddengys y dylai fod yn fater eithaf syml.

The fourth issue, although not immediately related to the present economic situation, relates to the strategic capital investment

Mae'r pedwerydd mater, er nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â'r sefyllfa economaidd bresennol, yn ymwneud â'r

framework, which is extremely important; as a party, we strongly support it. We understood that this money was to be used for classic infrastructure-type projects, such as roads, railways and public infrastructure investments, but it is to be used for flu vaccines over a period of three years. I do not want to diminish the importance of flu vaccines—they are vitally important—but that is a consumable issue, and it does not strike me as the sort of thing that you would expect the capital investment fund to be used for. The experience in Scotland and Northern Ireland indicates that they have not used the fund for such things. I hope that the First Minister will be able to deal with those four points.

**The First Minister:** I will do my best in the time available. We will not unscramble the 2009-10 budget when we have just published the draft version of it. On the point of energy costs and local government, energy costs are subject to huge swings, up and down. Most people believe that energy costs, by the time that the new draft budget would start to take effect, if approved, namely April of next year, will have come down quite substantially. The price of oil has halved from its peak, although it is still very high in historic terms—\$78 instead of \$146 dollars does not look as bad when you think forward to the period from next April to April 2010.

Last Friday, there was unbelievably misleading and unhelpful reporting by BBC Wales on a complete non-story alleging a difference of view between the Secretary of State for Wales and the Assembly on who was responsible in the case of a local authority getting into financial difficulties because of money put into frozen Icelandic bank accounts. I criticise one organ of the media for exceptionally over-simplified, exaggerated and misleading reporting on that issue. There was no difference of opinion. It is clear that it would be the Department of Communities and Local Government or the Assembly to which, in extremis, a local authority that could not pay its bills would have to come. The recovery or the releasing

fframwaith buddsoddi cyfalaf strategol, sy'n bwysig dros ben; fel plaid, yr ydym yn ei gefnogi'n frwd. Yr oeddem wedi cael ar ddeall bod yr arian hwn am gael ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau seilwaith clasurol, megis ffyrdd, rheilffyrdd a buddsoddiadau seilwaith cyhoeddus, ond mae am gael ei ddefnyddio ar gyfer brechlynnau fflw dros gyfnod o dair blynedd. Nid wyf yn dymuno bychanu pwysigrwydd brechlynnau fflw—maent yn hanfodol bwysig—ond pethau i'w defnyddio ac sy'n darford ydynt, ac i mi nid ar gyfer y math hwnnw o beth y byddid yn disgwyl i'r gronfa buddsoddi cyfalaf gael ei defnyddio. Mae'r profiad yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn dangos nad ydynt wedi defnyddio'r gronfa at ddibenion o'r fath. Gobeithiaf y gall y Prif Weinidog ddelio â'r pedwar pwynt hynny.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf fy ngorau yn yr amser sydd ar gael. Nid ydym am ddehongli cyllideb 2009-10 a ninnau newydd gyhoeddi'r fersiwn ddrafft ohoni. O ran costau ynni a llywodraeth leol, mae costau ynni'n gallu newid llawer iawn, i fyny ac i lawr. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn credu y bydd costau ynni, erbyn i'r gyllideb ddrafft nesaf ddechrau dod i rym, os caiff ei chymeradwyo, sef mis Ebrill y flwyddyn nesaf, wedi gostwng yn eithaf sylweddol. Mae pris olew wedi haneru o'i gymharu â'r pris yn ei fan uchaf, er ei fod yn dal yn uchel iawn mewn termau hanesyddol—nid yw \$78 yn lle \$146 yn edrych cynddrwg wrth feddwl ymlaen at y cyfnod o fis Ebrill nesaf tan fis Ebrill 2010.

Ddydd Gwener diwethaf, bu adroddiadau anhygoel o gamarweiniol a di-fudd gan BBC Cymru ynghylch stori gwbl ddi-ddim a oedd yn honni bod gwahaniaeth barn rhwng Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Cynulliad o ran pwy oedd yn gyfrifol yn achos awdurdod lleol yn wynebu anawsterau ariannol oherwydd arian a roddwyd mewn cyfrifon banc yng Ngwlad yr Iâ sydd wedi'u rhewi. Yr wyf yn beirniadu un o organau'r cyfryngau am lunio adroddiad a oedd yn eithriadol o or-syml, wedi'i orliwio ac yn gamarweiniol am y mater hwnnw. Nid oedd dim gwahaniaeth barn. Mae'n amlwg mai at yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol neu'r Cynulliad y byddai'n rhaid i awdurdod lleol na allai dalu ei filiau ddod petai'n

of the money from Iceland is clearly a matter for the Treasury. In terms of changing the guidelines for local authorities on how they handle their treasury functions, that is also a matter for the Treasury, on application from the Department of Communities and Local Government and the Department for Social Justice of the Assembly. That is why there will be a meeting between Brian Gibbons and John Healey tomorrow.

On the issue of whether building up a stock of flu vaccine is an appropriate use of the strategic capital investment fund, we consider it to be a capital investment against the possibility of anything happening that would produce pandemic flu. We believe that we have been properly advised that that is capital, rather than revenue, expenditure.

Your final question was on the consolidated fund. Following the changes in 2006-07, although I am not certain, I believe that it was Barclays Bank plc that won the competition, but I am not certain if there was a change at the time of switchover in 2007. I will write to you if that is not correct.

**Nick Bourne:** I am grateful for that full response from the First Minister, but I will probe him a little on some of the points with which I do not totally agree. On energy price increases, I think that the First Minister accepted that it has been an upward trend, although there may have been bumps here and there. Although the price of oil has come down recently, it has come down in dollars, and the pound's exchange rate against the dollar has further compounded our problems on that. There is little doubt that the fuel poverty picture will be much worse this winter than it was last, which I think that the First Minister would probably accept. Therefore, the additional pressure that exists on the local government budget means that it will be much more serious. Does he accept that it will be more of a problem this year than last, and, in the light of that, that we should revisit the budget, which, in many instances, serves very vulnerable people?

On the Icelandic bank issue, the Minister for

wynebu sefyllfa ddyrys dros ben. Yn amlwg, mater i'r Trysorlys yw adennill neu ryddhau'r arian o Wlad yr Iâ. O ran newid y canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau'n ymwneud â'r trysorlys, mater i'r Trysorlys yw hwnnw hefyd, ar gais gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ac Adran Cyfiawnder Cymdeithasol y Cynulliad. Dyna pam y bydd cyfarfod rhwng Brian Gibbons a John Healey yfory.

O ran a yw datblygu stoc o frechlyn ffliw'n ddull priodol o ddefnyddio'r gronfa buddsoddi cyfalaf strategol, yr ydym yn ystyried ei fod yn fuddsoddiad cyfalaf yn erbyn y posibilrwydd y byddai rhywbeth yn digwydd a fyddai'n cynhyrchu ffliw pandemig. Yr ydym yn credu ein bod wedi cael cyngor priodol mai gwariant cyfalaf yw hwnnw, nid gwariant refeniw.

Yr oedd eich cwestiwn olaf ynglŷn â'r gronfa gyfunol. Ar ôl y newidiadau yn 2006-07, er nad wyf yn siŵr, credaf mai Banc Barclays ccc a enillodd y gystadleuaeth, ond nid wyf yn siŵr a fu newid adeg y trosglwyddiad yn 2007. Ysgrifennaf atoch os nad yw hynny'n gywir.

**Nick Bourne:** Yr wyf yn ddiolchgar am yr ateb llawn hwnnw gan y Prif Weinidog, ond holaf rywfaint arno ynghylch rhai o'r pwyntiau nad wyf yn cytuno'n llwyr â hwy. O ran y cynnydd ym mhrisiau ynni, credaf fod y Prif Weinidog yn derbyn eu bod wedi tueddu i godi, er bod ambell ostyngiad wedi bod yma ac acw efallai. Er bod pris olew wedi gostwng yn ddiweddar, mewn doleri y mae wedi gostwng, ac mae cyfradd cyfnewid y bunt yn erbyn y ddoler wedi peri mwy o broblemau inni yn hynny o beth. Nid oes llawer o amheuaeth na fydd y sefyllfa o ran tloidi tanwydd yn llawer gwaeth y gaeaf hwn na'r gaeaf diwethaf, a chredaf ei bod yn debygol y byddai'r Prif Weinidog yn derbyn hynny. Felly, mae'r pwysau ychwanegol sydd ar gyllideb llywodraeth leol yn golygu y bydd yn llawer mwy difrifol. A yw'n derbyn y bydd yn fwy o broblem eleni na'r llynedd, ac, yng ngoleuni hynny, y dylem ailystyried y gyllideb, sydd, mewn llawer o achosion, yn gwasanaethu pobl sy'n agored iawn i niwedd?

O ran banciau Gwlad yr Iâ, yr oedd y

finance—unless I am much mistaken, and others will correct me if I am—was pretty clear in the committee that this was the responsibility of Westminster rather than Wales. That would have contributed to the confusion, but the First Minister has cleared that up; I thank him for that.

On the strategic capital investment point, I am sure that the case can be made for treating it as capital—presumably, the accountants would not have let it go otherwise—but the fact remains that this sort of fund, which is widely welcomed by industry, unions and Members across the Chamber, is intended to contribute towards infrastructure improvements that will have a long-term benefit for the Welsh economy and the Welsh people. While I do not doubt that flu vaccines are absolutely vital, I do not think that they should have been paid for out of this fund. I return to my prime point, which is in relation to the local government budget and ask the First Minister to deal with it.

**The First Minister:** The trick is in the timing. What you said about fuel poverty this winter is absolutely true; it must be of the highest priority for everyone to try to assist pensioners especially, and others with any kind of medical vulnerability to the cold, to get through the winter without the fear of being unable to switch on their heating because of worries about being unable to pay the bill at the end of the quarter or whatever. That is different to the local authority draft budget, which will not take effect until after the winter is over, by which time it is thought, in general, that we will not be facing further increases in the price of oil, because it is an ill wind that blows nobody any good. The slowdown in the world economy means that the speculators who drove the price of oil up on the grounds that Chinese demand would keep the demand for oil ever rising are now saying that the Chinese economy is slowing down, therefore the demand for oil from Asia will not overcompensate for the drop in oil demand in the advanced Western economies. That is why the price of oil is now below \$80. Although the point that you made about the dollar is true, because the pound, by and large, has strengthened against the dollar over the last few years, even

Gweinidog dros gyllid—oni bai fy mod yn gwbl anghywir, a bydd eraill yn fy nghywiro os ydwyf—yn eithaf clir yn y pwyllgor mai cyfrifoldeb San Steffan yw hyn, ac nid cyfrifoldeb Cymru. Byddai hynny wedi cyfrannu at y dryswch, ond mae'r Prif Weinidog wedi egluro hynny; diolchaf iddo am hynny.

O ran y buddsoddiad cyfalaf strategol, yr wyf yn siŵr y gellid dadlau dros ei drin fel cyfalaf—cymeraf na fyddai'r cyfrifwyr wedi rhoi sêl bendith fel arall—ond y gwir amdani, er hynny, yw mai diben y math hwn o gronfa, a gafodd ei chroesawu'n eang gan ddiwydiant, undebau ac Aelodau ar draws y Siambr, yw cyfrannu at welliannau seilwaith a fydd o fudd hirdymor i economi Cymru ac i bobl Cymru. Er nad wyf yn amau nad yw brechlynnau fflw'n gwbl hanfodol, nid wyf yn credu y dylai'r gronfa hon fod wedi talu amdanynt. Dychwelaf at fy mhrif bwynt, sy'n ymwneud â chyllideb llywodraeth leol, a gofynnaf i'r Prif Weinidog ddelio ag ef.

**Y Prif Weinidog:** Yr amseru yw'r allwedd. Mae'r hyn a ddywedasoeh am dlodi tanwydd y gaeaf hwn yn hollol wir; rhaid iddi fod yn brif flaenoriaeth i bawb geisio cynorthwyo pensiywyr yn arbennig, ac eraill y mae tywydd oer yn gallu amharu arnynt yn feddygol, i beidio â bod ofn na allant roi'r gwres i fynd yn ystod y gaeaf oherwydd eu bod yn poeni am fethu talu'r bil ar ddiwedd y chwarter neu beth bynnag y bo. Mae hynny'n wahanol i gyllideb ddrafft awdurdodau lleol, na fydd yn dod i rym tan ar ôl diwedd y gaeaf, pan greidir, yn gyffredinol, na fyddwn yn wynebu codiadau pellach ym mhreis olew, gan na fu erioed ddrwg na fu'n dda i rywun. Mae'r arafu sy'n digwydd i economi'r byd yn golygu bod yr hapfasnachwyr a barodd i bris olew godi, ar y sail y byddai'r galw yn Tsieina'n golygu bod y galw am olew'n codi a chodi, bellach yn dweud bod economi Tsieina'n arafu, ac felly na fydd y galw am olew o Asia'n gwneud iawn am y gostyngiad mewn galw am olew ym mhrif economïau'r Gorllewin. Dyna pam mae pris olew bellach o dan \$80. Er bod y pwynt a wnaethoch am y ddoler yn wir, am fod y bunt, ar y cyfan, wedi cryfhau yn erbyn y ddoler dros y blynyddoedd diwethaf, er ei bod wedi gwanhau yn ystod y tri mis diwethaf, nid wyf



though it has weakened in the last three months, I do not think that your point counts for much mathematically.

On the question of the Icelandic banks, to be absolutely clear, the recovery of the money from Iceland is a Treasury matter, and, more recently, a Bank of England matter; it has frozen the assets and it is using those assets as collateral for lending £100 million from the Bank of England to Landsbanki bank in particular, so that it can look again at the question of releasing individual assets and, possibly, other assets that are tied up in those frozen bank accounts. Changes in the guidelines are a matter for the Treasury, but if a local authority was, in extremis, unable to meet its bills, it would be a matter with which it should come to us, as it would be to go to the Department of Communities and Local Government if it were an English local authority or police authority. However, we do not anticipate that that will happen; the Welsh Local Government Association and the Local Government Association say that it is most unlikely.

On the question of the strategic capital investment fund, you are right; by and large, it will be spent on what we all recognise as infrastructure. Pandemic flu stocks are a bit of a one-off; this came about early and we got it out of the way. We have created that stock against pandemic flu; it is not a revenue expenditure, because we do not anticipate that it will be spent, but if it has to be, we will have to draw on that stock. However, you are right that, in normal terms, the fund will be used for school modernisation programmes, highways and other strategic-level infrastructure.

**The Presiding Officer:** I call on Gareth Jones—

**Nick Bourne** *rose*—

**The Presiding Officer:** I am sorry, Gareth. The leader of the opposition has priority in these matters, but I remind him that we have had a long session of questions.

**Nick Bourne:** I am grateful, Llywydd. I will

yn credu bod gennych lawer o bwynt o safbwynt mathemategol.

O ran banciau Gwlad yr Iâ, i fod yn gwbl glir, mater i'r Trysorlys yw adennill yr arian o Wlad yr Iâ, ac, yn fwy diweddar, mater i Fanc Lloegr; mae wedi rhewi'r asedau ac mae'n defnyddio'r asedau hynny fel gwarant gyfochrog am fentyca £100 miliwn gan Fanc Lloegr i fanc Landsbanki yn benodol, fel y gall edrych eto ar gwestiwn rhyddhau asedau unigol ac, o bosibl, asedau eraill sydd ynghlwm yn y cyfrifon banc hynny sydd wedi'u rhewi. Mater i'r Trysorlys yw newidiadau yn y canllawiau, ond petai awdurdod lleol, wedi iddi fynd i'r pen arno, yn methu talu ei filiau, atom ni y dylai ddod gyda'r mater, fel y byddai'n mynd at yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol petai'n awdurdod lleol yn Lloegr neu'n awdurdod heddlu. Fodd bynnag, nid ydym yn rhagweld y bydd hynny'n digwydd; mae Cymdeithas Lywodraeth Leol Cymru a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol yn dweud bod hynny'n annhebygol iawn.

O ran y gronfa buddsoddi cyfalaf strategol, yr ydych yn gywir; yn gyffredinol, caiff ei gwario ar yr hyn yr ydym oll yn cydnabod mai seilwaith ydyw. Mae stociau ffliw pandemig yn dipyn o wariant untro; daeth hyn i fod yn gynnar ac ymdriniasom ag ef. Yr ydym wedi creu'r stoc honno yn erbyn ffliw pandemig; nid gwariant refeniw ydyw, gan nad ydym yn rhagweld y caiff ei wario, ond os bydd yn rhaid ei wario, bydd yn rhaid inni ddefnyddio'r stoc honno. Fodd bynnag, yr ydych yn gywir wrth ddweud y caiff y gronfa, fel arfer, ei defnyddio ar gyfer rhaglenni moderneiddio ysgolion, priffyrdd a seilwaith lefel strategol arall.

**Y Llywydd:** Galwaf ar Gareth Jones—

**Nick Bourne** *a gododd*—

**Y Llywydd:** Mae'n ddrwg gennyf, Gareth. Mae gan arweinydd yr wrthblaid flaenoriaeth o ran y materion hyn, ond yr wyf yn ei atgoffa ein bod wedi cael sesiwn hir o gwestiynau.

**Nick Bourne:** Yr wyf yn ddiolchgar,

confine my remarks to two points. We obviously differ on the capital point. On the Icelandic investment issue, I am grateful to the First Minister for clearing that up. Had that been made clear at the Finance Committee meeting, I am sure that we would have probed further on the issue; we did not ask questions of the Minister at all on that point once he said that it was Westminster based. However, returning to the budget, I accept what the First Minister says in that next winter may not be as serious as this winter. That is a possibility.

However, the First Minister will know that budgets are reviewed continuously by local authorities, and, if they see that next year's budget is squeezed, it will affect their expenditure this year. Therefore, the point still stands. I do not think that this budget will be adequate to meet the demands of local authorities across Wales in this current year.

2.00 p.m.

**The First Minister:** The economic analysts are saying that the inflation phase has come to an end, and that oil and food prices are coming down. Therefore, inflation next year—in energy and food costs—will not be the problem; it is this winter that will be the problem. Therefore, I am worried about your conflation of the two issues. The first is that, this winter, fuel poverty will be an issue for pensioners or disabled persons who are worried about the cost of putting the electricity on. The second relates to local authorities' budgets from 1 April 2009. That does not cover this winter, when the very high price of oil is having an effect on and feeding into gas and electricity prices and tariffs for vulnerable groups. Everyone needs to pull together to see what can be done to reduce the impact of high fuel prices and bills on pensioners and disabled persons this winter.

**Gareth Jones:** Mae'r argyfwng ariannol byd eang a'r cyfyngu ar gredyd yn dangos ac yn profi gwerth buddsoddi yn gynaliadwy ac yn ddibynadwy wrth geisio rheoli economi

Lywydd. Cyfyngaf fy sylwadau i ddau bwynt. Yn amlwg, yr ydym yn anghytuno ynghylch y pwynt ynglŷn â chyfalaf. O ran y buddsoddiad yng Ngwlad yr Iâ, yr wyf yn ddiolchgar i'r Prif Weinidog am egluro hynny. Petai hynny wedi'i egluro yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid, yr wyf yn siŵr y byddem wedi holi ymhellach ynghylch y mater; ni wnaethom ofyn cwestiynau i'r Gweinidog o gwbl am hynny wedi iddo ddweud bod a wnelo hynny â San Steffan. Fodd bynnag, a dychwelyd at y gyllideb, yr wyf yn derbyn yr hyn y mae'r Prif Weinidog yn ei ddweud; gallai'r gaeaf nesaf fod yn llai difrifol na'r gaeaf hwn. Mae hynny'n bosibilrwydd.

Fodd bynnag, bydd y Prif Weinidog yn gwybod bod cyllidebau'n cael eu hadolygu'n barhaus gan yr awdurdodau lleol, ac, os gwelant fod gwasgu ar gyllideb y flwyddyn nesaf, bydd yn effeithio ar eu gwariant eleni. Felly, mae'r pwynt yn dal i sefyll. Ni chredaf y bydd y gyllideb hon yn ddigonol i ateb galwadau awdurdodau lleol ar draws Cymru yn y flwyddyn gyfredol hon.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r dadansoddwyr economaidd yn dweud bod y cyfnod o chwyddiant wedi dod i ben, a bod prisiau olew a bwyd yn gostwng. Felly, nid chwyddiant y flwyddyn nesaf—o ran costau ynni a bwyd—fydd y broblem; y gaeaf hwn fydd y broblem. Felly, yr wyf yn poeni eich bod yn cyfuno'r ddau fater. Y cyntaf yw y bydd tloedi tanwydd, y gaeaf hwn, yn broblem i bensiynwyr neu bobl anabl sy'n poeni am gost defnyddio trydan. Mae a wnelo'r ail fater â chyllidebau awdurdodau lleol o 1 Ebrill 2009. Nid yw hynny'n cynnwys y gaeaf hwn, pan fydd pris uchel iawn olew yn cael effaith ar brisiau a thariffau nwy a thrydan i grwpiau sy'n agored i niwed ac yn cyfrannu at hynny. Mae angen i bawb dynnu gyd-dynnu i weld beth y gellir ei wneud i leihau effaith prisiau a biliau tanwydd uchel ar bensiynwyr a phobl anabl y gaeaf hwn.

**Gareth Jones:** The global financial crisis and the credit crunch illustrate and prove the value of sustainable and reliable investment while attempting to manage a developed and

ddatblygedig a chymhleth sydd yn aml o dan fygythiad oddi wrth dueddiadau byrhoedlog megis y '*boom and bust*' yr ydym yn clywed cymaint amdanynt. A gytunwch ei fod yn hanfodol buddsoddi yn gynaliadwy mewn menter, i greu cyfoeth a ffyniant hirdymor? O ystyried hynny, oni ddylem ddwysáu ein hymdrechion i fuddsoddi yn y manteision economaidd a all ddeillio o'r sector addysg uwch, drwy farchnata ein syniadau gorau, ein heiddo deallusol, a'n doniau disgleiriaf i weddill y byd?

**Y Prif Weinidog:** Mae Gareth wedi cyfeirio at bwynt pwysig o ran y gwasanaethau ariannol hynny sy'n rhan o'r economi. O ystyried rhyw 20 mlynedd sy'n eithaf tebyg i'r sefyllfa bresennol, sef y '*boom*' a oedd yn arwain at 1987, y '*bust*' a ddigwyddodd ar ôl 1987-88, y gostyngiad yn y gwasanaethau ariannol, ac yna'r cynnydd ar ôl hynny, gwelwn fod y gwasanaethau ariannol yn cyfrif am 10 y cant o'n cynnyrch mewnwladol crynswth cyn y '*bust*' ym 1988, ond wedyn suddodd hynny i 5 y cant yn ystod dirwasgiad y 1990au cynnar. Wedyn, cododd y ffigur unwaith eto i 10 y cant erbyn y sefyllfa ddiweddar a dorrodd yn yr wythnosau diwethaf. Nid yw mor gyson ag y byddai dyn yn dyheu amdano o ran cyfrannu at yr economi; mae'n digwydd, mae'n chwyddo, yn ffrwydro ac yna'n lleihau i hanner y lefel flaenorol, os bydd y dyfodol yn dilyn patrwm y gorffennol. Felly, mae'n bwysig ceisio cael strategaeth sy'n gallu hwylio drwy'r moroedd gan barhau i gynyddu er mwyn sicrhau dyfodol mwy dibynadwy ac osgoi ein gorddibyniaeth ar y gwasanaethau ariannol.

**Michael German:** I am sure that you are aware, First Minister, that today's announcement of the retail price index for September has reached a 16-year high of 5 per cent. I am sure that you are also aware that that is the figure used to set next year's toll increases on the Severn bridges, which is likely to mean an extra 30p for cars, 50p for vans, and 80p for lorries coming into Wales, giving a total toll of £5.60, £11.10 and £16.70 respectively. That toll has to be paid in cash unless you pay in advance. Do you agree that that tax is a psychological barrier, putting people off coming to Wales, either as tourists or investors? Do you also agree that

complex economy, which is often put at risk by short-term trends such as the boom and bust that we hear so much about. Do you agree that sustainable investment in enterprise, wealth creation and long-term prosperity is crucial? Given that, should we not increase our efforts in investing in the economic benefits that can accrue from the higher education sector, by marketing our best ideas, our intellectual property and our brightest talents to the rest of the world?

**The First Minister:** Gareth referred to a very important point regarding those financial services that are part of the economy. If you consider the 20 years or so that are quite similar to the current period, namely the boom leading up to 1987, and then the bust after 1987-88, the reduction in the financial services industry, and then the increase thereafter, we see that the financial services represented 10 per cent of the gross domestic product before the bust in 1988, but that then fell to 5 per cent during the recession in the early 1990s. Then, the figure rose again to 10 per cent before the situation that occurred during the past few weeks. It is not as consistent as one would want in terms of its contribution to the economy; it happens, it booms, it busts and then it can shrink to half the previous level, if the future reflects the pattern in the past. Therefore, it is important to have a strategy that can take you through the rough times while continuing to grow in order to ensure a more dependable future and to avoid our overdependence on the financial services.

**Michael German:** Yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol, Brif Weinidog, fod y cyhoeddiad heddiw am y mynegai prisiau manwerthu ar gyfer mis Medi wedi cyrraedd y lefel uchaf ers 16 mlynedd, neu 5 y cant. Yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol hefyd mai dyna'r ffigur a ddefnyddir i bennu'r codiadau yn nhollau pontydd Hafren, sy'n debygol o olygu 30c ychwanegol i geir, 50c i faniau, ac 80c i lorïau sy'n dod i Gymru, gan beri bod cyfanswm y doll yn £5.60, £11.10 ac £16.70 yn y drefn honno. Rhaid i'r doll honno gael ei thalu mewn arian parod oni bai eich bod yn talu ymlaen llaw. A ydych yn cytuno bod y dreth honno yn rhwystr

these rises, coming at the very peak of inflation this year, are likely to make a further dent in the Welsh economy?

**The First Minister:** I saw that figure of 5.2 per cent, and I was thinking more that Welsh GDP and Welsh standards of living would be impacted upon positively rather than negatively because we have an unusually high number of people in the pensioner class and on benefits in Wales than in the rest of the United Kingdom. Pensions and benefits are the big swing factor that is determined by the September inflation figures. If September does prove to be the peak of inflation, it is good news for pensioners, as that will be the basis for working out the pension increase next year. Anyone else on state benefits will automatically get the 5.2 per cent increase. By next year, the situation will be reversed. There has been a great deal of comment that it may well be 0 per cent by this time next year, so the 2010 pension increases will be low. However, the 2009 pension increases will be the best they have been for 16 years.

**Michael German:** That was an answer to a different question, First Minister. You are entitled to give an answer to a different question, but the question that I asked was about the Welsh economy and the impact that these increased tolls will have upon it. Every year, the Minister for transport in London produces a statutory instrument—a set of regulations—that uses the retail price index, which was produced today, to set the toll increases for next year. Are you prepared to lobby your ministerial colleague in London to freeze this toll tax for next year, to help the Welsh economy? While he is at it, perhaps he could also include in the regulations a provision that means that people do not have to pay in cash but can use cards, too.

**The First Minister:** I could not agree more that the functioning of the Severn bridges' toll system leaves a great deal to be desired. Foreign visitors who do not happen to have

seicolegol, yn gwneud pobl yn llai parod i ddod i Gymru, un ai fel ymwelwyr neu fuddsoddwyr? A ydych yn cytuno hefyd fod y codiadau hyn, a hynny pan yw chwyddiant yn ei fan uchaf eleni, yn debygol o achosi ergyd arall i economi Cymru?

**Y Prif Weinidog:** Gwelais y ffigur hwnnw o 5.2 y cant, ac yr oeddwn yn meddwl mwy y byddai'n cael effaith bositif ar CMC Cymru a safonau byw yng Nghymru yn hytrach nag effaith negyddol gan fod gennym nifer anarferol o uchel o bobl yn bensiynwyr ac ar fudd-daliadau yng Nghymru, mwy nag yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Pensiynau a budd-daliadau yw'r ffactor mawr o ran gogwydd sy'n cael ei bennu gan ffigurau chwyddiant mis Medi. Os mai ym mis Medi y bydd chwyddiant ar ei anterth, mae'n newyddion da i bensiynwyr, gan mai ar sail hynny y bydd y cynnydd mewn pensiynau ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cael ei gyfrifo. Bydd unrhyw un arall ar fudd-daliadau gwladol yn cael cynnydd o 5.2 y cant yn awtomatig y flwyddyn nesaf. Bu llawer iawn o sôn ei bod yn eithaf posibl mai 0 y cant fydd erbyn yr adeg hon y flwyddyn nesaf, felly bydd codiadau pensiwn 2010 yn isel. Fodd bynnag, codiadau pensiwn 2009 fydd y gorau a gafwyd ers 16 mlynedd.

**Michael German:** Ateb i gwestiwn gwahanol oedd hynny, Brif Weinidog. Mae gennych hawl i roi ateb i gwestiwn gwahanol, ond yr oedd y cwestiwn a ofynnais ynglŷn ag economi Cymru a'r effaith a gaiff y tollau uwch hyn arni. Bob blwyddyn, mae'r Gweinidog dros drafndiaeth yn Lloegr yn cynhyrchu offeryn statudol—set o reoliadau—sy'n defnyddio'r mynegai prisiau manwerthu, a gafodd ei gynhyrchu heddiw, i bennu'r codiadau yn y doll ar gyfer y flwyddyn nesaf. A ydych yn barod i lobio eich cyd-Weinidog yn Llundain i rewi treth y tollau ar gyfer y flwyddyn nesaf, er mwyn helpu economi Cymru? Tra mae'n gwneud hynny, efallai y gallai hefyd gynnwys darpariaeth yn y rheoliadau sy'n golygu nad oes yn rhaid i bobl dalu ag arian parod ond y gallant ddefnyddio cardiau'n ogystal.

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn cytuno'n llwyr nad yw system dollau pontydd Hafren yn foddhaol o bellffordd. Mae ymwelwyr tramor nad yw'r arian parod yn digwydd bod

the cash to pay are embarrassed. Most toll systems throughout the world make some provision for those who have not brought money with them because they did not realise that they were going to be faced with a charge. The various warnings may not be in languages that they understand.

I was not a great supporter of the legislation for the tolls on the Severn bridges, which was passed during the previous administration back in the early 1990s. However, it was a pretty stark choice. They said that the old bridge was nearly falling down and so, if we wanted a new bridge, we would have to agree to the terms of the consortium, which meant that it was set out in law that the RPI would have an impact on the annual increases in the tolls. I do not think that we can say that we will abrogate the law, because I do not think that we can do that to a contract that has been set out in Parliament. Therefore, I do not think that we have any options in that regard. If you think that there is an option, please write to me and Paul Murphy saying what you think that option is.

**Michael German:** As I said, First Minister, the Minister for transport produces a set of regulations each year in line with the retail price index and raises the tolls using the RPI. It would surely be a gesture of goodwill to the people of Wales and our economy if, this year, the toll charges were not increased and the cost was met for us, to strengthen our economy. Those of us who use the bridges have collectively contributed £700 million in tolls, and the second Severn crossing cost just £300 million to build. Are you able to support us in preventing the impact of this rise on our economy, particularly in south Wales? Do you support the campaign to send the toll tax the same way as the poll tax?

**The First Minister:** That is a good headline for the *South Wales Argus* at the very best, but it is not a very practical suggestion. If that is the summit of your ambition, that is fine, Mike. However, if you have a serious suggestion as to how we can abrogate the law

ganddynt yn wynebu sefyllfa annifyr. Mae'r rhan fwyaf o systemau tollau ledled y byd yn gwneud rhyw ddarpariaeth ar gyfer y rhai nad ydynt wedi dod ag arian gyda hwy am nad oeddent yn sylweddoli y byddent yn wynebu tâl o'r fath. Efallai nad yw'r gwahanol rybuddion mewn ieithoedd y maent yn eu deall.

Nid oeddwn yn frwd fy nghefnogaeth i'r ddeddfwriaeth ynglŷn â'r tollau ar bontydd Hafren, a gafodd ei phasio yn ystod y weinyddiaeth flaenorol yn yr 1990au cynnar. Fodd bynnag, yr oedd y dewis yn glir iawn. Yr oeddent yn dweud bod yr hen bont bron â chwmpo i lawr ac felly, os oeddem am gael pont newydd, byddai'n rhaid inni gytuno â thelerau'r consortiwm, a oedd yn golygu bod y gyfraith yn pennu y byddai'r mynegai prisiau manwerthu yn effeithio ar godiadau blynyddol y tollau. Ni chredaf y gallwn ddweud y byddwn yn diddymu'r ddeddf, oherwydd ni chredaf y gallwn wneud hynny i gontract sydd wedi cael ei bennu gan y Senedd. Felly, ni chredaf fod gennym opsiynau yn y cyswllt hwnnw. Os ydych chi'n credu bod opsiwn, da chi ysgrifennwch ataf fi ac at Paul Murphy i ddweud beth yw'r opsiwn hwnnw yn eich tyb chi.

**Michael German:** Fel y dywedais, Brif Weinidog, mae'r Gweinidog dros drafnidiaeth yn cynhyrchu set o reoliadau bob blwyddyn yn unol â'r mynegai prisiau manwerthu ac mae'n codi'r tollau gan ddefnyddio'r mynegai. Oni fyddai'n arwydd o ewyllys da tuag at bobl Cymru a'n heconomi pe na bai'r tollau'n cael eu codi eleni, a bod y gost yn cael ei thalu ar ein rhan, er mwyn cryfhau ein heconomi. Gyda'n gilydd, mae'r rhai ohonom sy'n defnyddio'r pontydd wedi cyfrannu £700 miliwn mewn tollau, a dim ond £300 miliwn a gostiodd i adeiladu ail bont Hafren. A allwch ein cefnogi i atal effaith y cynnydd hwn ar ein heconomi, yn enwedig yn ne Cymru? A ydych yn cefnogi'r ymgyrch i beri i dreth y tollau gael yr un dynged â threth y pen?

**Y Prif Weinidog:** Dyna bennawd da i'r *South Wales Argus* ar y gorau, ond nid yw'n awgrym ymarferol iawn. Os mai hynny yw pinacl eich uchelgais, mae hynny'n iawn, Mike. Fodd bynnag, os oes gennych awgrym difrifol o ran sut y gallwn ddiddymu'r ddeddf

passed by Parliament that enforces a toll increase based on the retail price index, tell me what it is.

a basiwyd gan y Senedd sy'n gorfodi cynnydd yn y doll ar sail y mynegai prisiau manwerthu, dywedwch wrthyf beth ydyw.

### Pharmacy Services

**Q5 Irene James:** Will the First Minister make a statement on pharmacy services in Wales? OAQ(3)1336(FM)

**The First Minister:** This matter was debated on 1 October, as you will recall, Irene. The debate highlighted how integral improved pharmacy services are to the delivery of better healthcare in Wales. We now have not only the common or garden pharmacy services, but enhanced pharmacy services and independent prescribing as well as advanced pharmacy services. Historically, pharmacists have been a greatly underused resource in the national health service. Fortunately, that era is drawing to a close, and we are using them much more fully.

**Irene James:** Do you agree that the network of pharmacies across Wales that provides testing for diabetes and cholesterol levels is making it easier for patients to access these facilities? Do you also agree that this is yet another example of Labour putting patients first?

**The First Minister:** Indeed, and it is not only a case of putting patients first, but one of reducing the pressure on the pressure points. We know that the pressure points are in the GP surgeries, and there are two ways of reducing the pressure: one is for people to use pharmacies as much as possible, for general advice, repeat prescriptions and independent prescribing; and the second, within GP surgeries, is to use community practice nurses, who have been brilliant at reaching the areas that GPs cannot reach.

2.10 p.m.

**William Graham:** First Minister, will you look again at the regulations concerning the change when a doctor's surgery loses the

### Gwasanaethau Fferylliaeth

**C5 Irene James:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau fferylliaeth yng Nghymru? OAQ(3)1336(FM)

**Y Prif Weinidog:** Trafodwyd y mater hwn ar 1 Hydref, fel y byddwch yn cofio, Irene. Tanlinellodd y ddadl mor ganolog yw gwell gwasanaethau fferylliaeth i gyflenwi gwell gofal iechyd yng Nghymru. Erbyn hyn mae gennym nid yn unig wasanaethau fferylliaeth cyffredin, neu arferol, ond gwasanaethau fferylliaeth gwell a phresgripsiynu annibynnol yn ogystal â gwasanaethau fferylliaeth uwch. Yn hanesyddol, mae fferyllwyr wedi bod yn adnodd nad oes digon o ddefnyddio wedi bod arno o bellffordd yn y gwasanaeth iechyd gwladol. Yn ffodus, mae'r oes honno'n tynnu tua'i therfyn, ac yr ydym yn gwneud defnydd llawer llawnach ohonynt.

**Irene James:** A ydych yn cytuno bod y rhwydwaith o fferyllfeydd ar draws Cymru sy'n darparu profion diabetes a lefelau colesterol yn ei gwneud yn haws i gleifion gael gafael ar y cyfleusterau hyn? A ydych yn cytuno bod hon yn enghraifft arall eto o Lafur yn rhoi cleifion yn gyntaf?

**Y Prif Weinidog:** Yn wir, ac nid yn unig y mae'n fater o roi cleifion yn gyntaf, ond o leihau'r pwysau ar y gwasgbwyntiau. Gwyddom mai ym meddygfeydd meddygon teulu y mae'r gwasgbwyntiau, ac mae dwy ffordd o leihau'r pwysau: un yw i bobl ddefnyddio cymaint ag sy'n bosibl ar fferyllfeydd, i gael cyngor cyffredinol, presgripsiynau amlroddadwy a phresgripsiynu annibynnol; a'r ail, o fewn meddygfeydd meddygon teulu, yw defnyddio nysys practis cymunedol, sydd wedi bod yn wych am gyrraedd y manau na all meddygon teulu eu cyrraedd.

**William Graham:** Brif Weinidog, a wnewch edrych eto ar y rheoliadau sy'n ymdrin â'r newid pan fydd meddygfa meddyg yn colli'r

right to prescribe because it is classed as being urban, and the delay that follows in establishing a community pharmacy in the area? In the case of a surgery in Machen, at which my family and I are registered, the regulations meant that there was a potential delay of six months because the Co-operative in Trethomas—quite rightly, as it was a competitor—objected to the proposals. It took a long time before the contract could be let, even though the pharmacy and the surgery were in agreement. The people of Machen faced considerable uncertainty for a number of months. Had it not been for the intervention of the Minister, we would still be waiting.

**The First Minister:** I am very sorry to hear of any kind of delay for which there is no good explanation. I am old enough to remember the days of the dispensary being at the back of the surgery. The GP would employ the dispenser, and the family of the dispensing pharmacist would live above the dispensing pharmacy, at the back of the GP's house. Those are the good old bad old days: the early days prior to the NHS. Nowadays, dispensing pharmacies are few and far between. However, the handover from a dispensing pharmacy to an independent community pharmacist can sometimes be tricky. I will look into the Trethomas and Machen issues that you referred to.

### Child Poverty

**Q6 Alun Davies:** Will the First Minister make a statement on the way in which the Welsh Assembly Government is addressing child poverty in Mid and West Wales? OAQ(3)1352(FM)

**The First Minister:** To some extent, tackling child poverty relies on the day-in, day-out commitment of small, practical projects through Communities First, Flying Start or Cymorth. We will underpin those activities with a new legislative duty on public agencies to demonstrate their commitment to ending child poverty soon.

**Alun Davies:** Thank you very much for that, First Minister. I am sure that you will agree

hawl i bresgripsiynu am ei bod yn cael ei hystyried yn un drefol, a'r oedi sy'n dilyn cyn sefydlu fferyllfa gymunedol yn yr ardal? Yn achos meddygfa ym Machen, lle'r wyf fi a'm teulu wedi cofrestru, golygai'r rheoliadau fod oedi posibl o chwe mis am fod y Co-operative yn Nhretomas—yn gwbl iawn, gan ei fod yn gystadleuydd—yn gwrthwynebu'r cynigion. Cymerodd gryn amser cyn y gellid gosod y contract, er bod y fferyllfa a'r feddygfa'n gytûn. Wynebodd pobl Machen gryn ansicrwydd am nifer o fisoedd. Oni bai am ymyrraeth y Gweinidog, byddem yn dal i ddisgwyl.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n ddrwg gennyf glywed am unrhyw fath o oedi nad oes esboniad da amdano. Yr wyf yn ddigon hen i gofio'r dyddiau pan oedd y fferyllfa yng nghefn y feddygfa. Byddai'r meddyg teulu'n cyflogi'r sawl a fyddai'n rhoi cyffuriau, a byddai teulu'r fferylllydd yn byw uwchlaw'r fferyllfa, yng nghefn tŷ'r meddyg teulu. Dyna ichi'r hen ddyddiau da drwg: y dyddiau cynnar cyn y GIG. Yn awr, mae fferyllfeydd o'r fath yn bethau prin. Fodd bynnag, gall y newid o fferyllfa o'r fath i fferylllydd cymunedol annibynnol fod yn ddyrys weithiau. Ymchwiliat i'r materion ynglŷn â Thretomas a Machen y cyfeiriasoch atynt.

### Tlodi Plant

**C6 Alun Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y ffordd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd i'r afael â thlodi ymhlith plant yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(3)1352(FM)

**Y Prif Weinidog:** I ryw raddau, mae mynd i'r afael â thlodi plant yn dibynnu ar ymrwymiad beunyddiol prosiectau ymarferol, bach drwy Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Cymorth. Fel sylfaen i'r gweithgareddau hynny byddwn yn rhoi dyletswydd ddeddfwriaethol newydd ar asiantaethau cyhoeddus i ddangos eu hymrwymiad i roi terfyn ar dlodi ymysg plant yn fuan.

**Alun Davies:** Diolch yn fawr ichi am hynny, Brif Weinidog. Yr wyf yn siŵr y byddwch yn

that the 200 Cymorth schemes funded by over £11 million of Welsh Assembly Government funding make a very real difference to the everyday lives of many children and families throughout Mid and West Wales. In bringing forward your legislation, First Minister, could you outline your vision as to how each individual sector, agency, and public body will work together to achieve our target of eradicating child poverty by 2020?

**The First Minister:** The consultation exercise ended on 30 September, which was a fortnight ago. That contained three proposals for new legislation. Two of them meet 'One Wales' commitments to establish the duty on public agencies to demonstrate their contribution to ending child poverty and to progress the provision of universal affordable childcare, particularly free, high-quality childcare for two-year-olds in the areas of greatest need. The third proposal concerns an upgrading of Cymorth, the child and youth support fund, which is one of our key programmes to tackle child poverty.

**Paul Davies:** Yr wythnos diwethaf, cysylltodd cadeirydd grŵp partneriaeth ieuenctid Cymunedau yn Gyntaf sir Benfro â mi am fod eich Llywodraeth wedi penderfynu torri'r arian y mae'r bartneriaeth yn ei gael gennych, yn ôl pob sôn. Mae'r grŵp wedi ymwneud â llawer o brosiectau, fel un ar Ystâd y Mount yn Aberdaugleddau, sydd wedi helpu i fynd i'r afael â thlodi plant yn sir Benfro. Bydd y gwaith da y mae wedi ei wneud dros y pum mlynedd diwethaf yn dod i ben oherwydd y penderfyniad hwn. O dan yr amgylchiadau, a yw'r Prif Weinidog yn cytuno bod hyn yn ergyd i'r ymgyrch i fynd i'r afael â thlodi plant yn sir Benfro, ac a yw'r Llywodraeth felly yn fodlon ailystyried y penderfyniad trychinebus hwn?

**Y Prif Weinidog:** Deallaf fod 29 o brosiectau o dan ymbarél Cymorth yn sir Benfro â phum thema iddynt. Deallaf fod prosiect bach ar y gweill yn Nhrefynach—y bu ichi gyfeirio ato—er mai un yn unig sydd ar y rhestr wrth gefn pe bai un o'r prosiectau eraill yn tynnu allan. Mae pob croeso ichi ysgrifennu ataf am un prosiect penodol os

cytuno bod y 200 o gynlluniau Cymorth a gyllidwyd gyda dros £11 miliwn o gyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud gwahaniaeth real iawn i fywydau beunyddiol llawer o blant a theuluoedd ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru. Wrth gyflwyno'ch deddfwriaeth, Brif Weinidog, a allech amlinellu eich gweledigaeth o ran sut y bydd pob sector, asiantaeth a chorff cyhoeddus unigol yn gweithio gyda'i gilydd i wireddu ein targed o ddileu tlodi plant erbyn 2020?

**Y Prif Weinidog:** Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 30 Medi, sef bythefnos yn ôl. Yr oedd hwnnw'n cynnwys tri chynnig ar gyfer deddfwriaeth newydd. Mae dau ohonynt yn gwireddu ymrwymadau yn 'Cymru'n Un' i sefydlu'r ddyletswydd ar asiantaethau cyhoeddus i ddangos eu cyfraniad tuag at roi terfyn ar dlodi plant a hyrwyddo darpariaeth gofal plant fforddiadwy ym mhobman, yn enwedig gofal plant o ansawdd uchel, rhad ac am ddim, i blant dyflwydd oed yn yr ardaloedd mwyaf anghenus. Mae a wnelo'r trydydd cynnig ag uwchraddio Cymorth, y gronfa gymorth i blant a phobl ifanc, sy'n un o'n rhaglenni allweddol i fynd i'r afael â thlodi plant.

**Paul Davies:** Last week, the chair of the Pembrokeshire Communities First youth partnership group contacted me because your Government has, apparently, decided to cut its funding. The group has dealt with a number of projects, such as the one at the Mount Estate in Milford Haven, which has helped tackle child poverty in Pembrokeshire. The good work that the group has done over the last five years will come to an end as a result of this decision. Given the circumstances, does the First Minister agree that this is a blow to efforts to tackle child poverty in Pembrokeshire, and would the Government, therefore, reconsider this terrible decision?

**The First Minister:** I understand that there are 29 projects under the auspices of Cymorth in Pembrokeshire in five different themes. I understand that there is a small project in Monkton—to which you referred—even though there is only one on the reserve list should one pull out. You are welcome to write to me about a specific project, and



dymunwch wneud hynny, a chewch ateb gennyf fi neu'r Gweinidog perthnasol.

either I or the relevant Minister will answer.

### The Reconfiguration of the NHS

### Ad-drefnu'r GIG

**Q7 Jenny Randerson:** Will the First Minister make a statement on the reconfiguration of the NHS? OAQ(3)1348(FM)

**C7 Jenny Randerson:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ad-drefnu'r GIG? OAQ(3)1348(FM)

**The First Minister:** Edwina Hart, the Minister for Health and Social Services, made a statement to the Assembly on 30 September setting out the latest position on NHS reconfiguration. It was widely welcomed by the health community across Wales.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaeth Edwina Hart, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ddatganiad i'r Cynulliad ar 30 Medi i ddweud beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf o ran ad-drefnu'r GIG. Cafodd ei groesawu'n eang gan y gymuned iechyd ar draws Cymru.

**Jenny Randerson:** On the creation of new health bodies, when the Minister made her statement recently, she said that she wanted a uniform structure wherever the bodies were in Wales. Are you seriously telling us that you, as a Government, believe it to be appropriate for the new health body in north Wales, which is a very diverse area—rural and urban, and stretching across a large geographical area—to have exactly the same structure as that for Cardiff and the Vale of Glamorgan, which is an overwhelmingly urban area in a tight geographical boundary?

**Jenny Randerson:** O ran creu cyrff iechyd newydd, pan wnaeth y Gweinidog ei datganiad yn ddiweddar, dywedodd ei bod am gael strwythur unffurf pa le bynnag yr oedd y cyrff yng Nghymru. A ydych yn dweud wrthym o ddifrif eich bod, fel Llywodraeth, yn credu ei bod yn briodol i'r corff iechyd newydd yn y gogledd, sy'n ardal amrywiol iawn—yn wledig a threfol, ac yn ymestyn dros ardal ddaearyddol fawr—fod â'r un strwythur yn union â hwnnw ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg, sy'n ardal drefol yn bennaf o fewn terfyn daearyddol tyn?

**The First Minister:** I do not remember the precise sentence in which the phrase that you have picked out occurs, but she certainly recognised the specific problems of Powys, for example, because that is the one part of Great Britain that does not have a district general hospital. Powys has a special character in terms of the delivery of health services, which has always been recognised.

**Y Prif Weinidog:** Ni chofiaf yr union frawddeg lle y mae'r cymal yr ydych yn cyfeirio ato, ond yr oedd yn sicr yn cydnabod problemau penodol Powys, er enghraifft, oherwydd honno yw'r un rhan o Brydain Fawr sydd heb ysbyty cyffredinol dosbarth. Mae gan Bowys gymeriad arbennig yng nghyswllt darparu gwasanaethau iechyd, ac mae hynny wedi'i gydnabod erioed.

Therefore, I think that you may be exaggerating the uniformity issue. Edwina Hart was not ignoring the differences between urban and rural Wales. I remember her referring specifically to Powys.

Felly, credaf eich bod yn gorbwysleisio'r pwynt ynghylch unffurfiaeth. Nid oedd Edwina Hart yn anwybyddu'r gwahaniaethau rhwng y Gymru drefol a'r Gymru wledig. Yr wyf yn ei chofio'n cyfeirio'n benodol at Bowys.

**Chris Franks:** How will the One Wales Government ensure that patients' interests in the Vale of Glamorgan and Rhondda Cynon Taf are protected in the reforms? There are concerns that the interests of vale residents, especially, will be submerged by the larger influence of Cardiff.

**Chris Franks:** Sut y bydd Llywodraeth Cymru'n Un yn sicrhau bod buddiannau cleifion ym Mro Morgannwg a Rhondda Cynon Taf yn cael eu hamddiffyn yn y diwygiadau? Ceir pryderon y bydd buddiannau trigolion y fro, yn enwedig, yn mynd o'r golwg yn sgîl y dylanwad mwy

**The First Minister:** People in the Vale of Glamorgan have had fears ever since the formation of South Glamorgan County Council in 1974, because the population of the vale is just over a third of the population of Cardiff. However, experience since 1974 has probably shown people in the vale that they do not need to have such fears.

The distribution of health services between Llandough Hospital and the University Hospital of Wales would be one such area, but the continued investment in the development of Llandough Hospital, as well as the development of Barry Hospital, have now satisfied people that there will be a flow of hospital investment of the high-technology kind in Llandough and of the community-based kind that you find in Barry Hospital to meet the needs of the Vale of Glamorgan.

**Jonathan Morgan:** You know that the restructuring of the NHS will cost money and will also, hopefully, save some money where the local health boards will be merged into the new seven NHS bodies. However, the Minister for Health and Social Services has already announced that the Hywel Dda NHS Trust debt of some £40 million will be written off if that trust comes to the end of this financial year and breaks even. Is it now the policy of the Assembly Government to write off all NHS debts?

**The First Minister:** I do not think that we have ever had a policy on writing off debt. Debts were frequently written off at the end of the financial year, on the quiet, using Treasury guidelines, over the life of the Assembly and in the period before the existence of the Assembly. It was done on the quiet because people did not want to create anger among other health authorities or trusts—or whatever their titles were at the time—that had sweated blood to balance their budgets, only to find that another authority had failed to carry out the difficult decisions and had had their debts written off. That kind of watching of what happens in the neighbouring authority does go on, yet, sometimes, people feel that the best thing to do is to clear the debt and start again and to

sydd gan Gaerdydd.

**Y Prif Weinidog:** Mae pobl Bro Morgannwg wedi bod yn pryderu ers ffurfio Cyngor Sir De Morgannwg yn 1974, oherwydd bod poblogaeth y fro fymryn dros draean poblogaeth Caerdydd. Fodd bynnag, mae'n debyg bod y profiad a gafwyd ers 1974 wedi dangos i bobl y fro nad oes angen iddynt gael pryderon o'r fath.

Byddai dosbarthiad gwasanaethau iechyd rhwng Ysbyty Llandochau ac Ysbyty Prifysgol Cymru yn un maes o'r fath, ond mae'r buddsoddiad parhaus yn natblygiad Ysbyty Llandochau, yn ogystal â datblygu Ysbyty'r Barri, bellach wedi argyhoeddi pobl y ceir llif o fuddsoddiadau mewn offer uwch-dechnoleg ar gyfer ysbytai yn Llandochau a buddsoddi ar sail gymunedol fel y gwelir yn Ysbyty'r Barri er mwyn bodloni anghenion Bro Morgannwg.

**Jonathan Morgan:** Gwyddoch y bydd ailstrwythuro'r GIG yn costio arian a bydd hefyd, gobeithio, yn arbed peth arian pan gyfunir y byrddau iechyd lleol yn saith corff GIG newydd. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus eisoes wedi cyhoeddi y bydd dyled Ymddiriedolaeth GIG Hywel Dda o tua £40 miliwn yn cael ei dileu os bydd yr ymddiriedolaeth honno'n dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon ac yn cadw'i phen uwchlaw'r dŵr. Ai polisi Llywodraeth y Cynulliad erbyn hyn yw dileu holl ddyledion y GIG?

**Y Prif Weinidog:** Ni chredaf fod gennym bolisi ynghylch dileu dyled wedi bod erioed. Yr oedd dyledion yn aml yn cael eu dileu ar ddiwedd blwyddyn ariannol, yn dawel bach, gan ddefnyddio canllawiau'r Trysorlys, yn ystod oes y Cynulliad ac yn y cyfnod cyn bodolaeth y Cynulliad. Gwneid hynny yn dawel bach oherwydd nad oedd ar bobl eisïau ennyn dicter ymhlith awdurdodau neu ymddiriedolaethau iechyd eraill—neu beth bynnag oedd eu teitlau ar y pryd—a oedd wedi chwysu gwaed i fantoli eu cyllidebau, a hwythau'n canfod wedyn fod awdurdod arall wedi methu cyflawni'r penderfyniadau anodd a bod eu dyledion wedi'i dileu. Mae'r math hwnnw o gadw golwg ar yr hyn sy'n digwydd yn yr awdurdod cyfagos yn digwydd, ac eto, weithiau, mae pobl yn

ensure that that kind of debt is not built up again.

teimlo mai'r peth gorau i'w wneud yw clirio'r ddyled a dechrau eto a sicrhau nad yw'r math hwnnw o ddyled yn cael ei chronni eto.

### Relocation of Assembly Divisions

### Ail-leoli Isadrannau'r Cynulliad

**Q8 Trish Law:** Will the First Minister provide a progress update on the Welsh Assembly Government's plans to press ahead with the relocation of Assembly divisions to the south Wales Valleys as well as to north and west Wales? OAQ(3)1329(FM)

**C8 Trish Law:** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r newyddion diweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i fwrw ymlaen ag ail-leoli isadrannau'r Cynulliad i Gymoedd y de, i'r gogledd ac i'r gorllewin? OAQ(3)1329(FM)

**The First Minister:** The opening of the Merthyr Tydfil office in October 2006—relocating 391 Assembly Government posts and, in addition, creating 60 new positions—has been a roaring success. There was considerable reluctance by Assembly Government divisions in Cathays park and elsewhere in Cardiff to enthusiastically consider going to Merthyr in the first place, but, once they had gone there, they found that it was a great place to go and that the facilities in the office gave it a working atmosphere that was better than that in Cathays park, and people are now volunteering to go. Therefore, it has been a great success.

**Y Prif Weinidog:** Mae agor swyddfa Merthyr Tudful yn Hydref 2006—gan adleoli 391 o swyddi Llywodraeth y Cynulliad ac, ar ben hynny, creu 60 o swyddi newydd—wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Yr oedd isadrannau Llywodraeth y Cynulliad ym Mharc Cathays a rhannau eraill o Gaerdydd yn gyndyn iawn o ddangos unrhyw frwdfrydedd dros ystyried mynd i Ferthyr i ddechrau, ond, wedi iddynt gyrraedd yno, cawsant ei fod yn lle gwych i fynd iddo a bod y cyfleusterau yn y swyddfa yn creu amgylchedd gweithio a oedd yn well na'r hyn a oedd ym Mharc Cathays, ac mae pobl erbyn hyn yn gwirfoddoli i fynd. Felly, mae wedi bod yn llwyddiant ysgubol.

**Trish Law:** The 'One Wales' document refers specifically to the

**Trish Law:** Mae dogfen 'Cymru'n Un' yn cyfeirio'n benodol at

'relocation of Assembly divisions to North Wales, West Wales and the South Wales Valleys',

'adleoli is-adrannau'r Cynulliad i'r Gogledd, i'r Gorllewin ac i'r Cymoedd',

and not to the creation of new office developments, such as those proposed at Llandudno Junction and Aberystwyth.

ac nid at greu datblygiadau swyddfa newydd, megis y rhai a gynigir yng Nghyffordd Llandudno ac Aberystwyth.

Six months ago in this Chamber, I asked whether the Welsh Assembly Government would give serious consideration to relocating the Department for Health and Social Services to Blaenau Gwent, the birthplace of Aneurin Bevan and the spiritual home of the national health service. In answering, you referred to the great success of the relocation of the department for social justice to Merthyr Tydfil, despite the initial scepticism. Such transfers are possible and perhaps even desirable. I again ask the First Minister whether the Assembly Government

Chwe mis yn ôl yn y Siambr hon, gofynnais a fyddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i adleoli'r Adran dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i Flaenau Gwent, man geni Aneurin Bevan, a chartref ysbrydol y gwasanaeth iechyd gwladol. Wrth ateb, cyfeiriasoch at lwyddiant mawr adleoli'r adran dros gyfiawnder cymdeithasol i Ferthyr Tudful, er gwaethaf yr amheuaeth ar y dechrau. Mae trosglwyddiadau o'r fath yn bosibl, ac efallai hyd yn oed yn ddymunol. Gofynnaf eto i'r Prif Weinidog a wnaiff Llywodraeth y

will consider relocating the health department and its 600-plus jobs to Blaenau Gwent, where we desperately need good-quality jobs. We want the new Ebbw Vale railway to operate two-way traffic.

2.20 p.m.

**The First Minister:** If we answered every constituency AM's wish to have an Assembly civil service division transferred to their constituency, there would be nothing left in Cardiff in a short period of time. Some people may say, 'And a good thing too'. I do not know—that may be the view that is taken. As regards Aberystwyth and Llandudno Junction, we are in the middle of undertaking a pretty massive programme of dispersal from Cardiff, and we are creating a concentration in those regions to provide a much better focus. For the moment, having opened the Merthyr Tydfil office two years ago, and as we will be opening the Aberystwyth office in a year's time and the Llandudno Junction office in the summer of 2010, we consider that we need to digest that pretty massive programme of dispersal while continuing to seek to attract offices from UK Government agencies to other parts of Wales.

**Mohammad Asghar:** First Minister, I must congratulate Trish Law on her campaigning for her constituents in Blaenau Gwent. I welcome the fact that the Assembly has moved jobs to Merthyr Tydfil, which is also part of South Wales East. To move health jobs to the area that nurtured the founder of the NHS would be inspiring. Will the First Minister give every consideration to Blaenau Gwent being a suitable area to which Assembly jobs could be relocated from Cardiff in the future?

**The First Minister:** We are not writing off any possibility when it comes to creating public sector jobs in the Heads of the Valleys area, be that in Blaenau Gwent, Merthyr or elsewhere. It is an extremely important objective that applies not only to us, but also to the Westminster Government. We have been fairly successful in comparison with most other parts of the UK in getting UK Government agencies to move to Wales—to Newport in the main, so far, and some jobs have gone to Swansea, but no agency has yet

Cynulliad ystyried adleoli'r adran iechyd a'i 600 a mwy o swyddi i Flaenau Gwent, lle y mae taer angen swyddi o safon. Mae arnom eisiau i reilffordd Glynebwy gynnal llif traffig dwyffordd.

**Y Prif Weinidog:** Petaem yn gwireddu dymuniad pob AC i drosglwyddo is-adran o wasanaeth sifil y Cynulliad i'w hetholaeth, ni fyddai dim ar ôl yng Nghaerdydd mewn dim o dro. Mae'n bosibl bod rhai pobl yn dweud, 'A da o beth fyddai hynny'. Ni wn—efallai mai dyna farn pobl. Yng nghyswllt Aberystwyth a Chyffordd Llandudno, yr ydym ar ganol cyflawni rhaglen bur anferthol o wasgaru o Gaerdydd, ac yr ydym yn canolbwyntio ar y rhanbarthau hynny er mwyn darparu llawer gwell ffocws. Am y tro, wedi agor swyddfa Merthyr Tudful ddwy flynedd yn ôl, a chan y byddwn yn agor swyddfa Aberystwyth ymhen blwyddyn a swyddfa Cyffordd Llandudno yn haf 2010, yr ydym yn barnu bod angen inni dreulio'r rhaglen bur anferthol honno o wasgaru a pharhau i geisio denu swyddfeydd o adrannau Llywodraeth y DU i rannau eraill o Gymru.

**Mohammad Asghar:** Brif Weinidog, rhaid imi longyfarch Trish Law am ei hymgyrchu dros ei hetholwyr ym Mlaenau Gwent. Yr wyf yn croesawu'r ffaith bod y Cynulliad wedi symud swyddi i Ferthyr Tudful, sydd hefyd yn rhan o Ddwyrain De Cymru. Byddai symud swyddi iechyd i'r ardal a fagodd sylfaenydd y GIG yn gam ysbrydoledig. A wnaiff y Prif Weinidog roi pob ystyriaeth i Flaenau Gwent fel ardal addas y gellid adleoli swyddi'r Cynulliad iddi o Gaerdydd i'r dyfodol?

**Y Prif Weinidog:** Nid ydym yn diystyru dim un posibilrwydd o ran creu swyddi sector cyhoeddus yn ardal Blaenau'r Cymoedd, boed hynny ym Mlaenau Gwent, Merthyr neu rywle arall. Mae'n amcan hynod o bwysig sy'n berthnasol nid yn unig i ni, ond hefyd i Lywodraeth San Steffan. Yr ydym wedi bod yn weddol lwyddiannus o'n cymharu â'r rhan fwyaf o'r rhannau eraill o'r DU o ran cael asiantaethau Llywodraeth y DU i symud i Gymru—i Gasnewydd yn bennaf, hyd yma, ac mae rhai swyddi wedi mynd i Abertawe,

moved to the Heads of the Valleys area. That pattern of trying to use public sector jobs, insofar as it is practical, to provide job diversification and job creation in areas of Wales that are short of that kind of job is at the heart of our strategy and the Westminster Government's strategy via the Lyons review.

### Protecting the Natural Environment

**Q9 Helen Mary Jones:** Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's policies for protecting the natural environment? OAQ(3)1331(FM)

**The First Minister:** The 'Environment Strategy for Wales' sets our main policies and programmes for the long-term protection of Wales's superb natural environment. We have now consulted on the action plan that will put that into effect.

**Helen Mary Jones:** You will be aware, of course, that we have a beautiful and special coastline in Carmarthenshire. You may also be aware that grave concerns have been raised by the fishing community and members of the public about the water quality in Carmarthen bay that has been affecting the fisheries. Would you see whether it is possible for the Minister for Rural Affairs, in her fisheries capacity, and the Minister for Environment, Sustainability and Housing to look closely at these issues? There are concerns that European directives may be being breached, which of course would have an impact on the Assembly as the responsible body. Would it be possible for both of those Ministers either to visit and meet those concerned or to arrange for suitable officials to do so?

**The First Minister:** My understanding is that there are improvements to local sewage treatment facilities, costing some £50 million, under way. They have not been completed yet, of course, so the big boost that you will get after the sewage treatment facilities have been opened has not yet happened, but the works are under construction. I will be

ond nid oes yr un asiantaeth wedi symud i ardal Blaenau'r Cymoedd eto. Mae'r patrwm hwnnw o geisio defnyddio swyddi'r sector cyhoeddus, cyn belled ag y mae hynny'n ymarferol, i arallgyfeirio swyddi a chreu swyddi mewn ardaloedd o Gymru sy'n brin o'r math hwnnw o swydd wrth wraidd ein strategaeth a strategaeth Llywodraeth San Steffan drwy gyfrwng adolygiad Lyons.

### Gwarchod yr Amgylchedd Naturiol

**C9 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwarchod yr amgylchedd naturiol? OAQ(3)1331(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae'r 'Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru' yn amlinellu ein prif bolisiau a rhaglenni ar gyfer diogelu amgylchedd naturiol gwych Cymru yn y tymor hir. Yr ydym bellach wedi ymgynghori ynghylch y cynllun gweithredu a fydd yn rhoi hynny ar waith.

**Helen Mary Jones:** Gwyddoch, wrth gwrs, fod gennym arfordir hardd ac arbennig yn sir Gaerfyrddin. Gwyddoch hefyd, o bosibl, fod pryderon difrifol wedi'u lleisio gan y gymuned bysgota ac aelodau o'r cyhoedd am ansawdd y dŵr ym mae Caerfyrddin sydd wedi bod yn effeithio ar y pysgodfeydd. A fydech cystal â gweld a fyddai'n bosibl i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig, yn rhinwedd ei gofal dros bysgodfeydd, a'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, edrych yn ofalus ar y materion hyn? Ceir pryderon ei bod yn bosibl bod cyfarwyddbau Ewropeaidd yn cael eu torri a byddai hynny, yn naturiol, yn effeithio ar y Cynulliad fel y corff cyfrifol. A fyddai'n bosibl i'r ddau Weinidog hynny naill ai ymweld a chyfarfod â'r rhai sy'n pryderu neu drefnu bod swyddogion priodol yn gwneud hynny?

**Y Prif Weinidog:** Yn ôl a ddeallaf, mae'r gwaith o wella'r cyfleusterau trin carthion lleol, sy'n costio rhyw £50 miliwn, ar droed. Nid yw'r gwaith wedi'i ei gwblhau eto, wrth gwrs, felly nid yw'r hwb sylweddol a gewch ar ôl i'r cyfleusterau trin carthion gael eu hagor wedi digwydd eto, ond mae'r gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd. Byddaf yn

making a major announcement tomorrow concerning the funding of Dŵr Cymru Welsh Water and Glas Cymru's investment programme over the next decade. I will be pleased to do that.

**Brynle Williams:** The natural environment is one of Wales's greatest assets. That is obvious, yet it is blighted by fly-tipping, and, regrettably, the number of incidents is increasing by thousands year on year. Your Government's decision to set up a pilot fund to assist with tackling fly-tipping on private land is recognition of how bad this problem has become. However, there is to be no assistance for farmers and landowners who are paying for other people's crimes. Do you agree that it is unfair to make private landowners foot the bill for clearing fly-tipping waste on their land, and that local authorities would put a much higher priority on enforcement and on prosecuting offenders if they were made fully responsible for clearing up other people's mess?

**The First Minister:** I agree that fly-tipping is one of the disgraces of modern Wales, just as our environment is one of the glories of both modern and ancient Wales. The more beautiful the landscape is, the worse is the impact of fly-tipping on your eyes, given that it is set against a background of stunning lakes, hills or mountains or beautiful seashores.

We are all aware of this problem, and it is a bad problem in Wales. The question of who should pay for it and how to have the appropriate incentives in place to ensure that landowners look after their land is a difficult one. I will consider the point that you have made and will respond on whether we have the right incentives in place as regards the different responsibilities of local authorities and landowners.

**Sandy Mewies:** I am afraid that what harms the natural environment most is us. It was good to see 500 people, including representatives from local businesses such as Corus and Airbus, taking part in a big clean-up recently, both in my Flintshire constituency and in Ann Jones's too.

gwneud cyhoeddiad o bwys yfory ynghylch ariannu rhaglen fuddsoddi Dŵr Cymru a Glas Cymru dros y degawd nesaf. Bydd yn bleser gennyf wneud hynny.

**Brynle Williams:** Mae'r amgylchedd naturiol yn un o asedau pwysicaf Cymru. Mae hynny'n amlwg, ac eto mae tipio anghyfreithlon yn ei ddifetha, ac, yn anffodus, mae nifer y digwyddiadau yn cynyddu fesul miloedd, flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae penderfyniad eich Llywodraeth i sefydlu cronfa beilot i helpu i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon ar dir preifat yn gydnabyddiaeth o ddifrifoldeb y broblem hon erbyn hyn. Fodd bynnag, nid oes dim cymorth i'w gynnig i ffermwyr a thirfeddianwyr sy'n talu am droseddau pobl eraill. A gytunwch ei bod yn annheg gwneud i dirfeddianwyr preifat ysgwyddo'r bil am glirio gwastraff tipio anghyfreithlon oddi ar eu tir, ac y byddai awdurdodau lleol yn rhoi blaenoriaeth lawer uwch i orfodi ac i erlyn troseddwyr petaent yn cael cyfrifoldeb llawn am glirio llanast pobl eraill?

**Y Prif Weinidog:** Cytunaf fod tipio anghyfreithlon yn un o nodweddion gwarthus y Gymru fodern, yn yr un modd ag y mae ein hamgylchedd yn un o ogoniannau'r Gymru fodern a'r hen Gymru. Po harddaf y tirlun, po waethaf fydd effaith tipio anghyfreithlon ar eich llygaid, gan ei fod yn erbyn cefnlen o lynnoedd, bryniau neu fynyddoedd godidog neu lannau môr hyfryd.

Yr ydym oll yn ymwybodol o'r broblem hon, ac mae'n broblem fawr yng Nghymru. Mae'r cwestiwn pwy ddylai dalu amdani a sut i sefydlu'r cymhellion priodol i sicrhau bod tirfeddianwyr yn gofalu am eu tir yn un anodd. Ystyriaf y pwynt a wnaethoch ac ymatebaf ynghylch a yw'r cymhellion priodol ar waith gennym yng nghyswllt gwahanol gyfrifoldebau awdurdodau lleol a thirfeddianwyr.

**Sandy Mewies:** Mae arnaf ofn mai ni sy'n niweidio'r amgylchedd naturiol waethaf. Yr oedd yn braf gweld 500 o bobl, gan gynnwys cynrychiolwyr busnesau lleol megis Corus ac Airbus, yn cymryd rhan mewn ymgyrch lanhau fawr yn ddiweddar, yn fy etholaeth yn sir y Fflint yn ogystal ag yn etholaeth Ann

Jones.

Will you join me in congratulating them? Would you consider what the Welsh Assembly Government can do to support these kinds of initiatives? Not only do they give people pride in their environment, but they also set the stage and encourage people not to drop litter, which is what makes these clean-ups necessary.

**The First Minister:** I have participated in similar clean-ups on the banks of the River Taff in the centre of Cardiff, which occasionally needs serious treatment.

Getting voluntary involvement by young people and all other age groups is essential to giving people pride. If you have taken part in a clean-up, and you see one of your mates then throwing a beer can or a cigarette end down, you are more likely to give them a powerful nudge and to say, 'Do not do that, I was picking that stuff up last weekend during this big voluntary clean-up'. Therefore, getting involvement from everybody is essential so that it is not always somebody else's problem to clean up the Stella can or the fag end that people are far too inclined to drop in the belief that there is always somebody coming up behind them to clean it up.

**Mick Bates:** I am sure that you will agree that our natural environment plays a key role in improving the quality of life of people across Wales. We must raise awareness of the importance of conservation and the sustainable use of our natural resources, so that we can have a better understanding of our biodiversity. Sadly, as the Royal Society for the Protection of Birds has reported, Welsh biodiversity continues to decline. That is despite targets set by the Welsh Assembly Government to halt the loss of biodiversity by 2010. Do you agree that transferring power over biodiversity from Westminster would be a much better option to protect biodiversity in Wales, rather than the current voluntary targets that obviously do not work?

A ymunwch â mi i'w llongyfarch? A fydddech yn ystyried beth y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru ei wneud i gefnogi ymgyrchoedd o'r fath? Nid yn unig y maent yn peri i bobl deimlo balchder dros eu hamgylchedd, maent hefyd yn gosod y llwyfan ac yn annog pobl i beidio â gollwng sbwriel, sef yr hyn sy'n peri'r angen am yr ymgyrchoedd glanhau hyn.

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi cymryd rhan mewn ymgyrchoedd glanhau cyffelyb ar lannau Afon Taf yng nghanol Caerdydd, lle y mae angen triniaeth ddifrifol weithiau.

Mae denu cyfraniad gwirfoddol gan bobl ifanc a chan bob grŵp oedran arall yn hanfodol er mwyn i bobl deimlo'r balchder hwn. Os ydych wedi cymryd rhan mewn ymgyrch lanhau, a chithau wedyn yn gweld un o'ch ffrindiau'n taflu can cwrw neu fonyn sigarét ar lawr, yr ydych yn fwy tebygol o roi pwniad go fawr iddynt a dweud, 'Rho'r gorau iddi, yr oeddwn i'n codi'r stwff hwnnw y penwythnos diwethaf gyda'r ymgyrch lanhau wirfoddol fawr'. Felly, mae cael gan bawb gymryd rhan yn hollbwysig er mwyn sicrhau nad yw bob amser yn broblem i rywun arall godi'r can Stella neu'r bonyn sigarét y mae pobl yn llawer rhy barod i'w gollwng gan gredu bod rhywun yn dod ar eu hôl bob amser i'w glanhau.

**Mick Bates:** Yr wyf yn siŵr y cytunwch fod ein hamgylchedd naturiol yn chwarae rhan allweddol o ran gwella ansawdd bywyd pobl ledled Cymru. Rhaid inni godi ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd cadwraeth a defnyddio'n hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, er mwyn inni allu cael gwell dealltwriaeth o'n bioamrywiaeth. Yn anffodus, fel yr adroddwyd gan y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, mae bioamrywiaeth Cymru'n parhau i ddirywio. Mae hynny er gwaethaf targedau a bennwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i atal colli bioamrywiaeth erbyn 2010. A gytunwch y byddai trosglwyddo pŵer dros fioamrywiaeth o San Steffan yn opsiwn llawer gwell i amddiffyn bioamrywiaeth yng Nghymru, yn hytrach na'r targedau gwirfoddol cyfredol nad ydynt, yn amlwg, yn gweithio?

**The First Minister:** I share your concern that, although there has been some progress under the biodiversity action plan, 21 out of the 38 relevant priority habitats in Wales are classed as being in decline. I am not certain whether that has a bearing on who should be responsible for protecting the biodiversity-related priority habitats, and I will write to you on that issue after giving it further consideration.

**Joyce Watson:** Biodiversity is crucial to the health of our natural environment, and the Assembly has been positive in taking action to meet its 2010 commitment. However, despite progress, 21 of the 38 priority habitats relevant to Wales under the UK biodiversity action plan are in decline. Thirty Welsh priority species have been reported as declining or as having been lost altogether.

2.30 p.m.

With that in mind, can you provide an update on how local authorities are responding to the biodiversity guidance checklist that Jane Davidson launched in February to help them meet their commitments?

**The First Minister:** We are back to this question of what is the right description: a champion or a lead person—I do not want to fall foul of Alun Cairns's word police. Each local authority has to identify a cabinet member to act as its biodiversity champion and provide the strategic lead across the board for that local authority. They have to comply with that—they have to appoint the champion—but the question then is what the champion does, and how much co-operation he or she gets to secure the kind of protection that I referred to earlier of the 38 priority habitats, some of which are classed as being in decline.

#### Protecting Vulnerable Children

**Q10 Nerys Evans:** What action is the Welsh

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf finnau'n pryderu fel chi fod 21 allan o'r 38 o gynefinoedd â blaenoriaeth yng Nghymru, er gwaethaf rhywfaint o gynnydd a wnaethpwyd dan y cynllun gweithredu bioamrywiaeth, yn cael eu hystyried yn rhai sy'n dirywio. Nid wyf yn sicr a yw hynny'n berthnasol i pwy ddylai fod yn gyfrifol am amddiffyn cynefinoedd â blaenoriaeth sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, ac ysgrifennaf atoch ynghylch y mater hwnnw ar ôl ei ystyried ymhellach.

**Joyce Watson:** Mae bioamrywiaeth yn hanfodol i iechyd ein hamgylchedd naturiol, a mae'r Cynulliad wedi bod yn gadarnhaol o ran gweithredu i gyflawni ei ymrwymiad ar gyfer 2010. Fodd bynnag, er gwaethaf cynnydd, mae 21 allan o'r 38 o gynefinoedd â blaenoriaeth sy'n berthnasol i Gymru dan gynllun gweithredu bioamrywiaeth y DU yn dirywio. Adroddwyd bod 30 o rywogaethau â blaenoriaeth yng Nghymru wedi dirywio neu wedi eu colli yn llwyr.

A chofio hynny, a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ynglŷn â sut y mae awdurdodau lleol yn ymateb i restr gyfeirio'r canllawiau ar fioamrywiaeth a lansiwyd gan Jane Davidson ym mis Chwefror i'w cynorthwyo i gyflawni eu hymrwymiaidau.

**Y Prif Weinidog:** Dyma ni yn ôl gyda'r cwestiwn ynglŷn â beth yw'r disgrifiad cywir: ai hyrwyddwr ynteu arweinydd—nid wyf am dramgwyddo plismyn geiriau Alun Cairns. Rhaid i bob awdurdod lleol enwi aelod o'r cabinet i fod yn hyrwyddwr bioamrywiaeth ac yn arweinydd strategol ar gyfer yr awdurdod lleol hwnnw drwyddo draw. Rhaid iddynt gydymffurfio â hynny—rhaid iddynt benodi'r hyrwyddwr—ond wedyn y cwestiwn sy'n codi yw beth y mae'r hyrwyddwr yn ei wneud, a faint o gydweithrediad a gaiff er mwyn sicrhau'r math o warchodaeth y cyfeiriais ati yn gynharach ar gyfer y 38 cynefin â blaenoriaeth. Mae rhai o'r rheini'n cael eu hystyried yn gynefinoedd sy'n dirywio.

#### Amddiffyn Plant sy'n Agored i Niwed

**C10 Nerys Evans:** Pa gamau y mae



Assembly Government taking to help protect vulnerable children? OAQ(3)1327(FM)

**The First Minister:** We have a range of measures, including establishing local safeguarding children boards and issuing guidance to promote children's welfare and wellbeing. We are also consulting on a new strategy for vulnerable children, which builds on the need to keep children in their families in all but the most serious cases.

**Nerys Evans:** Many vulnerable children go through the family courts system. Although the courts are not devolved to Wales, aspects of the procedure are. I have a lot of casework in my region of Mid and West Wales that relates to the family courts system. I wish to draw your attention to a comment made by an expert witness in one case. When asked to explain a change in a child's behaviour, the educational expert said that Welsh-medium education causes retardation and could not stimulate the child to the same level as English-medium education. I have approached the Children and Family Court Advisory and Support Service and the Welsh Language Board about this issue. The WLB does not have powers over this, and CAF/CASS is conducting an internal investigation. These views have profound impacts on the child and the family. Do you agree that such comments and theories are unacceptable in Wales, and should not be tolerated? Do you also agree that mechanisms should be put in place to make people who give evidence in family courts accountable for their theories and evidence, because the current situation is detrimental to vulnerable children across Wales?

**The First Minister:** I am keeping a weather eye on the Counsel General in my answer to this question. I do not believe that I should refer to anything that has come up in court proceedings. If the allegation that you make is correct, I would not dignify that person with the title of 'expert'.

**Alun Cairns:** Some of the most vulnerable

Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i amddiffyn plant sy'n agored i niwed? OAQ(3)1327(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae gennym amrywiaeth o fesurau, gan gynnwys sefydlu byrddau lleol diogelu plant a chyhoeddi canllawiau i hyrwyddo lles a budd plant. Yr ydym hefyd yn ymgynghori ynglŷn â strategaeth newydd ar gyfer plant sy'n agored i niwed. Mae honno'n adeiladu ar yr angen i gadw plant yn eu teuluoedd ym mhob achos ac eithrio'r rhai mwyaf difrifol.

**Nerys Evans:** Bydd llawer o blant sy'n agored i niwed yn mynd drwy system y llysoedd teulu. Er nad yw'r llysoedd wedi'u datganoli i Gymru, mae agweddau ar y weithdrefn wedi'u datganoli. Mae gennyf llawer o waith achos yn fy rhanbarth, Canolbarth a Gorllewin Cymru, sy'n ymwneud â system y llysoedd teulu. Dymunaf dynnu'ch sylw at eiriau tyst arbenigol mewn un achos. Pan ofynnwyd iddo esbonio newid yn ymddygiad plentyn, dywedodd yr arbenigwr addysgol fod addysg cyfrwng Cymraeg yn achosi arafwch ac na allai ysgogi'r plentyn i'r un graddau ag addysg cyfrwng Saesneg. Yr wyf wedi holi'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd a Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynglŷn â hyn. Nid oes gan fwrdd yr iaith bwerau dros hyn, ac mae CAF/CASS yn cynnal ymchwiliad mewnol. Mae'r farn hon yn cael effaith ddifrifol ar y plentyn ac ar y teulu. A gytunwch fod sylwadau a damcaniaethau o'r fath yn annerbyniol yng Nghymru, ac na ddylid eu goddef? A gytunwch hefyd y dylid sefydlu mecanweithiau i sicrhau bod pobl sy'n rhoi tystiolaeth yn y llysoedd teulu'n atebol am eu damcaniaethau a'u tystiolaeth, oherwydd y mae'r sefyllfa bresennol yn niweidiol i blant sy'n agored i niwed ledled Cymru?

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn edrych yn ofalus ar y Cwnsler Cyffredinol wrth ateb y cwestiwn hwn. Ni chredaf y dylwn gyfeirio at ddim sydd wedi codi mewn achos llys. Os yw'r honiad a wnewch yn gywir, ni fyddwn am roi urddas i'r unigolyn hwnnw drwy ei alw'n 'arbenigwr'.

**Alun Cairns:** Rhai o'r plant mwyaf agored i

children in society are those with special educational needs. The responsibility that falls on local authorities and the Assembly in terms of providing for those children is at the highest level. Do you accept that there is often a gap in the information that is available from local authorities because of the patchy provision that some of them have, and that more information in order to measure provision for children with special educational needs would be a positive step?

**The First Minister:** We have put a great deal of effort into improving the rights of children with special educational needs to be able to get statementing, and then to appeal the statement, the lack of a statement, or the slow completion of a statement, by going to tribunal. Also, children themselves can now activate the tribunal—it does not only have to be done through their parents. There has been enormous progress compared with 15 or 20 years ago, when I was not long into my political career, when any local authority education department that did not feel like doing a statement, because they thought that it might have resource implications, could probably get away with it. There was no citizen's charter protection and no legal protection. The situation is now much improved.

**Peter Black:** It is important that any vulnerable child has the opportunity to take up any grievance, in particular issues such as the one that Alun Cairns raised. What progress has been made on setting up a Wales-wide independent advocacy service for children?

**The First Minister:** There was a difference of opinion between us as an administration and the late Peter Clarke, the first independent children's commissioner in the UK, on advocacy. He believed that an independent advocacy service should be available straight away, throughout Wales; we did not believe that that was a high priority in the early days. I will look at the current position on advocacy, and I will come back to you on that.

niwed yn ein cymdeithas yw'r rhai a chanddynt anghenion addysgol arbennig. Mae'r cyfrifoldeb sydd ar awdurdodau lleol ac ar y Cynulliad o ran darparu ar gyfer y plant hynny'n gyfrifoldeb ar y lefel uchaf. A ydych yn derbyn bod bwlch yn aml yn y wybodaeth sydd ar gael gan awdurdodau lleol oherwydd bod darpariaeth rhai ohonynt yn anghyson, ac y byddai mwy o wybodaeth er mwyn mesur y ddarpariaeth ar gyfer plant a chanddynt anghenion addysgol arbennig yn gam cadarnhaol?

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym wedi ymdrechu'n ddygn i wella hawliau plant a chanddynt anghenion addysgol arbennig i allu cael datganiad, ac yna i apelio yn erbyn y datganiad, y diffyg datganiad, neu'r oedi wrth gwblhau datganiad, drwy fynd at dribiwnlys. Hefyd, gall plant eu hunain roi'r tribiwnlys ar waith yn awr —nid oes yn rhaid i hyn gael ei wneud drwy eu rhieni'n unig. Mae cynnydd enfawr wedi bod o'i gymharu â 15 neu 20 mlynedd yn ôl, a minnau newydd ddechrau fy ngyrfa wleidyddol. Bryd hynny, gallai adran addysg unrhyw awdurdod lleol a oedd yn gyndyn o roi datganiad am eu bod yn meddwl y gallai hynny arwain at oblygiadau o ran adnoddau, lwyddo i osgoi gwneud hynny mae'n debyg. Nid oedd gwarchodaeth ar gael drwy siarter y dinesydd na gwarchodaeth gyfreithiol ychwaith. Mae'r sefyllfa'n well o lawer yn awr.

**Peter Black:** Mae'n bwysig bod gan unrhyw blentyn sy'n agored i niwed y cyfle i godi unrhyw gŵyn, yn enwedig materion megis hwnnw a godwyd gan Alun Cairns. Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran sefydlu gwasanaeth eirioli annibynnol i Gymru gyfan ar gyfer plant?

**Y Prif Weinidog:** Yr oedd gwahaniaeth barn ynglŷn ag eiriolaeth rhyngom ni fel gweinyddiaeth a'r diweddar Peter Clarke, y comisiynydd plant annibynnol cyntaf yn y DU. Credai ef y dylai gwasanaeth eirioli annibynnol fod ar gael ar unwaith, ledled Cymru; nid oeddem ni'n credu bod hynny'n flaenoriaeth uchel yn y dyddiau cynnar. Edrychaf ar y sefyllfa bresennol o ran eiriolaeth, a deufaf yn ôl atoch ynglŷn â hynny.

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement

**The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones):** There is just one change to report to this week's planned Government business. Following this statement, the Minister for Finance and Public Service Delivery will be making a statement on the situation regarding the Icelandic banks and the implications for Wales. Business for three weeks is as set out in the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

**Andrew R.T. Davies:** Looking at the forward work plan for the next few weeks, there does not seem to be a slot for the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills to come before us to give her opinion on the review of higher education funding, which, I believe, was presented to her last week. Given the reports emanating from that review, I press you to indicate when she is likely to give a statement to Plenary so that these issues can be addressed in a full and open manner, as we expect in this institution.

**Carwyn Jones:** When the statement has been planned, it will appear in the three-week business statement.

**Lesley Griffiths:** Yesterday, Baroness Finlay of Llandaff, in her role as chair of the palliative care implementation group, delivered to the Minister for Health and Social Services her report on establishing a fairer funding system for hospices in Wales. As chair of the cross-party group on hospices, I know all too well of the huge amount of interest that this report has generated across the country. Will you consider allocating time during Plenary soon for the group's report to be discussed in full, so that we can assess the implications of the report and the opportunities presented by it?

**Carwyn Jones:** I am sure that the Minister for Health and Social Services will consider

**Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones):** Nid oes ond un newid i sôn amdano ym musnes arfaethedig y Llywodraeth yr wythnos hon. Ar ôl y datganiad hwn, bydd y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhoi datganiad am y sefyllfa o ran banciau Gwlad yr Iâ a'r goblygiadau i Gymru. Mae'r busnes ar gyfer tair wythnos fel y mae wedi'i nodi yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau ar ffurf electronig.

**Andrew R.T. Davies:** Wrth edrych ar y blaengynllun gwaith ar gyfer yr wythnosau nesaf, nid oes lle i bob golwg i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ddod ger ein bron i roi ei barn inni am yr adolygiad o gyllido addysg uwch, a gyflwynwyd iddi yr wythnos diwethaf, yr wyf yn credu. O ystyried yr adroddiadau sy'n codi o'r adolygiad hwnnw, pwysaf arnoch i ddweud pryd y mae'n debygol o roi datganiad i'r Cyfarfod Llawn er mwyn inni roi sylw i'r materion hyn mewn modd llawn ac agored, fel yr ydym yn disgwyl yn y sefydliad hwn.

**Carwyn Jones:** Pan fydd y datganiad wedi'i gynllunio, bydd yn ymddangos yn y datganiad busnes tair wythnos.

**Lesley Griffiths:** Ddoe, cyflwynodd y Farwnes Finlay o Landaf, yn rhinwedd ei swydd fel cadeirydd y grŵp gweithredu ar ofal lliniarol, ei hadroddiad i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch sefydlu system ariannu decach ar gyfer hosbisau yng Nghymru. A minnau'n gadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar hosbisau, gwn yn iawn am y diddordeb enfawr y mae'r adroddiad hwn wedi'i greu ym mhob cwr o'r wlad. A wnewch ystyried neilltuo amser yn ystod Cyfarfod Llawn cyn bo hir inni drafod adroddiad y grŵp yn llawn, er mwyn inni allu pwysu a mesur goblygiadau'r adroddiad a'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig?

**Carwyn Jones:** Yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau

any findings from the group, and will consider the matter further.

**Kirsty Williams:** Would you arrange for your colleague, the Minister for Social Justice and Local Government, to make a statement on support for the fire service in Wales? I am sure that many people in Wales will be aware that the fire service is being asked to respond to situations resulting from flooding. Recently, in my own constituency, the fire service had to rescue a number of people from their homes because of flooding. There are concerns that sufficient funding is not being provided to assist the fire service in the important work of training fire officers for these situations—especially retained fire officers—and giving them the equipment that they need to undertake for potentially life-saving duties.

**Carwyn Jones:** I see from the Minister's body language that he is not aware of any such problems with funding, but I am sure that the appropriate authorities will make representations to him if they feel that further consideration needs to be given to the funding situation.

**Chris Franks:** Will the Leader of the House find time for a debate on the circumstances surrounding the distressing case of an 83-year old who waited in great pain for two hours for an ambulance after falling in her garden and breaking her leg? Apparently, five calls were made for an ambulance. Although the paramedics were first-class, the delay was unacceptable. We need to discuss the state of the ambulance service.

**Carwyn Jones:** Individual cases are best discussed via another route, through correspondence with the Minister or with the ambulance trust. I do not think that it would be appropriate to discuss one individual's alleged experiences in the Chamber.

**Darren Millar:** Would you be minded to make time for a statement by the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport on Assembly Government support

Cymdeithasol yn ystyried unrhyw ganfyddiadau gan y grŵp, ac yn ystyried y mater ymhellach.

**Kirsty Williams:** A fydddech cystal â threfnu i'ch cyd-Weinidog, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, wneud datganiad ynghylch cymorth i'r gwasanaeth tân yng Nghymru? Yr wyf yn siŵr y bydd llawer o bobl yng Nghymru'n gwybod bod gofyn i'r gwasanaeth tân ymateb i sefyllfaoedd sy'n digwydd yn sgîl llifogydd. Yn ddiweddar, yn fy etholaeth fy hun, bu'n rhaid i'r gwasanaeth tân achub nifer o bobl o'u cartrefi oherwydd llifogydd. Mae'n destun pryder nad oes digon o arian yn cael ei ddarparu i gynorthwyo'r gwasanaeth tân yn y gwaith pwysig o hyfforddi swyddogion tân ar gyfer y sefyllfaoedd hyn—yn enwedig diffoddwyr tân wrth gefn—a rhoi iddynt yr offer sy'n angenrheidiol er mwyn iddynt gyflawni dyletswyddau a allai achub bywydau.

**Carwyn Jones:** Gwelaf yn ôl osgo'r Gweinidog nad yw'n ymwybodol o broblemau o'r fath o ran ariannu, ond yr wyf yn siŵr y bydd yr awdurdodau priodol yn cyflwyno'u sylwadau iddo os teimlant fod angen rhoi rhagor o ystyriaeth i'r sefyllfa ariannu.

**Chris Franks:** A wnaiff Arweinydd y Tŷ ganfod amser ar gyfer dadl ynglŷn â'r amgylchiadau a oedd yn gysylltiedig ag achos trallodus menyw 83 oed a fu'n disgwyl am ambiwlans am ddwy awr mewn poen mawr ar ôl iddi syrthio yn ei gardd a thorri ei choes? Yn ôl pob sôn, galwyd am ambiwlans bum gwaith. Er bod y parafeddygon o'r radd flaenaf, yr oedd yr oedi'n annerbyniol. Mae angen inni drafod cyflwr y gwasanaeth ambiwlans.

**Carwyn Jones:** Mae'n well defnyddio llwybr arall i drafod achosion unigol, sef anfon llythyr at y Gweinidog neu at yr ymddiriedolaeth ambiwlans. Ni chredaf y byddai'n briodol trafod profiadau honedig un unigolyn yn y Siambr.

**Darren Millar:** A fydddech yn ystyried neilltuo amser ar gyfer datganiad gan y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth ynglŷn â

for bus services, particularly in rural Wales? I understand that the existing section 156 grants on a number of strategic routes in north Wales, for example, along the A5, which runs through my constituency, are being withdrawn in the next financial year. That could lead to significant cuts in bus services, which seems to fly in the face of environmentalists who want people to switch from using cars to using public transport. That will not happen without these grants. Are you minded to make time for a statement on that important subject?

**Carwyn Jones:** That matter is best taken up in correspondence with the Minister. However, as far as public transport is concerned, our record is second to none. We have reopened two railway lines and supported bus services, for example, the Traws Cambria service. It is fair to say that public transport in Wales has not been as vibrant for more than 40 years. There are also proposals to improve the north-south service. All of these improvements have been made by the One Wales Government and its predecessor Government, and are measures that were never taken by the opposition party.

**Bethan Jenkins:** Will you join me in congratulating those who have volunteered to form Keep Wales Tidy groups in Neath Port Talbot? Local people coming together to tackle fly-tipping and littering must be welcomed. Will you support the creation of more such groups?

2.40 p.m.

I am pleased that many Members have supported my statement of opinion to protect the Welsh national football team and reject attempts to field a GB team at the London Olympics. Do you agree that the creation of a GB football team would jeopardise more than a century of Welsh footballing tradition and will you ensure that the Government makes such representations to the Olympic committee, specifically to Sebastian Coe?

chefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad i wasanaethau bysiau, yn enwedig yng nghefn gwlad Cymru? Deallaf y bydd y grantiau adran 156 sydd ar gael ar hyn o bryd yn dod i ben yn y flwyddyn ariannol nesaf ar nifer o lwybrau strategol yn y gogledd, er enghraifft, ar hyd yr A5, sy'n mynd drwy fy etholaeth. Gallai hynny olygu toriadau sylweddol yn y gwasanaethau bysiau ac, i bob golwg, mae hyn yn groes i farn amgylcheddwyr sydd am i bobl roi'r gorau i ddefnyddio'u ceir a defnyddio cludiant cyhoeddus. Ni fydd hynny'n digwydd heb y grantiau hyn. A fydddech yn ystyried neilltuo amser ar gyfer datganiad am y pwnc pwysig hwnnw?

**Carwyn Jones:** Mae hwnnw'n fater y mae'n well ei godi drwy anfon llythyr at y Gweinidog. Fodd bynnag, o ran cludiant cyhoeddus, yr ydym wedi gwneud yn well na neb. Yr ydym wedi ailagor dwy reilffordd ac wedi cefnogi gwasanaethau bysiau, er enghraifft, y gwasanaeth Traws Cambria. Mae'n deg dweud nad yw cludiant cyhoeddus yng Nghymru wedi bod cystal ers dros 40 mlynedd. Mae cynigion hefyd i wella'r gwasanaeth rhwng y gogledd a'r de. Mae'r gwelliannau hyn i gyd wedi'u gwneud gan Lywodraeth Cymru'n Un a'r Llywodraeth a'i rhagflaenodd, ac maent yn gamau nas cymerwyd erioed gan yr wrthblaid.

**Bethan Jenkins:** A wnewch ymuno â mi i longyfarch y rhai sydd wedi gwirfoddoli i ffurfio grwpiau Cadw Cymru'n Daclus yng Nghastell-nedd Port Talbot? Rhaid croesawu bod pobl leol yn dod at ei gilydd i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon a thafllu sbwriel. A wnewch gefnogi creu mwy o grwpiau fel hyn?

Yr wyf yn falch bod llawer o'r Aelodau wedi cefnogi fy natganiad barn i amddiffyn tîm pêl-droed cenedlaethol Cymru ac i wrthod ymdrechion i anfon tîm Prydain Fawr i gystadlu yng Ngemau Olympaidd Llundain. A gytunwch y byddai creu tîm pêl-droed i gynrychioli Prydain Fawr yn peryglu dros ganrif o draddodiad pêl-droed yng Nghymru ac a wnewch sicrhau bod y Llywodraeth yn cyflwyno sylwadau o'r fath i'r pwyllgor Olympaidd, ac i Sebastian Coe'n benodol?

**The Presiding Officer:** Will the Leader of the House assist me in explaining that he is not the Counsel General this afternoon?

**Carwyn Jones:** I can certainly assist you in saying precisely that, but, in my role as Leader of the House, I join Bethan in congratulating local people on the work that has been done in Neath Port Talbot. Some years ago I visited the Fairyland estate in Neath; a tremendous amount of work had been done with the local authority and with Keep Wales Tidy to improve that estate to the great benefit of its residents.

As far as the Welsh football team is concerned, I certainly do not want to see it disappear. It is important that nothing is done to bring that about and I am sure that we would all join in wishing the under-21s the best of luck tonight at Villa Park and in wishing the senior team all the best and, hopefully, a victory tomorrow in München-Gladbach.

**Jonathan Morgan:** Would you make time available for a statement from the Minister for Health and Social Services on the roll-out of Lucentis for patients with wet age-related macular degeneration? There was a briefing by the Government's adviser last Wednesday morning, but most Members were sitting in a variety of scrutiny committees at the time. I understand that although the Government said that the service would be delivered from autumn 2008, not a single penny has been spent as yet. In June, the Government announced £5 million for Lucentis, therefore we need to know whether any money has been spent and whether patients are being treated, because, over a matter of three to four months, patients with wet age-related macular degeneration can lose their sight. We need a statement urgently, so that all Members can contribute.

**Carwyn Jones:** The Minister has indicated to me that she is willing to provide Members with a statement.

**Leanne Wood:** The biggest issue facing all of us is the potential fall-out from the credit

**Y Llywydd:** A wnaiff Arweinydd y Tŷ fy nghynorthwyo i esbonio nad y Cwnsler Cyffredinol ydyw y prynhawn yma?

**Carwyn Jones:** Yn sicr, gallaf eich cynorthwyo drwy ddweud yr union beth hwnnw, ond, yn fy rôl fel Arweinydd y Tŷ, ymunaf â Bethan i longyfarch pobl leol ar y gwaith sydd wedi'i wneud yng Nghastell-nedd Port Talbot. Rai blynyddoedd yn ôl, ymwelais ag ystâd Fairyland yng Nghastell-nedd; yr oedd gwaith enfawr wedi'i wneud yno gyda'r awdurdod lleol a Cadw Cymru'n Daclus i wella'r ystâd honno er budd mawr i'w thrigolion.

O ran tîm pêl-droed Cymru, yn sicr, nid wyf am ei weld yn diflannu. Mae'n bwysig na wneir dim a fyddai'n arwain at hynny ac yr wyf yn siŵr y byddem i gyd yn ymuno i ddymuno pob lwc i'r tîm dan 21 yn Villa Park heno ac i ddymuno'r gorau, a buddugoliaeth gobeithio, i'r tîm hŷn yfory yn München-Gladbach.

**Jonathan Morgan:** A fyddech yn neilltuo amser ar gyfer datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn â lledaenu Lucentis i gleifion â dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint? Rhoddodd cynghorydd y Llywodraeth sesiwn friffio fore Mercher diwethaf, ond yr oedd y rhan fwyaf o'r Aelodau'n eistedd mewn amrywiaeth o bwyllgorau craffu ar y pryd. Deallaf, er i'r Llywodraeth ddweud y byddai'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu o hydref 2008 ymlaen, nad oes yr un geiniog wedi'i gwario eto. Ym mis Mehefin, cyhoeddodd y Llywodraeth £5 miliwn ar gyfer Lucentis, felly, mae angen inni gael gwybod a oes unrhyw arian wedi'i wario ac a yw'r cleifion yn cael eu trin, oherwydd, dros dri neu bedwar mis, gall cleifion â dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint golli eu golwg, Mae angen datganiad arnom ar frys, er mwyn i'r Aelodau i gyd allu cyfrannu.

**Carwyn Jones:** Mae'r Gweinidog wedi dweud wrthyf ei bod yn barod i roi datganiad i'r Aelodau.

**Leanne Wood:** Y broblem fwyaf sy'n ein hwynebu i gyd yw canlyniadau posibl y

crunch. It has been predicted that unemployment will reach 2 million UK-wide by Christmas. As well as losing jobs, people are likely to lose their homes, pensions and public services. Private finance initiative and housing stock transfer schemes will cost much more than we first thought, and £500 billion was allocated to rescue the banks last week. In addition to that local authorities have lost money in Icelandic banks. All of that will put pressure on public services.

Previous policy announcements, for example, Westminster's Welfare to Work proposals, could make unemployment and poverty even worse. It is not being alarmist to say that we face an extremely difficult situation, and we have no idea how long it will last. We all need to be united in the Assembly and ensure that we do all that we can to protect our public services. What we need now is more public spending, not less. Given that we have a tight budget, that will be quite difficult. Last week, my colleague, Chris Franks, asked you to set time aside to discuss the credit crunch and its implications. No commitment was given to that last week. Will you please agree to set aside some time as soon as possible to discuss these matters and how they will affect the people of Wales?

**Carwyn Jones:** It is difficult to have a debate along those lines without crystallising it around some proposals. To suggest a way forward, an all-Wales economic summit has been arranged for Thursday to discuss the current financial crisis. It will be chaired by the First Minister and attended by the Deputy First Minister and the Secretary of State. It will bring together the leaders of some of Wales's top companies, trade unionists and others from key economic sectors in Wales such as construction, retail and financial services. The purpose of the summit is to listen at first hand to the difficulties that already exist or that are anticipated in the months and years to come and then for the Government to formulate a way forward.

wasgfa gredyd. Mae rhai wedi darogan y bydd diweithdra'n cyrraedd 2 filiwn ledled y DU erbyn y Nadolig. Yn ogystal â cholli eu swyddi, mae pobl yn debygol o golli eu cartrefi, eu pensiynau a gwasanaethau cyhoeddus. Bydd cynlluniau mentrau cyllid preifat a chynlluniau trosglwyddo'r stoc dai'n costio mwy o lawer nag yr oeddem wedi'i dybio, a dyrannwyd £500 biliwn i achub y banciau yr wythnos diwethaf. Ar ben hynny, mae awdurdodau lleol wedi colli arian ym manciau Gwlad yr Iâ. Bydd hynny i gyd yn rhoi pwysau ar wasanaethau cyhoeddus.

Gallai cyhoeddiadau polisi blaenorol, er enghraifft, cynigion O Fudd-dal i Waith San Steffan, wneud diweithdra a thlodi'n waeth byth. Nid codi bwganod yw dweud ein bod yn wynebu sefyllfa eithriadol o anodd, ac nid oes gennym syniad am faint y bydd yn parhau. Mae angen inni i gyd fod yn unedig yn y Cynulliad a sicrhau ein bod yn gwneud popeth yn ein gallu i warchod ein gwasanaethau cyhoeddus. Yr hyn y mae ei angen arnom yn awr yw rhagor o wariant cyhoeddus, nid llai. O gofio bod gennym gyllideb dynn, bydd hynny'n eithaf anodd. Yr wythnos diwethaf, gofynnodd fy nghyd-Aelod, Chris Franks, ichi neilltuo amser i drafod y wasgfa gredyd a'i goblygiadau. Ni addawyd gwneud hynny yr wythnos diwethaf. A wnewch gytuno, os gwelwch yn dda, i neilltuo ychydig o amser cyn gynted ag sy'n bosibl i drafod y materion hyn a sut y byddant yn effeithio ar bobl Cymru?

**Carwyn Jones:** Mae'n anodd cynnal dadl i'r perwyl hwnnw heb ei chrisialu o gwmpas ychydig o gynigion. Er mwyn awgrymu ffordd ymlaen, trefnwyd uwchgynhadledd economaidd i Gymru gyfan ar gyfer dydd Iau i drafod yr argyfwng ariannol presennol. Fe'i cadeirir gan y Prif Weinidog a bydd y Dirprwy Brif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol yn bresennol. Bydd yn dwyn ynghyd arweinwyr rhai o brif gwmnïau Cymru, undebwyr llafur a phobl eraill o sectorau economaidd allweddol yng Nghymru, megis adeiladu, maes manwerthu a gwasanaethau ariannol. Pwrpas yr uwchgynhadledd yw cael gwybod o lygad y ffynnon am yr anawsterau sy'n bodoli eisoes neu'r rhai a ragwelir yn y misoedd a'r blynyddoedd a ddaw ac yna i'r Llywodraeth benderfynu ar ffordd ymlaen.

Action has already been taken in the draft budget announced last week. More than £290 million has been allocated to fund the Flexible Support for Business programme. We have also, recently, introduced a £7 million package of rate relief to help smaller businesses. It is important that we try to gain, at first hand, the views and experiences of businesses before considering what we might do to assist them and before we see what might be done to give Members an opportunity to engage in the issues.

**Eleanor Burnham:** Many small businesses are suffering, as you know. There are issues to do with the cost of energy. Can we discuss, in Government time, either in a debate or during a statement, how these small businesses can deal effectively with large energy companies? Some energy companies are resorting to bully-boy tactics in respect of mistakes that they make in bills, examples of which have been brought to my attention, and in trying to retrieve the money that is apparently owing to them over a short period of time, putting extra pressure on companies.

I support my colleague from Wrexham. As a member of the cross-party hospice group and as a former hospice fundraiser, I feel that our Minister for Health and Social Services is dealing with a most important issue, and I suggest that we do our best for hospices. I look forward to the debate that we will have on it.

**Carwyn Jones:** I do not recall making a commitment to hold a debate on it; I said that I was sure that the matter would be considered further by the Minister.

With regard to small businesses, I mentioned the small business rate relief scheme, which has been of tremendous assistance to many small businesses. Let us all hope that the worst of the problems in the financial markets are over and that we can see an end to what has become known as the credit crunch. It will not come for some time, of course, because the effects of what has happened in the last few weeks in the financial markets will take some time to play out. However, Gordon Brown's actions have

Mae camau wedi'u cymryd eisoes yn y gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf. Mae dros £290 miliwn wedi'i ddyrannu i dalu am y rhaglen Cymorth Hyblyg i Fusnes. Yr ydym hefyd, yn ddiweddar, wedi cyflwyno pecyn rhyddhad ardrethi gwerth £7 miliwn i helpu busnesau llai. Mae'n bwysig inni geisio casglu barn a phrofiadau busnesau, o lygad y ffynnon, cyn ystyried beth y gallwn ei wneud i'w cynorthwyo a chyn inni weld beth y gellid ei wneud i roi cyfle i Aelodau ymgymryd â'r materion hyn.

**Eleanor Burnham:** Fel y gwyddoch, mae llawer o fusnesau bach yn dioddef. Ceir problemau'n ymwneud â phris ynni. A allwn drafod, yn amser y Llywodraeth, naill ai mewn dadl neu mewn datganiad, sut y gall y busnesau bach hyn ddelio'n effeithiol â chwmnïau ynni mawr? Mae rhai cwmnïau ynni'n troi at dactegau bwlio o ran camgymeriadau a wnânt mewn biliau, ac mae pobl wedi tynnu fy sylw at enghreifftiau o hyn, ac wrth geisio adennill yr arian sy'n ddyledus iddynt, mae'n debyg, dros gyfnod byr, gan roi pwysau ychwanegol ar gwmnïau.

Cefnogaf fy nghyd-Aelod o Wrecsam. Fel aelod o'r grŵp hosbis trawsbleidiol ac fel un a fu'n codi arian dros hosbis, teimlaf fod ein Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn delio â mater hollbwysig, ac awgrymaf ein bod yn gwneud ein gorau glas dros hosbisau. Edrychaf ymlaen at y ddadl a gawn am y mater.

**Carwyn Jones:** Nid wyf yn cofio ymrwymo i gynnal dadl am y mater; dywedais fy mod yn siŵr y byddai'r Gweinidog yn ystyried y mater ymhellach.

O ran busnesau bach, soniais am y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach, sydd wedi bod o gymorth anferthol i lawer o fusnesau bach. Gobeithiwn fod y problemau gwaethaf yn y marchnadoedd arian wedi dod i ben ac y gallwn weld pen draw'r hyn sy'n cael ei alw'n wasgfa gredyd. Wrth gwrs, ni fydd hynny'n digwydd am gryn amser, oherwydd bydd yn rhaid disgwyl i weld beth fydd effeithiau'r hyn sydd wedi digwydd yn y marchnadoedd arian dros yr wythnosau diwethaf. Fodd bynnag, mae gwledydd eraill



been followed elsewhere, particularly in the US. I noticed yesterday George Bush, that great fan of the free market, effectively nationalising the American banks—I never thought that that would happen. As a result of the action taken in the UK, others have followed, and a consequence of that is that we have seen the financial markets bounce back. That is a great credit to the Prime Minister.

wedi dilyn esiampyl Gordon Brown, yn enwedig yr UD. Sylwais ddoe ar George Bush, sydd mor bleidiol i'r farchnad rydd, fwy neu lai yn gwladoli banciau America—ni chredais erioed y byddai hynny'n digwydd. O ganlyniad i'r hyn a wnaethpwyd yn y DU, mae eraill wedi dilyn, a chanlyniad hynny yw ein bod wedi gweld y marchnadoedd arian yn adennill tir. Rhaid canmol y Prif Weinidog am hynny.

### **Datganiad ar Fanciau Gwlad yr Iâ Statement on Icelandic Banks**

**The Minister for Finance and Public Services (Andrew Davies):** On behalf of the Cabinet, I wish to keep Members informed of the Icelandic banks' collapse and the implications for organisations in Wales. The Assembly Government is working closely with the UK Government and the Welsh Local Government Association to secure the return of the investments frozen in Icelandic bank accounts and to provide assistance, should it be needed, to individual organisations.

**Y Gweinidog dros Gyllid a Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies):** Ar ran y Cabinet, hoffwn roi'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau am gwmp banciau Gwlad yr Iâ a'r goblygiadau i sefydliadau yng Nghymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i geisio cael gafael ar y buddsoddiadau a rewyd yng nghyfrifon banciau Gwlad yr Iâ ac i roi cymorth, petai angen, i sefydliadau unigol.

The current difficulties centre around three banks, two of which have UK subsidiaries. The three are Glitnir Bank, Landsbanki and Kaupthing. All three have been nationalised by the Icelandic Government. On 8 October, the United Kingdom Government froze the UK-based assets of Landsbanki as a way of helping to ensure that UK creditors of that bank are treated fairly, and the Bank of England has now announced a loan of £100 million to ensure its continued operation. The Heritable Bank is a UK subsidiary of Landsbanki, and Kaupthing Singer and Friedlander is a UK subsidiary of Kaupthing. Both are in administration.

Mae'r anawsterau presennol yn deillio o dri banc, dau ohonynt ag is-gwmnïau yn y DU. Y tri yw Banc Glitnir, Landsbanki a Kaupthing. Mae'r tri wedi cael eu gwladoli gan Lywodraeth Gwlad yr Iâ. Ar 8 Hydref, rhewodd Llywodraeth y DU asedau Landsbanki yn y DU er mwyn helpu i sicrhau bod credydwy'r banc yn y DU yn cael eu trin yn deg, ac mae Banc Lloegr bellach wedi cyhoeddi ei fod yn rhoi benthyg £100 miliwn er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i weithredu. Mae Banc Heritable yn is-gwmni i Landsbanki, ac mae Kaupthing Singer a Friedlander yn is-gwmni i Kaupthing yn y DU. Mae'r ddau yn nwylo'r gweinyddwyr.

Since the crisis came to a head last week, we have been working closely with the WLGA and other organisations to establish the potential exposure of public sector and other bodies in Wales. From the information that we have gathered, it has become clear that the total potential exposure is around £74 million. The deposits are broken down as follows: eight local authorities have a total of £56 million, three police authorities have a

Ers i'r argyfwng godi'i ben yr wythnos diwethaf, yr ydym wedi bod yn gweithio'n agos iawn â CLILC a sefydliadau eraill i weld beth yw'r effaith bosibl ar y sector cyhoeddus a chyrrff eraill yng Nghymru. Yn ôl y wybodaeth yr ydym wedi'i chasglu, yr ydym wedi canfod mai'r cyfanswm a all fod dan sylw yw tua £74 miliwn. Mae'r arian mewn cyfrifon fel y ganlyn: mae gan wyth awdurdod lleol gyfanswm o £56 miliwn, mae

total of £10 million, and three higher education organisations have a total of £8.1 million. The majority of these deposits are with Landsbanki and Heritable. However, we have not identified any exposure in the further education sector or the national health service. The Wales Council for Voluntary Action has confirmed that few Welsh third sector organisations are likely to be affected by the collapse, and most will be protected by the financial services compensation scheme, which guarantees £50,000 in each bank account and applies to most charities.

2.50 p.m.

On 10 October, Brian Gibbons and I issued a joint press statement fully supporting the UK Government in its negotiations with the Icelandic authorities, which are seeking to have frozen assets released. We also confirmed our commitment to working with the WLGA to achieve this end.

The First Minister has written to the Chancellor of the Exchequer, setting out the position in Wales and stressing the need for the Assembly Government to be fully engaged in inter-departmental discussions on taking the issue forward on behalf of Welsh authorities. A further inter-departmental meeting to discuss progress is to be held tomorrow in London, at which Brian Gibbons will represent the Assembly Government. The WLGA will also be represented.

In Friday's statement, Brian Gibbons and I advised any organisation that found itself in short-term difficulties to contact the Assembly Government. To date, none have done so, supporting the general view expressed by local and police authorities that the current difficulties would not have a short-term impact on the provision of services or council tax levels. Certain media reports circulating at the weekend suggested that a number of local authorities may be unable to meet their payroll bill at the end of this month. However, the WLGA has stated that these reports are completely unfounded.

gan dri o awdurdodau'r heddlu gyfanswm o £10 miliwn, ac mae gan dri sefydliad addysg uwch gyfanswm o £8.1 miliwn. Mae'r rhan fwyaf o'r arian mewn cyfrifon gyda Landsbanki a Heritable. Fodd bynnag, nid ydym wedi canfod bod hyn yn effeithio ar y sector addysg bellach na'r gwasanaeth iechyd gwladol. Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi cadarnhau bod y cwmp yn debygol o effeithio ar ambell fudiad yn y trydydd sector yng Nghymru, a bydd y rhan fwyaf yn cael eu gwarchod gan gynllun iawndal y gwasanaethau ariannol, sy'n gwarantu £50,000 ym mhob cyfrif banc ac mae hynny'n berthnasol i'r rhan fwyaf o elusennau.

Ar 10 Hydref, cyhoeddodd Brian Gibbons a finau ddatganiad ar y cyd i'r wasg yn cefnogi Llywodraeth y DU yn llwyr yn ei thrafodaethau ag awdurdodau Gwlad yr Iâ, sy'n ceisio rhyddhau'r asedau a gafodd eu rhewi. Yn ogystal fe gadarnhawyd gennym ein hymrwymiad i weithio gyda CLILC i gyflawni hynny.

Mae'r Prif Weinidog wedi ysgrifennu at Ganghellor y Trysorlys, yn amlinellu'r sefyllfa yng Nghymru ac yn pwysleisio bod angen i Lywodraeth y Cynulliad gymryd rhan lawn yn y trafodaethau rhyngadrannol ynghylch ymdrin â'r mater ar ran awdurdodau Cymru. Cynhelir cyfarfod rhyngadrannol arall yn Llundain yfory i drafod y cynnydd, a bydd Brian Gibbons yno yn cynrychioli Llywodraeth y Cynulliad. Caiff CLILC ei chynrychioli hefyd.

Yn y datganiad ddydd Gwener, awgrymodd Brian Gibbons a finau y dylai unrhyw sefydliad sy'n cael ei hun mewn anawsterau tymor byr gysylltu â Llywodraeth y Cynulliad. Hyd yn hyn, nid oes neb wedi gwneud hynny, sy'n cefnogi'r farn gyffredinol a fynegir gan awdurdodau lleol ac awdurdodau'r heddlu na fyddai'r anawsterau presennol yn cael effaith yn y tymor byr ar gyflenwi gwasanaethau nac ar lefelau'r dreth gyngor. Yr oedd rhai adroddiadau yn y cyfryngau dros y penwythnos yn awgrymu na fyddai nifer o awdurdodau lleol yn gallu talu'r bil cyflogau ar ddiwedd y mis. Fodd bynnag, mae CLILC wedi datgan bod yr

adroddiadau hyn yn gwbl ddi-sail.

There is no straight read-across between the frozen deposits and local authority reserves. The Icelandic money forms a comparatively small proportion of the total amount of money that local authorities have invested in the banking system, both domestic and international, at any one time. The money invested can come from a variety of sources, such as capital receipts and grant income not yet applied.

Should any public sector body ask the Assembly Government for assistance in the short term, we will give careful consideration to its case. However, I want to make it clear that financial compensation is not an option. As a Government, we would expect a prudently managed organisation to be able to navigate its way through the current difficulty, as, indeed, very much looks to be the case. Any prospect of compensation would clearly be detrimental to the efforts being made to get the frozen investments returned.

Capitalisation to enable an organisation to borrow or use capital receipts to bridge a revenue funding gap would be one avenue for consideration, as would the temporary advancement of grant funding streams.

On the information that we have available, we are of the view that those organisations that have invested in Icelandic banks have, overall, acted in accordance with the investment frameworks within which they must operate. All local authorities are required to operate in compliance with an annual investment strategy that must be agreed by their full council and be made available for public inspection. The strategy and associated guidance incorporate requirements that ensure a maximum time limit for investments, the need for a balance favouring stability and liquidity while delivering a yield in investment policy, and the need for investments to be made only with financial institutions with a good credit rating afforded to them by a recognised credit rating agency.

Local authorities are assisted in their

Ni ellir gwneud cysylltiad syml rhwng yr arian a rewyd mewn cyfrifon a chronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol. Nid yw arian Gwlad yr Iâ ond cyfran fach o gyfanswm yr arian y mae awdurdodau lleol wedi'i fuddsoddi yn y system fancio, yn y wlad hon a thramor, ar unrhyw adeg. Gall yr arian a fuddsoddiwyd ddod o nifer o ffynonellau amrywiol, megis derbyniadau cyfalaf ac incwm grant sydd heb ei ddyrannu.

Petai unrhyw gorff sector cyhoeddus yn gofyn am gymorth gan Lywodraeth y Cynulliad yn y tymor byr, byddwn yn ystyried yr achos a gyflwynant yn ofalus. Fodd bynnag, yr wyf am ddweud ar goedd nad yw iawndal ariannol yn opsiwn. Fel Llywodraeth, byddem yn disgwyl i sefydliad a reolir yn ddarbodus allu ymdopi â'r sefyllfa anodd bresennol, ac yn wir, mae'n ymddangos bod hynny'n digwydd. Byddai sôn am roi iawndal yn amlwg yn llesteirio'r ymdrechion a wneir i adennill y buddsoddiadau a rewyd.

Un dull i'w ystyried fyddai cyfalafu i alluogi sefydliad i fenthycu neu i ddefnyddio derbyniadau cyfalaf er mwyn cau bwlch o ran cyllid refeniw, yn ogystal â rhagdalau ffrydiau ariannu grant dros dro.

Ar sail y wybodaeth sydd ar gael inni, yr ydym o'r farn bod y sefydliadau hynny sydd wedi buddsoddi mewn banciau yng Ngwlad yr Iâ, ar y cyfan, wedi gweithredu yn unol â'r fframweithiau buddsoddi y mae'n rhaid iddynt weithio oddi mewn iddynt. Rhaid i bob awdurdod lleol weithredu'n unol â strategaeth fuddsoddi flynyddol y mae'n rhaid i'r cyngor llawn gytuno arni a rhaid i'r strategaeth fod ar gael i gael ei harchwilio gan y cyhoedd. Mae'r strategaeth a'r canllawiau sydd ynghlwm wrthi'n ymgorffori gofynion sy'n sicrhau terfyn amser ar gyfer buddsoddiadau, yr angen i gael cydbwysedd sy'n ffafrio sefydlogrwydd a hylifedd, ac ar yr un pryd, gwneud elw mewn polisi buddsoddi, a'r angen i fuddsoddi dim ond gyda sefydliadau ariannol sydd â statws credyd da a roddir iddynt gan asiantaeth asesu statws credyd sy'n un gydnabyddedig.

Cynorthwyr awdurdodau lleol wrth wneud

investment decisions by credit rating agencies and investment consultants. However, once money is invested, it cannot be recovered until the agreed maturity date at the end of the particular investment term, even if the financial outlook deteriorates significantly in the interim.

In the more medium term, we will discuss with colleagues in the Treasury and the Department of Communities and Local Government the need to consider whether the current investment requirements and guidance—which are materially the same for England and Wales—need to be revised to take account of lessons learned, but in a way that still gives bodies discretion to make their own prudent investment decisions.

The situation of local government, police authorities and higher education is different to the situation of ordinary investors; by any clear criteria, the former are the more informed investors. The position is evolving and fast-moving and we will continue to work closely with the UK Government to resolve matters and we will keep Members informed of any developments.

**Nick Bourne:** I thank the Minister for the statement, which we had requested. I am grateful that he has cleared up the confusion, because when he was asked about it in the Finance Committee, he said that any financial assistance would come from Westminster. That closed off the stream of questions that would no doubt have followed, because we were under the assumption that what he said was correct. I have consulted with other members of the committee, and that was, at the very least, the impression that he created, as I think that the Record will demonstrate.

Secondly, the exposure of £74.1 million is serious, although, admittedly, that is spread over 14 different authorities. Can the Minister confirm that guidelines are issued by the Government in relation to investment practice? That is the case in England, and presumably it is the case in Wales as well. I can see the Minister for Social Justice and Local Government nodding. Can those

penderfyniadau buddsoddi gan asiantaethau asesu statws credyd ac ymgynghorwyr buddsoddiadau. Fodd bynnag, ar ôl buddsoddi'r arian, ni ellir ei gael yn ôl tan ddyddiad a gytunwyd ar gyfer ad-dalu ar ddiwedd cyfnod buddsoddi penodol, hyd yn oed os yw'r rhagolygon ariannol yn dirywio'n sylweddol yn y cyfamser.

Yn y tymor mwy canolig, byddwn yn trafod â chydweithwyr yn y Trysorlys ac yn yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yr angen i ystyried a oes gofyn diwygio'r gofynion a'r canllawiau cyfredol ar gyfer buddsoddi—sydd fwy na heb yr un peth ar gyfer Cymru a Lloegr—er mwyn rhoi sylw i'r gwersi a ddysgwyd, ond mewn ffordd sydd er hynny'n rhoi disgresiwn i gyrff wneud eu penderfyniadau buddsoddi darbodus eu hunain.

Mae sefyllfa llywodraeth leol, awdurdodau'r heddlu ac addysg uwch yn wahanol i sefyllfa buddsoddwyr arferol; yn ôl unrhyw feini prawf clir, y garfan gyntaf yw'r buddsoddwyr mwyaf gwybodus. Mae'r sefyllfa'n datblygu ac yn newid yn gyflym a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i ddatrys y materion a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddatblygiadau i'r Aelodau.

**Nick Bourne:** Diolch yn fawr, Weinidog, am y datganiad, yr oeddem wedi gofyn amdano. Yr wyf yn falch ei fod wedi clirio'r dryswch, oherwydd pan ofynnwyd cwestiwn iddo am y mater yn y Pwyllgor Cyllid, dywedodd y byddai unrhyw gymorth ariannol yn dod o San Steffan. Rhoddodd hynny derfyn ar y ffrwd o gwestiynau a fyddai wedi dilyn heb os, oherwydd yr oeddem yn cymryd bod yr hyn a ddywedodd yn gywir. Yr wyf wedi ymgynghori ag aelodau eraill o'r pwyllgor, a dyna'r argraff a roddodd, man lleiaf, fel y credaf y bydd y Cofnod yn dangos.

Yn ail, mae'r £74.1 miliwn sydd dan sylw yn ddifrifol, er fy mod yn cyfaddef bod y ffigur hwnnw wedi'i rannu rhwng 14 awdurdod gwahanol. A all y Gweinidog gadarnhau bod y Llywodraeth yn cyflwyno canllawiau o ran arferion buddsoddi? Dyna'r sefyllfa yn Lloegr, ac yr wyf yn tybio bod hynny'n digwydd yng Nghymru hefyd. Gallaf weld y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol

guidelines be issued so that Members can see precisely what they are and whether they differ for education and police authorities? It seems to me that that is material. That is the second question.

The third question is on the fact that the Minister says that no compensation is payable. He must be aware that, although he does not want to make compensation payable, there is always the possibility of an action for breach of statutory duty, if there are such guidelines, or, indeed, the possibility of an action against an accounting or legal firm that has given advice. Therefore, I hope that the Minister reconsiders the blanket points that he made about no compensation being payable. It may well be that there is a legal claim. Has he sought legal advice from Government lawyers and would he be willing to publish that in relation to the advice that was given to local authorities and others, because that also seems material?

Fourthly, he says that there has, so far, been no request for assistance, which I accept. However, has he contacted the finance directors of these institutions separately, or has he just issued a written statement? It would be proactive to contact them individually. As a party, we have contacted local authorities to say that we are happy to do what we can to bring matters to the attention of the Minister. In order that they know what avenue to pursue, can he indicate precisely what he has done? If a letter has been issued, can it be published, so that Members can see it?

Lastly, the Minister indicated that there may be a need to tighten the existing investment advice. That is certainly the case. The Minister acknowledges, and I agree, that the situation is fluid and fast moving, so I would have thought that this was a matter of urgency. What is the timescale in relation to the tightening of the legal advice? There may be—horror of horrors—other Icelands out there, so I hope that this is being reconsidered as a matter of urgency. Can he give us a

yn nodio'i ben. A ellir cyhoeddi'r canllawiau hynny fel y gall Aelodau weld yn union beth ydynt ac a ydynt yn wahanol ar gyfer addysg ac awdurdodau'r heddlu? Mae'n ymddangos i mi fod hynny'n bwysig. Dyna yw'r ail gwestiwn.

Mae'r trydydd cwestiwn yn ymwneud â'r ffaith bod y Gweinidog yn dweud nad oes iawndal yn daladwy. Mae'n rhaid ei fod yn gwybod, er nad yw am dalu iawndal, fod posibilrwydd bob amser y bydd achos yn ymwneud â thorri dyletswydd statudol, os oes canllawiau o'r fath yn bodoli, neu, yn wir, posibilrwydd y bydd achos yn erbyn cwmni cyfrifo neu gwmni cyfreithiol sydd wedi rhoi cyngor. Felly, gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn ailystyried y pwyntiau cyffredinol a wnaeth ynghylch na fydd iawndal yn daladwy. Mae'n ddigon posibl y ceir hawliad cyfreithiol. A yw wedi gofyn am gyngor cyfreithiol gan gyfreithwyr y Llywodraeth ac a fyddai'n barod i gyhoeddi hynny o ran y cyngor a roddwyd i awdurdodau lleol ac eraill, oherwydd y mae hynny hefyd yn ymddangos yn bwysig?

Yn bedwerydd, dywed nad oes neb wedi gwneud cais am gymorth hyd yn hyn, ac yr wyf yn derbyn hynny. Fodd bynnag, a yw wedi cysylltu â chyfarwyddwyr cyllid y sefydliadau hyn yn unigol, neu a yw wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn unig? Byddai'n gam rhagweithiol cysylltu â nhw'n unigol. Fel plaid, yr ydym wedi cysylltu ag awdurdodau lleol i ddweud ein bod yn fodlon gwneud hynny a allwn i ddwyn sylw'r Gweinidog at y materion. Er mwyn iddynt wybod beth yn union y mae'n rhaid iddynt ei wneud, a all ddweud wrthym beth yn union y mae ef wedi'i wneud? Os oes llythyr wedi cael ei lunio, a ellir ei gyhoeddi, er mwyn i'r Aelodau allu ei weld?

Yn olaf, dywedodd y Gweinidog efallai y bydd angen tynhau'r cyngor presennol ynghylch buddsoddi. Yn sicr, mae hynny'n wir. Mae'r Gweinidog yn cydnabod bod y sefyllfa'n newid ac yn datblygu'n gyflym, a chytunaf ag ef, felly byddwn wedi tybio bod hwn yn fater brys. Beth yw'r amserlen o ran tynhau'r cyngor cyfreithiol? Gallem wynebu—arswyd y byd—sefyllfa debyg i Wlad yr Iâ eto, felly gobeithio bod hyn yn cael ei ystyried fel mater brys. A all roi

timescale on that particular point?

**Andrew Davies:** On the issue of guidance to local authorities, as I said in my statement, the guidance that we issue to local authorities is materially the same as the guidance issued to local authorities in England by the UK Government. That guidance was issued in March 2004, and authorities needed to have regard to it; it is still in force. The key passages from the guidance are that the annual investment strategy:

‘should set out the local authority’s policies for giving priority to the security and liquidity of its investments, rather than to the yield’.

Secondly, the investment should be:

‘with a body or in an investment scheme which has been awarded a high credit rating by a credit rating agency’.

In addition, in discharging its investment responsibility, an authority should follow two Chartered Institute of Public Finance and Accountancy best-practice documents, the ‘Prudential Code for Capital Finance in Local Authorities’ and the ‘Treasury Management in the Public Services: Code of Practice and Cross-Sectoral Guidance Notes’. The last point is that local authorities are supported by in-house professionals, along with input from external Treasury management experts, the sector Treasury management, Butlers and others. Therefore, there is clear guidance of which local authorities must take cognisance. This is issued to local authorities, so all their activities will be covered by it, irrespective of local authority function, whether it is education or something else. It has blanket coverage. My understanding is that it would be applied to every investment that a local authority would make.

On the issue that you raised about compensation, when I reported to the committee, I thought that my understanding was right. We are responsible as a Government—the Secretary of State said this

amserlen inni ynghylch y pwynt penodol hwnnw?

**Andrew Davies:** O ran canllawiau i awdurdodau lleol, fel y dywedais yn fy natganiad, mae’r canllawiau a gyflwynwn i awdurdodau lleol fwy neu lai yr un peth ag a gyflwynir i awdurdodau lleol yn Lloegr gan Lywodraeth y DU. Cyhoeddwyd y canllawiau hynny ym mis Mawrth 2004, ac yr oedd angen i awdurdodau roi sylw iddynt; maent yn dal mewn grym. Y darnau allweddol yn y canllawiau yw y dylai’r strategaeth fuddsoddi flynyddol:

amlinellu polisiau’r awdurdod lleol ar gyfer rhoi blaenoriaeth i fuddsoddiadau diogel a hylifol yn hytrach nag ar wneud elw.

Yn ail, dylid buddsoddi:

gyda chorff neu gynllun buddsoddi sydd â statws credyd uchel wedi’i roi iddo gan asiantaeth asesu statws credyd.

Yn ogystal â hynny, wrth gyflawni ei gyfrifoldeb o ran buddsoddi, dylai awdurdod lynu wrth ddwy ddogfen arferion gorau gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, y ‘Prudential Code for Capital Finance in Local Authorities’ a ‘Treasury Management in the Public Services: Code of Practice and Cross-Sectoral Guidance Notes’. Y pwynt olaf yw bod awdurdodau lleol yn cael eu cefnogi gan weithwyr proffesiynol mewnol, yn ogystal â mewnbyn gan arbenigwyr rheoli allanol y Trysorlys, rheolwyr y Trysorlys ar gyfer y sector, Butlers ac eraill. Felly, ceir canllawiau clir y mae’n rhaid i awdurdodau lleol roi sylw iddynt. Rhoddir y canllawiau hyn i awdurdodau lleol, ac felly bydd y canllawiau’n ymdrin â’u holl weithgarwch, ni waeth pa swyddogaeth gan awdurdod lleol yr ydych yn sôn amdano, boed hynny’n addysg neu’n rhywbeth arall. Maent yn berthnasol i’r cyfan ohonynt. Deallaf y byddent yn berthnasol i bob buddsoddiad y byddai awdurdod lleol yn ei wneud.

O ran y mater a godasoch ynghylch iawndal, pan adroddais i’r pwyllgor, credwn fod fy mod yn deall yn gywir. Fel Llywodraeth—dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol hyn mewn cyfweiliad i’r cyfryngau yr wythnos

in a media interview last week—for local government policy and finance, but the decisions of each local authority are entirely matters for them. They are sovereign bodies. That is why we have said clearly that we do not consider compensation to be appropriate. I am sorry, can you remind me of your final question?

3.00 p.m.

**Nick Bourne:** There were two other questions: the first was whether you had written to the finance directors of the relative 14 authorities, and the second was on the timescale for the tightening of the investment advice.

**Andrew Davies:** All local authorities have been contacted by us and by the Welsh Local Government Association. We have not had any indication that local authorities are experiencing difficulties. I was at the Welsh Local Government Association conference last week and this issue was not raised with me personally by any of the individual local authorities or by the WLGA separately. As I said in my statement, we do not believe that local authorities will experience any difficulties, and we hold to that belief. They have had the opportunity to raise these issues through us or through the WLGA.

On the timescale, as you have acknowledged, Nick, the current situation is fluid. Our first priority is to support the UK Government in its negotiations with the Icelandic Government to recover the assets. It is far too soon to say what the implication would be at this stage. As I said in my statement, we will keep Members informed of any developments.

**Irene James:** Caerphilly County Borough Council had £15 million invested in Icelandic banks. Many constituents have expressed their concerns to me about the effect that the loss of that money will have on crucial front-line services. The situation was made even worse this week when Lindsay Whittle, leader of Caerphilly County Borough Council, refused to address questions on the subject, preferring to hold his hands up and say that the issue had nothing to do with him,

diwethaf—yr ydym yn gyfrifol am bolisi a chyllid llywodraeth leol, ond materion iddynt hwy yn gyfan gwbl yw penderfyniadau pob un awdurdod lleol. Maent yn gyrff sofran. Dyna pam yr ydym wedi datgan yn glir nad ydym o'r farn bod iawndal yn briodol. Mae'n flin gennyf, a allwch fy atgoffa o'ch cwestiwn olaf?

**Nick Bourne:** Yr oedd dau gwestiwn arall: y cyntaf oedd a oeddech wedi ysgrifennu at gyfarwyddwyr cyllid y 14 awdurdod perthnasol, ac yr oedd yr ail yn ymwneud â'r amserlen ar gyfer tynhau'r cyngor ynghylch buddsoddi.

**Andrew Davies:** Yr ydym ni a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cysylltu â'r holl awdurdodau lleol. Nid ydym wedi cael dim awgrym bod awdurdodau lleol mewn trafferthion. Yr oeddwn yng nghynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yr wythnos diwethaf ac ni chodwyd y mater hwn gyda mi'n bersonol gan yr un o'r awdurdodau lleol na chan CLILC ar wahân. Fel y dywedais yn fy natganiad, nid ydym yn credu y bydd awdurdodau lleol yn cael anawsterau, ac yr ydym yn dal at y gred honno. Maent wedi cael cyfle i godi'r materion hyn drwom ni neu drwy CLILC.

Ynghylch yr amserlen, fel yr ydych wedi cydnabod, Nick, mae'r sefyllfa'n gyfnewidiol ar hyn o bryd. Ein prif flaenoriaeth yw cefnogi Llywodraeth y DU yn ei negodiadau â Llywodraeth Gwlad yr Iâ i adennill yr asedau. Mae'n rhy gynnar o lawer i ddweud beth fyddai'r goblygiadau ar hyn o bryd. Fel y dywedais yn fy natganiad, byddwn yn rhoi gwybod i'r Aelodau am unrhyw ddatblygiadau.

**Irene James:** Yr oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi buddsoddi £15 miliwn ym manciau Gwlad yr Iâ. Mae llawer o etholwyr wedi mynegi pryderon wrthyf ynghylch yr effaith a gaiff colli'r arian hwnnw ar wasanaethau rheng flaen hanfodol. Gwaethygyd y sefyllfa ymhellach byth yr wythnos hon pan wnaeth Lindsay Whittle, arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, wrthod ateb cwestiynau ar y testun, a chodi ei ddwylo yn lle hynny a dweud nad

blaming council officers. Andrew, do you not agree with me that this unprecedented financial crisis is a time for strong leadership, as shown by Gordon Brown on the international stage and the Welsh Assembly Government in Wales? Do you also agree that this 'Not me, gov' attitude from councillor Whittle is an example of poor leadership that we need to avoid at this difficult time?

**The Presiding Officer:** Order. When I spoke at the Welsh Local Government Association conference last week, I repeated my undertaking that I would always ensure that the autonomy of Welsh local government would be protected as long as I am Presiding Officer. Therefore, I remind the Minister that he is not responsible for councillor Lindsay Whittle—and neither am I.

**Andrew Davies:** It is clear that local authorities have to report to their constituents via their annual statement. It is a matter for each local authority to scrutinise elected members, including those with cabinet responsibility, and officials on their investment decisions. The appropriate scrutiny mechanisms are in place for every local authority to do that. As the Presiding Officer pointed out, it is not a matter for us as a Government to scrutinise those decisions. The first point is for members of Caerphilly council and other local authorities to interrogate and scrutinise their leadership, on whatever level that may be.

**Jenny Randerson:** Thank you for your statement, Minister. I have to preface my comments by expressing my amazement at the confusion in Government circles in the first day or so after this occurred. It surprised me to see that Ministers here did not realise that they had a responsibility for Welsh local government. I was also surprised to hear the Secretary of State say that this would have no impact on services or council tax levels. The outlook may have improved marginally since then, but it is obvious that, if there were to be a long-term seizure or a freezing of these assets, it would definitely have an impact on service levels and council tax levels.

oedd a wnelo'r mater ddim ag ef, gan roi'r bai ar swyddogion y cyngor. Andrew, oni chytunwch â mi fod yr argyfwng ariannol digyffelyb hwn yn adeg sy'n galw am arweiniad cadarn, fel y dangoswyd gan Gordon Brown ar y llwyfan rhyngwladol a chan Lywodraeth Cynulliad Cymru yng Nghymru? A ydych yn cytuno hefyd fod yr ymwrthod hwn ar ran y cynghorydd Whittle yn enghraifft o arweiniad gwael y mae angen inni ei osgoi yn y cyfnod anodd hwn?

**Y Llywydd:** Trefn. Pan siaredais yng nghynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yr wythnos diwethaf, ailadroddais yr addewid a wneuthum y byddwn bob amser yn sicrhau y câi ymreolaeth llywodraeth leol Cymru ei diogelu cyhyd ag y byddaf yn Llywydd. Felly, yr wyf yn atgoffa'r Gweinidog nad yw ef—na minnau—yn atebol dros y cynghorydd Lindsay Whittle.

**Andrew Davies:** Mae'n amlwg bod yn rhaid i awdurdodau lleol adrodd i'w hetholwyr drwy eu datganiad blynyddol. Mater i bob awdurdod lleol yw craffu ar y penderfyniadau a wnaiff aelodau etholedig, gan gynnwys y rhai sydd â chyfrifoldeb mewn cabinet, a swyddogion ynghylch buddsoddi. Mae mecanweithiau craffu priodol ar gael fel y gall pob awdurdod lleol wneud hynny. Fel y pwysleisiodd y Llywydd, nid mater i ni fel Llywodraeth yw craffu ar y penderfyniadau hynny. Y pwynt cyntaf yw bod gofyn i aelodau cyngor Caerffili ac awdurdodau lleol eraill holi eu harweinwyr a chraffu arnynt, ar ba lefel bynnag y gall hynny fod.

**Jenny Randerson:** Diolch i chi am eich datganiad, Weinidog. Cyn imi ddod at fy sylwadau, rhaid imi fynegi syndod at y dryswch a oedd yng nghyhoeddi Llywodraeth yn y diwrnodau cyntaf wedi i hyn ddigwydd. Synnais o weld nad oedd Gweinidogion yn y fan hon yn sylweddoli bod ganddynt gyfrifoldeb dros lywodraeth leol yng Nghymru. Synnais hefyd o glywed yr Ysgrifennydd Gwladol yn dweud na fyddai hyn yn effeithio ar wasanaethau neu ar lefelau'r dreth gyngor. Efallai fod y rhagolygon wedi gwella ychydig ers hynny, ond mae'n amlwg, pe câi'r asedau hyn eu hatafaelau neu eu rhewi dros y tymor hir, y byddai'n sicr o effeithio ar lefelau gwasanaethau a lefelau'r dreth gyngor.



Your statement, Minister, refers to the voluntary sector as well as to Government-funded sectors, but makes no reference to the private sector. Local authorities throughout Wales have contracts and partnerships with large private sector providers. This has had a considerable impact on the private sector, and there will be no short-term solution for it, I imagine. Have you made inquiries about whether any councils throughout Wales, or any of the other organisations referred to, have contracts that could be affected by the fact that their private sector partners have invested large amounts of money in Icelandic banks?

Secondly, have you made a calculation of the financial impact of the freezing of that money? It was invested for a purpose, namely to secure high levels of interest, and that interest is frequently used to deliver services immediately. It is bound to be the case that, in the short term if not the long term, there will be an impact on cash flow and services. To assess that impact, a calculation will need to be made. The calculation will need to be very different for one local authority that has £15 million invested in the banks compared with another that has only £1.2 million invested. However, it is important that we have some kind of assessment. If you have not already done it, will you undertake to do it?

You say that using capitalisation to enable an organisation to borrow or use capital receipts to bridge a revenue funding gap is 'one avenue for consideration', but that is a very vague commitment, Minister. Do we have your assurance that you will look positively on requests for capitalisation? There are Treasury rules on that which apply to us, are there not? This will have ramifications not only for the local authorities concerned, but for other local authorities, because it will have an impact on the limits that have been set. I can see the Minister for Social Justice and Local Government acknowledging that this is an issue. Therefore, I am interested in how you see yourself finding a way out of this issue. I am sure that it should be taken up tomorrow in the meeting with the Treasury. Capitalisation limits should be raised so that

Weinidog, mae eich datganiad yn cyfeirio at y sector gwirfoddol yn ogystal â sectorau a ariennir gan y Llywodraeth, ond nid yw'n cyfeirio at y sector preifat. Mae gan awdurdodau lleol ledled Cymru gontractau a phartneriaethau â darparwyr mawr yn y sector preifat. Mae hyn wedi effeithio'n sylweddol ar y sector preifat, ac ni fydd ateb tymor byr iddo, yr wyf yn tybio. A ydych wedi gwneud ymholiadau ynghylch a oes contractau y gallai'r ffaith bod eu partneriaid yn y sector preifat wedi buddsoddi symiau mawr o arian ym manciau Gwlad yr Iâ effeithio arnynt gan unrhyw gynghorau yng Nghymru, neu gan unrhyw un o'r cyrff eraill y cyfeiriwyd atynt?

Yn ail, a ydych wedi cyfrifo'r effaith ariannol o rewi'r arian hwnnw? Fe'i buddsoddwyd i ddiben penodol, sef sicrhau cyfraddau llog uchel, a defnyddir y llog hwnnw'n aml i gyflenwi gwasanaethau ar unwaith. Mae'n anorod y bydd effaith, yn y tymor byr os nad yn y tymor hir, ar lif arian a gwasanaethau. Er mwyn asesu'r effaith honno, bydd angen cyfrifo. Bydd angen i'r cyfrifiad fod yn wahanol iawn yn achos un awdurdod lleol sydd wedi buddsoddi £15 miliwn yn y banciau o'i gymharu ag un arall nad yw ond wedi buddsoddi £1.2 miliwn. Fodd bynnag, mae'n bwysig inni gael rhyw fath o asesiad. Os nad ydych wedi'i wneud eisoes, a wnewch addo'i wneud?

Yr ydych yn dweud bod defnyddio cyfalafu i alluogi corff i fenthycu neu ddefnyddio derbyniadau cyfalaf i gau bwlch o ran cyllid refeniw yn un dull o weithredu i'w ystyried, ond mae hwnnw'n ymrwymiad annelwig iawn, Weinidog. A wnewch ein sicrhau y byddwch yn edrych yn ffafriol ar geisiadau am gyfalafu? Mae rheolau gan y Trysorlys ynghylch hynny sy'n berthnasol i ni, onid oes? Bydd canlyniadau i hyn nid yn unig i'r awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig, ond i awdurdodau lleol eraill, gan y bydd yn effeithio ar y terfynau sydd wedi'u gosod. Gallaf weld y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn cydnabod bod hyn yn anhawster. Felly, mae o ddiddordeb imi wybod sut yr ydych yn rhagweld y byddwch yn datrys yr anhawster hwn. Yr wyf yn sicr y dylid ei godi yfory yn

local authorities can bridge this gap.

You also said that, once money has been invested, it cannot be recovered until the maturity date. However, I am assured that, in some cases, local authorities have been able to recover their money early because they were concerned about the situation in Icelandic banks over a considerable number of months. Have your officials carried out any investigation as to whether local authorities or other organisations referred to took steps to try to secure their money when it became obvious that there was a problem?

Finally, will you and the rest of the Assembly Government give a firm commitment to encouraging the Treasury to rewrite its rules? There is a lack of commitment here as to whether that is necessary, but it is clearly necessary in the light of experience. I am sure that, as taxpayers, we would all welcome an assurance that there will be a Government commitment to rewriting those rules.

**Andrew Davies:** You can always rely on Jenny Randerson and the Liberal Democrats to come forward with some rather fake concern about an issue. There was absolutely no confusion in Government. We were very clear right from the beginning, and Brian Gibbons, the First Minister and I have all been closely involved in this issue. We were in quick contact with the Welsh Local Government Association and individual local authorities. On Friday, at the WLGA conference, I met Paul Murphy, Secretary of State for Wales, and I spoke to him on the phone later that day to keep abreast of the situation. The First Minister had already spoken to the Secretary of State, and so we were keeping abreast of the issue. We are clear as to where our responsibilities lie; nevertheless, we have made it very clear, with the Welsh Local Government Association and individual authorities, that we stand ready to help them where appropriate and within our powers and responsibility.

y cyfarfod â'r Trysorlys. Dylid codi mater y terfynau ar gyfalafu fel y gall awdurdodau lleol gau'r bwlch hwn.

Dywedasoch hefyd na ellir adennill arian, ar ôl ei fuddsoddi, tan y dyddiad aeddfedu. Fodd bynnag, yr wyf wedi cael fy sicrhau bod awdurdodau lleol, mewn rhai achosion, wedi gallu adennill eu harian yn gynnar am eu bod yn bryderus ynghylch y sefyllfa ym manciau Gwlad yr Iâ dros gryn nifer o fisoedd. A yw eich swyddogion wedi ymgymryd ag unrhyw ymchwiliad ynghylch a gymerwyd camau gan awdurdodau lleol a chyrrff eraill y cyfeiriwyd atynt i geisio sicrhau eu harian pan ddaeth yn amlwg bod problem?

Yn olaf, a wnewch chi a gweddill Llywodraeth y Cynulliad ymrwymo'n gadarn i annog y Trysorlys i ailysgrifennu ei reolau? Mae diffyg ymrwymiad yma ynghylch a yw hynny'n angenrheidiol, ond mae'n amlwg ei fod yn angenrheidiol yng ngoleuni profiad. Yr wyf yn siŵr y byddem oll, fel trethdalwyr, yn falch o gael sicrwydd y bydd ymrwymiad gan y Llywodraeth i ailysgrifennu'r rheolau hynny.

**Andrew Davies:** Gallwch ddibynnu ar Jenny Randerson a'r Democratiaid Rhyddfrydol bob amser i godi rhyw destun pryder ffug braidd ynghylch mater sydd dan sylw. Nid oedd dim dryswch o gwbl yn y Llywodraeth. Yr oeddem yn glir iawn o'r dechrau un ac mae Brian Gibbons, y Prif Weinidog a minnau wedi bod yn ymwneud yn fanwl â'r mater hwn. Aethom i gysylltiad yn fuan â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol penodol. Ddydd Gwener, yng nghynhadledd CLILC, cyfarfûm â Paul Murphy, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a siaredais ag ef dros y ffôn yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw i gael gwybod am y datblygiadau diweddaraf. Yr oedd y Prif Weinidog eisoes wedi siarad â'r Ysgrifennydd Gwladol, ac felly yr oeddem yn cael gwybod am y datblygiadau diweddaraf ynghylch y mater. Yr ydym yn glir ynghylch lle y mae ein cyfrifoldebau; er hynny, yr ydym wedi'i gwneud yn glir iawn, o ran Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau unigol, ein bod yn barod i'w helpu os yw hynny'n briodol ac yn unol â'n pwerau a'n cyfrifoldeb.

3.10 p.m.

We made a statement about there being no impact on council tax levels or services because the local authorities affected told us that that was the case. They do not foresee an impact. As I said in my reply to a question from Nick Bourne, we want to work with the UK Government to repatriate those frozen assets from the various financial institutions in Iceland, and we will continue to do so. Until that issue has been resolved, it is far too premature to analyse what the impact will be. We have been working with the WLGA to look at the immediate financial exposure, and we will work with it to identify the longer term exposure.

We will explore the impact on the private sector in an economic summit on Thursday, which will be chaired by the First Minister, and the Deputy First Minister and I will also be there. It is an opportunity for us to get soundings and information from the private sector.

You raised the issue of capitalisation, and, as I said in my statement, it is one avenue for consideration to enable an organisation to borrow or use capital receipts to bridge a revenue funding gap. The temporary advancement of grant funding streams, which could include the revenue support grant, could be another avenue. Therefore, there are options that we can explore as a Government to help to alleviate any short-term problems that local authorities may have.

You made a point about local authorities seeking the recovery of their money or assets from Icelandic banks early, but we have to beware of the difference between rhetoric and reality. For one or more of them, it could well be that the term of their borrowing had expired and, therefore, it was not a question of recovering early but a case of the term of the loan ending and the investment being moved to other areas.

On the Treasury rules, my colleague, Brian Gibbons, will attend the meeting in London

Gwnaethom ddatganiad ynghylch y ffaith nad oedd dim effaith ar lefelau'r dreth gyngor neu wasanaethau am fod yr awdurdodau lleol yr effeithiwyd arnynt wedi dweud wrthym mai felly yr oedd. Nid ydynt yn rhagweld y bydd effaith. Fel y dywedais yn fy ateb i gwestiwn gan Nick Bourne, yr ydym am gydweithio â Llywodraeth y DU i adennill yr asedau hynny sydd wedi'u rhewi gan y gwahanol sefydliadau ariannol yng Ngwlad yr Iâ, a byddwn yn dal i wneud hynny. Nes i'r mater hwnnw gael ei ddatrys, mae'n rhy gynnar o lawer i ddadansoddi'r effaith a geir. Yr ydym wedi bod yn cydweithio â CLILC i edrych ar yr effaith ariannol bresennol, a byddwn yn cydweithio â hi i ganfod yr effaith yn y tymor hwy.

Byddwn yn ymchwilio i'r effaith ar y sector preifat mewn uwchgynhadledd economaidd ddydd Iau, a fydd dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog, a bydd y Dirprwy Brif Weinidog a minnau yno hefyd. Mae'n gyfle inni gael barn a gwybodaeth gan y sector preifat.

Codasoch fater cyfalafu ac, fel y dywedais yn fy natganiad, mae'n un dull o weithredu i'w ystyried i alluogi corff i fentyca neu ddefnyddio derbyniadau cyfalaf i gau bwlch o ran cyllid refeniw. Dull gweithredu posibl arall yw rhagdalau ffrydiau ariannu grant dros dro, a allai gynnwys y grant cynnal refeniw. Felly, mae dewisiadau y gallwn eu hystyried fel Llywodraeth i helpu i liniaru unrhyw broblemau tymor byr sydd gan awdurdodau lleol efallai.

Gwnaethoch bwynt ynghylch awdurdodau lleol yn ceisio adennill eu harian neu eu hasedau'n gynnar gan fanciau yng Ngwlad yr Iâ, ond rhaid inni fod yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng rhethreg a realiti. Yn achos un neu ragor ohonynt, mae'n ddigon posibl bod cyfnod eu benthyciad wedi dod i ben ac, felly, nad oedd yn fater o'i adennill yn gynnar ond yn achos lle'r oedd cyfnod y benthyciad yn dod i ben a'r buddsoddiad yn cael ei symud i leoedd eraill.

Ynghylch rheolau'r Trysorlys, bydd fy nghyd-Weinidog, Brian Gibbons, yn

tomorrow and will discuss all these issues with colleagues from the Treasury and the Department for Communities and Local Government.

**David Lloyd:** I thank the Minister for his statement. I commend the nature of it and all the work that is going on behind the scenes with the UK Government to try to push the issue forward. I would be grateful for confirmation of a couple of points. As I understand it—and it is certainly the belief held by our local authorities—the Icelandic banks at the heart of this crisis were given the highest rating of investment security by the UK Government’s risk management assessment. That was certainly the belief of Neath Port Talbot Council, which currently has £20 million of its assets frozen in banks in Iceland and Icelandic-owned banks in the UK. It made that investment only because the Treasury gave those banks the highest clearance. I would be grateful for confirmation of that.

Naturally, among constituents, the concern is about the moneys frozen. From the statements that I have heard—certainly from you, Minister—it is clear that the Assembly’s block grant does not allow for contingency funds to cope with huge, unforeseen emergencies such as this fiscal crisis, which has rocked economies across the globe. That being the case, I would value confirmation of certain points. Is it your belief that contingency funds are a UK Treasury matter, with no Barnett consequential at the moment to us?

Do you agree that, in terms of any agreements fostered by the UK Treasury with Icelandic Government sources, if councils in England are being bailed out by the Treasury, councils in Wales should similarly be bailed out? Will you and Brian Gibbons push for that? I would be grateful for that confirmation.

**Andrew Davies:** On the first point, it is not the UK Government or the Treasury that carries out the credit rating of these financial institutions; it is credit rating agencies. There

bresennol yn y cyfarfod yn Llundain yfory a bydd yn trafod yr holl faterion hyn gyda chydweithwyr o’r Trysorlys a’r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol.

**David Lloyd:** Diolchaf i’r Gweinidog am ei ddatganiad. Cymeradwyaf ei natur a’r holl waith sy’n mynd ymlaen yn y cefndir gyda Llywodraeth y DU i geisio bwrw ymlaen â’r mater. Byddwn yn ddiolchgar o gael cadarnhad ynghylch un neu ddau o bwyntiau. Yn ôl a ddeallaf—a dyma gred ein hawdurdodau lleol, yn sicr—yr oedd y banciau yng Ngwlad yr Iâ sydd yng nghanol yr argyfwng hwn wedi cael y sgôr uchaf ar gyfer diogelwch buddsoddi yn asesiad rheoli risg Llywodraeth y DU. Dyna’n sicr oedd cred cyngor Castell-nedd Port Talbot, y mae gwerth £20 miliwn o’i asedau wedi’i rewi ar hyn o bryd mewn banciau yng Ngwlad yr Iâ ac mewn banciau sydd dan berchenogaeth rhai yng Ngwlad yr Iâ yn y DU. Dim ond am fod y Trysorlys wedi clirio’r banciau hynny i’r graddau mwyaf y gwnaeth y buddsoddiad hwnnw. Byddwn yn ddiolchgar o gael cadarnhad o hynny.

Wrth gwrs, ymysg etholwyr, mae’r pryder ynghylch yr arian sydd wedi’i rewi. Yn ôl y datganiadau yr wyf wedi’u clywed—gennyh chi’n sicr, Weinidog—mae’n amlwg nad yw grant bloc y Cynulliad yn darparu ar gyfer cronfeydd wrth gefn i ymdopi ag amgylchiadau brys ar raddfa anferth nas rhagwelwyd fel yr argyfwng cyllidol hwn, sydd wedi siglo economïau ar draws y byd. Gan ei bod felly, byddwn yn falch o gael cadarnhad ynghylch rhai pwyntiau. A ydych yn credu bod cronfeydd wrth gefn yn fater i Drysorlys y DU, heb ddim swm canlyniadol dan fformiwla Barnett i ni ar hyn o bryd?

A gytunwch, o ran unrhyw gytundebau a grëir gan Drysorlys y DU â ffynonellau Llywodraeth Gwlad yr Iâ, os yw cynghorau yn Lloegr yn cael eu hachub gan y Trysorlys, y dylai cynghorau yng Nghymru gael eu hachub hefyd? A fyddwch chi a Brian Gibbons yn pwyso am hynny? Byddwn yn ddiolchgar am y cadarnhad hwnnw.

**Andrew Davies:** O ran y pwynt cyntaf, nid Llywodraeth y DU na’r Trysorlys sy’n asesu statws credyd y sefydliadau ariannol hyn, ond yr asiantaethau asesu statws credyd. Mae

are several of those agencies, for example Standards and Poors, Moody's, and Fitch. Moody's and Fitch assessed all three Icelandic banks. What was a common feature of the ratings was a sudden and stark reduction of their credit rating in September and October of this year. For example, Moody's gave all three banks an 'A' rating in February of this year, which was an above average grade, meaning relatively low risk. However, there was then, as I said, a marked decline in the credit rating of all three credit rating agencies in September and October of this year. I can write to you to give details if that would be helpful.

On your second question on contingency, either I or Brian Gibbons will write to you on that following the meeting tomorrow when we have had clarification on these issues.

**Alun Cairns:** I thank the Minister for his statement, which has clarified the situation, particularly following the comments of the Secretary of State for Wales, who said that, as local government is devolved, any funding issues fall to the responsibility of the Assembly Government.

I accept one point in your statement, Minister, namely that which states that the amount of money that has been lost as a result of the situation with the Icelandic organisations forms a comparatively small proportion of the total amount of money that local authorities have invested in the banking system. However, let us not forget that it is unlikely that those local authorities that are exposed in this way will have invested elsewhere, therefore, the impact on those local authorities that have invested in these organisations will be significant.

I underline that significance by stating that one local authority last year negotiated an increase in its budget of £2 million. That brings into perspective the scale of the potential loss to Neath Port Talbot of £20 million. The increase negotiated in its budget last year was nowhere near that sort of figure, and that makes us realise what these large sums of money mean. Does this not raise questions with regard to your budgeting for

amryw o'r asiantaethau hynny, er enghraifft Standards a Poors, Moody's, a Fitch. Asesodd Moody's a Fitch statws pob un o'r tri banc yng Ngwlad yr Iâ. Nodwedd gyffredin i statws pob un oedd gostyngiad disymwth hollol yn eu statws credyd ym mis Medi a Hydref eleni. Er enghraifft, rhoddodd Moody's statws 'A' i'r tri banc ymi mis Chwefror eleni, sef statws uwch na'r cyffredin, ac yn golygu risg gymharol isel. Fodd bynnag, wedi hynny, fel y dywedais, cafwyd gostyngiad sydyn iawn yn statws credyd pob un o'r tair asiantaeth asesu statws credyd ym mis Medi a Hydref eleni. Gallaf ysgrifennu atoch i roi manylion pe bai hynny o gymorth ichi.

O ran eich ail gwestiwn ynghylch cronfeydd wrth gefn, byddaf fi neu Brian Gibbons yn ysgrifennu atoch ynghylch hynny ar ôl y cyfarfod yfory pan fydd y materion hyn yn fwy eglur inni.

**Alun Cairns:** Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad, sydd wedi egluro'r sefyllfa, yn enwedig wedi sylwadau Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a ddywedodd, gan fod llywodraeth leol wedi'i datganoli, fod unrhyw broblemau cyllid yn dod yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y Cynulliad.

Yr wyf yn derbyn un pwynt yn eich datganiad, Weinidog, sef yr un sy'n dweud bod yr arian sydd wedi'i gollu o ganlyniad i'r sefyllfa gyda'r sefydliadau yng Ngwlad yr Iâ yn gyfran gymharol fach o'r holl arian sydd wedi'i fuddsoddi gan awdurdodau lleol yn y system fancio. Fodd bynnag, dylem gofio nad yw'n debygol bod yr awdurdodau lleol hynny sy'n wynebu'r broblem hon wedi buddsoddi yn rhywle arall, felly bydd yr effaith ar yr awdurdodau lleol hynny sydd wedi buddsoddi yn y sefydliadau hyn yn sylweddol.

Hoffwn danlinellu pwysigrwydd hynny drwy ddweud bod un awdurdod lleol y llynedd wedi negodi cynnydd yn ei gyllideb o £2 filiwn. Mae hynny'n rhoi maint y gollod bosibl i Gastell-nedd Port Talbot, sef £20 miliwn, mewn persbectif. Nid oedd y cynnydd a gafodd ei negodi yn ei gyllideb y llynedd yn agos at y ffigur hwnnw, a sylweddolwn felly beth y mae'r arian mawr hwn yn ei olygu. Onid yw hyn yn codi

the next financial year, Minister, in terms of where you have slashed your reserves? Even at this stage, we may be in a position where calls are being made on that level of reserves because of the uncertainties of the credit crunch and of the probable recession.

**Andrew Davies:** On your point about the Secretary of State, there is absolutely no difference in what Paul Murphy said and what we have said. Paul Murphy quite correctly said that he was misinterpreted or that there had been selective quotation by parts of the media. What he said was that local government policy and the funding of local government is clearly a devolved matter, and it is therefore a matter for the Assembly Government. The point that we are making, which is the point that I have made in my statement, is that that is different from saying that we are then liable to provide local authorities with compensation.

You make the point about the exposure of individual local authorities; again, those are matters for the democratically elected representatives, under the normal scrutiny process, of local authorities. The fact that Neath Port Talbot had £20 million invested in the Icelandic banks is a matter for Neath Port Talbot—it was its investment decision. Local authorities work within the guidance that we issue, but, nevertheless, these decisions are a matter for the local authority. For the life of me, I cannot see how it relates to the funding that it receives from us. The sum of £20 million is a substantial amount of money, but the question should be asked of Neath Port Talbot County Borough Council, not of us.

3.20 p.m.

**Alun Davies:** Thank you, Minister, for your statement. I think that many people, both here and across Wales, will welcome the statement that you have made this afternoon and some of the assurances that you have been able to give us. You will be aware, Minister, that some local authorities in Mid and West Wales—Powys and Ceredigion—as well as Dyfed-Powys Police Authority have

cwestiynau ynghylch eich cyllidebu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, Weinidog, o ran lle'r ydych wedi cwtdogi eich arian wrth gefn? Hyd yn oed yn awr, efallai ein bod wedi cyrraedd y pwynt lle y mae galw am y lefel honno o arian wrth gefn oherwydd yr ansicrwydd yn sgîl y wasgfa greddyd a'r dirwasgiad tebygol.

**Andrew Davies:** O ran eich pwynt ynghylch yr Ysgrifennydd Gwladol, nid oes dim gwahaniaeth o gwbl rhwng yr hyn a ddywedodd Paul Murphy a'r hyn yr ydym ni wedi'i ddweud. Dywedodd Paul Murphy yn gwbl gywir ei fod wedi'i gamddeall neu fod rhai yn y cyfryngau wedi dethol ei eiriau. Yr hyn a ddywedodd oedd bod polisi llywodraeth leol a chyllid llywodraeth leol yn amlwg yn fater datganoledig, ac felly'n fater i Lywodraeth y Cynulliad. Y pwynt yr ydym ni'n ei wneud, sef y pwynt a wneuthum yn fy natganiad, yw bod hynny'n wahanol i ddweud ein bod ni wedyn yn rhwym o dalu iawndal i awdurdodau lleol.

Gwnaethoch y pwynt ynghylch y trafferthion y mae awdurdodau lleol unigol ynddynt; eto, materion i'r cynrychiolwyr sy'n cael eu hethol yn ddemocrataidd i awdurdodau lleol yw'r rheini, o dan y broses graffu arferol. Mater i Gastell-nedd Port Talbot yw bod Castell-nedd Port Talbot wedi buddsoddi £20 miliwn ym manciau Gwlad yr Iâ—eu penderfyniad buddsoddi hwy ydoedd. Mae awdurdodau lleol yn gweithio o fewn y canllawiau yr ydym ni'n eu rhoi iddynt, ond, er hynny, penderfyniadau i'r awdurdod lleol yw'r rhain. Yn fy myw, ni allaf weld sut y mae'n berthnasol i'r cyllid y maent yn ei gael gennym ni. Mae £20 miliwn yn swm sylweddol o arian, ond cwestiwn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yw hwn, nid i ni.

**Alun Davies:** Diolch, Weinidog, am eich datganiad. Credaf y bydd llawer o bobl, yma ac ar draws Cymru, yn croesawu'r datganiad yr ydych wedi'i wneud y prynhawn yma a pheth o'r sicrwydd yr ydych wedi gallu ei roi inni. Byddwch yn ymwybodol, Weinidog, fod rhai awdurdodau lleol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru—Powys a Cheredigion—yn ogystal ag Awdurdod Heddlu Dyfed-

been caught up in this terrible international crisis. In many ways, the fact that these banks have gone bust and that these investments have been affected has really brought the credit crunch home to people. The potential loss of local services and the way in which local services might be affected has crystallised a lot of these issues for people.

I welcome the discussions that you have been having, as an Assembly Government, with the local authorities and the UK Treasury—many other people have also welcomed that. I hope, Minister, that you will be able to give us further assurances this afternoon that you will be able to keep us updated on the progress of your discussions with local government and the UK Treasury, and that the Minister for Social Justice and Local Government will be able to report back to the Assembly on the discussions that he will be having in London tomorrow. At the moment, there is a great deal of confidence about the way in which this potential crisis is being handled by the Welsh Assembly Government. The key thing for many of us who represent authorities that have been affected by this is that we continue to have high levels of information to enable us to continue to provide reassurances wherever possible.

**The Minister for Finance and Public Service Delivery (Andrew Davies):** Thank you for your comments, Alun. We moved very quickly as a Government—individually and collectively—as soon as we were aware of the problem. I think that we have acted as a responsible Government, not least in being open to scrutiny on this issue. Brian Gibbons and I issued a written statement last week, I am giving an oral statement today, and I have outlined other actions in my statement.

On your point about the impact on local authorities—and I will repeat this because it has been raised by other Members—the information that we have from individual local authorities and the Welsh Local Government Association is that they do not currently foresee that the situation will have a

Powys, yng nghanol yr argyfwng rhyngwladol ofnadwy hwn. Mewn llawer o ffyrdd, mae'r ffaith bod y banciau hyn wedi methu a bod hynny wedi effeithio ar y buddsoddiadau hyn wedi gwneud pobl yn ymwybodol iawn o'r wasgfa gredyd. Mae'r posibilrwydd y gellir colli gwasanaethau lleol a'r modd y gallai effeithio ar wasanaethau lleol wedi crisialu llawer o'r materion hyn i bobl.

Yr wyf yn croesawu'r trafodaethau yr ydych wedi eu cynnal, fel Llywodraeth y Cynulliad, â'r awdurdodau lleol a Thrysorlys y DU—mae llawer o bobl eraill wedi croesawu hynny hefyd. Gobeithio, Weinidog, y byddwch yn gallu rhoi sicrwydd pellach inni y prynhawn yma y byddwch yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni'n gyson ynghylch cynnydd eich trafodaethau â llywodraeth leol a Thrysorlys y DU, ac y bydd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn gallu adrodd yn ôl i'r Cynulliad ar y trafodaethau y bydd yn eu cael yn Llundain yfory. Ar hyn o bryd, mae gan bobl gryn hyder yn y ffordd y mae'r argyfwng posibl hwn yn cael ei drin gan Lywodraeth y Cynulliad. Y peth allweddol i lawer ohonom sy'n cynrychioli awdurdodau yr effeithiwyd arnynt gan hyn yw ein bod yn parhau i dderbyn lefelau uchel o wybodaeth i'n galluogi i barhau i dawelu meddyliau pobl pan fydd hynny'n bosibl.

**Y Gweinidog dros Gyllid a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies):** Diolch am eich sylwadau, Alun. Symudasom yn gyflym iawn fel Llywodraeth—yn unigol ac ar y cyd—cyn gynted ag y cawsom wybod am y broblem. Credaf ein bod wedi ymddwyn fel Llywodraeth gyfrifol, yn enwedig drwy fod yn agored i gael ein craffu ar y mater hwn. Gwnaeth Brian Gibbons a minnau ddatganiad ysgrifenedig yr wythnos diwethaf, yr wyf yn gwneud datganiad llafar heddiw, ac yr wyf wedi sôn am gamau eraill yn fy natganiad.

O ran eich pwynt ynghylch yr effaith ar awdurdodau lleol—ac yr wyf am ailadrodd hyn oherwydd y mae Aelodau eraill wedi codi'r mater—y wybodaeth a gawsom gan awdurdodau lleol unigol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yw nad ydynt ar hyn o bryd yn rhagweld y bydd y sefyllfa'n

material impact on services and jobs, their ability to employ people and to pay their employees, or on council tax levels in the future. We can only go on the information that they have provided. They are sovereign bodies—they have their own mandate—and if they are telling us that they do not see there being any immediate impact then, obviously, we have to go on the information that they have provided. Nevertheless, we still think that the best way forward is to work with the UK Government on the recovery of those assets until the issue is resolved. As I said earlier, it is far too premature to talk about any impact on services or helping local authorities in any financial matter. Having said that, we stand ready to do so, if and when they tell us that they have problems.

**Nick Ramsay:** I thank you for your statement, Minister, and concur with many of the sentiments expressed by other Assembly Members. A statement was clearly needed. Whether or not it was the case, there was a perception at least, in some quarters, when the situation came to a head last week, that there was a certain amount of drift on this issue. I take on board what you are saying, that the Treasury and Westminster are primarily responsible in terms of the funding situation, but we have an Assembly Government here and a Minister for local government, and you are in charge of public services. Therefore, we thank you for the statement, which has been helpful.

On the substance of the statement that has been issued, it mentions the Welsh third sector and organisations that are likely to be affected. The statement says that most of them will not be affected by this and, therefore, by implication, some will. Could you give us some indication as to the exact extent to which you think that sector is likely to be affected.

I totally take on board what you said about there being no straight read across between frozen deposits and reserves. One thing that came across last weekend is just how little a lot of the public and a lot of the people involved in this situation understand the extent to which local government handles its

cael effaith fawr ar wasanaethau a swyddi, eu gallu i gyflogi pobl ac i dalu i'w gweithwyr, nac ychwaith ar lefelau'r dreth gyngor yn y dyfodol. Ni allwn wneud dim ond dibynnu ar y wybodaeth a gawsom ganddynt. Maent yn gyrff sofran—mae ganddynt eu mandad eu hunain—ac os ydynt yn dweud wrthym nad ydynt yn rhagweld effaith yfory nesaf, yna, yn amlwg, rhaid inni weithredu yn ôl y wybodaeth a roesant inni. Er hynny, credaf mai'r ffordd orau ymlaen yw gweithio gyda Llywodraeth y DU ynghylch adennill yr asedau hynny nes caiff y mater ei ddatrys. Fel y dywedais yn gynharach, mae'n llawer rhy fuan i siarad am unrhyw effaith ar wasanaethau neu helpu awdurdodau lleol mewn unrhyw fater ariannol. Wedi dweud hynny, yr ydym yn barod i wneud hynny, os byddant yn dweud wrthym fod ganddynt broblemau, a phan ddywedant hynny.

**Nick Ramsay:** Diolch ichi am eich datganiad, Weinidog, ac yr wyf yn cytuno â llawer o'r hyn sydd wedi'i ddweud gan Aelodau eraill o'r Cynulliad. Yn amlwg, yr oedd angen datganiad. Pan un a oedd hynny'n wir ai peidio, yr argraff o leiaf, gan rai pobl, pan ddatblygodd y sefyllfa yr wythnos diwethaf, oedd bod rhywfaint o anwladu ar y mater hwn. Yr wyf yn derbyn yr hyn yr ydych yn ei ddweud, mai'r Trysorlys a San Steffan sy'n bennaf cyfrifol o ran y sefyllfa'n ymwneud â chyllid, ond mae gennym Lywodraeth y Cynulliad yma a Gweinidog dros lywodraeth leol, a chi sy'n gyfrifol am wasanaethau cyhoeddus. Felly, diolch am y datganiad, sydd wedi bod o gymorth.

O ran sylwedd y datganiad a wnaethpwyd, mae'n sôn am y trydydd sector yng Nghymru a'r mudiadau y mae'n debygol yr effeithir arnynt. Mae'r datganiad yn dweud na fydd hyn yn effeithio ar y rhan fwyaf ohonynt ac, felly, ymhlyg yn hynny, yr effeithir ar rai. A allwch roi rhywfaint o syniad inni ynghylch faint o effaith y mae hyn yn debygol o'i chael ar y sector hwnnw.

Yr wyf yn derbyn yn llwyr yr hyn a ddywedasoch o ran nad oes cysylltiad syml rhwng y cyfrifon sydd wedi eu rhewi a'r arian wrth gefn. Un peth a ddaeth yn glir yr wythnos diwethaf oedd cyn lleied y mae llawer o'r cyhoedd a llawer o'r rhai sydd wedi eu dal yn y sefyllfa hon yn ei ddeall am



cash flow and reserves. It is situations like this that highlight that sort of issue. I have been contacted by many constituents that were confused by the fact that there was any money in Icelandic banks or their subsidiaries. I am sure that you will agree, Minister, that local authorities have done nothing wrong in the way in which they have been managing their finances—and I fully take on board what you said about their being sovereign—nonetheless, the Welsh Assembly Government issues guidelines to local authorities. You were asked earlier whether you would consider elaborating on the guidelines that are currently in place, and I would welcome your doing that.

Perhaps it is because of my cold or my hearing, but I did not catch the point that you made about the revenue support grant, which you mentioned in your answer to an earlier question, and the potential of using it to mitigate the situation. If you could expand on that, I would be grateful.

Finally, I am pleased that partnership is the key word here and that you have been liaising with the Welsh Local Government Association. I ask you to continue to do that and to report back to us as frequently as possible on the unfolding situation, and also on whether you expect any surprises. From the tone of your statement, it is clear that you believe that the scale of the problem is known to all intents and purposes. For instance, you do not believe that the national health service has been affected. I would be grateful if you could quantify that, and state whether there are any surprises lurking around the corner, the potential of which people here should at least be aware of.

**Andrew Davies:** I am not sure about the semantics of the last point. If I know that they are around the corner, they are not going to be a surprise.

I want to nail this issue about drift. The first that we were even vaguely aware of any issue was on Wednesday evening, when the matter became public knowledge. Brian Gibbons was in north Wales, and I was chairing a meeting of the Welsh Local Government

sut y mae llywodraeth leol yn trin ei llif arian a'i harian wrth gefn. Sefyllfaoedd fel hyn sy'n dod â hynny i'r amlwg. Mae amryw o'm hetholwyr wedi cysylltu â mi i fynegi eu dryswch gyda'r ffaith bod unrhyw arian ym manciau Gwlad yr Iâ neu eu his-gwmnïau. Yr wyf yn siŵr y cytunwch, Weinidog, nad yw awdurdodau lleol wedi gwneud dim byd o'i le o ran y ffordd y maent wedi rheoli eu harian—ac yr wyf yn derbyn yn llwyr yr hyn a ddywedasoeh ynghylch eu bod yn gyrrff sofran—er hynny, mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi canllawiau i awdurdodau lleol. Gofynnwyd ichi'n gynharach a fyddech yn ystyried ymhelaethu ar y canllawiau presennol, a byddwn yn croesawu pe gallech wneud hynny.

Efallai mai fy annwyd yw'r drwg, neu fy nghlyw, ond ni chlywais yn iawn yr hyn a ddywedasoeh am y grant cynnal refeniw, y soniasoeh amdano wrth ateb cwestiwn yn gynharach, a'r posibilrwydd y gallai gael ei ddefnyddio i liniaru'r sefyllfa. Pe gallech ymhelaethu ynghylch hynny, byddwn yn ddiolchgar.

I gloi, yr wyf yn falch mai partneriaeth yw'r gair allweddol yn hyn a'ch bod wedi cynnal trafodaethau â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Hoffwn ofyn ichi barhau i wneud hynny ac adrodd yn ôl inni mor aml ag sy'n bosibl ynghylch sut y mae pethau'n datblygu, a hefyd a ydych yn meddwl y bydd unrhyw beth annisgwyl yn codi. Yn ôl tôn eich datganiad, mae'n glir eich bod yn credu bod maint y broblem yn wybyddus fwy neu lai. Er enghraifft, nid ydych yn credu ei bod wedi effeithio ar y gwasanaeth iechyd gwladol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech fanylu ynghylch hynny, a dweud a oes unrhyw beth annisgwyl yn debygol o godi'i ben, oherwydd dylai pobl yn y fan hon fod yn ymwybodol o hynny o leiaf.

**Andrew Davies:** Nid wyf yn siŵr ynghylch semanteg y pwynt diwethaf. Os wyf yn gwybod bod rhywbeth am godi'i ben, ni fydd yn annisgwyl.

Yr wyf am roi taw ar y pwynt hwn ynghylch anwadalau. Y tro cyntaf y cawsom hyd yn oed awgrym bod problem oedd nos Fercher, pan ddaeth yn wybodaeth gyhoeddus. Yr oedd Brian Gibbons yng ngogledd Cymru, ac yr oeddwn innau'n cadeirio cyfarfod o fforwm

Association's consultative forum on finance. It was not raised there. Members cannot have it both ways. If local authorities have devolved responsibility for the management of their own financial affairs, they are responsible for that. We cannot be responsible for it. To make us responsible would alter the whole constitutional relationship with local government.

As soon as we were aware of the issue, we followed it up with the First Minister, and the Minister for Social Justice and Local Government and I have raised it in various ways with the Treasury and the UK Government, including the Wales Office. On Friday, when we had greater clarity on the situation, Brian Gibbons and I issued a statement. Everything else that I have said has followed on from that.

On the issue of the voluntary sector, again, we can only go on what we have been told. The Welsh Council for Voluntary Action is of the view that few Welsh organisations are likely to be affected by the collapse—that is the phrase that it has used. By that, it means the relatively smaller, Welsh-based voluntary organisations or charities. That is not to say that larger charities based in London or elsewhere in the UK that have operations in Wales will be unaffected. At the moment, we do not know what the impact on those will be.

You said that many people will be surprised about local government investments. The figures that I have quoted are not all reserves. Some are the reserves of local authorities; others are normal cash management arrangements on the revenue side. Clearly, where appropriate, it is a prudent use of resources to invest them to get a return that could be recycled into front-line services. However, this reflects the fact that the financial services sector, probably more than any other, is truly global in its reach. This is another factor that, along with the wider credit crunch, will make people aware of how global the world economy now is.

ymgynghorol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyllid. Ni chafodd ei godi yno. Ni thycia i Aelodau ddadlau o ddau safbwynt gwahanol yr un pryd. Os oes gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb datganoledig dros reoli eu materion ariannol eu hunain, nhw sy'n gyfrifol am hynny. Ni allwn ni fod yn gyfrifol am hynny. Byddai ein gwneud yn gyfrifol yn newid yr holl berthynas gyfansoddiadol â llywodraeth leol.

Cyn gynted ag y daethom i wybod am y mater, aethom at y Prif Weinidog, a'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ac yr wyf wedi codi'r mater mewn amrywiol ffyrdd â'r Trysorlys a Llywodraeth y DU, gan gynnwys Swyddfa Cymru. Ddydd Gwener, pan ddaeth y sefyllfa'n gliriach, gwneuthum i a Brian Gibbons ddatganiad. Mae popeth arall yr wyf wedi'i ddweud wedi dilyn hynny.

Ynghylch y sector gwirfoddol, eto, ni allwn wneud dim ond dibynnu ar yr hyn a ddywedwyd wrthym. Barn Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yw mai ychydig iawn o fudiadau yng Nghymru y bydd y trychineb yn debygol o effeithio arnynt—dyna'r geiriau a ddefnyddiodd. Wrth ddweud hynny, mae'n golygu'r mudiadau gwirfoddol neu'r elusennau cymharol fach a leolir yng Nghymru. Nid yw'n golygu nad effeithir ar yr elusennau mwy a leolir yn Llundain neu mewn rhannau eraill o'r DU sy'n gweithredu yng Nghymru. Ar hyn o bryd, ni wyddom beth fydd yr effaith ar y rheini.

Dywedasoch y bydd llawer o bobl yn synnu at y buddsoddiadau gan lywodraeth leol. Nid arian wrth gefn yw'r ffigurau a roddais ichi i gyd. Arian wrth gefn awdurdodau lleol yw rhai; trefniadau rheoli arian parod arferol ar yr ochr refeniw yw eraill. Yn amlwg, lle y bydd hynny'n briodol, mae defnyddio adnoddau i wneud elw drwy fuddsoddi a'i ailgylchu wedyn mewn gwasanaethau rheng flaen yn beth doeth. Fodd bynnag, mae hyn yn dangos mor wirioneddol fyd-eang ei gyrhaeddiad yw'r sector gwasanaethau ariannol, yn fwy na'r un arall mae'n debyg. Mae hyn yn ffactor arall a fydd, ynghyd â'r wasgfa gredyd ehangach, yn gwneud pobl yn ymwybodol mor fyd-eang yw economi'r byd heddiw.

On the points about the revenue support grant, it is possible for us to advance payments if any local authority is experiencing difficulties. As I said, we have no reason to believe that any of them are, but if any feel that there is a case to be made, they can make that case to Brian Gibbons, as the Minister for local government, and his officials. If we are able to help where there is an identified need, we will do so.

We are working closely with the Welsh Local Government Association. Due to the scale of Government in Wales, we are able to be much more adaptable and responsive to the needs of local government than the UK Government, which operates on a much bigger scale. Again, we give a commitment to keep Members informed whenever we have anything material to report.

3.30 p.m.

**Joyce Watson:** First, I congratulate the Minister and the Minister for Social Justice and Local Government on their swift action on this matter—contrary to the comments from the other side of the Chamber. I would like you to reiterate the assurances that you have repeatedly made that immediate service delivery will not be affected. There are two sides to that coin, and the other is employment. In rural mid and west Wales, local authorities are often the only significant employer. People will therefore be worried, and we need to put them at ease on two fronts: service delivery and employment.

I will raise a question, although I know that you cannot answer it. Do we need to review the guidelines on how local authorities should invest their money? They have a responsibility on liquidity and risk, and they must consider that in the current market. I suggest that perhaps they should invest in ethical banks rather than in high-risk ones.

**Andrew Davies:** On your first point about service delivery, we have no reason to believe that it will be affected in any local authority. However, we stand ready to work

O ran y pwyntiau ynghylch y grant cynnal refeniw, mae'n bosibl inni ryddhau taliadau ymlaen llaw os yw unrhyw awdurdod lleol yn cael trafferth. Fel y dywedais, nid oes lle i gredu bod dim un yn cael anhawster, ond os oes unrhyw un yn teimlo ei fod am gyflwyno achos, gallant wneud hynny i Brian Gibbons, fel y Gweinidog dros lywodraeth leol, a'i swyddogion. Os gallwn helpu lle y mae wedi cael ei ddangos bod angen hynny, gwnawn hynny.

Yr ydym yn gweithio'n agos â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Oherwydd maint y Llywodraeth yng Nghymru, gallwn addasu ac ymateb yn llawer haws i anghenion llywodraeth leol na Llywodraeth y DU, sy'n gweithredu ar raddfa fwy o lawer. Unwaith yn rhagor, yr ydym yn rhoi ymrwymiad i hysbysu'r Aelodau bob tro y bydd gennym unrhyw beth o bwys i adrodd yn ei gylch.

**Joyce Watson:** Yn gyntaf, yr wyf yn llongyfarch y Gweinidog a'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ar eu gweithredu cyflym ynghylch y mater hwn—yn groes i'r sylwadau o ochr arall y Siambr. Hoffwn ichi ailadrodd y sicrwydd yr ydych wedi'i roi dro ar ôl tro na fydd hyn yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau ar hyn o bryd. Ceir dwy ochr i'r geiniog honno, a chyflogaeth yw'r llall. Yn y canolbarth a'r gorllewin gwledig, awdurdodau lleol yn aml yw'r unig gyflogwr o bwys. Bydd pobl felly'n poeni, ac mae angen inni dawelu eu meddyliau ynghylch dau beth: darparu gwasanaethau a chyflogaeth.

Gofynnaf gwestiwn, er fy mod yn gwybod na allwch ei ateb. A oes angen inni adolygu'r canllawiau ynghylch sut y dylai awdurdodau lleol fuddsoddi eu harian? Mae ganddynt gyfrifoldeb o ran hylifedd a risg, a rhaid iddynt ystyried hynny yn y farchnad gyfredol. Awgrymaf y dylent, efallai, fuddsoddi mewn banciau moesegol yn hytrach na rhai risg uchel.

**Andrew Davies:** O ran ateb eich pwynt cyntaf ynghylch darparu gwasanaethau, nid oes gennym ddim rheswm dros gredu y bydd effaith ar hynny mewn dim un awdurdod

with local authorities should that be the case, through the routes that I have already identified. On the issue of revising guidance, as I said in my statement, we will discuss with Treasury and the Department for Communities and Local Government whether the current investment guidance is fit for purpose and whether it needs to take into account any lessons learned from the experience of the Icelandic banks. As ever, we need to balance guidance with ensuring that local authorities have the flexibility and discretion to make their own prudent investment decisions. However, we will discuss that with the UK Government.

lleol. Fodd bynnag, yr ydym yn barod i weithio gydag awdurdodau lleol pe digwyddai hynny, drwy'r dulliau yr wyf eisoes wedi sôn amdanynt. O ran adolygu'r canllawiau, fel y dywedais yn fy natganiad, trafodwn gyda'r Trysorlys a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol a yw'r canllawiau buddsoddi cyfredol yn addas i'w diben ac a oes angen iddynt ystyried unrhyw wersi a ddysgwyd yn sgîl profiad banciau Gwlad yr Iâ. Fel sy'n wir bob amser, mae angen inni gydbwyso canllawiau â sicrhau bod gan awdurdodau lleol yr hyblygrwydd a'r disgresiwn i wneud eu penderfyniadau darbodus eu hunain ynghylch buddsoddi. Fodd bynnag, trafodwn hynny â Llywodraeth y DU.

**The Presiding Officer:** Thank you, Minister, for allowing us an extended opportunity to scrutinise this matter, which is of obvious public interest.

**Y Llywydd:** Diolch, Weinidog, am ganiatáu cyfle estynedig inni graffu ar y mater hwn sydd, yn amlwg, o ddiddordeb cyhoeddus.

### **Datganiad ar Arddangos Celf Statement on the Display of Art**

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones):** Ym mis Ionawr 2006, cyhoeddwyd adroddiad David Clarke Associates ar arddangos celfyddyd yng Nghymru yn y dyfodol, ac, yn sgîl hynny, aeth y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon ar y pryd ati i gomisiynu astudiaeth ddichonoldeb ar sefydlu oriel genedlaethol a chanolfan genedlaethol celfyddyd gyfoes.

**The Minister for Heritage (Alun Ffred Jones):** Following the publication of the David Clarke Associates report on the future display of art in Wales in January 2006, the then Minister for Culture, Welsh Language and Sport commissioned a feasibility study into the establishment of both a national gallery and national centre for contemporary art.

Ym mis Gorffennaf 2007, aeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ati yn 'Cymru'n Un' i amlinellu ei hymrwymiad i ymchwilio i'r ymarferoldeb o greu oriel gelfyddyd genedlaethol i Gymru.

In July 2007 the Welsh Assembly Government outlined in 'One Wales' its commitment to exploring the feasibility of a national gallery of art for Wales.

Heddiw, yr wyf yn falch o fedru dweud wrthyfch fod yr astudiaeth ddichonoldeb ar yr oriel genedlaethol ac ar y ganolfan genedlaethol celfyddyd gyfoes wedi'i chwblhau.

I am pleased to be able to report to you today that the feasibility study into both a national gallery and national centre for contemporary art has now been completed.

Ers 2000, cafwyd nifer o astudiaethau i ystyried sut i arddangos celfyddyd weledol yng Nghymru yn y dyfodol. Yr oedd rhoi ystyriaeth drwyadl i'r mater hwn yn bwysig am fod Canolfan y Celfyddydau Gweledol

Since 2000, a number of studies have examined the future display of visual art in Wales. A thorough examination of the subject was important, given that the Centre for Visual Arts in Cardiff closed in 2000,

yng Nghaerdydd wedi cau yn 2000, ar ôl 18 mis yn unig.

after just 18 months of operation.

Yr oedd yr adroddiadau cynharach yn gwahaniaethu rhwng anghenion celfyddyd gyfoes ac anghenion casgliadau celfyddyd hanesyddol Cymru, sy'n cael eu cadw gan Amgueddfa Cymru. Daethpwyd i'r casgliad bod rôl a swyddogaeth oriel genedlaethol yn wahanol iawn i rôl a swyddogaeth sefydliad comisiynu, ac o'r herwydd bod angen dau safle ar wahân ar eu cyfer, sef, yn gyntaf, oriel gelfyddyd genedlaethol, ac, yn ail, canolfan genedlaethol celfyddyd gyfoes.

The earlier reports differentiated between the needs of contemporary art and those of the historic art collections of Wales held by National Museum Wales. They concluded that the role and function of a national gallery was sufficiently distinct from that of a commissioning organisation that two separate facilities were indicated—first, a national gallery of art, and, secondly, a national centre for contemporary art.

Mae'r adroddiad yn nodi y byddai goblygiadau sylweddol iawn o ran cost yn gysylltiedig â sefydlu oriel genedlaethol a chanolfan genedlaethol celfyddyd gyfoes, ac y byddai'r naill brosiect a'r llall yn brosiectau mawr a hirdymor.

The report identifies that there would be considerable cost implications to both the creation of a national gallery and a national centre for contemporary art and that both would be major and long-term projects.

Yn achos yr oriel genedlaethol, mae'r adroddiad yn argymhell y dylid adeiladu adain y gogledd newydd ar safle presennol yr Amgueddfa Genedlaethol ym mharc Cathays. Byddai hyn yn golygu y byddai modd symud yr arddangosfeydd gwyddoniaeth a geir yno ar hyn o bryd i'r adain newydd er mwyn creu amgueddfa wyddoniaeth ym mharc Cathays. Byddai modd wedyn defnyddio safle'r Amgueddfa Genedlaethol yn ei gyfanrwydd i arddangos celfyddyd, gan greu oriel genedlaethol. Yn ôl prisiau 2008, amcangyfrifir y byddai costau cyfalaf y prosiect hwn yn £85.5 miliwn, ac y byddai costau rhedeg o dros £700,000 y flwyddyn yn ychwanegol at hynny.

For the national gallery, the report recommends the building of a new north wing on the current National Museum site in Cathays park. This would enable the current science displays to be moved to the new wing to create a science museum in Cathays park. The entire current National Museum site could then be used for the display of art, thus creating a national gallery. The capital cost of this project is estimated to be £85.5 million, with additional operational costs of £707,000 per annum, both at 2008 prices.

Yn achos y ganolfan genedlaethol celfyddyd gyfoes, mae'r adroddiad yn argymhell y dylid sefydlu canolfan ar raddfa fawr er mwyn creu adeilad nodedig a fyddai'n tystio i statws rhyngwladol Cymru ym myd y celfyddydau cyfoes. Yn ôl prisiau 2008, amcangyfrifir y bydd costau cyfalaf y prosiect yn £38.8 miliwn, y bydd y costau datblygu yn £2.5 miliwn dros chwe blynedd, a'r costau rhedeg yn £1.5 miliwn y flwyddyn.

For the national centre for contemporary art, the report recommends the establishment of a large-scale centre to allow for the creation of a signature building, to make a statement about Wales's position in the international contemporary art world. The capital cost of this project is estimated to be £38.8 million, with development costs totalling £2.5 million over six years, and ongoing operational costs of £1.5 million per annum, all at 2008 prices

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn croesawu'r ffaith bod yr astudiaeth ddichonoldeb hon wedi'i chyhoeddi, ac mae'n dal i fod yn ymrwymedig i ffyniant diwylliannol Cymru. Er hynny, nid oes gan

The Welsh Assembly Government welcomes the publication of this feasibility report and remains committed to the cultural vibrancy of Wales. However, neither the Welsh Assembly Government, National Museum

Lywodraeth Cynulliad Cymru, Amgueddfa Cymru na Chyngor Celfyddydau Cymru yr adnoddau i fwrw ymlaen â'r prosiectau hyn yn y tymor byr na'r tymor canolig. Mae'r ffaith nad oes adnoddau cyfalaf ar gael o'r Loteri Genedlaethol yn gwaethygu'r sefyllfa, ac o'r herwydd, o fod yn realistig, ni fyddai modd ystyried y naill brosiect na'r llall tan rywbrud yn ystod y blynyddoedd ar ôl 2012.

The development of a national gallery is not an immediate Amgueddfa Cymru priority. The museum considers it an important long-term project, but recognises that it will require significant further development work and considerable fundraising efforts before it could come on stream. Over the next five years, the museum will be developing the story of the people of Wales. While the focus will be at new developments at St Fagans, the museum will also reflect this story across all its sites, particularly, for example, at Llanberis. The development of the national gallery and science museum could therefore not realistically be developed before 2015 to 2020. In the short term, the museum has identified the development of the west wing as a key priority in moving towards the establishment of a national gallery. This development would increase access for everyone to items from the national collection, by providing 40 per cent more exhibition space.

In support of this development, I am pleased to announce today that the Welsh Assembly Government will be providing the museum with £1 million over the next two years to enable this project to be realised. On completion of the west wing project, the entire first floor of the museum will be devoted to the display of art, ensuring that more of our national collections can be enjoyed by the people of Wales.

The creation of a national centre for contemporary art remains a long-term aspiration of the Arts Council of Wales. However, the arts council recognises that this is a long-term project that would require the development of new partnerships and significant fundraising activity. Again, given

Wales nor the Arts Council of Wales have the resources available to take forward these projects in the short to medium term. This situation is heightened by the lack of availability of capital resources from the National Lottery, and neither project could therefore be realistically considered until sometime in the years following 2012.

Nid yw datblygu oriel genedlaethol yn un o flaenoriaethau Amgueddfa Cymru ar hyn o bryd. Mae'r amgueddfa o'r farn bod prosiect o'r fath yn bwysig yn y tymor hir, ond mae'n cydnabod y bydd angen gwneud llawer iawn mwy o waith datblygu a gwneud ymdrechion sylweddol i godi arian cyn y gellir mynd â'r maen i'r wal. Yn ystod y pum mlynedd nesaf, bydd yr amgueddfa'n mynd ati i adrodd hanes pobl Cymru. Er y bydd yn canolbwyntio ar ddatblygiadau newydd yn Sain Ffagan, bydd yr amgueddfa hefyd yn adrodd yr hanes hwn ym mhob un o'i safleoedd, yn enwedig yn Llanberis, er enghraifft. O fod yn realistig felly, ni fyddai modd datblygu'r oriel gelfyddyd a'r amgueddfa wyddoniaeth tan 2015 i 2020. Yn y tymor byr, mae'r amgueddfa wedi dweud bod datblygu adain y gorllewin yn un o'r blaenoriaethau allweddol er mwyn symud ymlaen at sefydlu oriel genedlaethol. Byddai datblygiad o'r fath yn ehangu mynediad i bawb at yr eitemau sydd yn y casgliad cenedlaethol, drwy ddarparu 40 y cant yn fwy o le ar gyfer eu harddangos.

Mae'n dda gennyf gyhoeddi heddiw y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, er mwyn cefnogi'r datblygiad hwn, yn rhoi £1 miliwn i'r amgueddfa yn ystod y ddwy flynedd nesaf er mwyn iddi allu gwireddu'r prosiect hwn. Wedi i brosiect adain y gorllewin gael ei gwblhau, bydd llawr cyntaf yr amgueddfa yn ei gyfanrwydd yn cael ei neilltuo ar gyfer arddangos celfyddyd, gan sicrhau y bydd holl bobl Cymru'n gallu mwynhau'n casgliadau cenedlaethol.

Mae creu canolfan genedlaethol celfyddyd gyfoes yn dal yn un o ddyheadau Cyngor Celfyddydau Cymru yn y tymor hir. Er hynny, mae cyngor y celfyddydau'n cydnabod mai prosiect ar gyfer y tymor hir yw hwn ac y byddai angen meithrin partneriaethau newydd a mynd ati'n ddyfal i

the current constraints on capital funding from the National Lottery, this project could therefore not realistically be taken forward until sometime in the years following 2012.

The Welsh Assembly Government will therefore continue to work with the arts council to develop the visual arts sector in Wales. Since the publication of the Pratley report in 2000, the arts council has invested almost £17.5 million of capital funding in the visual arts across Wales. In its new visual arts strategy, the arts council identifies the continued development of the visual arts infrastructure as a short to medium-term priority. In support of this, I am pleased to announce today that the Welsh Assembly Government is providing the arts council with capital funding of £700,000 in this financial year to support the development of the visual arts infrastructure.

3.40 p.m.

This funding will be used to improve the visual arts infrastructure at Oriel Mostyn, Aberystwyth Arts Centre and Chapter Arts Centre. In conclusion, the establishment of a national gallery and national centre for contemporary art remain long-term aspirations, which could not be realistically taken forward until sometime in the years following 2012. In the short to medium term, the additional funding that I have announced today will enable Amgueddfa Cymru to take a step closer to the creation of a national gallery and the arts council to further enhance the visual arts infrastructure in Wales.

**Paul Davies:** Diolchaf i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw. Croesawaf yr hyn a ddywedodd am yr oriel genedlaethol ac am ganolfan genedlaethol celfyddyd gyfoes. Mae arddangos celf yn hanfodol i wella ymwybyddiaeth o'n diwylliant fel cenedl ac

godi arian. Unwaith eto, o ystyried y cyfyngiadau ar gyllid cyfalaf o'r Loteri Genedlaethol ar hyn o bryd, ac o fod yn realistig, ni fyddai modd bwrw ymlaen â'r prosiect hwn tan rywbryd yn ystod y blynyddoedd ar ôl 2012.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, felly, yn parhau i weithio gyda chynghor y celfyddydau i ddatblygu'r sector celfyddyd weledol yng Nghymru. Ers i adroddiad Pratley gael ei gyhoeddi yn 2000, mae cynghor y celfyddydau wedi buddsoddi bron £17.5 miliwn o gyllid cyfalaf yn y celfyddydau gweledol ledled Cymru. Yn y ei strategaeth newydd ar gyfer y celfyddydau gweledol, mae cynghor y celfyddydau yn datgan bod parhau i ddatblygu seilwaith ar gyfer y celfyddydau gweledol yn flaenoriaeth yn y tymor byr a'r tymor canolig. Er mwyn cynorthwyo yn hyn o beth, mae'n dda gennyf gyhoeddi heddiw fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi £700,000 o gyllid cyfalaf i gynghor y celfyddydau yn ystod y flwyddyn ariannol hon er mwyn cynorthwyo i ddatblygu'r seilwaith ar gyfer y celfyddydau gweledol.

Caiff y cyllid hwn ei ddefnyddio i wella'r seilwaith ar gyfer y celfyddydau gweledol yn Oriel Mostyn, Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth a Chanolfan Celfyddydau Chapter. I gloi, mae sefydlu oriel genedlaethol a chanolfan genedlaethol celfyddyd gyfoes yn dal yn ddyheadau ar gyfer y tymor hir, ond, o fod yn realistig, nid oes modd bwrw ymlaen â chynlluniau o'r fath tan rywbryd yn ystod y blynyddoedd ar ôl 2012. Yn y tymor byr a'r tymor canolig, bydd yr arian ychwanegol yr wyf wedi'i gyhoeddi heddiw yn golygu y bydd Amgueddfa Cymru'n gallu symud gam yn nes at greu oriel genedlaethol, ac y bydd cynghor y celfyddydau'n gallu mynd ati i wella mwy ar y seilwaith ar gyfer y celfyddydau gweledol yng Nghymru.

**Paul Davies:** I thank the Minister for his statement today. I welcome what he said about the national gallery and the national centre for contemporary art. Exhibiting art is crucial to improving the awareness of our culture as a nation and I am pleased that

yr wyf yn falch bod sefydlu oriel genedlaethol a chanolfan genedlaethol celfyddyd gyfoes yn dal i fod yn ddyhead i'r Llywodraeth.

Yn dilyn yr hyn a ddywedasom yr wythnos diwethaf yn y ddadl ar yr amgylchedd hanesyddol, mae'n hollbwysig fod bobl ar draws Cymru yn gallu cael mynediad i'n celfyddyd. Mae'n hanfodol ein bod yn sefydlu oriel genedlaethol Gymreig cyn gynted â phosibl, ond derbynïaf y gall hynny fod yn anodd yn y dyfodol agos oherwydd cyfyngiadau ariannol a'r sefyllfa ariannol fregus gyfredol. Byddai sefydlu oriel o'r fath yn sicr yn gwella ein twristiaeth ddiwylliannol. Wrth gwrs, byddai sefydlu oriel o'r fath hefyd yn golygu y gallai'r oriel fod yn gysylltiedig â'r rhwydwaith o orielau ac amgueddfeydd ar draws Cymru.

Mae'n hollbwysig bod storfeydd diogel a digonol ar gyfer gwaith celf ac efallai y byddai oriel genedlaethol yn gallu sicrhau hyn. Yn bwysicach fyth, byddai oriel genedlaethol yn gallu sicrhau bod llawer o'r gwaith celf sydd mewn storfeydd ar draws Cymru yn cael eu harddangos. Yn anffodus, mae'r gweithfeydd hyn ar hyn o bryd yn cael eu gwastraffu ac nid yw'r cyhoedd yn cael y cyfle i fwynhau ein cyfoeth o gelfyddyd. Felly, croesawaf y ffaith y bydd y datblygiad hwn yn Amgueddfa Cymru yn creu 40 y cant yn fwy o le i arddangos celfyddyd.

Gan y bydd mwy o'r amgueddfa yn cael ei ddefnyddio i arddangos celfyddyd, a all y Gweinidog gadarnhau na fydd arddangosfeydd eraill yn dioddef o achos hyn? Mae hefyd yn hanfodol bod yr adain newydd yn cael ei marchnata fel cartref o safon uchel i gelfyddyd yng Nghymru. Felly, a all y Gweinidog ddweud sut y bydd y Llywodraeth yn sicrhau y bydd yr adain newydd hon yn cael ei marchnata'n briodol ac yn ychwanegol at yr amgueddfa?

Mae hefyd yn hanfodol bod mynediad haws i gelfyddyd mewn cymunedau lleol a derbynïaf fod gwario £700,000 er mwyn cynorthwyo datblygu'r seilwaith ar gyfer celfyddydau gweledol yn gymorth mawr. Mae'n bwysig ein bod yn annog pobl i fwynhau celfyddyd ein hartistiaid lleol yn ogystal â'r rhai cenedlaethol. Mae'n hanfodol

establishing a national gallery and a national centre for contemporary art is still one of the Government's aspirations.

Following on from what we said last week in the debate on the historic environment, it is vital that people throughout Wales are able to gain access to our art. It is crucial that we establish a national gallery in Wales as soon as possible, but I accept that that could be quite difficult in the near future because of the financial limitations and the current fragile financial situation. Establishing such a gallery would certainly improve our cultural tourism. Of course, establishing such a gallery would also mean that the gallery could be associated with the network of galleries and museums throughout Wales.

It is vital that there are safe and sufficient storage facilities for works of art and perhaps a national gallery could ensure that. More importantly, a national gallery would ensure that many of the works of art that are in storage throughout Wales are exhibited. Unfortunately, these works of art are currently being wasted and the public are not given the opportunity to enjoy the wealth of art that we have. Therefore, I welcome the fact that this development within the National Museum will create 40 per cent more space in which to display art.

As more of the museum would be used to display art, could the Minister confirm that other exhibitions will not suffer because of this? It is vital that the new wing is marketed as a high-quality home for art in Wales. Therefore, could the Minister tell us how the Government will ensure that this new wing is marketed appropriately and in addition to the museum?

It is also crucial that there is easier access to art in local communities and I accept that spending £700,000 on supporting the development of the infrastructure for the visual arts will be of great assistance. It is important that we encourage people to enjoy the art of our local artists as well as national artists. It is vital that we encourage young



ein bod yn annog ein pobl ifanc i fwynhau ein celfyddyd ac i greu eu celfyddyd eu hunain.

people to enjoy art and to create their own art.

O ystyried yr amgylchiadau hyn, a all y Gweinidog ddweud beth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i annog pobl ifanc i ymweld â'n sefydliadau celfyddyd presennol a pha gynlluniau sydd ganddo i gefnogi artistiaid talentog i arddangos eu gwaith? Er enghraifft, a fydd artistiaid lleol yn gallu arddangos eu gwaith yn adain newydd yr amgueddfa?

Under these circumstances, could the Minister tell us what the Government is doing to encourage young people to visit our current art establishments and what plans does he have to support talented artists to exhibit their work? For example, will local artists be able to display their work in the new wing of the museum?

Croesawaf gyhoeddiad heddiw ar y cyfan a gobeithiaf y bydd y datganiad hwn yn ddechreuad i weithio tuag at oriel genedlaethol a chanolfan genedlaethol celfyddyd gyfoes.

I welcome the statement today on the whole and I hope that it will be the beginning of working towards establishing a national gallery and a national centre for contemporary art.

**Alun Ffred Jones:** Diolch am eich cefnogaeth i fy natganiad heddiw. Nid anghytunaf fod cael oriel genedlaethol yn ddyhead pwysig i Lywodraeth Cymru ac i bawb yn y Cynulliad, a phrysured y dydd y caiff ei wireddu. Yn yr un ffordd, credaf y dylem anelu at sefydlu canolfan ar gyfer y celfyddydau cyfoes er mwyn rhoi bri a statws i artistiaid ifanc ac artistiaid sy'n gweithio mewn ffordd fwy mentrus efallai na'r rhai sydd yn y casgliad traddodiadol.

**Alun Ffred Jones:** Thank you for supporting my statement today. I do not disagree that having a national gallery is an important aspiration for the Welsh Government and everyone in the Assembly, and I look forward to the day when that is achieved. In the same way, I believe that we should aim to establish a centre for contemporary art in order to give recognition and status to young artists, and those who are perhaps more innovative than those who display their work in traditional collections.

Bydd datblygu adain y gorllewin yn yr amgueddfa yn cynyddu'r lle sydd ar gael ar gyfer arddangos y deunydd sydd gan yr amgueddfa yn ei storfeydd. Dyna fydd y cynllun gwerth £1 filiwn yr wyf wedi ei gyhoeddi heddiw'n ei alluogi i ddigwydd. O'r herwydd, ni chredaf mai ar gyfer artistiaid cyfoes y bydd—nid wyf yn sicr sut mae'r amgueddfa'n defnyddio'r gofod; at ei gilydd, bydd yn caniatáu dangos mwy o'r deunydd sydd gennym eisoes.

The development of the west wing of the museum will increase the amount of space that is available for displaying the materials that the museum currently has in storage. That is what the £1 million project that I am announcing today allows to happen. As a result, I do not believe that it will be for contemporary artists—I am not sure how the museum uses the space; in general, it will allow it to exhibit more of the material that we already have.

Yn yr un ffordd, mae datblygu'r rhwydwaith o orielau a all dderbyn peth o'r casgliadau hyn ar daith drwy Gymru yr un mor bwysig, er mwyn i bobl o bob rhan o Gymru gael mynediad at rai o'n trysorau. Ceir datblygiadau pellach i'r cyfeiriad hwnnw, gobeithio, yn y dyfodol agos.

In the same way, developing the network of galleries able to accept some of these collections on tour throughout Wales is just as important, so that people from all parts of Wales can access some of our treasures. There will, hopefully, be further developments to that end in the near future.

O ran annog pobl ifanc i ymweld ag orielau ac ati, cyfeiriaf at ddau brofiad diweddar.

On encouraging young people to visit galleries and so on, I will refer to two recent

Mae cynllun ar droed yng Nghaernarfon sy'n galluogi pobl o un rhan o'r dref i fynd i'r Galeri i weld gwahanol ddigwyddiadau yn rhad; bu'r cynllun yn effeithiol. Bûm yng nghanolfan gelfyddydol Aberystwyth y dydd o'r blaen, yn gweld datblygiadau cyffrous ynglŷn â chreu stiwdios ar gyfer artistiaid—mae saith ohonynt, yn edrych fel rhywbeth o ffilm ffuglen wyddonol yng nghefn yr oriel. Yn un o'r stiwdios yr oedd artist ifanc o Gaerdydd, a oedd yn gwerthfawrogi'r cyfle i weithio yno am rai misoedd—a chael cyflog am wneud—mewn ffordd na châi byth fel arall, gan y byddai'n rhaid iddo wneud ei waith celf a gweithio i ennill ei fara menyn hefyd.

Felly, mae pethau'n digwydd ar hyn o bryd, ac mae datblygiadau cyffrous, ond yr wyf yn cytuno bod rhaid cadw llygad ar y nod hefyd.

**Alun Davies:** I, like others, welcome your statement and the commitments to future developments. Since the policy on free admissions was introduced, we have all seen an enormous increase in the accessibility of the visual arts and an increase in the number of people who have been able to enjoy an opportunity to visit the museums and galleries of Wales. If we have a role as a Government, it has to be to ensure that our national treasures, such as the visual arts, which are the subject of this afternoon's statement, are made available to everybody, and that the displays and collections that we have are on display and available to everybody.

I welcome the moves that are being made this afternoon. I welcome the recognition of the fact that we need two different and distinct institutions to achieve the objectives that you set out for us this afternoon.

I recognise the funding constraints that the Government and institutions such as the museum and the arts council work under. However, I am disappointed that a national gallery is not a priority for the national museum in the short to medium term. David Melding has spent a lot of time and put in a lot of work promoting the concept of a national gallery, and I commend his work

experiences. There is a scheme in operation in Caernarfon to give people from one part of the town discounted access to events at Galeri; the scheme has been effective. A few days ago, I was at the Aberystwyth arts centre, viewing exciting developments to set up artists' studios—there are seven of them, all looking like something from a science fiction film at the back of the gallery. There was a young artist from Cardiff in one studio, and he appreciated the opportunity to work there for a few months—for a salary; he could not otherwise work in that way, as he would have to produce his artwork and earn a living.

Therefore, there are things happening at the moment, and there are exciting developments, but I agree that we must also keep an eye on the objective.

**Alun Davies:** Yr wyf fi, fel eraill, yn croesawu eich datganiad a'r ymrwymiad i gyflawni datblygiadau at y dyfodol. Ers cyflwyno'r polisi ynghylch mynediad am ddim, yr ydym i gyd wedi gweld cynnydd enfawr o ran mynediad at y celfyddydau gweledol a chynnydd yn nifer y bobl sydd wedi gallu mwynhau cyfle i ymweld ag amgueddfeydd ac orielau Cymru. Os oes rôl i ni fel Llywodraeth, rhaid inni sicrhau bod ein trysorau cenedlaethol, megis y celfyddydau gweledol, sef testun y datganiad y prynhawn yma, ar gael i bawb, a bod yr arddangosfeydd a'r casgliadau sydd gennym yn cael eu harddangos ac ar gael i bawb.

Yr wyf yn croesawu'r symudiadau sydd ar waith y prynhawn yma. Yr wyf yn falch bod cydnabod bod angen dau sefydliad gwahanol ac arbennig arnom i gyflawni'r amcanion yr ydych wedi eu hamlinellu inni y prynhawn yma.

Yr wyf yn cydnabod y cyfyngiadau ariannol sydd ar waith y Llywodraeth a sefydliadau megis yr amgueddfa a chyngor y celfyddydau. Fodd bynnag, yr wyf yn siomedig nad yw oriel genedlaethol yn flaenoriaeth i'r amgueddfa genedlaethol yn y tymor byr na'r tymor canolig. Mae David Melding wedi treulio llawer o amser ac mae wedi gwneud llawer iawn o waith yn hybu

over the years. I very much agree with what he has said on this subject over the years. I am not yet convinced that a new wing in the national museum will be sufficient to display the art that we have available to us. I would be interested to know whether you have had any discussions, Minister, with the National Library of Wales, which stores a great many works of art, many of them of significance to the Welsh experience. It is an ongoing tragedy that those works of art are not available to be seen and enjoyed by the people of Wales. My preferred option is to have a dedicated national gallery to bring together all the publicly owned collections that are available in Wales to ensure that people can enjoy the whole experience of the visual art that we have available to us.

It is fair to say that, in past years, we have not, possibly, taken sufficient care of the visual arts in Wales, and we have not ensured sufficient public space for them. I hope that, as you take your proposals forward, Minister, you will ensure that we are creating new public spaces that are dedicated to the visual arts.

3.50 p.m.

In terms of what you said regarding the national centre for contemporary art, I recognise the funding limitations within which you are working, and I hope that this will become a priority for the arts council following 2012. By bringing those projects to fruition within the next decade, I hope that we will create new opportunities for people to appreciate the visual arts that we have in Wales, the story of the visual arts in Wales and some of our fabulous national treasures. By making those available for everyone, we would be achieving many of the objectives that the Government has set out in 'One Wales' and also enriching the experience of people who live in Wales and who visit Wales.

**Alun Ffred Jones:** Diolch am y sylwadau hynny. Mae'n hawdd dweud fod popeth yn

cysyniad yr oriel genedlaethol, ac yr wyf yn cymeradwyo'r gwaith y mae wedi'i wneud dros y blynyddoedd. Cytunaf i raddau helaeth iawn â'r hyn y mae wedi'i ddweud ynghylch y mater hwn dros y blynyddoedd. Nid wyf yn argyhoeddedig eto y bydd adain newydd yn yr amgueddfa genedlaethol yn ddigonol i arddangos y gwaith celf sydd ar gael inni. Byddai gennyf ddiddordeb mewn cael gwybod a ydych wedi cynnal trafodaethau o gwbl, Weinidog, â Llyfrgell Genedlaethol Cymru, sy'n cadw llawer iawn o weithiau celfyddydol, a llawer iawn ohonynt ag arwyddocâd i'r profiad Cymreig. Mae'n resyn nad yw'r gweithiau celfyddydol hyn ar gael i'w gweld a'u mwynhau gan bobl Cymru. Yr hyn yr hoffwn ei weld yw oriel genedlaethol bwrpasol i ddwyn ynghyd yr holl gasgliadau sydd yn eiddo i'r cyhoedd yng Nghymru er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu mwynhau profiad y gelfyddyd weledol sydd ar gael inni yn ei lawnder.

Teg yw dweud, yn y gorffennol, nad ydym, o bosibl, wedi gofalu'n ddigonol am y celfyddydau gweledol yng Nghymru, ac nad ydym wedi sicrhau digon o ofod cyhoeddus ar eu cyfer. Gobeithio, wrth i chi fwrw ymlaen â'ch cynigion, Weinidog, y byddwch yn sicrhau ein bod yn creu gofodau cyhoeddus newydd pwrpasol ar gyfer y celfyddydau gweledol.

O ran yr hyn a ddywedasoch ynghylch y ganolfan genedlaethol ar gyfer celfyddyd gyfoes, yr wyf yn cydnabod y cyfyngiadau ariannol sydd arnoch, a gobeithio y daw hyn yn flaenoriaeth i gyngor y celfyddydau ar ôl 2012. O gyflawni'r prosiectau hynny dros y degawd nesaf, gobeithio y byddwn yn creu cyfleoedd newydd i bobl werthfawrogi'r celfyddydau gweledol sydd gennym yng Nghymru, hanes y celfyddydau gweledol yng Nghymru a rhai o'r trysorau cenedlaethol gwych sydd gennym. O roi cyfle i bawb eu gweld, byddem yn cyflawni llawer o'r amcanion y mae'r Llywodraeth wedi eu gosod yn 'Cymru'n Un' ac yn cyfoethogi profiad y bobl sy'n byw yng Nghymru a'r bobl sy'n ymweld â Chymru.

**Alun Ffred Jones:** Thank you for those comments. It is easy to say that everything is

flaenoriaeth, ond pan ydych yn gorfod dod o hyd i arian ar gyfer y prosiectau hynny, gan ddweud 'Hwn yw fy mlaenoriaeth', mae'n rhaid cydbwysu hynny â gofynion eraill ar amser pan fo arian yn brin; yr ydym yn sôn am £80 miliwn neu £90 miliwn ar gyfer y ddau gynllun, felly mae hynny'n £130 miliwn yn ogystal â chostau rhedeg. Felly, os ydych yn gwneud rhywbeth, mae'n rhaid ichi ei wneud yn iawn.

Yr hyn mae cynllun y 'west wing' yn ei wneud yw cynyddu'r gofod sydd ar gael i arddangos celf o 40 y cant, sydd yn bur sylweddol. Mae hynny yn ateb dros dro, ond mae'n werth ei wneud yn y tymor byr. Pe bai'r cynllun, fel mae'n cael ei argymhell gan yr adroddiad, yn digwydd, byddai amgueddfa wyddoniaeth yn cael ei chreu yng nghefn yr amgueddfa bresennol, gan ryddhau holl ofod yr amgueddfa bresennol ar gyfer oriel genedlaethol. Dyna oedd i fod i ddigwydd yn wreiddiol, sef oriel genedlaethol, a dyna yw'r nod o hyd.

Yr oeddech yn sôn am ddod â holl gasgliad celf Cymru sydd mewn dwylo cyhoeddus i un lle o dan un to, ond yr wyf yn anghytuno â hynny yn llwyr. Dylai fod casgliadau o waith celf ym mhob rhan o Gymru. Yr oeddwn yn Oriol Môn ddydd Sadwrn yn ymweld ag Oriol Kyffin Williams, ac yr oedd yn ddiddorol gweld cymaint o bobl leol yno yn mwynhau'r arddangosfa. Mewn rhan arall o'r oriel—sy'n ddiddorol, o ystyried y drafodaeth hon—yr oedd artist cyfoes o Fangor yn arddangos ei waith. Ni fyddech am gymysgu'r ddau waith, rhag i rywun gael trawiad ar y galon wrth fynd o amgylch yr oriel. Yr oedd yn ddiddorol gweld y ddau begwn o ran celfyddyd.

Yr ydych yn gywir i ddweud fod y celfyddydau gweledol, yn ogystal â phob math arall o gelfyddyd, yn un o'r pethau hynny sy'n cyfoethogi ein profiad fel pobl. Mae'n bwysig nad ydym yn colli golwg ar pa mor bwysig yw hynny i bobl, ac ni ddylem ei israddio wrth sôn am flaenoriaethu gwariant cyhoeddus.

**Peter Black:** Minister, I congratulate you on the realistic approach that you have taken in the statement. It is right that, in the present economic climate, we accept that we cannot

a priority, but when you have to fund those projects, saying 'This is my priority', you must balance that with other demands at a time when money is tight; we are talking about £80 million or £90 million for the two schemes, so that is £130 million in addition to running costs. Therefore, if you do something, you have to do it right.

The west wing scheme adds 40 per cent to the space available for displaying art, which is quite a significant increase. That is a temporary answer, but it is worth doing in the short term. If the scheme, as recommended in the report, comes to fruition, a science museum would be created at the back of the existing museum, releasing the whole of the existing museum for a national gallery. That is what was originally intended—a national gallery—and that is still the aim.

You mentioned bringing all of Wales's publicly owned art collection to one place, under one roof; I completely disagree with that. There should be art collections in all parts of Wales. I was at Oriol Môn on Saturday, visiting Oriol Kyffin Williams, and it was interesting to see how many local people were enjoying that exhibition. In another part of the gallery—which is interesting, given this discussion—a contemporary artist from Bangor was exhibiting his work. You would not want to mix those works—some people would have a heart attack while visiting the gallery. It was interesting to see those two artistic extremes.

You are right in saying that the visual arts, as well as all other art forms, can enrich our experiences as humans. It is important that we do not lose sight of how important that is to people, and we should not underestimate that in talking about the prioritisation of public funds.

**Peter Black:** Weinidog, hoffwn eich llongyfarch ar eich agwedd realistig yn y datganiad. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae'n iawn inni dderbyn na allwn

do everything and that the provision of the national gallery and the contemporary arts centre is for the long term. You referred to lottery money as a possible way of funding these two buildings, but when this is considered, will you do your best to raise as much external finance as possible for these projects, because I suspect that in 2012, as in the current year, public finances will still be quite tight? This type of project, desirable as it is, may also prove to be beyond the resources of the Assembly Government at that stage.

That is not to say that I do not wish to see the two developments take place—it is important that we bring together the contemporary artwork and heritage of Wales in these galleries. However, we need to ensure that we provide that in the best possible way, without hitting other public services too badly.

I notice that, in ‘One Wales’, you pledge to support the establishment of a national gallery of contemporary art as well as a centre for contemporary art, but I now realise that that is an aspiration for the next Assembly Government rather than the present one. There is no doubt that other pledges in ‘One Wales’ are also for future Governments; we shall see how many. The realism that you are applying here is to be welcomed, and I am pleased that you have not tried to do everything at once, as is indicated in your statement.

I will conclude by asking you about the plans for the present national museum and gallery in Cathays park. I note from your statement and your answers to previous questions that the entire first floor of the museum will be devoted to the display of art. Inevitably, that will result in collections being moved out of the gallery to other places, such as the St Fagans Natural History Museum. Concern has been expressed that that will change the experience of visitors to this facility, although I understand that other floors will have other exhibitions. In particular, its popularity with schoolchildren may be diminished as a result. Can I have your assurance, Minister, that you will be closely

wneud popeth ac mai rhywbeth ar gyfer y tymor hir yw'r oriel genedlaethol a'r ganolfan ar gyfer celfyddyd gyfoes. Cyfeiriasoch at arian y loteri fel ffordd bosibl o ariannu'r ddau adeilad hyn, ond pan gaiff hyn ei ystyried a wnewch wneud eich gorau i godi cymaint ag sy'n bosibl o arian allanol ar gyfer y prosiectau hyn, oherwydd yr wyf yn amau y bydd arian cyhoeddus, fel yn y flwyddyn gyfredol, yn dal yn eithaf tyn yn 2012? Gall prosiect o'r fath, er mor ddymunol ydyw, fod y tu hwnt i adnoddau Llywodraeth y Cynulliad y pryd hynny.

Nid wyf yn dweud nad wyf am weld gwireddu'r ddau ddatblygiad—mae'n bwysig inni ddwyn gwaith celfyddydol cyfoes a threftadaeth Cymru ynghyd yn yr orielau hyn. Fodd bynnag, rhaid inni sicrhau ein bod yn darparu hynny yn y ffordd orau bosibl, heb amharu gormod ar wasanaethau cyhoeddus eraill.

Yr wyf yn sylwi eich bod, yn ‘Cymru'n Un’, yn addo cefnogi sefydlu oriel genedlaethol ar gyfer celfyddyd gyfoes yn ogystal â chanolfan ar gyfer celfyddyd gyfoes, ond yr wyf yn sylweddoli bellach mai dyhead ar gyfer Llywodraeth nesaf y Cynulliad yw hynny yn hytrach na'r un bresennol. Nid oes amheuaeth nad addewidion ar gyfer Llywodraethau'r dyfodol yw rhai o addewidion eraill ‘Cymru'n Un’ yn ogystal; cawn weld faint yn union. Mae'r agwedd realistig yr ydych yn ei dangos yma i'w chroesawu, ac yr wyf yn falch nad ydych wedi ceisio gwneud popeth yr un pryd, fel y nodir yn eich datganiad.

Yr wyf am gloi drwy eich holi ynglŷn â'r cynlluniau ar gyfer yr amgueddfa a'r oriel genedlaethol bresennol ym mharc Cathays. Yr wyf yn sylwi, yn ôl eich datganiad a'r atebion a roesoch i gwestiynau blaenorol, y bydd y cyfan o lawr cyntaf yr amgueddfa'n cael ei ddefnyddio ar gyfer arddangos celf. Mae'n anochel y bydd hynny'n arwain at symud casgliadau o'r oriel i leoedd eraill, megis Amgueddfa Werin Sain Ffagan. Mae pryder y bydd hynny'n newid y profiad y bydd ymwelwyr yn ei gael yn yr amgueddfa honno, er fy mod yn deall y bydd arddangosfeydd eraill ar loriau eraill. Yn benodol, efallai y bydd yn llai poblogaidd ymhlith plant ysgol. A gaf sicrwydd gennyh,

monitoring the way in which this project is managed, to ensure that school parties going to the museum and gallery in Cathays park do not find that what attracted them there is lost? A diverse product should still be available to visitors there, so that they can enjoy the other exhibitions, as well as the art, and learn more about the history of Wales.

**Alun Ffred Jones:** I think that there were three questions there. The commitment in 'One Wales' is to explore the feasibility of a national gallery of art for Wales. We have done that and have come to a decision, based on the objective work done for the report. With regard to the removal of some exhibitions from the national museum in Cathays park, that is dependent on the work happening in St Fagans, which will then be able to accept some of the natural history exhibitions. That will release more space in the future. I am sure that the museum authorities will keep a close eye on whether that has any direct impact on visitor numbers, and act accordingly. With regard to 2012 and whether money will be in short supply then, that is an unknown; there are lots of unknown unknowns there and some known unknowns, to paraphrase another famous leader. There is, therefore, not a lot of point in my speculating about 2012.

**Gareth Jones:** Yr wyf yn croesawu eich datganiad yn fawr. Diolch i chi am egluro sut mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r astudiaeth ddichonoldeb hon. Yr ydych wedi delio â nifer o bwyntiau. Mae'n dal yn ddyhead gennym i gael yr orielau cenedlaethol hyn, ond yn wyneb y prinder arian, fel y dywedaso, mae'n rhaid inni fod yn realistig ac edrych i'r dyfodol.

Fodd bynnag, yr wyf am gyfeirio'n bennaf at Oriol Mostyn. Yr wyf yn deall y bydd Oriol Mostyn yn derbyn cymhorthdal o ryw £300,000. Cefais y ffrainc o ymweld â'r oriel hon ychydig ddyddiau yn ôl. Ar hyn o bryd, mae'n cael ei hatgyweirio, am gost o dros £4 miliwn, drwy gefnogaeth cyngor y celfyddydau. Yr oeddwn i yno i ddathlu'r

Weinidog, y byddwch yn monitro'r modd y caiff y prosiect hwn ei reoli, er mwyn sicrhau na fydd partion ysgol sy'n mynd i'r amgueddfa a'r oriel ym mharc Cathays yn gweld colli'r hyn a'u denodd yno? Dylid sicrhau bod cynnyrch amrywiol ar gael i ymwelwyr yno o hyd, fel y gallant fwynhau'r arddangosfeydd eraill, yn ogystal â chelfyddyd, a dysgu mwy ynglŷn â hanes Cymru.

**Alun Ffred Jones:** Credaf i chi ofyn tri chwestiwn i gyd. Yr oedd a wnelo'r ymrwymiad yn 'Cymru'n Un' ag archwilio dichonoldeb sefydlu oriel gelfyddyd genedlaethol ar gyfer Cymru. Yr ydym wedi gwneud hynny ac yr ydym wedi gwneud penderfyniad, ar sail y gwaith gwrthrychol a wnaethpwyd ar gyfer yr adroddiad. Ynglŷn â symud rhai o'r arddangosfeydd o'r amgueddfa genedlaethol ym mharc Cathays, bydd hynny'n dibynnu ar y gwaith a fydd yn digwydd yn Sain Ffagan, a fydd wedyn yn gallu derbyn rhai o'r arddangosfeydd byd natur. Bydd hynny'n rhyddhau mwy o ofod at y dyfodol. Yr wyf yn siŵr y bydd awdurdodau'r amgueddfa'n cadw llygad barcud i weld a fydd hynny'n cael effaith uniongyrchol ar niferoedd yr ymwelwyr, ac yn gweithredu'n briodol. O ran 2012 ac a fydd arian yn brin bryd hynny, nid yw hynny'n hysbys; mae llawer o bethau anhysbys yn anhysbys yn hynny o beth ac mae rhai pethau anhysbys yn hysbys, ac aralleirio arweinydd enwog arall. Felly, nid oes diben imi ddyfalu ynglŷn â 2012.

**Gareth Jones:** I sincerely welcome your statement. Thank you for explaining how the Government of Wales has responded to this feasibility study. You have dealt with a number of points. Securing these national galleries is still an aspiration for us, but given that money is tight, as you said, we must be realistic and look to the future.

However, I will refer mainly to Oriol Mostyn. I understand that Oriol Mostyn is to receive a subsidy of some £300,000. I had the privilege of visiting the gallery a few days ago. At the moment, it is being refurbished, at a cost of over £4 million, with the support of the arts council. I was there to celebrate the fact that it has received a grant of over £300,000 from

ffaith ei bod wedi derbyn grant o dros £300,000 gan gronfa'r loteri. Mae'r arian hwnnw yn ychwanegol, a bydd yn hwb sylweddol i oriel sydd gyda'r mwyaf yn y gogledd, sy'n arddangos celfyddyd gyfoes i ryw 50,000 o ymwelwyr yn flynyddol.

Pan fydd yr atgyweirio hwn wedi dod i ben, y bwriad yw anelu am 80,000 a mwy o ymwelwyr. Byddai hynny'n gaffaeliad garw o ran yr hyn yr ydym am ei weld, sef bod y cyhoedd ym mhob cwr o Gymru yn cael y cyfle i ymweld â'r celfyddydau hyn.

4.00 p.m.

Caf ar ddeall hefyd y bydd yr oriel yn gwella ac yn ymwneud â'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc ym myd addysg fel bod yr elfen honno o addysgu hefyd yn mynd rhagddi. Yn bennaf oll, teimlaf y bydd yr arian hwn yn rhoi hwb sylweddol i'r oriel ei hun, i Llandudno ac Aberconwy yn sicr, ac i ogledd Cymru yn ehangach. A gytunwch, felly, y byddai'r arian, ond iddo gael ei ddefnyddio a bod yr oriel ei hun yn cael cyhoeddusrwydd amlwg, yn rhoi hwb sylweddol i'r economi leol yn Llandudno ac yn y gogledd, sydd angen hwb o'r fath?

**Alun Ffred Jones:** Diolch yn fawr am y cwestiwn anodd hwnnw. Mae Oriol Mostyn yn ganolfan o bwys fel ag y mae, ond drwy ei ehangu gyda'r arian ychwanegol a gyfrannwyd o wahanol gyfeiriadau, gan gynnwys o gyhoeddiad heddiw, gall y ganolfan gynnal arddangosfeydd mwy sylweddol. Drwy ddenu mwy o bobl, daw yn ganolfan a fydd yn sicr o roi hwb o'r fath, gan ei bod wedi'i lleoli yng nghanol tref Llandudno, mewn lle o bwys strategol. Bydd y ganolfan yn rhan o apêl Llandudno yn gyrchfan i bobl sy'n dod i siopa ac i ymwelwyr o Gymru ac o bell. Mae strydoedd Llandudno ar brynhawn dydd Sadwrn yn fwrllwm o Gymraeg yn gymysg â'r Saesneg, ac mae'n siŵr gennyf y bydd Oriol Mostyn, oherwydd y datblygiadau hyn, yn dod yn rhan o apêl Llandudno yn gyrchfan.

**Lesley Griffiths:** Minister, I express my real disappointment that an option to include Glyndŵr University, Wrexham in the final shortlist for the national centre for contemporary art is not recommended in this

the lottery fund. That is additional money, and it will give the gallery a major boost; it is one of the biggest galleries in north Wales, exhibiting contemporary art to some 50,000 visitors annually.

When this refurbishment is completed, the aim is to attract over 80,000 visitors. That would be a great contribution in terms of what we want to achieve, namely that the public in all parts of Wales have an opportunity to view these art works.

I am also given to understand that the gallery will improve and link to the provision for young people in education so that that element of education is also developed. Mainly, I feel that this funding will give a significant boost to the gallery itself, certainly to Llandudno and Aberconwy, and to the broader north Wales region. Do you agree, therefore, that the funding, as long as it is used and that the gallery is given prominent publicity, will give a substantial boost to the local economy in Llandudno and north Wales, which needs such a boost?

**Alun Ffred Jones:** Thank you for that difficult question. Oriol Mostyn is currently an important centre, but through its expansion and the additional funding that has been provided from various sources, as well as the funding announced today, the centre will be able to host larger exhibitions. By attracting more visitors, the centre will certainly give such a boost, as it is situated at the heart of Llandudno, in a strategically important location. The centre will be part of the appeal of Llandudno as an attraction for people who come there to shop and visitors from Wales and further afield. On the streets of Llandudno on a Saturday afternoon, you hear a mix of Welsh and English, and I am sure that Oriol Mostyn, because of these developments, will become a part of the appeal of Llandudno as an attraction.

**Lesley Griffiths:** Weinidog, yr wyf yn wirioneddol siomedig nad yw'r ymgynghorwyr wedi argymhell opsiwn i gynnwys Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam yn y rhestr fer derfynol ar gyfer y ganolfan

report by the consultants. I believe that the university has proposed an excellent package in partnership with Oriel Mostyn to have the centre based in north Wales. The university is about to build a brand-new, multimillion pound school of design, media and technology. It will be a real signature building that will put Glyndŵr University on the cutting edge of creative technology in Wales and beyond. I am astonished, therefore, that no reference was made to that in the report, and also that the two shortlisted locations are in south Wales. I will not spell out how that will be interpreted by people in north Wales. As the report states, the project has no identified funding stream as yet and, without champions to drive forward the fundraising, that will continue to be the case. Therefore, I ask that Glyndŵr University, Wrexham be added to the shortlist so that it can be considered in the next steps for the creation of the centre.

**Alun Ffred Jones:** I fully understand your concerns and where you are coming from. In the report, the site in Wrexham did not score highly against the critical success criteria, particularly in respect of its location and accessibility. However, no decision is being taken today on any of these recommendations. Even the recommendation that I fully endorse about the development of the national gallery will have to wait until another time for a decision. The same is true of the national centre for contemporary art. Therefore, if people in Wrexham feel strongly about this, they can campaign over the next few years and make a strong case for their inclusion on the shortlist when the time comes to make a decision. No doors have been closed on Wrexham.

**Rosemary Butler:** I think that it was in 2004, but possibly early 2005, that the Culture, Welsh Language and Sport Committee highlighted the need for either a national gallery or a centre for contemporary art. There was cross-party support for the feasibility study. It is really good news, Minister, although long overdue, that there is recognition that Wales needs a national gallery as well as a national centre for contemporary arts, which is important.

genedlaethol ar gyfer celfyddyd gyfoes yn yr adroddiad hwn. Credaf fod y brifysgol wedi cynnig pecyn rhagorol mewn partneriaeth ag Oriel Mostyn i leoli'r ganolfan yn y gogledd. Mae'r brifysgol ar fin adeiladu ysgol dylunio, y cyfryngau a thechnoleg, a fydd yn newydd sbon ac yn werth miliynau o bunnau. Bydd yn adeilad nodedig a fydd yn rhoi Prifysgol Glyndŵr ar flaen y gad o ran technoleg greadigol yng Nghymru a thu hwnt. Yr wyf yn synnu, felly, na chyfeiriwyd at hynny yn yr adroddiad, a hefyd fod y ddau leoliad ar y rhestr fer yn y de. Nid af ati i fanylu sut y bydd hynny'n cael ei ddehongli gan bobl yn y gogledd. Fel y dywedir yn yr adroddiad, nid oes ffrwd ariannu wedi'i nodi ar gyfer y prosiect hyd yma a, heb hyrwyddwyr i godi'r arian, bydd y sefyllfa honno'n parhau. Felly, yr wyf yn gofyn am ychwanegu Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam, at y rhestr fer er mwyn iddi gael ei hystyried yn y camau nesaf ar gyfer creu'r ganolfan.

**Alun Ffred Jones:** Yr wyf yn deall yn llwyr eich pryderon a'r hyn sy'n sail iddynt. Yn yr adroddiad, ni chafodd y safle yn Wrecsam sgôr uchel o ran y meini prawf hanfodol ar gyfer llwyddiant, yn arbennig o ran ei leoliad a'i hygyrchedd. Fodd bynnag, nid oes penderfyniad yn cael ei wneud heddiw ynghylch dim un o'r argymhellion hyn. Bydd yn rhaid i'r argymhelliad a gymeradwyaf yn llwyr ynghylch datblygu oriel genedlaethol hyd yn oed aros tan rywbryd eto am benderfyniad. Mae'r un peth yn wir am y ganolfan genedlaethol ar gyfer celfyddyd gyfoes. Felly, os yw pobl Wrecsam yn teimlo'n gryf ynghylch hyn, gallant ymgyrchu yn ystod y blynyddoedd nesaf a chyflwyno achos cryf iddynt gael eu cynnwys ar y rhestr fer pan ddaw'n amser gwneud penderfyniad. Ni chaewyd y drysau ar Wrecsam.

**Rosemary Butler:** Credaf mai yn 2004, ond ar ddechrau 2005 o bosibl, y tynnodd y Pwyllgor Diwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chwaraeon sylw at yr angen am oriel genedlaethol neu am ganolfan celfyddyd gyfoes. Cafwyd cefnogaeth drawsbleidiol i'r astudiaeth ddichonoldeb. Mae'n newyddion da iawn. Weinidog, er ei bod yn hwyr bryd, fod cydnabyddiaeth bod angen oriel genedlaethol ar Gymru yn ogystal â chanolfan ar gyfer celfyddyd gyfoes, sy'n



bwysig.

It is also pleasing to see the additional funding that you are giving for the development of visual arts across Wales. I am sure that it will be much appreciated in the west, the north and in Cardiff. However, I remind you that the centre of the visual arts in Wales is Newport. I hope that, in future, any allocations will be given to Newport. However, it is right that a national gallery be in the capital city. I must say that the re-hanging of the works in the museum in Cardiff is quite exceptional. Those who have not been should really go to see it. The gallery is now one of the finest in the United Kingdom. Across Wales, we have display spaces available for temporary exhibitions of our incredible national collections. However, most of these spaces are in need of environmental works if they are to be brought up to the required standard to display these national treasures. Can you assure us that the money that you have mentioned today will be ongoing in future budgets for the development and upgrading of the spaces across Wales that have been mentioned by other Members?

You say that the development of new partnerships is very important if we are to have this new national centre for contemporary art. The university in Newport is building an iconic centre—like Wrexham’s, although it will be even better than Wrexham’s—for the Newport School of Art, Media and Design, which I know is interested in becoming a lead partner in the development of any national centre for contemporary art. Minister, I invite you to take the opportunity to visit the university in Newport to see what a fantastic place it would be for a national centre for contemporary art.

**Alun Ffred Jones:** Thank you for the invitation, Rosemary. I will endeavour to answer in the affirmative some time in the future. I will not come between Wrexham and Newport in this argument, but I am sure that there is a case to be made for a network

Mae’n galonogol hefyd gweld yr arian ychwanegol yr ydych yn ei roi i ddatblygu celfyddydau gweledol ledled Cymru. Yr wyf yn siŵr y caiff ei werthfawrogi’n fawr yn y gorllewin, yn y gogledd ac yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, hoffwn eich atgoffa mai canolfan y celfyddydau gweledol yng Nghymru yw Casnewydd. Gobeithio, yn y dyfodol, y caiff unrhyw ddyraniadau eu rhoi i Gasnewydd. Fodd bynnag, mae’n briodol bod oriel genedlaethol yn y brifddinas. Rhaid imi ddweud bod y gwaith o ailarddangos y gweithiau celf yn yr amgueddfa yng Nghaerdydd yn eithriadol. Dylai’r rhai nad ydynt wedi bod yn eu gweld fynd i’w gweld. Mae’r oriel bellach yn un o’r rhai gwychaf yn y Deyrnas Unedig. Ledled Cymru, mae lleoedd arddangos ar gael ar gyfer arddangosfeydd dros dro o’n casgliadau cenedlaethol anhygoel. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwaith amgylcheddol yn y rhan fwyaf o’r gofodau hyn os ydynt am gyrraedd y safon angenrheidiol i arddangos y trysorau cenedlaethol hyn. A allwch ein sicrhau y bydd yr arian yr ydych wedi sôn amdano heddiw yn parhau mewn cyllidebau yn y dyfodol ar gyfer datblygu ac uwchraddio gofodau ledled Cymru y soniwyd amdanynt gan Aelodau eraill?

Dywedwch fod datblygu partneriaethau newydd yn bwysig iawn os ydym am gael y ganolfan genedlaethol newydd hon ar gyfer celfyddyd gyfoes. Mae prifysgol Casnewydd yn adeiladu canolfan eiconig—fel un Wrecsam, ond bydd hyd yn oed yn well nag un Wrecsam—ar gyfer Ysgol Gelf, y Cyfryngau a Dylunio Casnewydd, a gwn fod ganddi ddiddordeb mewn dod yn un o brif bartneriaid y gwaith o ddatblygu unrhyw ganolfan genedlaethol ar gyfer celfyddyd gyfoes. Weinidog, fe’ch gwahoddaf i achub y cyfle i ymweld â’r brifysgol yng Nghasnewydd i weld lle mor wych fyddai yno ar gyfer canolfan genedlaethol ar gyfer celfyddyd gyfoes.

**Alun Ffred Jones:** Diolch ichi am y gwahoddiad, Rosemary. Ymdrechaf i ateb yn gadarnhaol rywbyrd yn y dyfodol. Ni ddof rhwng Wrecsam a Chasnewydd yn y ddadl hon, ond yr wyf yn siŵr y gellir dadlau dros rwydwaith o orielau ledled Cymru ac mewn

of galleries throughout Wales and in other institutions. I have argued before—and now, as a Minister, I will not change my tune—that, although I applaud the developments that have happened and are happening in Cardiff, we must always be sensitive to the needs of other parts of Wales, whether they be near Cardiff, such as the large population centres of Swansea, Newport and Merthyr, or smaller places across Wales where it is not always easy to find backing or financial support for institutions. We need that network throughout Wales for the benefit of all our people.

**Y Llywydd:** Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad, sy'n dod â ni at y datganiad olaf er nad y lleiaf pwysig heddiw.

sefydliadau eraill. Yr wyf wedi dadlau o'r blaen—ac yn awr, fel Gweinidog, ni newidiaf fy nghân—er fy mod yn cymeradwyo'r datblygiadau sydd wedi digwydd ac sydd yn digwydd yng Nghaerdydd, fod yn rhaid inni fod yn sensitif bob amser i anghenion rhannau eraill o Gymru, boed y rheini'n agos i Gaerdydd, megis canolfannau lle y ceir poblogaeth fawr fel Abertawe, Casnewydd a Merthyr, neu mewn lleoedd bach ledled Cymru lle nad yw bob amser yn hawdd dod o hyd i gymorth neu gefnogaeth ariannol i sefydliadau. Mae angen y rhwydwaith hwnnw arnom ledled Cymru er budd ein pobl i gyd.

**The Presiding Officer:** I thank the Minister for his statement, which brings us to the last, but not least, of our statements today.

### **Datganiad am Adfywio Strategol Statement on Strategic Regeneration**

**The Deputy Minister for Regeneration (Leighton Andrews):** I want today to set out some principles governing our strategic approach to regeneration. In the 'One Wales' agreement, the Assembly Government makes a commitment to,

'establish integrated and cross-cutting initiatives aimed at economic development and regeneration, particularly in areas of high deprivation—the existing models of the Heads of the Valleys Programme and Môn a Menai will be exemplars'.

It also makes a commitment to,

'adopt an all-Wales approach to economic development, guaranteeing investment in all regions of Wales, and working within the framework of the Wales Spatial Plan'.

A more strategic, long-term and holistic approach to regeneration is required. Regeneration approaches that fail to address the skills and employability needs of people and communities alongside physical and environmental improvements may leave long-standing social issues such as economic inactivity, poverty and social exclusion

**Y Dirprwy Weinidog dros Adfywio (Leighton Andrews):** Heddiw hoffwn amlinellu rhai egwyddorion sy'n llywodraethu ein hymagwedd strategol at adfywio. Yng nghytundeb 'Cymru'n Un', mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud ymrwymiad i,

'sefydlu mentrau integredig a thrawsbynciol gyda'r nod o sicrhau datblygu economaidd ac adfywio, yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd uchel – bydd modelau presennol Rhaglen Blaenau'r Cymoedd a Môn Menai yn enghreifftiau o arfer da.'

Yn ogystal mae'n gwneud ymrwymiad i,

'fabwysiadu dull Cymru gyfan o sicrhau datblygiad economaidd, gan warantu buddsoddiad ym mhob ardal o Gymru a chan weithio o fewn fframwaith Cynllun Gofodol Cymru.'

Mae angen ymagwedd fwy strategol, hirdymor a chyfannol at adfywio. Gallai mynd ati i adfywio heb roi sylw i anghenion sgiliau a chyflogadwyedd pobl a chymunedau ochr yn ochr â gwelliannau ffisegol ac amgylcheddol anwybyddu problemau cymdeithasol sy'n bod ers tro byd, megis anweithgarwch economaidd, tlodi ac allgáu

untouched.

To deliver these commitments, we need to co-ordinate our regeneration activities in relation to investment in people and places. A Cabinet committee on regeneration, skills, and tackling economy inactivity, chaired by the Deputy First Minister, has been established to assist cohesion across departments, and a regeneration board, which I chair, has been established to bring together programme development between departments. We are therefore actively responding to the Wales Audit Office 2005 report by working together towards a unified strategy.

Over the past year, we have deepened our commitment to the Heads of the Valleys programme. Against an initial annual budget of £10 million, we actually spent more than £15 million in 2006-07 and more than £16 million in 2007-08. We have rolled the JobMatch programme out across the five authorities. We have published our three-year £15 million strategic action plan for Môn a Menai. We are moving our Communities First programme in the direction of strategic regeneration with a new outcome fund worth at least £25 million over the next three years.

We are exploring new funding vehicles. We are interested in the potential of the joint European support for sustainable investment in city areas, JESSICA, initiative that has been developed by the European Commission in co-operation with the European Investment Bank.

4.10 p.m.

A feasibility study commissioned by the European Investment Bank on our behalf has now been concluded. Ministers will be taking decisions on how to proceed in the next few weeks. Although there is a long way to go, I am hopeful that this will show us how we can use European funding alongside private sector funds to deliver additional investment for regeneration.

cymdeithasol.

Er mwyn cyflawni'r ymrwymadau hyn, mae angen inni gydgyssylltu ein gweithgareddau adfywio mewn perthynas â buddsoddi mewn pobl a lleoedd. Mae pwyllgor y Cabinet ar adfywio, sgiliau a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Brif Weinidog, wedi cael ei sefydlu i gynorthwyo gyda chydlyniant ar draws adrannau, ac mae bwrdd adfywio, yr wyf fi'n gadeirydd arno, wedi cael ei sefydlu i ddod â'r gwaith o ddatblygu rhaglenni rhwng adrannau ynghyd. Yr ydym felly'n ymateb i adroddiad 2005 Swyddfa Archwilio Cymru drwy gydweithio tuag at strategaeth unedig.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, yr ydym wedi dyfnhau ein hymrwymiad i raglen Blaenau'r Cymoedd. O'i gymharu â chyllideb flynyddol gychwynnol o £10 miliwn, gwariwyd mwy na £15 miliwn gennym yn 2006-07 a mwy nag £16 miliwn yn 2007-08. Yr ydym wedi cyflwyno'r rhaglen JobMatch ar draws y pum awdurdod. Yr ydym wedi cyhoeddi ein cynllun gweithredu strategol tair blynedd, gwerth £15 miliwn, ar gyfer Môn a Menai. Yr ydym yn symud ein rhaglen Cymunedau yn gyntaf i gyfeiriad adfywio strategol gyda chronfa canlyniadau newydd sy'n werth o leiaf £25 miliwn dros y tair blynedd nesaf.

Yr ydym yn ymchwilio i ddulliau ariannu newydd. Mae gennym ddiddordeb ym mhotensial y fenter cyd-gymorth Ewropeaidd ar gyfer buddsoddi cynaliadwy mewn ardaloedd dinesig, JESSICA, a ddatblygwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd mewn cydweithrediad â Banc Buddsoddi Ewrop.

Mae astudiaeth ddichonoldeb a gomisiynwyd gan Fanc Buddsoddi Ewrop ar ein rhan bellach wedi cael ei chwblhau. Bydd Gweinidogion yn gwneud penderfyniadau ynghylch sut i fwrw ymlaen â hyn yn ystod yr wythnosau nesaf. Er bod llawer i'w wneud, yr wyf yn obeithiol y bydd hyn yn dangos inni sut y gallwn ddefnyddio arian Ewropeaidd ochr yn ochr â chyllid y sector preifat i sicrhau buddsoddiad ychwanegol ar gyfer adfywio.

We have established a task and finish group to look at the scope for a centre for regeneration excellence in Wales. We are holding a Wales regeneration summit next week in Swansea, with internationally recognised speakers from the private, public and third sectors, which will be attended by 250 delegates. Internally, we have undertaken a review of our regeneration spending within the Department for Economy and Transport, to ensure that it is effectively focused on 'One Wales' and ministerial priorities. That relates to a budget of more than £60 million.

Our regeneration investment must be wisely spent. I want our partners to be clear about the approach that we are taking. We will not trade holistic regeneration and impact for a willingness to keep everyone happy. We will not operate the sweetheart-deal culture endemic in the quango state. This will be a more transparent process. We will ask harder questions of our partners, including local authorities. If our partners want regeneration funding from us for an area, we will want to see their commitment to the holistic regeneration of that area. Similar principles will guide our support for regeneration projects brought forward under the structural funds programmes.

There have been some misleading reports on our internal review of regeneration spending. Contrary to those reports, I do not intend to announce 12 strategic regeneration areas throughout Wales. However, I intend to develop further strategic regeneration areas over time. The number, scale and budgets for these will be determined on a case-by-case basis where we believe we can significantly add value to existing regeneration schemes. Key factors for identifying strategic regeneration areas will be: the contribution to 'One Wales' objectives and the fit with the Wales spatial plan priorities; private sector leverage in sectors important to the Welsh economy; economic opportunity, which simultaneously addresses deprivation; links to sustainable transport spend; the potential for affordable housing; environmental impact and sustainability; addressing skills supply;

Yr ydym wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i edrych ar y posibilïadau ar gyfer canolfan ragoriaeth ym maes adfywio yng Nghymru. Yr ydym yn cynnal uwchgynhadledd adfywio Cymru yr wythnos nesaf yn Abertawe, gyda siaradwyr a gydnabyddir yn rhyngwladol o'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, a bydd 250 o gynadleddwyr yn bresennol. Yn fewnol, yr ydym wedi cynnal adolygiad o'n gwariant ar adfywio o fewn Adran yr Economi a Thrafnidiaeth, i sicrhau ei fod yn canolbwyntio'n effeithiol ar flaenoriaethau 'Cymru'n Un' a blaenoriaethau gweinidogol. Mae hynny'n ymwneud â chyllideb o fwy na £60 miliwn.

Rhaid inni wario ein buddsoddiad mewn adfywio yn ddoeth. Yr wyf am i'n partneriaid fod yn glir ynghylch ein hymagwedd. Ni fyddwn yn cyfnewid adfywio cyfannol ac effaith gyfannol am barodrwydd i gadw pawb yn hapus. Ni fyddwn yn gweithredu'r diwylliant bargaen rhwng cariadon sy'n endemig yng ngwladwriaeth y cwangos. Bydd hon yn broses fwy tryloyw. Gofynnwn gwestiynau anos i'n partneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol. Os yw ein partneriaid am gael cyllid adfywio gennym ar gyfer ardal, byddwn am weld eu hymrwymiad i adfywio'r ardal honno'n gyfannol. Bydd egwyddorion tebyg yn llywio ein cymorth ar gyfer prosiectau adfywio a gyflwynir drwy raglenni'r cronfeydd strwythurol.

Bu rhai adroddiadau camarweiniol ar ein hadolygiad mewnol o wariant ar adfywio. Yn groes i'r adroddiadau hynny, ni fwriadaf gyhoeddi 12 o ardaloedd adfywio strategol ledled Cymru. Fodd bynnag, bwriadaf ddatblygu rhagor o ardaloedd adfywio strategol dros amser. Penderfynir ynghylch y nifer, eu maint a'u cyllidebau ar sail achosion unigol lle y credwn y gallwn ychwanegu gwerth sylweddol at gynlluniau adfywio presennol. Ffactorau allweddol ar gyfer pennu ardaloedd adfywio strategol fydd: y cyfraniad at amcanion 'Cymru'n Un' a'r gyfatebiaeth â blaenoriaethau cynllun gofodol Cymru; cymorth y sector preifat mewn sectorau sy'n bwysig i economi Cymru; cyfle economaidd, sy'n rhoi sylw i amddifadedd ar yr un pryd; cysylltiadau â gwariant ar drafndiaeth gynaliadwy; y potensial ar gyfer tai fforddiadwy; effaith

and tackling economic inactivity. The capacity of local networks, including Communities First partnerships and local authorities, to deliver on this will also be an issue. In some areas, we may establish dedicated project teams based on the Heads of the Valleys model, drawn from relevant Assembly Government departments and local stakeholders.

Today, I am announcing one new strategic regeneration area, covering the seaside towns of Rhyl and Colwyn Bay. I will be visiting both towns on Friday to outline in more detail how we intend to take this forward. Our overall approach to regeneration will ensure that regeneration programmes support the needs of black and minority ethnic communities, in the light of last year's Commission for Racial Equality report. It will also promote initiatives that can strengthen the Welsh language, supporting our 'One Wales' commitment to encourage it to thrive as a language of many communities all over Wales. This new approach will involve necessary prioritisation if we are to make a real difference to the communities that need it the most. We are determined to achieve the maximum and most effective return on Assembly Government investment. We will continue to support a wide range of regeneration projects across Wales. We will continually scope areas that might be included as strategic regeneration areas in the future. I look forward to working with our partners to deliver on this approach.

**David Melding:** I thank the Deputy Minister for his statement. It was typically bold in rhetoric and clearly critical—I was about to say 'implicitly critical'—of his predecessors and the old strategic direction. That is no bad thing, and an effective review of Government policies and programmes is always to be welcomed. However, I still have a problem understanding the direction of travel that the Government wants to take. On the one hand, the Deputy Minister said that we will have necessary prioritisation and, on the other, he says in the following paragraph that there will be support for projects across Wales. We

amgylcheddol a chynaliadwyedd; rhoi sylw i'r cyflenwad sgiliau; a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd. Bydd gallu rhwydweithiau lleol i gyflawni hyn, gan gynnwys partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ac awdurdodau lleol, yn cael ei ystyried hefyd. Mewn rhai ardaloedd, efallai y sefydlwn dimau prosiect penodol yn seiliedig ar fodel Blaenau'r Cymoedd, o blith adrannau perthnasol Llywodraeth y Cynulliad a rhanddeiliaid lleol.

Heddiw, yr wyf yn cyhoeddi un ardal adfywio strategol newydd, sy'n cwmpasu trefi glan môr y Rhyl a Bae Colwyn. Byddaf yn ymweld â'r ddwy dref ddydd Gwener i amlinellu'n fanylach sut y bwriadwn ddatblygu hyn. Bydd ein hymagwedd gyffredinol at adfywio yn sicrhau bod rhaglenni adfywio'n cefnogi anghenion cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, yng ngoleuni adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol y llynedd. Yn ogystal bydd yn hybu mentrau a all gryfhau'r iaith Gymraeg, gan gefnogi ein hymrwymiad yn 'Cymru'n Un' i'w hannog i ffynnu fel iaith llawer o gymunedau ledled Cymru. Bydd yr ymagwedd newydd hon yn golygu bod angen blaenoriaethu os ydym am wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r cymunedau y mae arnynt fwyaf o'i angen. Yr ydym yn benderfynol o sicrhau'r budd mwyaf a'r budd mwyaf effeithiol o fuddsoddiad Llywodraeth y Cynulliad. Byddwn yn parhau i gefnogi ystod eang o brosiectau adfywio ledled Cymru. Byddwn yn edrych yn barhaus am ardaloedd y gellid eu cynnwys fel ardaloedd adfywio strategol yn y dyfodol. Edrychaf ymlaen at weithio gyda'n partneriaid i gyflawni'r ymagwedd hon.

**David Melding:** Diolch i'r Dirprwy Weinidog am ei ddatganiad. Yr oedd, yn nodweddiadol, yn feiddgar ac yn amlwg yn feiriadol—yr oeddwn ar fin dweud bod 'awgrym o feiriadaeth ganddo'—o'i ragflaenwyr a'r hen gyfeiriad strategol. Nid yw hynny'n beth drwg, ac mae croeso bob amser i adolygiad effeithiol o bolisiau a rhaglenni'r Llywodraeth. Fodd bynnag, mae gennyf broblem o hyd o ran deall y trywydd y mae'r Llywodraeth am ei ddilyn. Ar y naill law, dywedodd y Dirprwy Weinidog y bydd angen inni flaenoriaethu ac, ar y llaw arall, dywed yn y paragraff nesaf y bydd

need some detail on the methodology that he proposes, because those two statements stand in opposite directions. He also said that he would not announce 12 strategic regeneration areas, but that strategic regeneration areas would be continuously scoped.

Therefore, that seems to be central to his methodology, even though he will not say in detail where they are likely to be—and I can understand why the Government would not be in a position to list all of the areas that it now thinks must be prioritised, as opposed to a general approach that would be open to the whole of Wales being taken.

I have specific questions to ask, Minister. First, how central is private sector investment to this review of the regeneration strategy, and what assessment have you made of the recent economic crisis and its impact on this important area, which is a good measure, usually, of the success of regeneration programmes? Secondly, you say that this process will be more transparent—and I am sure that everyone in a legislature welcomes that, because it provides an opportunity for effective scrutiny—however, the people lobbying me, who have been all across Wales, have complained about how secretive this review has been. I realise that you are holding a conference next week, and I hope that that will not just be a process of publish and consult, rather than involving people in the upstream of policy development, when they can critically influence the direction of a policy.

I would also like to know whether areas that are outside the convergence funding areas, such as Barry, will be penalised. That is the sort of concrete question that is being asked out there. It is one thing to align your programmes together so that you get maximum punch, but the world is not always ordered quite so conveniently, and you can have some towns that are relatively deprived but are surrounded by more affluent areas, and the rules of the European programmes, which you are not responsible for—I certainly do not accuse you of that—can

cefnogaeth i brosiectau ledled Cymru. Mae angen inni gael rhywfaint o fanylion ynghylch y fethodoleg a gynigir ganddo, oherwydd y mae'r ddau ddatganiad hynny'n groes i'w gilydd. Dywedodd hefyd na fyddai'n cyhoeddi 12 o ardaloedd adfywio strategol, ond yr edrychir yn barhaus am ardaloedd adfywio strategol.

Felly, mae'n ymddangos bod hynny'n ganolog i'w fethodoleg, er na wnaiff ddweud yn fanwl ymhle y maent yn debygol o fod—a gallaf ddeall pam na fyddai'r Llywodraeth yn gallu rhestru'r holl ardaloedd y mae'n credu erbyn hyn fod yn rhaid iddynt gael eu blaenoriaethu, yn hytrach na gweithredu mewn ffordd gyffredinol a fyddai'n cynnwys Cymru gyfan.

Mae gennyf gwestiynau penodol i'w gofyn, Weinidog. Yn gyntaf, pa mor ganolog yw buddsoddiad gan y sector preifat i'r adolygiad hwn o'r strategaeth adfywio, a pha asesiad yr ydych wedi'i wneud o'r argyfwng economaidd yn ddiweddar a'i effaith ar y maes pwysig hwn, sydd, fel arfer, yn fesur da o lwyddiant rhaglenni adfywio? Yn ail, dywedwch y bydd y broses hon yn fwy tryloyw—ac yr wyf yn siŵr bod pawb mewn deddfwrfa yn croesawu hynny, oherwydd y mae'n rhoi cyfle i graffu'n effeithiol—fodd bynnag, mae'r bobl sy'n fy lobio i, a'r rheini o bob rhan o Gymru, wedi cwyno bod yr adolygiad hwn wedi bod yn gyfrinachgar. Yr wyf yn sylweddoli eich bod yn cynnal cynhadledd yr wythnos nesaf, a gobeithio nad proses o gyhoeddi ac ymgynghori yn unig fydd honno, yn hytrach na chynnwys pobl yn gynnar yn y gwaith o ddatblygu polisi, pan allant ddylanwadu'n dyngedfennol ar gyfeiriad polisi.

Hoffwn wybod hefyd a fydd ardaloedd sydd y tu allan i ardaloedd y cyllid cydgyfeirio, megis y Barri, yn cael eu cosbi. Dyna'r math o gwestiwn penodol sy'n cael ei ofyn ar lawr gwlad. Un peth yw gosod eich rhaglenni gyda'i gilydd fel eu bod mor rymus ag sy'n bosibl, ond nid yw'r byd bob amser yn cael ei drefnu mor hwylus â hynny, ac mae rhai trefi sy'n gymharol ddifreintiedig ond eu bod wedi'u hamgylchynu gan ardaloedd mwy cefnog, ac mae rheolau'r rhaglenni Ewropeaidd, nad ydych chi'n gyfrifol amdanynt—yn sicr, nid wyf yn eich cyhuddo

make a more rigid approach to these matters clumsy in certain areas. These are the practical questions that people will be asking.

Finally, although the new plans for 2009-10 only contain a slight reduction in the strategic regeneration budget, we must mark the fact that the budget has been reduced. Last week, the Minister's boss, the Deputy First Minister, was saying that his department has secured an extra £18 million. Therefore, not only have you suffered a slight reduction—and I would not want to exaggerate that—you have also not been successful in getting new moneys into this new strategic approach. That is surely disappointing, given that this could be one of the major areas in which we try to meet some of the more severe consequences of any economic recession that we may now be facing.

**The Deputy Minister for Regeneration (Leighton Andrews):** I thank David Melding for his remarks, in which he was broadly supportive of our move towards strategic objectives in setting our priorities for regeneration.

I thought that I had outlined some quite clear criteria for how we would, for example, make judgments about what strategic regeneration areas might develop in future, including a range of issues, from affordable housing to employability and skills and other aspects of that agenda. That is what I mean by a transparent approach. I entirely reject the idea that there has been anything secretive about this; people have been able to read the minutes of the Cabinet committee on regeneration, skills and economic inactivity, and what we have been doing on the Department for Economy and Transport side of my portfolio is to look at our internal spend, quite sensibly, in line with the 'One Wales' programme and ministerial priorities. We should do that in every area to ensure that we are spending the money where we believe it needs to be spent.

o hynny—yn gallu gwneud dull mwy haearnidd o ymdrin â'r materion hyn yn anhyllaw mewn rhai ardaloedd. Y rhain yw'r cwestiynau ymarferol y bydd pobl yn eu gofyn.

Yn olaf, er nad yw'r cynlluniau newydd ar gyfer 2009-10 ond yn cynnwys gostyngiad bach yn y gyllideb adfywio strategol, rhaid inni nodi'r ffaith bod y gyllideb wedi cael ei lleihau. Yr wythnos diwethaf, yr oedd meistr y Gweinidog, y Dirprwy Brif Weinidog, yn dweud bod ei adran wedi sicrhau £18 miliwn yn ychwanegol. Felly, yr ydych nid yn unig wedi cael gostyngiad bach—ac ni fyddwn am orliwio hynny—yr ydych hefyd wedi methu llwyddo i ddenu arian newydd ar gyfer yr ymagwedd strategol newydd hon. Mae hynny'n siŵr o fod yn siom, o ystyried y gallai hwn fod yn un o'r prif feysydd lle'r ydym yn ceisio ymateb i rai o ganlyniadau mwyaf difrifol unrhyw ddirwasgiad economaidd yr ydym efallai yn ei wynebu yn awr.

**Y Dirprwy Weinidog dros Adfywio (Leighton Andrews):** Diolch i David Melding am ei sylwadau. Ynddynt, yr oedd yn gefnogol ar y cyfan i'n symudiad tuag at amcanion strategol wrth bennu ein blaenoriaethau ar gyfer adfywio.

Tybiwn fy mod wedi amlinellu rhai meini prawf digon clir o ran sut y byddem, er enghraifft, yn penderfynu pa ardaloedd adfywio strategol a allai ddatblygu yn y dyfodol, gan gynnwys amryw o faterion, yn amrywio o dai fforddiadwy i gyflogadwyedd a sgiliau ac agweddau eraill ar yr agenda honno. Dyna sydd gennyf dan sylw wrth sôn am ddull gweithredu tryloyw. Yr wyf yn gwrthod yn llwyr y syniad bod rhywbeth yn gyfrinachgar ynghylch hyn; mae pobl wedi gallu darllen cofnodion pwyllgor y Cabinet ar adfywio, sgiliau ac anweithgarwch economaidd, a'r hyn yr ydym wedi bod yn ei wneud ar ochr Adran yr Economi a Thrafnidiaeth fy mhorthffolio yw edrych ar ein gwariant mewnol, yn ddigon synhwyrol, yn unol â rhaglen 'Cymru'n Un' a blaenoriaethau gweinidogol. Dylem wneud hynny ym mhob maes i sicrhau ein bod yn gwario'r arian lle y credwn fod angen ei wario.

On his specific questions, I regard private sector collaboration as essential to the work that we are doing, as I said in my first speech on regeneration last September. We have been encouraged by the range of private sector partners who are actively supporting different kinds of regeneration initiatives all over Wales.

Has the credit crunch made an impact? Yes, I am sure that it has made an impact, and the First Minister answered questions on that earlier. We are confident, however, that, in the difficult economic times that we are facing, given the strong leadership that has been shown by the Prime Minister and the Chancellor over the last few weeks, leading the world in putting together plans to recapitalise the banks and to ensure liquidity in the system, money will be available for projects, including for small businesses and others who need it. We are also clear that the private sector sees the public sector as an important and safe partner in difficult economic times. That is something else that we will be exploring next week at our summit. We have a strong range of private sector speakers to speak at that event.

4.20 p.m.

He asked specifically about Barry. We are spending, I think, £1.9 million of our regeneration investment in Barry this year. I have a deep, continuing affection for Barry, as the town where I spent the first 11 years of my life, and I look forward to visiting it next month with the local Assembly Member, Jane Hutt, to look at other opportunities for investment and regeneration. Of course, we are always open to the Vale of Glamorgan Council bringing forward proposals for my officials and me to look at.

He is wrong to talk about reductions in spend, because, only last week, I announced the first tourism investment under the structural funds—an additional £9 million. In my statement, I also explained that we are not only looking to structural funds for further investment in regeneration, but that we are also scoping the JESSICA initiatives with the

O ran ei gwestiynau penodol, yr wyf o'r farn bod cydweithio â'r sector preifat yn hanfodol i'r gwaith yr ydym yn ei wneud, fel y dywedais yn fy araith gyntaf ar adfywio fis Medi diwethaf. Yr ydym wedi cael ein calonogi gan yr amrywiaeth o bartneriaid o'r sector preifat sydd wrthi'n cefnogi gwahanol fathau o gynlluniau adfywio ledled Cymru.

A yw'r wasgfa greddyd wedi cael effaith? Ydyw, yr wyf yn siŵr ei bod wedi cael effaith, ac atebodd y Prif Weinidog gwestiynau ynglŷn â hynny'n gynharach. Yr ydym yn hyderus, fodd bynnag, yn y cyfnod economaidd anodd yr ydym yn ei wynebu, o ystyried yr arweiniad cryf sydd wedi'i ddangos gan Brif Weinidog y DU a'r Canghellor dros yr wythnosau diwethaf, yn arwain y byd o ran sefydlu cynlluniau i ailgyfalafu'r banciau a sicrhau hylifedd yn y gyfundrefn, y bydd arian ar gael i brosiectau, gan gynnwys arian i fusnesau bach ac eraill y mae ei angen arnynt. Yr ydym yn glir hefyd fod y sector preifat yn gweld y sector cyhoeddus fel partner pwysig a diogel pan fydd yn anodd yn economaidd. Mae hynny'n rhywbeth arall y byddwn yn ei archwilio yr wythnos nesaf yn ein huwchgynhadledd. Mae gennym amrywiaeth gref o siaradwyr o'r sector preifat i siarad yn y digwyddiad hwnnw.

Holodd yn benodol ynglŷn â'r Barri. Yr ydym yn gwario £1.9 miliwn, yr wyf yn credu, o'n buddsoddiad adfywio yn y Barri eleni. Mae gennyf hoffter dwfn, parhaus o'r Barri, fel y dref lle y treuliais 11 mlynedd cyntaf fy mywyd, ac edrychaf ymlaen at ymweld â hi y mis nesaf gyda'r Aelod Cynulliad lleol, Jane Hutt, i edrych ar gyfleoedd eraill ar gyfer buddsoddi ac adfywio. Wrth gwrs, mae croeso bob amser i Gyngor Bro Morgannwg gyflwyno cynigion i'm swyddogion a minnau edrych arnynt.

Mae'n anghywir siarad am ostyngiadau yn y gwariant, oherwydd, yr wythnos diwethaf, cyhoeddais y buddsoddiad twristiaeth cyntaf o dan y cronfeydd strwythurol—£9 miliwn yn ychwanegol. Yn fy natganiad, esboniais hefyd nad at y cronfeydd strwythurol yn unig yr ydym yn troi am fuddsoddiad ychwanegol mewn adfywio, ond ein bod hefyd yn



assistance of the European Investment Bank. We are embarking on quite exciting times in regeneration, and they will be determined by clear, strategic priorities.

**Nerys Evans:** Diolch yn fawr am y datganiad. Mae David Melding wedi crybwyll cwpwl o bwyntiau pwysig ynglŷn â'r wasgfa gredyd. Mae pedwar pwynt penodol yr hoffwn eu crybwyll. Yr oeddwn yn falch o glywed bod pwyllgor Cabinet newydd i gael ei sefydlu ar adfywio sgiliau a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd. Faint o flaenoriaeth a fydd i waith y pwyllgor hwn? Yn amlwg, mae gan bob adran fydd yn dod ynghyd eu blaenoriaethau. Sut y mae blaenoriaethau'r pwyllgor newydd hwn yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r gwahanol adrannau sy'n dod ynghyd yn y pwyllgor newydd? Pa mor aml y bydd y pwyllgor hwn yn cwrdd?

Yn ail, mae'r bwrdd adfywio yr ydych yn ei gadeirio yn beth da i'w weld. A wnewch roi mwy o fanylion i ni ar hynny? Pa adrannau sy'n dod ynghyd yng nghyfarfodydd y bwrdd hwnnw a pha brosiectau yr ydych yn edrych arnynt?

Yn drydydd, bu ichi sôn am adolygiad sydd wedi'i wneud o ran gwario ar adfywio yn Adran yr Economi a Thrafnidiaeth i sicrhau bod ffocws a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru'n Un, gyda chyllideb o dros £60 miliwn, yn gywir. A allwch roi mwy o fanylion i ni ar hynny ac ar unrhyw benderfyniadau a wnaethpwyd yn sgîl yr adroddiad? A fu unrhyw newidiadau ariannol yn sgîl yr adolygiad hwnnw?

Yn olaf, yr oeddwn yn hapus i glywed eich ymrwymiad i'r iaith Gymraeg o ran cyllido adfywio, ac adfywio i hyrwyddo mentrau a fydd yn cryfhau'r iaith Gymraeg. A allwch roi mwy o fanylion i ni ar hynny? Pa fath o gynlluniau yr ydych yn sôn amdanynt, a sut y byddwch yn mesur llwyddiant yn y maes hwn? A ydych yn bwriadu dynodi arian yn benodol i'r diben hwnnw?

**Leighton Andrews:** I will take those points in reverse order. On the Welsh language, I announced new pilot projects at the Eisteddfod in August and a range of schemes,

ystyried mentrau JESSICA gyda chymorth Banc Buddsoddi Ewrop. Yr ydym yn cychwyn ar gyfnod digon cyffrous ym maes adfywio, wedi'i seilio ar flaenoriaethau strategol, clir.

**Nerys Evans:** Thank you for the statement. David Melding has raised some important points regarding the credit crunch. I have four specific points that I wish to mention. I was glad to hear that a new Cabinet committee will be established on skills regeneration and tackling economic inactivity. How much priority will be given to the work of this committee? Obviously, all the departments that come together will have their priorities. How will the priorities of the new committee correspond to the priorities of the various departments that are coming together to form this committee? How often will the committee meet?

Secondly, I am pleased to see the establishment of the regeneration board that you chair. Will you give us more details on that? Which departments will come together at the board's meetings and what projects are you considering?

Thirdly, you also mentioned the Department for the Economy and Transport's review of spending and regeneration to ensure that the One Wales Government's focus and priorities, with a budget of over £60 million, are correct. Can you give us more details about that and any decisions that have come about as a result of the report? Have there been any financial changes as a result of that review?

Finally, I was pleased to hear your commitment to the Welsh language in terms of funding regeneration, and regeneration to promote initiatives that will strengthen the Welsh language. Can you give us more details on that? What kind of schemes are you talking about, and how will you measure the success in this area? Do you intend to allocate specific funding to this end?

**Leighton Andrews:** Dechreuaf gyda'r olaf o'r pwyntiau hynny a gweithio tuag yn ôl. O ran yr iaith Gymraeg, cyhoeddais y prosiectau peilot newydd yn yr Eisteddfod

including schemes designed to help with affordable housing and job creation and skills. Also, there is a specific pilot in respect of helping to move people from economic inactivity back into work. Those projects will be judged—as will all of our projects—on the basis of the regeneration performance framework that has been established by officials in the departments.

The internal review has been commissioned into all our regeneration spending across the different regions of Wales. That is to ensure that we are moving forward on our key ‘One Wales’ priorities. In certain areas, that will mean that money will be moved around the programme. I am happy to say that, broadly speaking, I feel that the general direction of our regeneration investments across Wales was largely right. It would have been surprising if that had not been the case. There will be a specific focus in line with the principles that I laid down in the statement earlier.

The regeneration board includes representatives of the Department for the Economy and Transport and the Department for Social Justice and Local Government. Representatives of the Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills also attend. Officials working on the Wales spatial plan attend, as do officials from the Welsh European Funding Office.

On the Cabinet committee on regeneration, skills and economic inactivity, I think that I am right in saying that that is due to meet every couple of months. I think that it has had three meetings this year, but I will need to check that and I will drop you a note if I have got that wrong. What has been encouraging is the general recognition across the Assembly Government that we need to work together on delivering more bang for the Assembly’s investment buck. For example, if you are looking at economic inactivity, the work that we have been doing with the Department for the Economy and Transport, the Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills and the Department for Work and

ym mis Awst ynghyd ag amryw o gynlluniau, gan gynnwys cynlluniau sydd â’r nod o helpu gyda thau fforddiadwy a chreu swyddi a sgiliau. Hefyd, mae cynllun peilot penodol i helpu i symud pobl o anweithgarwch economaidd yn ôl i waith. Caiff y prosiectau hynny eu barnu—fel y caiff ein holl brosiectau—ar sail y fframwaith perfformiad adfywio a sefydlwyd gan swyddogion yn yr adrannau.

Cafodd yr adolygiad mewnol ei gomisiynu i’n holl wariant ar adfywio ar draws gwahanol ranbarthau Cymru. Mae hynny er mwyn sicrhau ein bod yn symud ymlaen o ran ein blaenoriaethau allweddol yn ‘Cymru’n Un’. Mewn rhai meysydd, bydd hynny’n golygu y bydd arian yn cael ei symud o amgylch y rhaglen. Yr wyf yn falch o ddweud fy mod yn teimlo, at ei gilydd, fod cyfeiriad cyffredinol ein buddsoddiadau adfywio ar draws Cymru yn gywir ar y cyfan. Byddai wedi bod yn syndod pe na bai felly. Bydd ffocws penodol yn unol â’r egwyddorion a gyflwynais yn y datganiad yn gynharach.

Mae’r bwrdd adfywio yn cynnwys cynrychiolwyr o Adran yr Economi a Thrafnidiaeth a’r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. Mae cynrychiolwyr o’r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau hefyd yn dod i’r cyfarfodydd. Mae’r swyddogion sy’n gweithio ar gynllun gofodol Cymru yn mynychu’r cyfarfodydd, ynghyd â swyddogion o Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

O ran pwyllgor y Cabinet ar adfywio, sgiliau ac anweithgarwch economaidd, credaf fy mod yn iawn wrth ddweud bod hwnnw i fod i gwrdd bob rhyw ddeufis. Credaf ei fod wedi cynnal tri chyfarfod eleni, ond bydd angen imi gadarnhau hynny ac anfonaf nodyn atoch os wyf yn anghywir yn hynny o beth. Yr hyn sydd wedi bod yn galonogol yw’r gydnabyddiaeth gyffredinol ar draws Llywodraeth y Cynulliad fod angen inni weithio gyda’n gilydd i sicrhau mwy o lwyddiant yn sgîl yr arian a fuddsoddir gan y Cynulliad. Er enghraifft, os ydych yn edrych ar anweithgarwch economaidd, mae’r gwaith yr ydym wedi bod yn ei wneud gydag Adran yr Economi a Thrafnidiaeth, yr Adran Plant,

Pensions at a UK level is producing real outputs, for example, through the job match scheme that has now been rolled out across the Heads of the Valleys area. I am pleased to say that when officers from the two councils involved in the Môn a Menai programme, Gwynedd and Ynys Môn councils, came to the Heads of the Valleys area to see that scheme, they were so impressed that they decided that it was something that they wanted to see as part of the Môn a Menai programme. That is an excellent example of the kind of interdepartmental co-operation that we want to drive through that committee.

**Kirsty Williams:** I thank the Minister for his statement today and for his answers to colleagues that have begun to put more flesh on the bones of the original statement.

In answering a question from David Melding about the accusations of secrecy around your development of this strategic approach, you said that people could read the minutes, and I am sure that they are glad that there are minutes to read, but you should acknowledge that there is concern, certainly from local government, that it has not had discussions with you about developing the strategic approach. Not many of us would disagree largely with that approach, but local government feels that it has been left out. Could you outline how you intend to develop your relationship with local government representatives in taking the next stage of your strategy forward? You rightly expect local government to play its full part in matching any money that the Welsh Assembly Government has put in but, from the evidence that it has given to the Enterprise and Learning Committee, it is clear that local government is concerned about how it can work with you at this stage to develop the strategy further.

You mention in your statement that you will be using the spatial plan as a way of identifying key settlements and areas for investment. Could you expand on how you intend to take that forward? Again, in evidence recently received by the Enterprise

Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'r Adran Gwaith a Phensiynau ar lefel y DU yn cynhyrchu canlyniadau gwirioneddol, er enghraifft, drwy'r cynllun paru swyddi sydd wedi cael ei gyflwyno erbyn hyn ar draws ardal Blaenau'r Cymoedd. Yr wyf yn falch o ddweud, pan ddaeth swyddogion o'r ddau gyngor sy'n ymwneud â rhaglen Môn a Menai, cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn, i ardal Blaenau'r Cymoedd i weld y cynllun hwnnw, iddo wneud cymaint o argraff arnynt nes iddynt benderfynu ei fod yn rhywbeth yr oeddent am ei weld yn rhan o raglen Môn a Menai. Mae hynny'n enghraifft ragorol o'r math o gydweithredu rhyngadrannol yr ydym am ei hyrwyddo drwy'r pwyllgor hwnnw.

**Kirsty Williams:** Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw ac am ei atebion i gyd-Aelodau sydd wedi dechrau rhoi rhagor o gnawd ar esgyrn y datganiad gwreiddiol.

Wrth ateb cwestiwn David Melding ynglŷn â'r cyhuddiadau o fod yn gyfrinachgar wrth ichi ddatblygu'r dull gweithredu strategol hwn, dywedasoeh y gallai pobl ddarllen y cofnodion, ac yr wyf yn siŵr eu bod yn falch bod cofnodion i'w darllen, ond dylech gydnabod bod pryder, yn sicr o du llywodraeth leol, nad yw wedi cael trafodaethau gyda chi ynghylch datblygu'r dull gweithredu strategol hwn. Ni fyddai llawer ohonom yn anghytuno'n helaeth â'r dull gweithredu hwnnw, ond mae llywodraeth leol yn teimlo ei bod wedi cael ei gadael allan. A allech amlinellu sut yr ydych yn bwriadu datblygu eich perthynas â chynrychiolwyr llywodraeth leol wrth fwrw ymlaen â cham nesaf eich strategaeth? Yr ydych, yn briodol, yn disgwyl i lywodraeth leol chwarae ei rhan lawn o ran darparu arian i gyfateb i'r hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i ddarparu ond, yn ôl y dystiolaeth a roddwyd gan lywodraeth leol i'r Pwyllgor Menter a Dysgu, mae'n amlwg ei bod yn bryderus ynglŷn â sut y gall weithio gyda chi yn ystod y cam hwn i ddatblygu'r strategaeth ymhellach.

Yn eich datganiad dywedwch y byddwch yn defnyddio'r cynllun gofodol fel ffordd o ddynodi aneddiadau ac ardaloedd allweddol ar gyfer buddsoddi. A allech ymhelaethu ynghylch sut y bwriadwch roi hynny ar waith? Eto, mewn tystiolaeth a gafodd y

and Learning Committee, there was concern that areas already identified in the spatial plan as being significant and strategically important are not getting the resources that they thought might lead from that.

You spoke at length about the success to date of bringing private sector money into regeneration projects in Wales. I am sure that you will be the first to acknowledge that that might prove more difficult in the current economic climate. What assessment have you made of that, and also of how the economic climate will affect the ability of local government to participate in this regime?

Many local authorities have used moneys from 106 agreements, where they have perhaps sold off their own land for commercial development and have been able to draw in regeneration moneys. Those agreements are going to dry up with the slow-down in development because of the economic crisis.

I reiterate the point made by David Melding about areas of Wales that fall outside of the convergence areas. The convergence areas are in particular need, or they would not qualify for that help in the first place, and there are communities at a Community First level that will be the focus of attention, according to your document. However, I am sure that you would agree that deprivation is not the sole preserve of the convergence and Community First areas. David Melding gave the town of Barry as an example. Those who represent Mid and West Wales and rural areas look back to the old market towns initiative, under which recognition was given to the need to regenerate those specific areas. Since the demise of the market towns initiatives, after it had run its full course, it has often been difficult for areas such as Powys to be able to lever in regeneration moneys, because they are on the wrong side of the convergence border and Communities First areas there are few and far between. However, I am sure that you would agree that places such as Llandrindod Wells, Brecon and Knighton are in desperate need of regeneration. Could you outline how you intend to approach those areas that fall

Pwyllgor Menter a Dysgu yn ddiweddar, yr oedd pryder nad yw ardaloedd sydd eisoes wedi cael eu henwi yn y cynllun gofodol fel rhai arwyddocaol, sy'n bwysig yn strategol, yn cael yr adnoddau a allai ddilyn yn sgîl hynny yn eu barn hwy.

Siaradasoch yn helaeth am y llwyddiant hyd yma wrth ddod ag arian y sector preifat i brosiectau adfywio yng Nghymru. Yr wyf yn siŵr mai chi fydd y cyntaf i gydnabod y gallai hynny fod yn anos yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Pa asesiad yr ydych wedi'i wneud o hynny, a hefyd o sut y bydd yr hinsawdd economaidd yn effeithio ar allu llywodraeth leol i gymryd rhan yn y gyfundrefn hon?

Mae llawer o awdurdodau lleol wedi defnyddio arian o gytundebau 106, lle y maent wedi gwerthu eu tir eu hunain efallai ar gyfer datblygiadau masnachol ac wedi gallu denu arian adfywio. Bydd y cytundebau hynny'n mynd yn brinnach wrth i ddatblygu arafu yn sgîl yr argyfwng economaidd.

Ailadroddaf y pwynt a wnaethpwyd gan David Melding ynglŷn ag ardaloedd o Gymru sydd y tu allan i'r ardaloedd cydgyfeirio. Mae angen arbennig yn yr ardaloedd cydgyfeirio, neu ni fyddent yn gymwys i gael yr help hwnnw yn y lle cyntaf, ac mae cymunedau ar lefel Cymunedau yn Gyntaf a fydd yn ganolbwynt sylw, yn ôl eich dogfen. Fodd bynnag, yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno nad yn yr ardaloedd cydgyfeirio a Chymunedau yn Gyntaf yn unig y ceir amddifadedd. Rhoddodd David Melding dref y Barri fel enghraifft. Mae'r rhai sy'n cynrychioli Canolbarth a Gorllewin Cymru yn edrych yn ôl at yr hen fenter trefi marchnad, a fu'n gyfrwng i gydnabod yr angen i adfywio'r ardaloedd penodol hynny. Ers i'r fenter trefi marchnad ddarod, ar ôl iddi redeg ei chwrs, mae wedi bod yn anodd yn aml i ardaloedd fel Powys allu denu arian adfywio, gan eu bod ar yr ochr anghywir i'r ffin cydgyfeirio ac mai prin yw'r ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yno. Fodd bynnag, yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno bod taer angen adfywio ar leoedd fel Llandrindod, Aberhonddu a Threfyclo. A allech amlinellu sut y bwriadwch ymdrin â'r ardaloedd hynny sydd y tu allan i'r ardaloedd cydgyfeirio, a

outside the convergence areas, and how they may be able to engage with you as you develop your strategy?

4.30 p.m.

**Leighton Andrews:** On the issue of the relationship with local government, I met the Welsh Local Government Association yesterday to discuss our approach on regeneration. It was a positive meeting in which we explored the challenges that we jointly face. I came away from that meeting with the impression that the WLGA endorsed our approach. Throughout this process, the WLGA has been involved in several areas. It has been involved in the background work that has been done in scoping the JESSICA review, for example. It has also been involved in the task and finish group that seeks to establish the basis for the centre for regeneration excellence, and we meet with the WLGA regularly.

One problem with the spatial plan is that it identifies a large number of key settlements in each spatial plan area. Ultimately, someone has to make decisions about regeneration spending on the basis of towns or key settlements that are identified, in the recognition that, if we take the Department for the Economy and Transport budget that I have outlined, we are not going to be able to be effective in any one year in using that entire budget in all those settlements. What we mean by a strategic approach to regeneration is not spreading the money too thinly, but generating real outcomes from it.

I do not disagree that the model that has evolved over the last 10 to 15 years of regeneration driven by residential housebuilding has come to a sharp stop and that that has an impact on section 106 agreements with local authorities. As the Member will be aware, there are proposals at a UK level for changes to that whole approach, in any case. There are issues there for us. I do not think, to be honest, that there are simple answers to any of that. However, what I am interested in are the new vehicles that are being created in the housing field, for example, which will have a significant impact on regeneration, often using private

sut y gallent hwy gysylltu â chi efallai wrth ichi ddatblygu eich strategaeth?

**Leighton Andrews:** O ran y berthynas â llywodraeth leol, cyfarfûm â Chymdeithas Llywodraeth Leol ddoe i drafod y ffordd yr ydym yn ymdrin ag adfywio. Yr oedd yn gyfarfod cadarnhaol lle'r archwiliadom yr heriau yr ydym yn eu hwynebu gyda'n gilydd. Deuthum o'r cyfarfod hwnnw gyda'r argraff bod CLILC wedi cymeradwyo ein hymagwedd. Drwy gydol y broses hon, mae CLILC wedi bod yn ymwneud ag amryw o feysydd. Bu'n ymwneud â'r gwaith cefndir a wnaethpwyd ar bennu cwmpas adolygiad JESSICA, er enghraifft. Bu hefyd yn ymwneud â'r grŵp gorchwyl a gorffen sy'n ceisio sefydlu'r sail ar gyfer y ganolfan ragoriaeth ar gyfer adfywio, ac yr ydym yn cyfarfod â CLILC yn rheolaidd.

Un broblem gyda'r cynllun gofodol yw ei fod yn nodi nifer fawr o aneddiadau allweddol ym mhob un o ardaloedd y cynllun gofodol. Yn y pen draw, rhaid i rywun wneud penderfyniadau ynghylch gwariant adfywio ar sail trefi neu aneddiadau allweddol a nodir, a chydabod y ffaith, os cymerwn gyllideb Adran yr Economi a Thrafnidiaeth a amlinellwyd gennyf, na allwn fod yn effeithiol mewn unrhyw flwyddyn o ran defnyddio'r gyllideb gyfan honno yn yr holl aneddiadau hynny. Yr hyn a olygwn wrth ymagwedd strategol at adfywio yw nid gwasgaru'r arian yn rhy denau, ond sicrhau canlyniadau gwirioneddol yn ei sgîl.

Nid anghytunaf fod y model sydd wedi esblygu dros y 10 neu 15 mlynedd diwethaf o adfywio a oedd yn cael ei sbarduno gan adeiladu tai preswyl wedi dod i ben yn sydyn a bod hynny'n cael effaith ar gytundebau adran 106 gydag awdurdodau lleol. Fel y gŵyr yr Aelod, mae cynigion ar lefel y DU i wneud newidiadau yn yr holl ddull hwnnw, beth bynnag. Mae problemau'n gysylltiedig â hynny inni. Ni chredaf, a bod yn onest, fod atebion syml i hynny o gwbl. Fodd bynnag, yr hyn y mae gennyf ddiddordeb ynddo yw'r dulliau newydd sy'n cael eu creu ym maes tai, er enghraifft, a gaiff effaith sylweddol ar adfywio, yn aml drwy ddefnyddio cyllid

finance. For example, RCT Homes has raised over £100 million of private capital, Newport City Homes is about to be launched shortly, and Bron Afon Community Housing has already been launched. There are other examples, too. These organisations are delivering on the Welsh housing quality standard, but are doing much more than that—they are engaged in the real regeneration of their communities.

We are spending regeneration money in areas that are outside of the convergence areas—from the Department for the Economy and Transport, and from the remaining spend on the physical regeneration fund from the Department of Social Justice and Local Government. Indeed, towns such as Llandrindod Wells are benefiting from environmental improvements, to give an illustration from Powys. What is important, and this is why I have met with the Minister for Rural Affairs, is that we look at where we can better tailor together the opportunities under the rural development plan and our own regeneration money. How we work those two funding streams together will be increasingly important to us.

**Ann Jones:** I welcome this statement, Minister, given that you have now included Rhyl and Colwyn Bay as a high priority. I thank you for listening to all the pleas and the questions that I have raised about Rhyl, in particular, and about the need for regeneration there. As you say, housing is important in regeneration, but so are basic skills. That is why I am pleased that we have seen some public sector involvement in West Rhyl in particular. I refer to the £85 million Modus Properties operation at Ocean Plaza, together with the £4.2 million extension to Rhyl College. I am also pleased about the services coming into the west end, such as the healthcare centre.

As you have announced that Rhyl and Colwyn Bay will be a regeneration area, could you say some more about how holistically you will expect that to work? I also wish to ask you about the Communities First programme, which was, sadly, closed

preifat. Er enghraifft, mae Cartrefi RCT wedi codi dros £100 miliwn o gyfalaf preifat, mae Newport City Homes ar fin cael ei lansio cyn bo hir, ac mae Tai Cymunedol Bron Afon eisoes wedi cael ei lansio. Mae enghreifftiau eraill hefyd. Mae'r sefydliadau hyn yn cyflawni safon ansawdd tai Cymru, ond maent yn gwneud llawer mwy na hynny—maent yn ymwneud ag adfywio eu cymunedau yn wirioneddol.

Yr ydym yn gwario arian adfywio mewn ardaloedd sydd y tu allan i'r ardaloedd cydgyfeirio—gan Adran yr Economi a Thrafnidiaeth, a'r gwariant sydd ar ôl ar y gronfa adfywio ffisegol gan yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. Yn wir, mae trefi fel Llandrindod yn elwa o welliannau amgylcheddol, a rhoi enghraifft o Bowys. Yr hyn sy'n bwysig, a dyna pam yr wyf wedi cyfarfod â'r Gweinidog dros Faterion Gwledig, yw ein bod yn edrych ar ble y gallwn gyfuno cyfleoedd yn well o dan y cynllun datblygu gwledig a'n harian adfywio ein hunain. Bydd y ffordd y byddwn yn cyd-drefnu'r ddwy ffrwd ariannu hynny yn gynyddol bwysig inni.

**Ann Jones:** Yr wyf yn croesawu'r datganiad hwn, Weinidog, o gofio eich bod erbyn hyn wedi cynnwys y Rhyl a Bae Colwyn fel blaenoriaeth uchel. Diolch ichi am wrando ar yr holl bleon a'r cwestiynau a godwyd gennyf ynghylch y Rhyl, yn arbennig, ac ynghylch yr angen am adfywio yno. Fel y dywedwch, mae tai'n bwysig o ran adfywio, ond felly hefyd sgiliau sylfaenol. Dyna pam yr wyf yn falch ein bod wedi gweld rhywfaint o gyfranogiad gan y sector cyhoeddus yng Ngorllewin y Rhyl yn arbennig. Cyfeirio yr wyf at gynllun £85 miliwn Modus Properties yn Ocean Plaza ynghyd â'r estyniad gwerth £4.2 miliwn i Goleg y Rhyl. Yr wyf yn falch hefyd o'r gwasanaethau a fydd yn dod i ben gorllewinol y dref, megis y ganolfan gofal iechyd.

Gan ichi gyhoeddi y bydd y Rhyl a Bae Colwyn yn ardal adfywio, a allech ddweud rhagor ynghylch pa mor gyfannol y byddwch yn disgwyl i hynny weithio? Yn ogystal, hoffwn eich holi am y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, a gafodd ei dirwyn i ben yng

down in West Rhyl. A lot of hard work was done by Assembly officials and North Wales Police on the project, but, sadly, that was not able to be sustained. Can you assure me that that will feed into the holistic approach that you talk about? I welcome this statement as a first step to turning Rhyl around.

**Leighton Andrews:** Thank you, Ann. I have been to Rhyl on a few occasions with you, and with Chris Ruane MP, to look at some of the challenges that are faced there, but also to see some of the exciting opportunities, as you mentioned, with regard to Modus Properties. The decision to end the Rhyl West Communities First partnership in its present form was a difficult one. However, as I have said in previous statements on Communities First, we must recognise when things are not working, and take tough decisions. I pay tribute to the work done by officials and others on the ground, and by North Wales Police. The money will not be lost to West Rhyl—it will form part of our approach to the holistic regeneration of Rhyl, and we will look to use that community regeneration budget in conjunction with other investments. For example, the Department for Work and Pensions has invested through its cities strategy, and there is investment from the Department for the Economy and Transport here in Wales as well.

There are similarities in some of the challenges for Rhyl and Colwyn Bay, but there are also differences. There are Communities First areas that have been identified through the Welsh index for multiple deprivation in both seaside towns, and yet there are also areas of opportunity. In developing what I hope could become a pilot for an approach to regenerating seaside towns, we have to ensure that all residents get the benefits of those opportunities. I do not underestimate the challenges that you identified in Rhyl, particularly on the housing front. Having visited that area, as you know, I and my officials are well aware of those challenges.

**Darren Millar:** I also welcome the announcement of the new strategic regeneration area for the seaside towns of

Ngorllewin y Rhyl, yn anffodus. Gweithiodd swyddogion y Cynulliad a Heddlu De Cymru yn galed ar y prosiect, ond, yn anffodus, ni ellid cynnal hynny. A allwch fy sicrhau y bydd hynny'n cyfrannu at yr ymagwedd gyfannol y soniwch amdani? Yr wyf yn croesawu'r datganiad hwn fel cam cyntaf tuag at wella'r Rhyl.

**Leighton Andrews:** Diolch ichi Ann. Yr wyf wedi bod yn y Rhyl rai troeon gyda chi, a chyda Chris Ruane AS, i edrych ar rai o'r heriau a wynebir yno, ond hefyd i weld rhai o'r cyfleoedd cyffrous, fel y soniasoch, yng nghyswllt Modus Properties. Yr oedd y penderfyniad i ddirwyn partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Gorllewin y Rhyl i ben ar ei ffurf bresennol yn un anodd. Fodd bynnag, fel yr wyf wedi dweud mewn datganiadau blaenorol ynghylch Cymunedau yn Gyntaf, rhaid inni gydnabod pan nad yw pethau'n gweithio, a gwneud penderfyniadau anodd. Rhoddaf deyrnged i waith swyddogion ac eraill ar lawr gwlad, ac i waith Heddlu Gogledd Cymru. Ni fydd Gorllewin y Rhyl yn colli'r arian—bydd yn rhan o'n dull o fynd ati i adfywio'r Rhyl yn gyfannol, a byddwn yn ceisio defnyddio'r gyllideb adfywio cymunedol honno ar y cyd â buddsoddiadau eraill. Er enghraifft, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi buddsoddi drwy ei strategaeth dinasoedd, ac mae buddsoddiad gan Adran yr Economi a Thrafnidiaeth yma yng Nghymru hefyd.

Mae nodweddion tebyg i rai o'r heriau ar gyfer y Rhyl a Bae Colwyn, ond mae gwahaniaethau hefyd. Ceir ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf sydd wedi cael eu pennu drwy fynegai amddifadedd lluosog Cymru yn y ddwy dref glan môr, ac eto mae cyfleoedd mewn rhai meysydd hefyd. Wrth ddatblygu'r hyn a allai ddod yn gynllun peilot, gobeithio, ar gyfer dull o fynd ati i adfywio trefi glan môr, rhaid inni sicrhau bod yr holl drigolion yn elwa o'r cyfleoedd hynny. Yr wyf yn llawn sylweddoli'r heriau yr ydych wedi eu nodi yn y Rhyl, yn arbennig o ran tai. Ar ôl ymweld â'r ardal honno, fel y gwyddoch, yr wyf fi a'm swyddogion yn llwyr ymwybodol o'r heriau hynny.

**Darren Millar:** Yr wyf finnau'n croesawu'r cyhoeddiad am yr ardal adfywio strategol newydd ar gyfer trefi glan môr y Rhyl a Bae

Rhyl and Colwyn Bay, which are in my constituency. I agree that a more holistic approach needs to be adopted to regeneration in both towns. However, I have a few questions on this.

First, will you ensure that tourism's potential as a driver for regeneration is not overlooked? These towns had their heyday when the tourism industry was thriving, and they still have some wonderful natural assets to attract people. Secondly, what safeguards have you put in place to ensure that the strategy for this area will link up with the other strategies for north Wales? If we are talking about a holistic approach, then it needs to work across north Wales, and not just within the territory that you have identified. Thirdly, how will you ensure that this links up with the bit in the middle, between Colwyn Bay and Rhyl? I am thinking in particular of Tywyn and Kinnel Bay. As you are aware, Kinnel Bay includes a Communities First area, and it would seem sensible to include it within this new strategic area.

**Leighton Andrews:** I am open to discussing Kinnel Bay further with you, but I do not come at this with a ready-made blueprint. The issue for us is that there have been a number of initiatives, and a number of approaches in different places.

The Wales spatial plan identifies certain priorities. In getting together a specific plan for this area we need to talk to partners, including local authorities. I do not approach this by saying that I will turn up on Friday and take a plan out of my pocket—that is not our approach. We will be discussing this further.

I certainly see tourism as central to regeneration, and not only in your area. Last week, for example, I announced tourism investment in the Heads of the Valleys. We often fail to appreciate how tourism can be used as a driver for jobs for those already working in the industry, and in creating new opportunities. It also contributes to the physical regeneration of areas. I agree with you on that, and I look forward to discussing this further with you, and with others who

Colwyn, sydd yn fy etholaeth. Cytunaf fod angen mabwysiadau dull mwy cyfannol o fynd ati i adfywio yn y ddwy dref. Fodd bynnag, mae gennyf ambell gwestiwn ynglŷn â hyn.

Yn gyntaf, a sicrhewch nad esgeulusir potensial twristiaeth o ran sbarduno adfywio? Yr oedd y trefi hyn yn eu hanterth pan oedd y diwydiant twristiaeth yn ffynnu, ac mae asedau naturiol gwych ganddynt o hyd i ddenu pobl. Yn ail, pa gamau diogelu yr ydych wedi eu rhoi ar waith i sicrhau y bydd y strategaeth ar gyfer yr ardal hon yn cysylltu â strategaethau eraill ar gyfer y gogledd? Os ydym yn sôn am ddull cyfannol, yna mae angen iddo weithio ar draws y gogledd, ac nid dim ond o fewn y diriogaeth a nodwyd gennych. Yn drydydd, sut y sicrhewch fod hyn yn cysylltu â'r ardal yn y canol, rhwng Bae Colwyn a'r Rhyl? Yr wyf yn meddwl yn arbennig am Dywyn a Bae Cinnel. Fel y gwyddoch, mae Bae Cinnel yn cynnwys ardal Cymunedau yn Gyntaf, ac ymddengys y byddai'n synhwyrol ei gynnwys o fewn yr ardal strategol newydd hon.

**Leighton Andrews:** Yr wyf yn barod i drafod Bae Cinnel ymhellach gyda chi, ond nid oes gennyf lasbrint parod ar gyfer hyn. Y broblem i ni bod nifer o fentrau wedi bod, a nifer o ddulliau o fynd ati mewn gwahanol leoedd.

Mae cynllun gofodol Cymru yn nodi rhai blaenoriaethau. Wrth lunio cynllun penodol ar gyfer yr ardal hon mae angen inni siarad â phartneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol. Nid wyf yn ymdrin â hyn drwy ddweud y byddaf yn cyrraedd ddydd Gwener ac yn tynnu cynllun o'm poced—nid felly yr ydym yn gweithredu. Byddwn yn trafod hyn ymhellach.

Yr wyf yn gweld twristiaeth yn rhywbeth canolog o ran adfywio, yn sicr, ac nid dim ond yn eich ardal chi. Yr wythnos diwethaf, er enghraifft, cyhoeddais fuddsoddiad mewn twristiaeth ym Mlaenau'r Cymoedd. Yr ydym yn aml yn methu sylweddoli sut y gellir defnyddio twristiaeth i greu swyddi i'r rhai sydd eisoes yn gweithio yn y diwydiant, ac i greu cyfleoedd newydd. Mae'n cyfrannu hefyd at adfywio ardaloedd yn ffisegol. Cytunaf â chi ynghylch hynny, ac edrychaf



have made representations to me, such as Councillor Chris Hughes.

**Jeff Cuthbert:** Thank you for your statement. I know that you agree that the type of regeneration policies that you are outlining today can certainly help to improve the economic climate in parts of my constituency such as Bargoed, in the very north of Caerphilly, in terms of developing transport links and a new retail plateau. You visited Bargoed recently, and I thank you for that.

4.40 p.m.

The retail plateau is, I understand, to be spearheaded by a major supermarket company, and this has the wide support of the Greater Bargoed Communities First group. Do you agree that such schemes, if implemented strategically, as I am sure they will be, will not only provide employment opportunities for local people, but will also improve the general wellbeing of people in the area by raising self-esteem through employment and by improving the built environment? In terms of the co-ordinated use of European structural funds, I am particularly pleased to hear what you just said about JESSICA and I also look forward to the agreement of JEREMIE in terms of working with small and medium-sized businesses. The other two 'Js'—JUSTIN and JASPER—are not applicable to our current round of funding, but it is nice to mention the full family.

Given the key priorities and themes of the structural funds programmes for both convergence and competitiveness—and the whole of Wales is covered by one or the other, although I acknowledge that the funding for competitiveness is smaller than for convergence—to develop the skills of people, including those who are economically inactive and those who are still in work, it is crucial that European structural funds run in parallel and in co-operation with broader regeneration policies, particularly in the economic climate that we could soon be facing.

**Leighton Andrews:** Funds are being secured from a number of different sources in

ymlaen at drafod hyn ymhellach gyda chi, a chydag eraill sydd wedi cyflwyno sylwadau imi, fel y Cynghorydd Chris Hughes.

**Jeff Cuthbert:** Diolch ichi am eich datganiad. Gwn y cytunwch y gall y math o bolisiau adfywio a amlinellir gennych heddiw yn sicr helpu i wella'r hinsawdd economaidd mewn rhannau o'm hetholaeth fel Bargoed, ym mhen gogleddol Caerffili, o ran datblygu cysylltiadau trafnidiaeth a llwyfandir manwerthu newydd. Ymwelsoch â Bargoed yn ddiweddar, a diolch ichi am hynny.

Deallaf y bydd y llwyfandir manwerthu yn cael ei arwain gan gwmni archfarchnad mawr, ac mae llawer o gefnogaeth i hyn yng ngrŵp Cymunedau yn Gyntaf Bargoed Fwyaf. A gytunwch y bydd cynlluniau o'r fath, os cânt eu rhoi ar waith yn strategol, fel y cânt mae'n siŵr, nid yn unig yn darparu cyfleoedd cyflogaeth i bobl leol, ond hefyd yn gwella lles cyffredinol pobl yr ardal drwy godi hunan-barch drwy gyflogaeth a thrwy wella'r amgylchedd adeiledig? O ran defnyddio cronfeydd strwythurol Ewrop mewn modd cydgysylltiedig, yr wyf yn arbennig o falch o glywed yr hyn yr ydych newydd ei ddweud am JESSICA ac edrychaf ymlaen hefyd at gytundeb JEREMIE o ran gweithio gyda busnesau bach a chanolig. Nid yw'r ddau 'J' arall—JUSTIN a JASPER—yn berthnasol i'n cylch ariannu presennol, ond mae'n braf sôn am y teulu cyfan.

O gofio blaenoriaethau a themâu allweddol rhaglenni'r cronfeydd strwythurol ar gyfer cydgyfeirio a chystadleurwydd—ac mae Cymru gyfan yn cael ei chynnwys yn y naill neu'r llall, er fy mod yn cydnabod bod yr arian ar gyfer cystadleurwydd yn llai na'r arian ar gyfer cydgyfeirio—i ddatblygu sgiliau pobl, gan gynnwys y rhai sy'n anweithgar yn economaidd a'r rhai sy'n parhau i weithio, mae'n hanfodol bod cronfeydd strwythurol Ewropeaidd yn cydfynd ac yn cydweithio â pholisiau adfywio ehangach, yn arbennig yn yr hinsawdd economaidd y gallem fod yn ei hwynebu cyn bo hir.

**Leighton Andrews:** Mae arian yn cael ei sicrhau o nifer o wahanol ffynonellau yng

Caerphilly to support regeneration initiatives. That is not only true of Heads of the Valleys funding; Caerphilly has also been successful in terms of rural development plan funding, in addition to significant Communities First investment. There are also further bids to the Welsh European Funding Office in respect of the number of regeneration initiatives.

The point that you make about people and skills is critical, which is why our approach to regeneration is not the old approach of land reclamation or of physical or property development; it is very much about people as well as places. That is why schemes such as JobMatch and structural-fund-funded schemes such as Genesis and others try to look at people in their entirety. For example, JobMatch provides targeted support to individuals to help them get back into work. When it was piloted in Blaenau Gwent, 1,300 people found jobs and 66 per cent of those were still in work a year later, which provided some evidence of the sustainability of those jobs. That is why it was important to roll out that programme across the five Heads of the Valleys authorities.

**Peter Black:** In your statement you mentioned JESSICA, the Joint European Support for Sustainable Investment in City Areas, and the fact that a feasibility study has now been concluded. When will the conclusions of that study be shared with your partners, and local government, in particular? What plans do you have to work with those partners with regard to the implementation of those conclusions?

**Leighton Andrews:** I met the European Investment Bank and the consultants in September and had an initial presentation on the interim findings, which have been shared with other Ministers, including the Minister for Finance and Public Service Delivery, the Deputy First Minister and the First Minister, but I have not yet seen the final report. I said in my statement that there is a long way to go on this. There are difficult issues to be resolved in relation to convergence and structural funds and there are potentially difficult issues to resolve in relation to state

Nghaerffili i gefnogi mentrau adfywio. Mae hynny nid yn unig yn wir am gyllid ar gyfer Blaenau'r Cymoedd; mae Caerffili hefyd wedi bod yn llwyddiannus o ran cyllid y cynllun datblygu gwledig, yn ogystal â buddsoddiad sylweddol ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf. Hefyd gwnaethpwyd ceisiadau pellach i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru o ran nifer o fentrau adfywio.

Mae'r pwynt a wnewch ynghylch pobl a sgiliau yn hollbwysig. Dyna pam nad yw ein hymagwedd at adfywio yr un fath â'r hen ymagwedd, sef adennill tir neu ddatblygu ffisegol neu ddatblygu eiddo; mae a wnelo lawer iawn â phobl yn ogystal â lleoedd. Dyna pam mae cynlluniau fel JobMatch a chynlluniau a ariennir gan arian strwythurol fel Genesis ac eraill yn ceisio edrych ar bobl yn eu cyfanrwydd. Er enghraifft, mae JobMatch yn darparu cymorth wedi'i dargedu i unigolion i'w helpu i ddychwelyd i'r gwaith. Pan gafodd ei dreialu ym Mlaenau Gwent cafodd 1,300 o bobl swyddi ac yr oedd 66 y cant o'r rheini'n dal i weithio flwyddyn yn ddiweddarach, ac yr oedd hynny'n rhoi peth tystiolaeth ynghylch cynaliadwyedd y swyddi hynny. Dyna pam yr oedd yn bwysig cyflwyno'r rhaglen honno ar draws pum awdurdod Blaenau'r Cymoedd.

**Peter Black:** Yn eich datganiad soniasoch am JESSICA, Cyd-gymorth Ewropeaidd ar gyfer Buddsoddi Cynaliadwy mewn Ardaloedd Dinesig, a'r ffaith bod astudiaeth ddichonoldeb bellach wedi cael ei chwblhau. Pryd y caiff casgliadau'r astudiaeth honno eu rhannu gyda'ch partneriaid, a llywodraeth leol, yn arbennig? Pa gynlluniau sydd gennych i weithio gyda'r partneriaid hynny o ran rhoi'r casgliadau hynny ar waith?

**Leighton Andrews:** Cyfarfûm â Banc Buddsoddi Ewrop a'r ymgynghorwyr fis Medi a chefais gyflwyniad cychwynnol ar y canfyddiadau interim, sydd wedi cael eu rhannu gyda Gweinidogion eraill, gan gynnwys y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Prif Weinidog, ond nid wyf wedi gweld yr adroddiad terfynol hyd yma. Dywedais yn fy natganiad fod llawer i'w wneud ar hyn. Mae materion anodd i'w datrys yng nghyswllt cronfeydd cydgyfeirio a chronfeydd strwythurol ac mae

aids in terms of the operation of the scheme. You would be creating a scheme that would also involve a private sector partner as well as the use of public moneys. So, there are several stages that we will have to negotiate our way through before we can get this right. However, when we are in a position to do so, we will share that with other partners.

**Janice Gregory:** Thank you for an enthusiastic statement on regeneration, which will be warmly welcomed in the Ogmores constituency. When we go around our constituencies and regions, we can all see the effect on people and the places, as you rightly said, of regeneration. My constituency is, of course, just outside the Heads of the Valleys initiative area, and as welcome as that initiative is—we all understand how necessary it is for the five local authorities included in it—local authorities such as mine, in Bridgend, stand enviously by, watching all these regeneration strategies being put in place.

I also welcome your comments about tourism and the tourism initiative. I was interested in the statement that you made in Merthyr Tydfil last week about the money that is going in there. For a constituency such as Ogmores, in which we have former mining valleys, the only regeneration that we can look at there, in reality, would be tourism initiatives.

I thank you for putting to bed quite firmly the myth of the 12 strategic areas. This matter has been raised with me, and I know that local authorities were waiting with bated breath to find out which would be among the 12 strategic authorities.

Can you confirm that the tourism initiative, and others that you have talked about today, will extend to those constituencies and areas that are outside the Heads of the Valleys initiative?

**Leighton Andrews:** I understand the points that you make about the Heads of the Valleys and your own constituency; that is an issue that I want to think more about. It is fair to

materiaion anos i'w datrys o bosibl yng nghyswllt cymorth gan y wladwriaeth o ran gweithrediad y cynllun. Byddech yn creu cynllun a fyddai hefyd yn cynnwys partner o'r sector preifat yn ogystal â defnyddio arian cyhoeddus. Felly, mae amryw o gamau y mae'n rhaid inni eu trafod cyn y gallwn sicrhau bod hyn yn iawn. Fodd bynnag, pan fyddwn yn gallu gwneud hynny, byddwn yn rhannu hynny gyda phartneriaid eraill.

**Janice Gregory:** Diolch ichi am eich datganiad brwdfrydig ar adfywio, a gaiff groeso gwresog yn etholaeth Ogwr. Pan awn o amgylch ein hetholaethau a'n rhanbarthau, gallwn oll weld effaith adfywio ar y bobl a'r lleoedd, fel y dywedasoch. Wrth gwrs, mae fy etholaeth i ychydig y tu allan i ardal menter Blaenau'r Cymoedd ac, er mor dderbyniol yw'r fenter honno—yr ydym i gyd yn deall mor angenrheidiol ydyw i'r pum awdurdod lleol sydd wedi'u cynnwys ynddi—mae awdurdodau lleol fel fy un i, ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yn edrych yn eiddigeddus, gan weld yr holl strategaethau adfywio hyn yn cael eu rhoi ar waith.

Yr wyf hefyd yn croesawu'ch sylwadau am dwristiaeth a'r fenter dwristiaeth. Yr oedd gennyf ddiddordeb yn y datganiad a wnaethoch ym Merthyr Tudful yr wythnos diwethaf am yr arian sy'n mynd i'r fan honno. Yn achos etholaeth fel Ogwr, lle y mae gennym gymoedd a arferai fod yn lofaol, yr unig adfywio y gallwn edrych ymlaen ato yn y fan honno, mewn gwirionedd, fyddai mentrau twristiaeth.

Diolch ichi am roi pen ar y stori am y 12 ardal strategol. Codwyd y mater hwn gyda mi, a gwn fod awdurdodau lleol ar bigau'r drain i ddarganfod pa rai a fyddai ymysg y 12 awdurdod strategol.

A allwch gadarnhau y bydd y fenter dwristiaeth, ac eraill yr ydych wedi sôn amdanynt heddiw, yn ymestyn i'r etholaethau a'r ardaloedd hynny sydd y tu allan i ardal menter Blaenau'r Cymoedd?

**Leighton Andrews:** Yr wyf yn deall y pwyntiau yr ydych yn eu gwneud am Flaenau'r Cymoedd a'ch etholaeth eich hun; mae hwnnw'n fater yr wyf am ei ystyried

say that Bridgend has been a regeneration pioneer in some respects, with Valleys to Coast Housing, for example, which has led the way with regard to the regeneration of housing in that area. We continue to spend regeneration money in Bridgend, and it is also benefiting from rural development plan projects and, significantly, from Communities First.

With regard to what I said about a Valleys homecoming year in 2010, when I spoke in Merthyr Tydfil last week, it is certainly my intention, looking at that Ryder Cup year, when Wales will be in the international spotlight, for us to exploit the opportunity to encourage those who left the Valleys, or their descendants—we know that 0.5 million people left the south Wales Valleys in the inter-war years—to think about coming back to experience their family history and the heritage of the area. I hope that we can develop a project there that will be wider than the Heads of the Valleys area.

**Mark Isherwood:** Referring to your announcement of the strategic regeneration area in Rhyl and Colwyn Bay, I was in Rhyl yesterday, visiting some projects with the UK shadow housing minister, Grant Shapps. We visited The Next Chapter, the new voluntary sector community bookshop, which is also receiving intermediate labour market funding. We also visited West Rhyl Community Company Ltd, where we heard about the work that it is doing.

How will this regeneration go hand in hand with the voluntary sector? The West Rhyl Community Company Ltd explained that its people had been out, knocking on every door in west Rhyl, to ensure that its understanding of the problems was not second hand, but first hand, and to engage with local people and to identify what the solutions to those problems should be.

You referred to housing, but do you agree that we need to focus on three levels? That is, not only with the social housing providers, but with the private landlords as well, and there is the Supporting People aspect, too. Yesterday, the community company

ymhellach. Mae'n deg dweud bod Pen-y-bont ar Ogwr wedi arloesi ym maes adfywio, mewn rhai pethau, gyda Tai Cymoedd i'r Arfordir, er enghraifft, sydd wedi arwain y ffordd o ran adfywio tai yn yr ardal honno. Yr ydym yn dal i wario arian adfywio ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ac mae hefyd yn elwa o brosiectau'r cynllun datblygu gwledig ac, yn sylweddol, o Cymunedau yn Gyntaf.

O ran yr hyn a ddywedais am flwyddyn dychwelyd i'r Cymoedd yn 2010, pan siaredais ym Merthyr Tudful yr wythnos diwethaf, mae'n sicr yn fwriad gennyf, gyda golwg ar flwyddyn Cwpan Ryder, pan fydd Cymru ar ganol y llwyfan rhyngwladol, inni achub y cyfle i annog y rhai a adawodd y Cymoedd, neu eu disgynyddion—gwyddom fod 0.5 miliwn o bobl wedi gadael Cymoedd y de yn y blynyddoedd rhwng y ddau ryfel—i ystyried dychwelyd i brofi eu hanes teuluol a threftadaeth yr ardal. Yr wyf yn gobeithio y gallwn ddatblygu prosiect yn y fan honno a fydd yn ehangach nag ardal Blaenau'r Cymoedd.

**Mark Isherwood:** Gan gyfeirio at eich cyhoeddiad am yr ardal adfywio strategol yn y Rhyl a Bae Colwyn, yr oeddwn yn y Rhyl ddoe, yn ymweld â rhai prosiectau gyda'r gweinidog yng nghabinet gwrthblaid y DU dros dai, Grant Shapps. Ymwelsom â The Next Chapter, siop lyfrau gymunedol newydd y sector gwirfoddol, sydd hefyd yn cael arian y farchnad lafur drosiannol. Ymwelsom hefyd â Chwmni Cymunedol Gorllewin y Rhyl Cyf, lle y clywsom am y gwaith y mae'n ei wneud.

Sut y bydd yr adfywio hwn yn mynd law yn llaw â'r sector gwirfoddol? Esboniodd Cwmni Cymunedol Gorllewin y Rhyl Cyf fod ei staff wedi bod wrthi'n curo ar bob drws yng ngorllewin y Rhyl, i sicrhau ei fod yn cael gwybod am y problemau'n uniongyrchol ac i ymwneud â phobl leol ac i ganfod beth ddylai'r atebion i'r problemau hynny fod.

Cyfeiriasoch at dai, ond a ydych yn derbyn bod angen inni ganolbwyntio ar dair lefel? Hynny yw, nid yn unig gyda darparwyr tai cymdeithasol, ond gyda'r landlordiaid preifat hefyd, ac yn ogystal â hynny mae'r agwedd sy'n ymwneud â Cefnogi Pobl. Ddoe,

highlighted the fact that one of the biggest problems was the number of people being moved in to the area from outside who do not necessarily have connections with the area and who need support for various reasons—because they are ex-offenders, recovering addicts and so on—but who are not receiving it. They are being moved back into mainstream housing without the necessary support, which means that they, and the community, are being let down.

Finally, broader housing issues have been raised with me. For instance, the Pennaf Housing Group has contacted me about issues with the Tai, Dysgu a Gwaith Cymru project—the housing, learning and work project—with regard to intermittent funding and related benefits issues, particularly housing benefit. Cymdeithas Tai Hafan has also contacted me; it has a project in Rhyl dealing with vulnerable young women and is concerned about the possible withdrawal of the Supporting People revenue grant, and the impact that it could have on the broader agenda, which we all have a commitment to seeing being delivered.

4.50 p.m.

**Leighton Andrews:** All of those issues have been raised with me by the constituency Assembly Member and the constituency Member of Parliament during visits that I have undertaken to Rhyl. We view the third sector in Rhyl as a strong partner in this initiative. I have met with representatives of third sector organisations as well as public and private organisations during my previous visits to Rhyl, when a number of these issues were raised. I agree with you about the different levels of housing intervention that are needed; we must address a specific challenge in respect of the number of houses in multiple occupation in Rhyl.

However, all of these issues will require engagement with a dedicated project director and team, and I am picking up on the existing community regeneration support that we have, namely the money that we have in Communities First and other budgets, to produce a coherent approach. That is what we

tynnodd y cwmni cymunedol sylw at y ffaith mai un o'r problemau mwyaf oedd nifer y bobl sy'n cael eu symud i'r ardal o'r tu allan nad oes ganddynt gysylltiadau â'r ardal o reidrwydd ac y mae arnynt angen cymorth am wahanol resymau—am eu bod yn gyn-droseddwyr, yn rhai sy'n gwella ar ôl bod yn gaeth ac yn y blaen—ond heb ei gael. Maent yn cael eu symud yn ôl i dai prif ffrwd heb gael y cymorth angenrheidiol, ac mae hynny'n golygu eu bod hwy, a'r gymuned, yn cael cam.

Yn olaf, mae materion mwy cyffredinol ynghylch tai wedi'u codi gyda mi. Er enghraifft, mae Grŵp Tai Pennaf wedi cysylltu â mi ynghylch anawsterau mewn cysylltiad â phrosiect Tai, Dysgu a Gwaith Cymru o ran ariannu ysbeidiol a materion cysylltiedig sy'n ymwneud â budd-daliadau, yn enwedig budd-dal tai. Mae Cymdeithas Tai Hafan wedi cysylltu â mi hefyd; mae ganddi brosiect yn y Rhyl sy'n delio â menywod ifanc sy'n agored i niwed ac mae'n bryderus ynghylch y posibilrwydd y caiff y grant refeniw Cefnogi Pobl ei dynnu'n ôl, a'r effaith y gallai hynny ei chael ar yr agenda ehangach, yr ydym oll wedi ymrwymo i sicrhau ei bod yn cael ei chyflawni.

**Leighton Andrews:** Codwyd yr holl faterion hynny gyda mi gan yr Aelod Cynulliad dros yr etholaeth a'r Aelod Seneddol dros yr etholaeth yn ystod ymweliadau gennyf â'r Rhyl. Yr ydym yn ystyried bod y trydydd sector yn y Rhyl yn bartner pwysig yn y fenter hon. Yr wyf wedi cwrdd â chynrychiolwyr cyrff y trydydd sector yn ogystal â chyrrff cyhoeddus a phreifat yn ystod fy ymweliadau blaenorol â'r Rhyl, pan godwyd nifer o'r materion hyn. Cytunaf â chi ynghylch y gwahanol lefelau o ymyrraeth y mae eu hangen ym maes tai; rhaid inni wynebu her benodol mewn cysylltiad â nifer y tai amlfeddiannaeth yn y Rhyl.

Fodd bynnag, bydd yr holl faterion hyn yn galw am ymgysylltu â chyfarwyddwr a thîm a fydd wedi'u neilltuo i'r prosiect, ac yr wyf yn mynd ar ôl y cymorth ar gyfer adfywio cymunedol sydd gennym ar hyn o bryd, sef yr arian sydd gennym yng nghyllideb Cymunedau yn Gyntaf a chyllidebau eraill, i

will seek to do.

**Christine Chapman:** Thank you for the statement, Deputy Minister. I particularly welcome the emphasis that you put on places in your statement, and also the idea of holistic regeneration. You mentioned Valleys homecoming in 2010; I would be keen to have further information on that, because it is an excellent idea.

One of the frustrations that many people around Wales experience is the time that regeneration plans for strategic sites take to come to fruition. There may be good reasons for this—they could be about environmental impact studies, trying to build a consensus in the community, or the need for joint working with the other agencies. I would be grateful for a progress report or any comments that you wish to make on the regeneration of two prime pieces of land in my constituency, namely the Phurnacite land in Abercwmboi and the Lady Windsor site in Ynysybwl. I am aware that I have mentioned these sites many times in the Chamber.

On the Phurnacite land, you will be aware that contaminants were cleared from the site a few years ago—I pay tribute to Andrew Davies on this work, because he was instrumental in ensuring that the site was cleared. This was welcomed by the local community, and it went some way towards alleviating fears surrounding the safety of the land. However, progress needs to be made in terms of the after use of the site.

The Lady Windsor site in Ynysybwl, which is also ripe for regeneration, is not part of a Communities First area, but there is, nevertheless, a lot of good work and commitment being shown in the area. Plans and discussions for this particular site have been ongoing for many years; I was involved in this work as a local councillor, so it has been ongoing for at least 14 years. Something should happen on that site. What assurances can you give that you will work with the local authority and other agencies to see that these plans become a reality, because my constituents want to see some action on these important sites?

greu dull gweithredu cydlynol. Dyna fydd ein hamcan.

**Christine Chapman:** Diolch i chi am y datganiad, Ddirprwy Weinidog. Yr wyf yn croesawu'n benodol y pwyslais a roesoch ar leoedd yn eich datganiad, a hefyd y syniad o adfywio cyfannol. Soniasoch am ddychweylid i'r Cymoedd yn 2010; byddwn yn awyddus i gael mwy o wybodaeth am hynny, gan ei fod yn syniad rhagorol.

Un o'r rhwystredigaethau sy'n dod i ran llawer o bobl o gwmpas Cymru yw'r amser y mae'n ei gymryd i gynlluniau adfywio ar gyfer safleoedd strategol ddwyn ffrwyth. Efallai y bydd rhesymau da am hyn—gallent fod yn gysylltiedig ag astudiaethau o'r effaith amgylcheddol, ceisio creu consensws yn y gymuned, neu'r angen am gydweithio â'r asiantaethau eraill. Byddwn yn ddiolchgar o gael adroddiad cynnydd neu unrhyw sylwadau yr ydych yn dymuno'u gwneud am adfywio dau ddarn o dir rhagorol yn fy etholaeth, sef tir Phurnacite yn Abercwmboi a safle Lady Windsor yn Ynys-y-bwl. Yr wyf yn ymwybodol fy mod wedi sôn droeon am y safleoedd hyn yn y Siambr.

Ynghylch tir Phurnacite, byddwch yn ymwybodol bod halogion wedi'u clirio o'r safle ychydig flynyddoedd yn ôl—rhoddaf deyrnged i Andrew Davies am y gwaith hwn oherwydd bu â rhan mewn sicrhau bod y safle'n cael ei glirio. Croesawyd hyn gan y gymuned leol, a chyfrannodd i gryn raddau at leddfu ofnau ynghylch diogelwch y tir. Fodd bynnag, mae angen gwneud cynnydd o ran y modd y defnyddir y safle wedyn.

Mae safle Lady Windsor yn Ynys-y-bwl, sydd hefyd yn barod i'w adfywio, yn un nad yw'n rhan o ardal Cymunedau yn Gyntaf ond, er hynny, mae llawer o ymroddiad a gwaith da yn yr ardal. Mae cynlluniau a thrafodaethau ar gyfer y safle hwn wedi bod yn mynd ymlaen ers blynnyddoedd lawer; yr oeddwn yn ymwneud â'r gwaith hwn fel cynghorydd lleol, felly mae wedi bod yn mynd ymlaen ers 14 blynedd o leiaf. Dylai rhywbeth ddigwydd ar y safle hwnnw. Pa sicrwydd y gallwch ei roi y byddwch yn cydweithio â'r awdurdod lleol ac asiantaethau eraill i sicrhau gwireddu'r cynlluniau hyn, gan fod fy etholwyr am weld

rhywfaint o weithredu ar y safleoedd pwysig hyn?

**Leighton Andrews:** I appreciate the urgency with which you address that issue on behalf of your constituents. I met with the leader, the director of regeneration and the Cabinet member for economic development and housing of Rhondda Cynon Taf County Borough Council last week to discuss a number of these issues. There are a significant number of brownfield sites and unreclaimed sites within the county borough; colleagues will have read at the weekend about the ambitious plans for the Tower Colliery site, which is also in your constituency. We are willing to work with the local authority, but this raises similar issues to those that exist in respect of the Wales spatial plan, which identifies probably more key settlements than we could accommodate within our existing regeneration budget.

We will be looking to the local authority's local development plan, which it is currently developing, to give a sense of further prioritisation, so that we can make sensible decisions as we move forward. You asked specifically about the Phurnacite and Lady Winter sites, and you have written to me about them. I will come back to you with a written update on those specific schemes.

**Leighton Andrews:** Yr wyf yn sylweddoli'r brys sydd gennych wrth roi sylw i'r mater hwnnw ar ran eich etholwyr. Cyfarfûm ag arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, ei gyfarwyddwr adfywio a'i aelod Cabinet dros adfywio economaidd a thai yr wythnos diwethaf i drafod nifer o'r materion hyn. Mae nifer sylweddol o safleoedd tir llwyd a safleoedd sydd heb eu hadfer o fewn y fwrdeistref sirol; bydd cyd-Aelodau wedi darllen dros y penwythnos am y cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer safle Glofa'r Tŵr, sydd hefyd yn eich etholaeth. Yr ydym yn barod i gydweithio â'r awdurdod lleol, ond mae hyn yn codi ystyriaethau tebyg i'r rhai a geir mewn cysylltiad â chynllun gofodol Cymru, sy'n enwi mwy o aneddiadau allweddol nag y gallem eu cynnwys yn ein cyllideb adfywio bresennol, yn ôl pob tebyg.

Byddwn yn aros i weld cynllun datblygu lleol yr awdurdod lleol, sy'n cael ei ddatblygu ganddo ar hyn o bryd, i roi rhyw syniad ynghylch blaenoriaethau pellach, fel y gallwn wneud penderfyniadau synhwyrol wrth inni symud ymlaen. Holasoch yn benodol am safleoedd Phurnacite a Lady Windsor, ac yr ydych wedi ysgrifennu ataf yn eu cylch. Cysylltaf â chi i roi diweddariad ysgrifenedig ar y ddau gynllun hynny.

### **Datganiad Atodol gan y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus**

#### **Supplementary Statement by the Minister for Finance and Public Service Delivery**

**The Presiding Officer:** I have received a request from the Minister for Finance and Public Service Delivery to make a supplementary statement.

**The Minister for Finance and Public Service Delivery (Andrew Davies):** In my statement earlier this afternoon, I said that a total of eight local authorities were involved in the Icelandic banks' collapse, with a potential total exposure of £56 million. I have subsequently been informed by officials in the local government division that the number of authorities is, in fact, nine, with a potential exposure of £60 million.

**Y Llywydd:** Yr wyf wedi cael cais gan y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus i wneud datganiad atodol.

**Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies):** Yn fy natganiad yn gynharach y prynhawn yma, dywedais fod wyth awdurdod lleol gyda'i gilydd yn gysylltiedig â chwmpanciau Gwlad yr Iâ, gyda'r posibilrwydd bod cyfanswm o £56 miliwn mewn perygl. Fe'm hysbyswyd wedyn gan swyddogion yn yr is-adran llywodraeth leol mai naw yw nifer yr awdurdodau, mewn gwirionedd, a bod

Carmarthenshire County Council has £4 million invested with Kaupthing Singer and Friedlander. I wished to take the earliest opportunity possible to make Members aware of this and to put it on the record. I can only apologise to Members for this.

**David Melding:** We thank the Minister for putting the record straight so promptly, and we wholly accept his explanation for why this inadvertent error occurred.

**Kirsty Williams:** On behalf the Welsh Liberal Democrat group, I thank the Minister for coming forward so quickly to ensure that the correct information is on the record. We understand why that was not included earlier.

posibilrwydd bod £60 miliwn mewn perygl. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi buddsoddi £4 miliwn gyda Kaupthing Singer a Friedlander. Yr oeddwn am roi gwybod i'r Aelodau am hyn cyn gynted ag yr oedd yn bosibl imi gael cyfle i wneud hynny a'i ddweud ar goedd. Ni allaf ond ymddiheuro i'r Aelodau am hyn.

**David Melding:** Yr ydym yn diolch i'r Gweinidog am egluro'r sefyllfa mor brydlon, ac yr ydym yn derbyn yn llwyr ei esboniad ynghylch y rheswm dros y camgymeriad anfwriadol hwn.

**Kirsty Williams:** Ar ran grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, diolch i'r Gweinidog am ddod ymlaen mor fuan i sicrhau bod y wybodaeth gywir wedi'i chofnodi. Yr ydym yn deall pam na chafodd hynny ei gynnwys yn gynharach.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 4.57 p.m.  
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 4.57 p.m.*

### **Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Pobl Hŷn The Annual Report of the Older People's Commissioner**

**The Deputy Minister for Social Services (Gwenda Thomas):** I propose that

*the National Assembly for Wales:*

*welcomes the report of the Commissioner for Older People in Wales, a copy of which was laid in Table Office on 7 October 2008. (NDM4026)*

Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle hwn i gyflwyno adroddiad cyntaf Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru i chi heddiw. Yr oedd manifesto Llafur Cymru ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn 2003 yn cynnwys addewid i sefydlu swydd comisiynydd i bobl hŷn yng Nghymru. Yr oedd y cynnig i benodi comisiynydd yn un o argymhellion yr adroddiad ar strategaeth ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru, sef 'Pan Fwyf yn Hen a Pharchus'. Yn sgîl taith lwyddiannus Gorchymyn Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 drwy'r Senedd, rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol iddi ar 25 Gorffennaf 2006. Rhoddodd y Ddeddf hon bwerau i

**Y Dirprwy Weindog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Cynigiad fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*yn croesawu adroddiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Hydref 2008. (NDM4026)*

I very much welcome the opportunity to bring to you the first report of the Older People's Commissioner for Wales today. The Welsh Labour Manifesto for the 2003 Assembly elections included the commitment to establish a commissioner for older people office in Wales. The proposal to set up a commissioner was also one of the recommendations made in the report on a strategy for older people in Wales, 'When I'm 64... and more'. Following its successful passage through Parliament, the Commissioner for Older People (Wales) Act 2006 received Royal Assent on 25 July 2006. The Act gave powers to the Welsh Assembly



Lywodraeth y Cynulliad benodi comisiynydd annibynnol a fyddai'n gyfrifol am hyrwyddo a diogelu buddiannau pobl sydd dros 60 oed yng Nghymru, ac i siarad ar eu rhan. Yr oedd hefyd yn rhoi pwerau i Lywodraeth y Cynulliad lunio rheoliadau ar faterion penodol fel penodi'r comisiynydd a manylu ar ei rôl a'i gyfrifoldebau.

Government to establish an independent commissioner whose role would be to help promote and safeguard the interests of people who are aged 60 or over in Wales, and to speak up on their behalf. It also gave the Assembly Government powers to make regulations about matters such as the appointment of the commissioner and his or her detailed role and responsibilities.

Fel y gwyddoch, dechreuodd comisiynydd pobl hŷn cyntaf Cymru yn ei swydd ar 12 Ebrill eleni. Fe'i penodwyd yn dilyn proses penodiadau cyhoeddus gadarn a oedd yn cynnwys cydweithio trawsbleidiol yn ogystal ag adborth gan bobl hŷn o Gymru yn y broses ddethol. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i benodi comisiynydd plant i roi llais cryfach i blant a phobl ifanc, ac yn awr, ni yw'r cyntaf i benodi comisiynydd i hyrwyddo buddiannau pobl hŷn.

As you are aware, the first commissioner for older people in Wales took up office on 12 April 2008 following a robust public appointments process that involved not only cross party co-operation, but included older people in Wales in the selection process. Wales was the first country in the UK to appoint a children's commissioner to give children and young people a stronger voice, and now we are the first to have appointed a commissioner to promote the interests of older people.

Mae Llywodraeth Cynulliad Gogledd Iwerddon hefyd wedi cyhoeddi ei bod wedi ymrwymo i ddilyn ein hesiampl, ac mae'n mynd ati i greu comisiynydd pobl hŷn. Mae'n amlwg ein bod wedi creu ffasiwn newydd.

The Northern Ireland Assembly Government has also announced its commitment to follow our lead and is now creating the post of older people's commissioner. It is clear, therefore, that we have started a new trend.

5.00 p.m.

As commissioner, Ruth Marks is a champion and a voice for older people, in the same way as the Children's Commissioner for Wales has been for children and young people. As with the children's commissioner, Ruth is independent of the Assembly Government, and her role is to ensure that the interests of older people in Wales, those who are aged 60 or more, are safeguarded, voiced and promoted. We must ensure that we allow her to do her job and set her priorities based on what older people living in Wales tell her they should be. We cannot allow her to be diverted by the political agenda from her prime focus and function.

Fel comisiynydd, mae Ruth Marks yn hwylusydd ac yn llais ar ran bobl hŷn, yn yr un modd ag y mae Comisiynydd Plant Cymru wedi bod ar ran plant a phobl ifanc. Fel sy'n wir am y comisiynydd plant, mae Ruth yn annibynnol oddi ar Lywodraeth y Cynulliad, a'i rôl yw sicrhau bod buddiannau pobl hŷn yng Nghymru, y rheini sy'n 60 oed neu'n hŷn, yn cael eu gwarchod, eu lleisio a'u hyrwyddo. Rhaid inni sicrhau ein bod yn gadael iddi wneud ei gwaith a phennu ei blaenoriaethau ar sail yr hyn y mae pobl hŷn sy'n byw yng Nghymru'n dweud wrthi y dylent fod. Ni allwn ganiatáu i'r agenda wleidyddol ei gwro oddi ar ei phrif ffocws a'i phrif swyddogaeth.

The commissioner is a source of information, advocacy and support for older people in Wales and their representatives. As well as looking at the interests of older people as a whole, she will look into the individual cases of older people in certain circumstances, including when a case raises issues that may

Mae'r comisiynydd yn ffynhonnell gwybodaeth, eiriolaeth a chymorth i bobl hŷn yng Nghymru ac i'w cynrychiolwyr. Yn ogystal ag edrych ar fuddiannau pobl hŷn yn eu crynswth, bydd yn edrych ar achosion unigol pobl hŷn dan amgylchiadau penodol, gan gynnwys pan fydd achos yn codi

have a wider impact on older people generally. She is also looking at the effects that public bodies, such as the Assembly and the national health service, have on older people, and she may publish reports on recommendations for a change. The commissioner has given a commitment in her first annual report to listen to older people around Wales, reaching out particularly to those whose voice is currently not heard. The commissioner will also look at the way in which a local authority or health body implements the policies and procedure that it has put in place for dealing with elder abuse. If these are not being carried out effectively, she will hold authorities to account.

The commissioner has given a commitment to work with the public services ombudsman for Wales on issues affecting older people. Steps have been taken to ensure that there is no duplication of work. She will also work with the new equality and human rights commissioner, particularly on issues of age discrimination and human rights of older people, to ensure that the two offices work in a complementary way to the benefit of older people.

Wales is widely recognised as being a world leader in giving older people a greater say in developing the services that affect them. Our commissioner further consolidates Wales's reputation for innovation and partnership working in older people's policy.

Ruth Marks and I were delighted to be invited to address the International Federation on Ageing's ninth global conference in Montreal at the beginning of September. I am pleased to report that Wales still leads the way on the international front in how it considers the rights of older people, of which we should be rightly proud. However, we cannot afford to sit on our laurels. We created a groundbreaking initiative with our strategy for older people, which has been copied around the world. We must now capitalise on our unique Commissioner for Older People in Wales and the real change that she can effect for our

problemau a allai effeithio'n ehangach ar bobl hŷn yn gyffredinol. Mae'n edrych hefyd ar yr effaith a gaiff cyrff cyhoeddus, megis y Cynulliad a'r gwasanaeth iechyd cenedlaethol, ar bobl hŷn, ac efallai y bydd yn cyhoeddi adroddiadau ynglŷn ag argymhellion ar gyfer newid. Mae'r comisiynydd wedi ymrwymo yn ei hadroddiad blynyddol cyntaf i wrando ar bobl hŷn o gwmpas Cymru, gan estyn allan yn benodol at y rheini nad oes neb yn clywed eu llais ar hyn o bryd. Bydd y comisiynydd hefyd yn edrych ar y ffordd y mae awdurdod lleol neu gorff iechyd yn gweithredu'r polisiau a'r weithdrefn y mae wedi'u sefydlu er mwyn ymdrin â cham-drin yr henoed. Os nad yw'r rhain yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol, bydd yn mynnu cael ateb gan yr awdurdodau.

Mae'r comisiynydd wedi ymrwymo i weithio gydag ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus Cymru ar faterion sy'n effeithio ar bobl hŷn. Cymerwyd camau i sicrhau nad oes dim gwaith yn cael ei ddyblygu. Bydd hefyd yn gweithio gyda'r comisiynydd cydraddoldeb a hawliau dynol newydd, yn enwedig ar faterion sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail oedran a hawliau dynol pobl hŷn, er mwyn sicrhau bod y ddwy swyddfa'n ategu ei gilydd wrth weithio er budd pobl hŷn.

Cydnabyddir yn gyffredinol fod Cymru'n arwain y byd o ran rhoi mwy o lais i bobl hŷn yn y ffordd y datblygir y gwasanaethau sy'n effeithio arnynt. Mae ein comisiynydd yn atgyfnerthu eto enw da Cymru am arloesi a gwaith partneriaeth ym maes polisi ar gyfer pobl hŷn.

Yr oedd Ruth Marks a finnau wrth ein bodd o gael ein gwahodd i annerch nawfed gynhadledd fyd-eang Y Ffederasiwn Rhyngwladol ar Heneiddio ym Montreal ddechrau mis Medi. Yr wyf yn falch o adrodd bod Cymru'n dal ar flaen y gad yn rhyngwladol yn y ffordd y mae'n ystyried hawliau pobl hŷn, a dylem fod yn haeddiannol falch o hynny. Fodd bynnag, ni allwn fforddio gorffwys ar ein rhwyfau. Braenarwyd y tir wrth greu ein strategaeth ar gyfer pobl hŷn, ac mae pobl o gwmpas y byd wedi'i hefelychu. Rhaid inni yn awr fanteisio ar ein Comisiynydd unigryw ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru a'r newid go iawn y gall

ageing society.

**Mark Isherwood:** We welcome Ruth Marks's first report as Commissioner for Older People in Wales. I also congratulate Sarah Stone on her appointment as deputy commissioner.

The population of older people in Wales is growing faster than it is in other parts of the United Kingdom. Demographic changes over the next 20 years are expected to alter the balance of the population significantly. The proportion of people aged 60 and over in Wales is expected to reach 28 per cent by 2017. Within a decade, one in three households in Wales will have someone aged over 65 living in them. Many people in Wales aged 50 and over suffer from problems of poor housing and nutrition, a lack of employment opportunities, and inadequate transport services. Age discrimination in employment, particularly if someone has been made redundant, is a huge problem, and older people can be discriminated against on account of their age in training opportunities and pay.

Older people are often the most reluctant to complain about bad service or poor care. Eradicating discrimination requires a change of attitude across the board, and that will take time. We should not try to kid ourselves that the commissioner will somehow be a panacea for every problem faced by older people. As her report states, it is beyond the powers of the Welsh Assembly Government to deal with many issues affecting older people. For example, pensions and benefits are determined by the UK Government.

Accordingly, I am pleased to hear that work is in progress to establish firm working relationships with the relevant Whitehall departments. It is essential that the commissioner is able to make representations on non-devolved matters. A proper working relationship with Westminster is essential if the commissioner is to represent older people's concerns in all areas effectively. If a proper relationship is not formed, the commissioner will be no substitute for a better basic state pension. Help the Aged in

ei roi ar waith ar gyfer ein cymdeithas sy'n heneiddio.

**Mark Isherwood:** Yr ydym yn croesawu adroddiad cyntaf Ruth Marks fel Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Yr wyf hefyd yn llongyfarch Sarah Stone ar ei phenodi'n ddirprwy gomisiynydd.

Mae'r boblogaeth hŷn yng Nghymru'n tyfu'n gyflymach nag y mae mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Disgwylir y bydd newidiadau demograffig dros yr 20 mlynedd nesaf yn newid cydbwysedd y boblogaeth yn sylweddol. Disgwylir i gyfran y bobl 60 oed a hŷn yng Nghymru gyrraedd 28 y cant erbyn 2017. O fewn degawd, bydd rhywun hŷn na 65 oed yn byw ar un o bob tair aelwyd yng Nghymru. Mae llawer o bobl yng Nghymru sy'n 50 oed a hŷn yn dioddef yn sgil problemau megis cartref a maethiad gwael, diffyg cyfleoedd cyflogaeth, a gwasanaethau cludiant annigonol. Mae gwahaniaethu ar sail oedran ym maes cyflogaeth, yn enwedig os yw rhywun wedi colli'i waith, yn broblem enfawr, a gall pobl hŷn wynebu gwahaniaethu ar sail eu hoedran o ran cyfleoedd i hyfforddi ac o ran cyflog.

Pobl hŷn yn aml yw'r rhai mwyaf cyndyn o gwyno am wasanaeth gwael neu ofal gwael. Er mwyn dileu gwahaniaethu, mae gofyn newid agweddau ym mhob cwr, a bydd angen amser i hynny ddigwydd. Ni ddylem geisio'n twyllo'n hunain y bydd y comisiynydd rywsut yn foddion i wella pob problem a wynebir gan bobl hŷn. Fel y dywed ei hadroddiad, mae ymdrin â llawer o'r problemau sy'n effeithio ar bobl hŷn y tu hwnt i bwerau Llywodraeth y Cynulliad. Er enghraifft, Llywodraeth y DU sy'n pennu pensiynau a budd-daliadau.

Felly, yr wyf yn falch o glywed bod gwaith ar y gweill i sefydlu perthynas weithio gadarn â'r adrannau perthnasol yn Whitehall. Mae'n hanfodol bod y comisiynydd yn gallu cyflwyno sylwadau am faterion nad ydynt wedi'u datganoli. Mae perthynas weithio iawn â San Steffan yn hanfodol os yw'r comisiynydd am gynrychioli pryderon pobl hŷn ym mhob maes mewn modd effeithiol. Oni ffurfir perthynas iawn, ni all y comisiynydd lenwi'r bwloch yn lle pensiwn sylfaenol gwell gan y wladwriaeth. Mae Help

Wales has stated that pension reform would do more to improve the lives of pensioner households. Age Concern has highlighted the need for the commissioner to work with the voluntary sector and groups already representing old people.

The effects of fuel poverty on the elderly are becoming ever more acute. The cultural and behavioural issues that contribute to excess winter deaths must be looked at. Since January 2008, domestic energy prices have risen by a staggering 44 per cent for gas and 27 per cent for electricity. National Energy Action Cymru estimates that, as a result of these increases, 340,000 households in Wales—one in three—will be in fuel poverty this winter. Scotland has already secured £321 million-worth of carbon emissions reduction target funding for energy efficiency measures, and Wales must not be left behind if we are to reduce the incidence of fuel poverty here. An estimated one in three pensioners entitled to pension credits does not take it up. NEA Cymru proposes a joined-up approach, by offering advice on access to energy efficiency grants and measures alongside advice on claiming social security benefits.

More action also needs to be taken on elder abuse. Last year, Wales was shamed in a report that found that it had the worst record in the UK. Six per cent of older people in Wales were known to be victims of physical or mental abuse or neglect, compared with 4 per cent in England and Scotland. Age Concern's project on elder abuse has highlighted threats to older people as a result of financial abuse from postal scams, failure to get their cases through the courts and from legislation for vulnerable adults that is not on a par with that for children.

Advocacy provision for older people in Wales often misses huge numbers who need it. Care homes are a target for theft and handling offences, with 31 cases reported in

the Aged yng Nghymru wedi dweud y byddai diwygio pensiynau'n gwneud mwy i wella bywydau ar aelwydydd pensiynwyr. Mae Age Concern wedi tynnu sylw at y ffaith bod angen i'r comisiynydd weithio gyda'r sector gwirfoddol a'r grwpiau sydd eisoes yn cynrychioli pobl hŷn.

Mae effeithiau tlodi tanwydd ar yr henoed yn dod yn fwyfwy difrifol. Rhaid edrych ar yr ystyriaethau diwylliannol ac ymddygiadol sy'n cyfrannu at y marwolaethau diangen yn y gaeaf. Ers mis Ionawr 2008, mae prisiau ynni domestig wedi codi 44 y cant ar gyfer nwy a 27 y cant ar gyfer trydan. Mae hynny'n syfrdanol. Yn ôl amcangyfrif National Energy Action Cymru, yn sgil y cynnydd hwn, bydd 340,000 o aelwydydd yng Nghymru—un o bob tri—yn dioddef tlodi tanwydd y gaeaf hwn. Mae'r Alban eisoes wedi sicrhau gwerth £321 miliwn o arian y targed gostwng allyriadau carbon ar gyfer camau arbed ynni, a rhaid i Gymru beidio â chael ei gadael ar ôl os ydym am ostwng nifer yr achosion tlodi tanwydd yma. Amcangyfrifir nad yw un o bob tri phensiynwr y mae ganddynt yr hawl i gredydau pensiwn yn eu hawlio. Mae NEA Cymru'n cynnig mynd ati mewn ffordd gydgyssylltiedig, drwy gynnig cyngor ynglŷn â chael gafael ar grantiau a chamau arbed ynni ochr yn ochr â chyngor ynglŷn â hawlio budd-daliadau nawdd cymdeithasol.

Mae angen gwneud rhagor hefyd ynglŷn â cham-drin yr henoed. Y llynedd, cywilyddiwyd Cymru mewn adroddiad a ganfu mai ganddi hi yr oedd record waethaf y DU. Gwyddid bod chwech y cant o bobl hŷn yng Nghymru'n dioddef cam-drin corfforol neu feddyliol neu'n cael eu hesgeuluso, o'u cymharu â phedwar y cant yn Lloegr ac yn yr Alban. Mae project Age Concern ar gam-drin yr henoed wedi tynnu sylw at fygythiadau i bobl hŷn yn sgil cam-drin ariannol ar ffurf cynlluniau twyllo drwy'r post, methu â chael eu hachosion drwy'r llysoedd ac yn sgil deddfwriaeth ar gyfer oedolion agored i niwed nad yw'n cynnig yr un warchodaeth ag y mae'r ddeddfwriaeth ar gyfer plant.

Mae'r ddarpariaeth eiriolaeth ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru'n aml yn methu nifer mawr o bobl y mae angen y gwasanaeth arnynt. Mae cartrefi gofal yn darged ar gyfer

north Wales alone last year. The fear of crime remains a serious issue for the elderly, which is perhaps not surprising given that a survey by the Police Federation of England and Wales found recently that 68 per cent of officers in north Wales disagreed that the quality of police service to the public has improved over the past two years.

An Age Concern study found that older people are still going hungry in hospitals, with 43 per cent of English and Welsh NHS trusts not operating protected meal times. At north Wales Alzheimer's Society discussion fora, I have been told that the No. 1 priority is the need for respite and day care.

Older people are treasure chests of wisdom and experience; they are not burdens on society. They deserve dignity and respect, and we look to the Office of the Commissioner for Older People in Wales to champion that message, and I am confident that it will.

**Christine Chapman:** I welcome this first report of the Commissioner for Older People in Wales. I am confident that the commissioner will be a powerful advocate for older people across Wales for years to come. Almost one in four people in Wales is aged over 60, and it is in all of our interests to ensure that older people can be assured of security and dignity at all times.

I particularly welcome page 5 of the report.

'One of our greatest challenges is to reach older people whose voices are seldom or never heard—those who are vulnerable and frail.'

I could not agree more with that statement, because it is essential that the commissioner engages people beyond the traditional groups, and reaches out to those older people who may be cut off from their communities, perhaps living in their own homes and

troseddau dwyn a thrin eiddo sydd wedi'i ddwyn, gyda 31 o achosion wedi'u cofnodi yn y gogledd yn unig y llynedd. Mae ofn troseddau'n dal yn broblem ddifrifol i'r henoed, ac efallai nad yw hynny'n syndod, ac ystyried bod arolwg gan Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr wedi canfod yn ddiweddar bod 68 y cant o swyddogion y gogledd yn anghytuno bod ansawdd gwasanaeth yr heddlu ar gyfer y cyhoedd wedi gwella yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.

Mewn astudiaeth gan Age Concern, canfuwyd bod pobl hŷn yn dal yn newynog mewn ysbytai, ac nad oes gan 43 y cant o ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru a Lloegr drefniadau ar gyfer amser bwyd penodedig. Yn ffora trafod Cymdeithas Alzheimer Cymru, dywedwyd wrthyf mai'r flaenoriaeth uchaf un yw'r angen am ofal seibiant a gofal dydd.

Mae pobl hŷn yn drysorfa o ddoethineb a phrofiad; nid ydynt yn faich ar ein cymdeithas. Maent yn haeddu urddas a pharch. Disgwyliwn i Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru hyrwyddo'r neges honno, ac yr wyf yn siŵr y gwnaiff hynny.

**Christine Chapman:** Croesawaf yr adroddiad cyntaf hwn gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Yr wyf yn hyderus y bydd y comisiynydd yn lladmerydd cryf dros bobl hŷn ledled Cymru am flynyddoedd i ddod. Mae bron un o bob pedwar o boblogaeth Cymru dros 60 oed, ac mae er budd pawb ohonom i dawelu meddwl pobl hŷn y byddwn yn sicrhau eu diogelwch a'u hurddas bob amser.

Croesawaf yn benodol dudalen 5 yr adroddiad.

Un o'r heriau mwyaf sy'n ein hwynebu yw cyrraedd pobl hŷn nas clywir eu lleisiau'n aml neu nas clywir hwy byth—lleisiau'r sawl sy'n agored i niwed ac syn fregus.

Ni allwn gytuno mwy â'r datganiad hwnnw, oherwydd mae'n hanfodol bod y comisiynydd yn meithrin cysylltiad â phobl y tu hwnt i'r grwpiau traddodiadol a'i bod yn estyn allan at y bobl hŷn hynny a all fod wedi'u datgysylltu oddi wrth eu cymunedau.

isolated or living in one of our many care and nursing homes. We know that loneliness and isolation are very real issues for many older people who are deprived of friendship, human contact and stimulation. A survey commissioned by Help the Aged showed that, in Wales, the main form of company for 55 per cent of people aged over 65 is the television. It is no substitute for the companionship and support normally derived from family, friends, and neighbours.

Efallai eu bod yn byw yn eu cartrefi eu hunain a'u bod wedi'u hynysu, neu eu bod yn byw mewn un o'r llawer o gartrefi gofal a nysio sydd gennym. Gwyddom fod unigrwydd a theimlo'n ynysig yn broblemau go iawn i lawer o bobl hŷn sy'n cael eu hamddifadu o gyfeillgarwch, o gael cysylltiad â phobl ac o gael eu symbylu. Mewn arolwg a gomisiynwyd gan Help the Aged, dangoswyd mai'r teledu yw'r brif ffurf ar gwmni i 55 y cant o bobl dros 65 oed yng Nghymru. Nid yw'n gwneud y tro yn lle'r gwmniaeth a'r cymorth a ddaw fel arfer gan deulu, cyfeillion a chymdogion.

5.10 p.m.

Older people should not be the forgotten members of our communities. We must ensure that they are listened to so that their needs, opinions, and experience—and many old people have had some wonderful experiences that we need to share—are at the centre of all decisions and policies that affect them. The commissioner for older people must be seen by them as their champion, and must explore innovative ways of reaching out to them.

Ni ddylai pobl hŷn fod yn aelodau angof ein cymunedau. Rhaid inni sicrhau bod rhywun yn gwrando arnynt er mwyn i'w hanghenion, eu barn a'u profiad—ac mae llawer o bobl hŷn wedi cael profiadau rhyfeddol y mae angen inni eu rhannu—wrth wraidd yr holl benderfyniadau a'r polisiau sy'n effeithio arnynt. Rhaid i'r comisiynydd pobl hŷn gael ei gweld ganddynt yn un sy'n hwyluso pethau ar eu rhan, a rhaid iddi hithau archwilio ffyrdd arloesol o estyn allan atynt.

The challenges facing our ageing population are much wider than just that of saving for retirement. They include challenges in relation to employment, healthcare, discrimination, and access to services. They require Governments to think much more widely about how to meet the needs of older people—by improving access to sports centres, care homes, to transport and to the workplace. My office, like those of many of us here, is contacted by many elderly constituents regarding issues that affect them disproportionately, such as housing, accessing benefits, and transport. I will give you an example, namely the fact that there is still much more to do in Wales to get a reliable and efficient integrated transport system. I note that a report was discussed today. Elderly constituents regularly ask me what the point is of having a free bus pass if there is no bus service to use it. That point was also made by the commissioner in her report. This is a particular issue in my constituency, where there is still much frustration over the bus service. There has been an improvement, but there is still a long

Mae'r heriau sy'n wynebu'n poblogaeth sy'n heneiddio'n ehangach o lawer na dim ond cynilo ar gyfer ymddeol. Maent yn cynnwys heriau sy'n ymwneud â chyflogaeth, gofal iechyd, gwahaniaethu, a mynediad at wasanaethau. Maent yn gofyn bod Llywodraethau'n meddwl yn ehangach o lawer am sut mae diwallu anghenion pobl hŷn—drwy wella mynediad i ganolfannau chwaraeon, i gartrefi gofal, i gludiant ac i'r gweithle. Bydd llawer o etholwyr hŷn yn cysylltu â'm swyddfa, ac â llawer ohonom yma, ynglŷn â materion sy'n effeithio'n waeth arnynt hwy nag ar y boblogaeth yn gyffredinol, materion megis tai, cael gafael ar fudd-daliadau, a chludiant. Rhoddaf enghraifft ichi, sef bod angen gwneud llawr mwy eto yng Nghymru er mwyn cael system drafnidiaeth integredig ddibynadwy ac effeithlon. Nodaf fod adroddiad wedi'i drafod heddiw. Bydd etholwyr hŷn yn gofyn imi'n rheolaidd beth yw pwynt cael cerdyn i deithio am ddim ar y bysiau os nad oes gwasanaeth bws ar gael iddynt ei ddefnyddio. Gwnaeth y comisiynydd y pwynt hwnnw hefyd yn ei hadroddiad. Mae hon yn broblem benodol yn

way to go. Improvements still fall far short of providing a good, reliable service. Therefore, I am keen for the commissioner to look at that and come to a view on it.

At the core of this issue is the need to change fundamentally how we think about ageing. We must challenge the stereotypes that we have of older people. We must support older people to play a greater role in society. I commend intergenerational projects in schools for bringing older and younger members of the community together. There are huge benefits to be gained if younger and older people have a constructive dialogue and share their experiences. This also aids community cohesion.

Finally, I commend the work of Ruth Marks and her team, and I look forward to future reports from the Commissioner for Older People in Wales.

**Jonathan Morgan:** I welcome this first report from the commissioner. I also welcome the fact that Ruth Marks will engage with all older people in Wales to see how her office can help them to lead better lives and have better access to public services in Wales, which is what we should be about. I also congratulate her on the start that she has made. It is not easy to set up a brand-new office. It must have been quite a task to define the role, and to start engaging with older people. We should congratulate her on the start that she has made and on the work that has been done thus far.

In the report, the commissioner says that she wants to be just and robust. Therefore, I look forward to seeing how she will challenge the various organisations that provide public services, as well as the Assembly Government in its strategic delivery of public services, for older people in Wales. Many of them have a miserable experience of the delivery of public services, whether they are in healthcare, social care, or transport.

fy etholaeth, lle mae'r gwasanaeth bysiau'n dal i beri llawer o rwystredigaeth. Mae pethau wedi gwella, ond mae llawer i'w wneud eto. Er gwaetha'r gwelliannau, mae'r gwasanaeth yn dal ymhell o fod yn dda ac yn ddibynadwy. Felly, yr wyf yn awyddus i'r comisiynydd edrych ar hynny a llunio barn yn ei gylch.

Wrth wraidd y mater hwn, mae'r angen inni newid yn sylfaenol ein hagwedd at heneiddio. Rhaid inni herio'r stereoteipiau sydd gennym o bobl hŷn. Rhaid inni gefnogi pobl hŷn i chwarae mwy o ran yn y gymdeithas. Cymeradwyaf brosiectau rhyng-genhedlaeth mewn ysgolion am ddod â phobl hŷn a phobl iau'r gymuned at ei gilydd. Mae manteision enfawr yn deillio o greu deialog adeiladol rhwng pobl iau a phobl hŷn ac o'u cael i rannu eu profiadau. Mae hyn hefyd yn gymorth i gydlynu'r gymuned.

Yn olaf, cymeradwyaf waith Ruth Marks a'i thîm, ac edrychaf ymlaen at adroddiadau gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn y dyfodol.

**Jonathan Morgan:** Croesawaf yr adroddiad cyntaf hwn gan y comisiynydd. Croesawaf hefyd y ffaith y bydd Ruth Marks yn ymgysylltu â holl bobl hŷn Cymru er mwyn gweld sut y gall ei swyddfa'u cynorthwyo i gael gwell bywyd a gwell mynediad at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, sef yr hyn a ddylai fod yn hanfod i'n gwaith. Fe'i llongyfarchaf hefyd ar y ffordd y mae wedi dechrau arni. Nid peth rhwydd yw sefydlu swyddfa newydd sbon. Mae'n siŵr iddi fod yn dipyn o dasg diffinio'r rôl, a dechrau meithrin cysylltiad â phobl hŷn. Dylem ei llongyfarch ar y ffordd y mae wedi dechrau arni ac ar y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yn hyn.

Yn yr adroddiad, mae'r comisiynydd yn dweud ei bod am fod yn gyfiawn ac yn gadarn. Felly, edrychaf ymlaen at weld sut y bydd yn herio'r gwahanol sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus, yn ogystal â herio Llywodraeth y Cynulliad wrth iddi hithau lunio strategaethau ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus i bobl hŷn yng Nghymru. Profiad diflas sydd gan lawer ohonynt o'r gwasanaethau cyhoeddus, boed hynny ym maes gofal iechyd, gofal

cymdeithasol, neu gludiant.

I have always believed that the mark of a civilised society is one that cares for and shows respect towards older people. Sadly, the United Kingdom does not have a good record in caring for older people, unlike many of our European partners, where older people are central, visible participants in family life and where a culture of respect is well established. I firmly believe that the commissioner for older people should examine the dignity of older people, in a very broad sense, along with the problem of elder abuse, as raised by Mark Isherwood.

I firmly believe that elder abuse is the one topic that the commissioner for older people needs to challenge, because it is a problem throughout public service delivery, particularly where vulnerable older people are being cared for in hospital, in a home, or in their own homes. We know, for example, that the problem of elder abuse is more acute in Wales than it is elsewhere in the United Kingdom. Sadly, it often occurs in the family setting. Elder abuse cannot be tolerated. It should not be tolerated by a society that believes itself to be civilised. We cannot sit back and allow elder abuse to go on without being challenged.

Therefore, I firmly believe that this should be a priority of the older person's commissioner, and that the commissioner needs to examine how advocacy can be one way of giving those older people a voice. Otherwise, they are left behind and the issue of elder abuse is swept under the carpet, and it is almost too easy for the Assembly and for society, generally, to ignore.

The dignity of older people as they access public services is a huge area for the older person's commissioner to examine. I have had a recent experience of this with a family member. My grandfather, a very active, intelligent and highly articulate 82-year-old, who only three years previously had retired as a Cardiff Council councillor, was admitted to hospital last year with a bleed on his brain. Sadly, the experience that he had was not one that I would wish to see repeated. He was treated as someone who simply could not

Yr wyf wedi credu erioed mai arwydd o gymdeithas wâr yw ei bod yn gofalu am bobl hŷn ac yn dangos parch atynt. Yn anffodus, nid oes gan y Deyrnas Unedig record dda'n gofalu am bobl hŷn, yn wahanol i lawer o'n partneriaid Ewropeaidd, lle bydd pobl hŷn yn rhan ganolog amlwg o fywyd y teulu a lle mae diwylliant o barch wedi'i hen sefydlu. Credaf yn gryf y dylai'r comisiynydd pobl hŷn archwilio urddas pobl hŷn, mewn ystyr eang iawn, ynghyd â phroblem cam-drin pobl hŷn, fel y'i codwyd gan Mark Isherwood.

Credaf yn gryf mai cam-drin pobl hŷn yw'r un pwnc y mae angen i'r comisiynydd pobl hŷn ei herio, oherwydd ei bod yn broblem ym mhob agwedd ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig lle bydd pobl hŷn, agored i niwed, yn cael gofal mewn ysbyty, mewn cartref, neu yn eu cartref eu hunain. Gwyddom, er enghraifft fod problem cam-drin pobl hŷn yn waeth yng Nghymru nag mewn unman arall yn y Deyrnas Unedig. Yn anffodus, mae'n aml yn digwydd o fewn y teulu. Ni allwn oddef cam-drin hen bobl. Ni ddylai cymdeithas sy'n ei hystyried ei hun yn gymdeithas wâr ei oddef. Ni allwn eistedd yn ôl a chaniatáu i bobl hŷn gael eu cam-drin heb herio hynny.

Credaf yn gadarn felly y dylai hyn fod yn flaenoriaeth i'r comisiynydd pobl hŷn, a bod angen i'r comisiynydd archwilio sut y gall eiriolaeth fod yn un ffordd o roi llais i'r bobl hŷn hynny. Fel arall, cânt eu gadael ar ôl ac mae mater cam-drin pobl hŷn yn cael ei ysgubo dan y carped, ac mae bron yn rhy hawdd i'r Cynulliad a'r gymdeithas, yn gyffredinol, ei anwybyddu.

Mae urddas pobl hŷn pan fyddant yn cael gwasanaethau cyhoeddus yn faes enfawr i'r comisiynydd pobl hŷn ei archwilio. Yr wyf wedi cael profiad diweddar o hyn gydag aelod o'r teulu. Cafodd fy nhad-cu, dyn 82 oed gweithgar iawn, deallus a thra lafar, a oedd wedi ymddeol gwta dair blynedd yn flaenorol fel cynghorydd yng Nghyngor Caerdydd, ei dderbyn i'r ysbyty y llynedd gyda gwaedlif ar ei ymennydd. Yn anffodus, nid oedd y profiad a gafodd yn un yr hoffwn ei weld yn digwydd eto. Cafodd ei drin fel



understand what the doctors and nurses were saying to him. I asked him whether we should complain about his experiences, but he would not allow me for fear of recrimination.

How many other people in Wales face similar experiences when accessing public services and when seeing elderly relatives accessing those public services? I know that that experience is not unique and, sadly, I believe that the culture of a lack of respect is embedded in the way in which some of these public services are delivered. It needs to be challenged and changed, because if we are a civilised society, tackling that lack of respect and creating a culture of respect and care needs to be a priority.

Ruth Marks has a historic opportunity to change all of this, and I look forward to her being very robust.

**Bethan Jenkins:** I echo the congratulations to Ruth Marks on her work so far as the older person's commissioner and on this first report. Ruth Marks came before the Committee on Equality of Opportunity in the first few months of her appointment, and I was pleased with the way in which she was embracing her new role and the passion that she was showing for her work. That passion has been demonstrated in the way in which she has consulted widely with older people since taking up her role and how she has immediately begun to take part in policy consultations. I was also pleased to receive a letter following that committee outlining all of her responses to my questions, with regards specifically to fuel poverty and the intergenerational work that she can implement as older person's commissioner. One of the points that I wanted to make is that it is important that she works with the children's commissioner, because we are in a unique situation in Wales in that we have those two commissioners, and it would be unfortunate if they did not work together successfully.

Taking a point from the United Nations children's commissioner report on how commissioners report to a Government department, I would like to see a discussion at the Assembly as to whether or not the

rhywun na allai ddeall yr hyn yr oedd y meddygon a'r nyrsys yn ei ddweud wrtho. Gofynnais iddo a ddylem gwyno am ei brofiadau, ond ni fyddai'n caniatáu imi wneud hynny rhag ofn gwrthgyhuddiad.

Sawl un arall yng Nghymru sy'n wynebu profiadau tebyg wrth gael gwasanaethau cyhoeddus ac wrth weld perthnasau hŷn yn cael y gwasanaethau cyhoeddus hynny? Gwn nad yw'r profiad hwnnw'n unigryw ac, yn anffodus, credaf fod y diwylliant diffyg parch yn rhan annatod o'r ffordd y caiff rhai o'r gwasanaethau cyhoeddus hyn eu darparu. Mae angen ei herio a'i newid, oherwydd os ydym yn gymdeithas wâr, mae angen rhoi blaenoriaeth i fynd i'r afael â'r diffyg parch hwnnw a chreu diwylliant o barch a gofal.

Mae gan Ruth Marks gyfle hanesyddol i newid hyn i gyd, ac edrychaf ymlaen at ei gweld yn bod yn rymus iawn.

**Bethan Jenkins:** Atseiniaf y llongyfarchiadau i Ruth Marks ar ei gwaith hyd yma fel y comisiynydd pobl hŷn ac ar yr adroddiad cyntaf hwn. Daeth Ruth Marks gerbron y Pwyllgor ar Gyfle Cyfartal yn ychydig fisoedd cyntaf ei phenodiad, ac yr oeddwn yn falch o'r ffordd yr oedd yn coleddu ei rôl newydd a'r brwdfrydedd yr oedd yn ei ddangos at ei gwaith. Arddangoswyd y brwdfrydedd hwnnw yn y ffordd y bu'n ymgynghori'n eang â phobl hŷn ers dechrau ei swydd a sut y mae wedi dechrau cymryd rhan ar unwaith mewn ymgynghoriadau polisi. Yr oeddwn yn falch hefyd o gael llythyr ar ôl y pwyllgor hwnnw yn amlinellu ei holl atebion i'm cwestiynau, o ran tlodi tanwydd yn benodol a'r gwaith i bontio'r cenedlaethau y gall ei wneud fel comisiynydd pobl hŷn. Un o'r pethau yr oeddwn eisiau ei amlygu yw ei bod yn bwysig iddi weithio gyda'r comisiynydd plant, gan ein bod mewn sefyllfa unigryw yng Nghymru gan fod gennym y ddau gomisiynydd hynny, a byddai'n anffodus pe na fyddent yn gweithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus.

Gan gymryd pwynt o adroddiad comisiynydd plant y Cenhedloedd Unedig ar sut y mae comisiynwyr yn adrodd i adran Llywodraeth, hoffwn weld y Cynulliad yn trafod a ddylai'r comisiynwyr ddechrau adrodd i ni, fel

commissioners should start to report to us, as Assembly Members, in the Senedd, so that we can scrutinise them effectively.

The Committee on Equality of Opportunity will be carrying out a review on the abuse of the elderly, which was inspired by what Ruth Marks was telling us about undetected abuse of the elderly in care homes, as mentioned, and in their everyday lives. We look forward to doing that as a committee and to reporting back when the time comes.

The most pressing issue is fuel poverty, and I know that Ruth Marks is currently working on that. We welcome the investment of £1 billion into fuel poverty by the UK Government, but, considering the hard times ahead during this coming winter, more action must be taken, as this is a pressing matter. Help the Aged state that half of the UK's 2.25 million fuel-poor households contain older people. Therefore, we have much more to do, and I hope that Ruth Marks will play her role, perhaps in looking at the case for mandatory social tariffs across the sector, to take the fuel poor out of the competitive market, or to follow the Scottish model to ensure that all pensioners, regardless of income, have central heating and insulation.

The other issue that is important for Ruth Marks to consider in her future role is the quality of care for the elderly. The cost of long-term personal care for the elderly has been a big issue in Neath Port Talbot, as the Minister will probably know, with people selling their houses to go into the care sector.

5.20 p.m.

I would like to see more focus on mental health and wellbeing for the elderly. I hope that the commissioner will encourage those that she works with to reply to the consultation, 'Delivering Skills that Work for Wales: A new approach to Adult Community Learning', so that older people can take part in activities to create positive mental health in later life and so that they can feel

Aelodau Cynulliad, yn y Senedd, ai peidio, er mwyn inni graffu arnynt yn effeithiol.

Bydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn cynnal adolygiad ar gam-drin pobl hŷn, a ysbrydolwyd gan yr hyn yr oedd Ruth Marks yn ei ddweud wrthym am gamdriniaeth pobl hŷn heb ei ganfod mewn cartrefi gofal, fel y soniwyd amdani, ac yn eu bywydau bob dydd. Edrychwn ymlaen at wneud hynny fel pwyllgor ac at adrodd yn ôl pan ddaw'r amser.

Y mater mwyaf uniongyrchol yw tlodi tanwydd, a gwn fod Ruth Marks yn gweithio ar hynny ar hyn o bryd. Croesawn y buddsoddiad o £1 biliwn mewn tlodi tanwydd gan Lywodraeth y DU, ond, ac ystyried y caledi sydd o'n blaenau yn ystod y gaeaf eleni, mae'n rhaid gwneud mwy, gan fod hwn yn fater pwysig. Dywed Help the Aged fod hanner y 2.25 miliwn o aelwydydd sy'n dioddef o dlodi tanwydd yn y DU yn cynnwys pobl hŷn. Mae gennym lawer mwy i'w wneud felly, a gobeithiaf y bydd Ruth Marks yn chwarae ei rhan, efallai wrth edrych ar yr achos o blaid tollau cymdeithasol gorfodol ar draws y sector, i gymryd pobl sy'n dioddef o dlodi tanwydd allan o'r farchnad gystadleuol, neu ddilyn model yr Alban i sicrhau bod gwres canolog ac insiwleiddiad gan bob pensynwr, ni waeth beth yw ei incwm.

Y mater arall sy'n bwysig i Ruth Marks ei ystyried yn ei rôl yn y dyfodol yw ansawdd gofal i'r henoed. Bu cost gofal personol tymor hir i'r henoed yn fater mawr yng Nghastell-nedd Port Talbot, fel y bydd y Gweinidog yn gwybod mae'n debyg, gyda phobl yn gwerthu eu tai i fynd i mewn i'r sector gofal.

Hoffwn weld mwy o ffocws ar iechyd meddwl a lles ar gyfer henoed. Gobeithiaf y bydd y comisiynydd yn annog y rheini y mae'n gweithio gyda hwy i ymateb i'r ymgynghoriad, 'Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: Dull newydd o Ddysgu Oedolion yn y Gymuned', er mwyn i bobl hŷn gymryd rhan mewn gweithgareddau i greu iechyd meddwl cadarnhaol yn nes

independent. It would also encourage educational development.

Another issue that I hope that she will take up is that of post offices. I have been meeting people in my area. Lots of elderly people are regular users of the post office. This is something on which we should be consulting older people on a much more regular basis, to find out how they will be affected by the closure of so many post offices in our areas.

I know that her role is to scrutinise, but I am very pleased that the commissioner has said quite blatantly in her report that she will be working with other organisations that help the elderly in Wales. That will create a much more representative and inclusive response to future reports and consultations.

**Eleanor Burnham:** Yr ydym yn croesawu'r adroddiad hwn gan Ruth Marks—mae ganddi brofiad a gallu gwych fel comisiynydd ar gyfer pobl hŷn. Yr ydym hefyd yn croesawu Sarah Stone sy'n mynd i fod yn ddirprwy iddi. Prif rôl y comisiynydd yw codi ymwybyddiaeth o oblygiadau poblogaeth sy'n heneiddio ar gyfer polisiau, diogelu buddiannau pobl hŷn ledled Cymru, hybu delweddau cadarnhaol o heneiddio, mynnu'r arferion gorau o ran darpariaeth gwasanaethau, a herio unrhyw wahaniaethu ar sail oed. Yr ydym i gyd yn croesawu'r rôl hwn.

The role of the commissioner is still in its infancy and not yet fully established. I believe that Ruth Marks had a baptism of fire when she first came into the role. I remember her describing the fact that she was working on a shoestring, and I am pleased that things have moved on from then. Her staff are committed to their pledge to promote and safeguard the interests of older people. My early career involved managing domiciliary care for mainly older people. My parents achieved the great ages of 90 and 90-plus and I, like many of us, look forward to achieving similar milestones. We hope that we will all be treated with dignity when we reach such milestones.

ymlaen mewn oes ac er mwyn iddynt deimlo'n annibynnol. Byddai hefyd yn annog datblygiad addysgol.

Un mater arall y gobeithiaf y bydd yn gweithredu yn ei gylch yw mater y swyddfeydd post. Bûm yn cyfarfod â phobl yn fy ardal i. Mae llawer o'r henoed yn defnyddio'r swyddfa bost yn rheolaidd. Dyma rywbeth y dylem fod yn ymgynghori â phobl hŷn yn ei gylch yn llawer mwy rheolaidd, i ganfod sut y bydd cau cynifer o swyddfeydd post yn ein hardaloedd yn effeithio arnynt hwy.

Gwn mai ei gwaith yw craffu, ond yr wyf yn falch iawn fod y comisiynydd wedi dweud yn ddigon amlwg yn ei hadroddiad y bydd yn gweithio gyda sefydliadau eraill sy'n helpu henoed yng Nghymru. Bydd hynny'n creu ymateb llawer mwy cynrychiadol a chynhwysol i adroddiadau ac ymgynghoriadau yn y dyfodol.

**Eleanor Burnham:** We welcome this report by Ruth Marks—she has excellent experience and ability as the commissioner for older people. We also welcome Sarah Stone, who will be her deputy. The commissioner's main role is to raise awareness of the implications of having an ageing population in terms of policies, securing the interests of older people throughout Wales, promoting positive images of getting older, demanding the best practice in terms of providing services, and challenging age discrimination. We all welcome that role.

Megis dechrau y mae rôl y comisiynydd o hyd ac nid yw wedi llawn ennill ei blwyf eto. Credaf fod Ruth Marks wedi cael bedydd tân pan ddaeth i'r swydd gyntaf. Yr wyf yn ei chofio'n disgrifio'r ffaith ei bod yn gweithio ar geiniogau, ac yr wyf yn falch bod pethau wedi symud ymlaen ers hynny. Mae ei staff wedi ymrwymo i'w haddewid i hyrwyddo a diogelu buddiannau pobl hŷn. Yn fy ngyrfa gynnar bûm yn rheoli gofal cartref i bobl hŷn yn bennaf. Llwyddodd fy rhieni i gyrraedd oedrannau mawr 90 a dros 90 ac yr wyf fi, fel cynifer ohonom, yn edrych ymlaen at gyrraedd cerrig milltir tebyg. Gobeithiwn y cawn i gyd ein trin ag urddas pan gyrraeddwn gerrig milltir o'r fath.

It would be churlish to criticise the good work of the commissioner, but I have some doubts about the ability to deliver the pledges—some of the areas for concern have already been mentioned by Bethan Jenkins. We are talking about issues that have been brought to our attention in this report. For instance, page 6 of the report says:

‘I just don’t know how I’ll stay warm this winter’.

My question is not just to this Government, but also to the Government at Westminster. What is the Government doing to protect older people from the very real issue of fuel poverty? The full effects are yet to be felt, with the credit crunch contributing to greater numbers of winter deaths. Let us hope that they are minimal this winter. With the lovely weather that we are having at the moment, it may be easier for people to cope until the very hard winter comes upon us.

There are references to post offices in the report. One quote says:

‘My post office is a lifeline to me and I don’t want to lose it’.

We have lost many post offices and we may even lose more, so I urge the Deputy Minister to do what she can, with the commissioner, to bring some common sense to bear on the Government in Westminster. After all, it is perverse to be getting rid of these post offices when so many people are vulnerable. They have obviously made their mark on Ruth Marks, the commissioner, and her report. Another quote says:

‘I am angry I’ll have nothing to leave my children’.

Fuel poverty, charges for care, reduced pension benefits, shrinking house values and spiralling food costs all need to be taken into consideration. They are all mentioned in the commissioner’s worthy report. Why not scrap the unfair council tax and replace it with a much fairer local income tax? Why not pass fuel companies’ profits onto customers?

Peth anfoesgar fyddai beirniadu gwaith da’r comisiynydd, ond mae gennyf rai amheuon am y gallu i gyflawni’r addewidion—mae Bethan Jenkins eisoes wedi sôn am rai o’r pethau sy’n peri gofid. Yr ydym yn siarad am faterion y’u tynnwyd i’n sylw yn yr adroddiad hwn. Er enghraifft, dywed tudalen 6 o’r adroddiad:

Ni wn o gwbl sut y byddaf yn aros yn gynnes y gaeaf hwn.

Ni chyfeiriai fy nghwestiwn at y Llywodraeth hon yn unig, ond hefyd at y Llywodraeth yn San Steffan. Beth mae’r Llywodraeth yn ei wneud i amddiffyn pobl hŷn rhag mater real iawn tlodi tanwydd? Ni theimlwyd yr effeithiau llawn eto, gyda’r wasgfa greddyd yn cyfrannu at niferoedd mwy o farwolaethau yn ystod y gaeaf. Gadewch inni obeithio y bydd cyn lleied â phosibl o’r rheini eleni. Gyda’r tywydd hyfryd yr ydym yn ei gael ar hyn o bryd, efallai bydd yn haws i bobl ymdopi nes daw’r gaeaf caled iawn.

Mae cyfeiriadau at swyddfeydd post yn yr adroddiad. Dywed un dyfyniad:

Mae fy swyddfa bost yn werth y byd i mi ac nid wyf eisiau ei cholli.

Yr ydym wedi colli llawer o swyddfeydd post ac efallai y collwn fwy eto, felly yr wyf yn erfyn ar y Dirprwy Weinidog i wneud yr hyn ag y gall, gyda’r comisiynydd, i ddod â rhyw synnwyr cyffredin i’r Llywodraeth yn San Steffan. Wedi’r cyfan, mae’n groes i’r graen cael gwared ar y swyddfeydd post hyn pan fydd cynifer o bobl yn agored i niwed. Maent yn amlwg wedi creu argraff ar Ruth Marks, y comisiynydd, a’i hadroddiad. Dywed dyfyniad arall:

Rwyf yn ddig na fydd gennyf dim i’w adael i’r plant.

Mae angen ystyried tlodi tanwydd, costau gofal, budd-daliadau pensiwn llai, gwerthoedd tai gostyngol a chostau bwyd cynyddol i gyd. Sonnir amdanynt i gyd yn adroddiad gwiw’r comisiynydd. Pam na chawn wared ar y dreth gyngor annheg a chael treth incwm lawer tecach yn ei lle? Pam na throsglwyddwn elw cwmnïau tanwydd i

Some people might even be asking about the banking situation, because some older people will now be paying for the bankers' mistakes. Older people will not benefit from the windfall tax on fuel companies, and savings should be passed down the line.

Another quote says:

'The people looking after me don't speak my language'.

When a person is older, colder, more vulnerable and less able to act on their own behalf, is it not basic decency to ensure that someone is looked after by someone who speaks the same language as them, whether that is Welsh or ethnic minority languages beyond Welsh? What priority is the Government giving to this element of service provision in Wales? I am sure that the Deputy Minister will enlighten us when she speaks.

Finally, the commissioner's report accepts that many issues facing older people are outside the powers of the Welsh Assembly Government. That does not have to be the case. Many in this Assembly would welcome the powers that would provide better lives for many of their constituents. While I welcome this report, there are grave issues that this Government should be pressing upon the Government in Westminster.

**Joyce Watson:** I pay tribute to Ruth Marks for her report and hard work throughout the year. I also support many of the comments made here this afternoon, and I shall not reiterate any of those.

My favourite quote about getting older comes from the actress Billie Burke. For the trivia fans among you, she played the Good Witch of the North in the film *The Wizard of Oz*. She said:

'Age is something that doesn't matter, unless you are a cheese'.

I might add wine to that. In many areas of life, such as education, age does not matter.

gwsmeriaid? Gallai rhai pobl fod yn gofyn am sefyllfa'r banciau hyd yn oed, gan y bydd rhai pobl hŷn bellach yn talu am gamgymeriadau'r bancwyr. Ni fydd pobl hŷn yn elwa o'r dreth annisgwyl ar gwmniau tanwydd, a dylai arbedion gael eu trosglwyddo i ben y llinell.

Dywed dyfyniad arall:

Nid yw'r bobl sy'n gofalu amdanaf yn siarad fy iaith.

Pan fydd rhywun yn hŷn, yn oerach, yn fwy agored i newid ac yn methu gwneud pethau i'w hunain cystal, onid yw'n gwrteisi sylfaenol sicrhau bod rhywun yn cael gofal gan rywun sy'n siarad yr un iaith, boed honno'n Gymraeg neu ieithoedd lleiafrif ethnig y tu hwnt i'r Gymraeg? Pa flaenoriaeth mae'r Llywodraeth yn ei rhoi i ddarparu'r gwasanaeth hwn yng Nghymru? Yr wyf yn siŵr y bydd y Dirprwy Weinidog yn rhoi gwybod inni pan fydd yn siarad.

Yn olaf, mae adroddiad y comisiynydd yn derbyn bod llawer o faterion sy'n wynebu pobl hŷn y tu hwnt i bwerau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Nid oes yn rhaid i hynny fod yn wir. Byddai llawer yn y Cynulliad hwn yn croesawu'r pwerau a fyddai'n darparu gwell bywydau i lawer o'u hetholwyr. Er fy mod yn croesawu'r adroddiad hwn, mae materion difrifol y dylai'r Llywodraeth hon fod yn eu gwthio ar y Llywodraeth yn San Steffan.

**Joyce Watson:** Rhoddaf deyrnged i Ruth Marks am ei hadroddiad a'i gwaith caled drwy gydol y flwyddyn. Yr wyf hefyd yn cefnogi llawer o'r sylwadau a wnaethpwyd yma'r prynhawn yma, ac ni fyddaf yn ailadrodd dim ohonynt.

Daw fy hoff ddyfyniad am heneiddio gan yr actores Billie Burke. I'r rheini yn eich plith sy'n hoff o fân ffeithiau, hi a chwaraeodd Wrach Dda'r Gogledd yn y ffilm *The Wizard of Oz*. Dywedodd:

'Nid yw oed yn bwysig, oni bai eich bod yn gaws'.

Efallai ychwanegwn win at hynny. Mewn llawer o agweddau ar fywyd, fel addysg, nid

Rather than being something that starts and finishes when you are young, learning is increasingly valued as something to enjoy and access throughout life. The Open University and the University of the Third Age have given many older people in Wales an opportunity to continue learning. In my own area, in Llandoverly and Narberth, local third age groups have benefitted from funding from the Assembly and the Big Lottery Fund for equipment and visits.

Unfortunately, saying that age does not matter is sometimes wishful thinking, because it can matter, even when it should not. In my short debate before the summer recess, I raised the issue of older people and employment, and how businesses were missing out by not realising the benefits of employing people past the age of 50 and into retirement age.

There are many reasons, both individual and systemic, why older people find themselves excluded from work, but there are signs that things are improving, thanks in part to Government initiatives such as New Deal 50 Plus. That has helped 12,000 people aged 50 and over in Wales to get into employment since 2000.

However, the debate highlighted the sad fact that discrimination is still prevalent in many workplaces. One of the quotes from the commissioner's report sums up the problem:

'I have so much experience to give but no-one seems to want it'.

That is the challenge. Things have to change.

Since then, we have had the Single Equality Bill, with the commitment to outlaw age discrimination, which the commissioner's report rightly says is a momentous decision. I hope that the commissioner will be involved in the scrutiny of that Bill and in its detail. That can only be a good thing for older people in Wales.

**Jeff Cuthbert:** I too welcome the report from Ruth Marks, the Commissioner for

yw oedran yn gwneud gwahaniaeth. Yn hytrach na rhywbeth sy'n dechrau a gorffen pan fyddwch yn ifanc, gwerthfawrogi dysgu mwyfwy fel rhywbeth i'w fwynhau a'i wneud drwy gydol oes. Mae'r Brifysgol Agored a Phrifysgol y Drydedd Oes wedi rhoi cyfle i lawer o bobl hŷn yng Nghymru barhau i ddysgu. Yn fy ardal i, yn Llanymddyfri ac Arberth, mae grwpiau trydedd oes lleol wedi elwa o gyllid gan y Cynulliad a'r Gronfa Loteri Fawr am offer ac ymweliadau.

Yn anffodus, mae dweud nad yw oedran yn gwneud gwahaniaeth weithiau'n ddelfryd gwag, gan ei fod yn gallu gwneud gwahaniaeth, hyd yn oed pan na ddylai. Yn fy nadl fer cyn gwyliau'r haf, codais fater pobl hŷn a diweithdra, a sut yr oedd busnesau ar eu colled am beidio â sylweddoli manteision cyflogi pobl y tu hwnt i 50 oed ac i mewn i oed ymddeol.

Mae llawer o resymau, rhai unigol a systemig, pam y mae pobl hŷn yn canfod eu bod wedi'u heithrio o'r gwaith, ond mae arwyddion bod pethau'n gwella, gyda diolch yn rhannol i fentrau Llywodraeth fel y Fargen Newydd 50 Oed a Throsodd. Mae hynny wedi helpu 12,000 o bobl 50 oed a hŷn yng Nghymru i gael cyflogaeth er 2000.

Fodd bynnag, amlygodd y ddadl y ffaith drist fod gwahaniaethu'n gyffredin o hyd mewn llawer o weithleoedd. Mae un o'r dyfyniadau o adroddiad y comisiynydd yn crynhoi'r broblem:

Mae gen i gymaint o brofiad i'w roi ond mae'n debyg nad oes neb ei eisiau.

Dyna'r her. Mae'n rhaid i bethau newid.

Ers hynny, cawsom y Mesur Cydraddoldeb Unigol, a ymrwymodd i wahardd gwahaniaethu ar sail oedran, y dywed adroddiad y comisiynydd yn briodol ei fod yn benderfyniad pwysig iawn. Gobeithiaf y caiff y comisiynydd ei chynnwys yng ngwaith craffu ar y Mesur hwnnw a'i fanylion. Dim ond peth da y gall hwnnw fod i bobl hŷn yng Nghymru.

**Jeff Cuthbert:** Yr wyf fi hefyd yn croesawu'r adroddiad gan Ruth Marks, y

Older People in Wales. In this instance, as in others, we are leading the way for the rest of the UK, and this is the latest in a long line of Labour policies that have been put in place over the years to help ensure equal opportunities for all. After all, getting old unites us in its inevitability.

5.30 p.m.

Since 1997, the Labour Government at Westminster has brought in huge benefits for older people that simply did not exist before. Those include a winter fuel allowance that will rise this year to £250 for the over-60s, and up to £400 for the over-80s. A package worth over £1 billion was announced this year to allow older people to insulate their homes for free, enabling them to save money on their energy bills not just this year, but every year. A cold weather payment was also announced for the most vulnerable, which will rise this year from £8.50 to £25 a week.

In Wales, we have also seen many policies come into effect to help make the lives of elderly people that little bit easier. Many of these initiatives have been derided as gimmicks by those who should know better. I am thinking of initiatives such as the free bus pass, which has helped to increase social mobility for elderly people and has given them back some lost freedoms, and the free swimming scheme for older people, which not only provides access to a form of exercise that is easy on the joints, but can also give a new lease of life. These so-called gimmicks have helped over 500,000 older people in Wales, including many in my constituency, who continuously approach me to heap praise on them.

However, the post of Commissioner for Older People is more than just a continuation of these policies. I trust that Ruth Marks will engage with and give voice to older people in Wales. I hope that, in future, we will be able to clearly see the findings of the commissioner influencing policy ideas and closing gaps that might not have been noticed before. The areas that I hope could be looked at could include developing cross-border agreements in relation to the equivalent transport schemes in England and Scotland to

Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru. Yn yr achos hwn, fel eraill, yr ydym yn arwain y ffordd i weddill y DU, a dyma'r diweddaraf mewn rhes hir o bolisiau Llafur a roddwyd ar waith dros y blynyddoedd i helpu i sicrhau cyfle cyfartal i bawb. Wedi'r cyfan, anorfodrwydd heneiddio sy'n ein huno.

Er 1997, mae'r Llywodraeth Lafur yn San Steffan wedi cyflwyno buddiannau enfawr i bobl hŷn nad oeddent yn bodoli o'r blaen. Mae'r rheini'n cynnwys lwfans tanwydd gaeaf a fydd yn codi eleni i £250 i bobl dros 60 oed, a hyd at £400 i bobl dros 80 oed. Cyhoeddwyd pecyn sy'n werth dros £1 biliwn eleni i alluogi pobl hŷn i insiwleiddio eu cartrefi'n rhad ac am ddim, gan eu galluogi i arbed arian ar eu biliau ynni nid eleni'n unig, ond bob blwyddyn. Cyhoeddwyd hefyd taliad tywydd oer i'r rheini sy'n fwyaf agored i niwed, a fydd yn codi eleni o £8.50 i £25 yr wythnos.

Yng Nghymru, yr ydym hefyd wedi gweld llawer o bolisiau'n dod i rym i helpu i wneud bywydau pobl oedrannus ychydig yn haws. Gwawdiwyd llawer o'r mentrau hyn fel gimigau gan y rheini a ddylai wybod yn well. Yr wyf yn sôn am fentrau fel y tocyn bws rhad ac am ddim, sydd wedi helpu i wneud henoed yn fwy symudol yn y gymdeithas ac wedi rhoi ambell ryddid coll yn ôl iddynt, a'r cynllun nofio rhad ac am ddim i bobl hŷn sydd, yn ogystal â darparu math o ymarfer sy'n rhwydd i'r cymalau, hefyd yn gallu rhoi bywyd newydd i rywun. Mae'r gimigau honedig hyn wedi helpu dros 50,000 o bobl hŷn yng Nghymru, gan gynnwys llawer yn fy etholaeth i, sy'n dod ataf o hyd i'w canmol i'r cymylau.

Fodd bynnag, mae swydd y Comisiynydd Pobl Hŷn yn gwneud mwy na pharhau'r polisiau hyn yn unig. Yr wyf yn ffyddiog y bydd Ruth Marks yn ymgysylltu â phobl hŷn yng Nghymru ac yn rhoi llais iddynt. Gobeithiaf, yn y dyfodol, y gallwn weld yn glir ganfyddiadau'r comisiynydd yn dylanwadu ar syniadau polisi a chau bylchau na sylwyd arnynt o'r blaen efallai. Ymhlith y meysydd y gobeithiaf y gellid edrych arnynt y mae datblygu cytundebau trawsffiniol yng nghyswllt y cynlluniau trafndiaeth cyfwerth

allow holders of the older people's bus pass to travel around the whole of the UK without having to pay. Another area is the continued development of lifelong learning schemes throughout Wales, which add to a sense of purpose for older people, allowing them to retrain, if needed, or to simply to continue to expand the mind.

Jonathan Morgan referred earlier to the problems that his father had experienced in hospital. I genuinely sympathise—

**Jonathan Morgan:** It was my grandfather.

**Jeff Cuthbert:** I beg your pardon. However, by way of balance, my mother, who is 88, left hospital today after three weeks, and has returned home. The experience that she had in hospital was good. A sound care package has been put in place by Cardiff social services department, with support from Rookwood Hospital, which is meeting her needs. Therefore, the experience of many older people of public services is a good one.

I warmly welcome this, the first of many reports from the Commissioner for Older People in Wales. I look forward, in due course, to hearing positive messages about her work from older people and their organisations in Wales.

**The Deputy Minister for Social Services (Gwenda Thomas):** Thank you for your comments, Mark, and for your reference to an ageing society. I am glad that you made the point that older people should not be seen as a problem, but as a source of experience; I totally support that. I have personal experience of wishing for a change of attitude—perhaps since taking up this post. It happens to all of us, and a change in attitude is essential. I will return to your point on elder abuse later.

Christine also talked about the dignity in care programme, as did Jonathan. We have a protection of vulnerable adults group in the Assembly, as well as a dignity in care group. That dignity in care group has a sub-group on the care sector, whose chair has been

yn Lloegr a'r Alban er mwyn i'r rheini â'r tocyn bws pobl hŷn allu teithio ledled y DU heb orfod talu. Un maes arall yw datblygiad parhaus cynlluniau dysgu gydol oes ledled Cymru, sy'n ychwanegu at ymdeimlad o ddiben i bobl hŷn, a'u galluogi i ailhyfforddi, os oes angen, neu barhau i ehangu eu meddyliau yn unig.

Cyfeiriodd Jonathan Morgan yn gynharach at y problemau a gafodd ei dad yn yr ysbyty. Yr wyf yn cydymdeimlo'n ddiffuant—

**Jonathan Morgan:** Fy nhad-cu oedd hwnnw.

**Jeff Cuthbert:** Mae'n ddrwg gennyf. Fodd bynnag, i gael cydbwysedd, gadawodd fy mam, sy'n 88, yr ysbyty heddiw ar ôl tair wythnos, ac mae wedi dychwelyd adref. Yr oedd y profiad a gafodd yn yr ysbyty yn dda. Mae pecyn gofal cadarn wedi'i drefnu gan adran gwasanaethau cymdeithasol Caerdydd, gyda chefnogaeth Ysbyty Rookwood, sy'n bodloni ei hanghenion. Felly, mae profiad llawer o bobl hŷn o wasanaethau cyhoeddus yn un da.

Croesawaf hyn yn frwd, y cyntaf o adroddiadau lawer gan y Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru. Edrychaf ymlaen, maes o law, at glywed negeseuon cadarnhaol am ei gwaith gan bobl hŷn a'u sefydliadau yng Nghymru.

**Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Diolch am eich sylwadau, Mark, ac am gyfeirio at gymdeithas sy'n heneiddio. Yr wyf yn falch ichi wneud y pwynt na ddylid ystyried mai problem yw pobl hŷn, ond ffynhonnell o brofiad; yr wyf yn cefnogi hynny'n llwyr. Yr wyf fi'n bersonol wedi dymuno gweld newid agwedd—efallai ers dechrau'r swydd hon. Mae'n digwydd i bob un ohonom, ac mae newid agwedd yn hanfodol. Dychwelaf at eich pwynt am gam-drin pobl hŷn yn ddiweddarach.

Siaradodd Christine hefyd am y rhaglen urddas mewn gofal, fel y gwnaeth Jonathan. Mae gennym grŵp amddiffyn oedolion agored i niwed yn y Cynulliad, yn ogystal â grŵp urddas mewn gofal. Mae gan y grŵp urddas mewn gofal hwnnw is-grŵp ar y



appointed—Dr Win Tadd. I am sure that you will welcome those steps. However, what is essential, and what will happen is that we will review ‘In Safe Hands’, the guidance that was issued in 2000. Over seven years have passed, and so I think that we need to revisit that urgently. There will also be a joint review by the Care and Social Services Inspectorate for Wales and Healthcare Inspectorate Wales of the national service framework; I am sure that we all welcome that.

Thank you for your positive remarks, Jonathan. It struck me that we have an effective inter-generational link here. Hearing your positive remarks and the respect that you are prepared to give older people is important. I am sure, Jonathan, that the commissioner will not let the Assembly escape her scrutiny, and we would not expect her to do so. It is sometimes difficult to identify when an older person is being abused. I take seriously the points that you made about your grandfather—all too often it takes personal experience of care settings for us to get to know the issues. I thank you for sharing that.

Bethan’s contribution to the debate was another great example of intergenerational links, which are crucial. If we can foster respect and dignity between the generations in this Chamber, then we will be sending out a strong message. You talked about the children’s commissioner, Bethan, and I agree with you—the Commissioner for Older People is empowered to work with the children’s commissioner and they can produce joint reports.

Along with other Members, you referred to care homes. I am sure that you look forward, as I do, to the extension of the registration of care workers that is being taken forward by the Care Council for Wales. On your point about the cost of care, I am glad to share with the Chamber the news that we are expecting a Green Paper to be published in England in the spring. The strategy that has been developed here, ‘Fulfilled Lives, Supportive Communities’, has put us one step ahead. I

sector gofal, y mae ei gadeirydd wedi’i benodi—Dr Win Tadd. Yr wyf yn siŵr y byddwch yn croesawu’r camau hynny. Fodd bynnag, yr hyn sy’n hanfodol, a’r hyn a fydd yn digwydd yw y byddwn yn adolygu ‘Mewn Dwylo Diogel’, y cyfarwyddyd a gyhoeddwyd yn 2000. Mae mwy na saith blynedd wedi mynd heibio, ac felly credaf fod angen inni ailystyried hynny ar frys. Bydd hefyd adolygiad ar y cyd gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o’r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol; yr wyf yn siŵr ein bod i gyd yn croesawu hynny.

Diolch am eich sylwadau cadarnhaol, Jonathan. Sylweddolais fod gennym gyswllt effeithiol yma i bontio’r cenedlaethau. Mae’n bwysig clywed eich sylwadau cadarnhaol a’r parch yr ydych yn barod i’w roi i bobl hŷn. Yr wyf yn siŵr, Jonathan, na fydd y comisiynydd yn gadael i’r Cynulliad ddianc rhag ei chraffu, ac ni fyddem yn disgwyl iddi wneud hynny. Mae’n anodd weithiau sylwi pan fydd rhywun hŷn yn cael ei gam-drin. Yr wyf yn cymryd y pwyntiau a wnaethoch am eich tad-cu o ddifrif—yn rhy aml o lawer mae angen cael profiad personol o leoliadau gofal er mwyn inni ymglyfarwyddo â’r materion. Diolch am rannu hynny.

Yr oedd cyfraniad Bethan at y ddadl yn enghraifft wych arall o gysylltiadau pontio’r cenedlaethau, sy’n allweddol. Os gallwn feithrin parch ac urddas rhwng y cenedlaethau yn y Siambr hon, byddwn yn anfon neges gref allan. Buoch yn siarad am y comisiynydd plant, Bethan, ac yr wyf yn cytuno â chi—mae’r grym gan y Comisiynydd Pobl Hŷn i weithio gyda’r comisiynydd plant a gallant lunio adroddiadau ar y cyd.

Ynghyd ag Aelodau eraill, cyfeiriasoch at gartrefi gofal. Yr wyf yn siŵr eich bod yn edrych ymlaen, fel yr wyf finnau, at estyniad cofrestriad gweithwyr gofal y mae Cyngor Gofal Cymru’n mynd ymlaen ag ef. O ran eich pwynt am gost gofal, yr wyf yn falch o rannu â’r Siambr y newyddion yr ydym yn disgwyl i Bapur Gwyrdd gael ei gyhoeddi yn Lloegr yn y gwanwyn. Mae’r strategaeth a ddatblygwyd yma, ‘Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol’, wedi’n rhoi un cam

hope to publish a Welsh equivalent of a Green Paper looking at the cost of care, and we will consult widely on what contribution the person who needs care should make, and what the state contribution should be.

Jeff said that Wales leads the UK, and that is true. As far as I know, we are not only leading the UK, but the world. We have said as much several times, and no-one has challenged it. We can therefore be pretty confident that we are leading the world. I welcome your positive comments on both non-devolved and devolved policies that are undoubtedly improving the life of older people.

I will return to the question of what the commissioner can do about abuse of elderly people. The commissioner will be able to review and make recommendations about the way that a local authority implements the policies and procedures that it has put in place for dealing with elder abuse. The commissioner does not have the power to enter a private dwelling without the consent of the homeowner, which is another factor that makes it difficult to identify abuse where people are living alone and may not be receiving care in the domiciliary setting. However, if the commissioner is concerned about the safety or welfare of an older person being cared for in their own home, or a family home, she would be able to alert, and work alongside, other authorities such as the police, social services and care standards inspectorate, in order to protect older people.

I repeat my remarks to the Committee on Equality of Opportunity: this is a matter for all of us. Each and every one of us has a responsibility to seek to identify this form of abuse, and, if we do, to report it. Therefore, I am grateful to Members for the contributions that they have made to the debate. The establishment of a Commissioner for Older People has been a landmark development in Government action to make life better for older people. It is another example of how Wales is able to set an example not only to the United Kingdom, but to Europe and the world. I know that you will all wish to join me in congratulating Ruth Marks on the

ymlaen. Gobeithiaf gyhoeddi Papur Gwyrdd cyfwerth i Gymru sy'n edrych ar gost gofal, a byddwn yn ymgynghori'n helaeth ar y cyfraniad y dylai'r unigolyn y mae angen gofal arno ei wneud, a'r hyn y dylai'r wladwriaeth ei gyfrannu.

Dywedodd Jeff fod Cymru'n arwain y DU, ac mae hynny'n wir. Hyd y gwn i, nid ydym yn arwain y DU yn unig, ond y byd hefyd. Yr ydym wedi dweud hynny droeon, ac nid oes neb wedi'i wrthwynebu. Gallwn fod yn weddol hyderus felly ein bod yn arwain y byd. Croesawaf eich sylwadau cadarnhaol ar bolisiau heb eu datganoli a rhai datganoledig sy'n ddiamheuol yn gwella bywydau pobl hŷn.

Dychwelaf at y cwestiwn am yr hyn y gall y comisiynydd ei wneud ynghylch cam-drin pobl oedrannus. Bydd y comisiynydd yn gallu adolygu a gwneud argymhellion am y ffordd y mae awdurdod lleol yn gweithredu'r polisiau a gweithdrefnau y mae wedi'u rhoi ar waith ar gyfer ymdrin â cham-drin pobl hŷn. Nid yw'r pŵer gan y comisiynydd i fynd i mewn i annedd preifat heb ganiatâd perchennog y cartref, sy'n rhywbeth arall sy'n ei gwneud yn anodd nodi camdriniaeth os yw pobl yn byw ar eu pen eu hunain ac efallai nad ydynt yn cael gofal yn y lleoliad cartref. Fodd bynnag, os yw'r comisiynydd yn poeni am ddiogelwch neu les rhywun hŷn sy'n cael gofal yn ei gartref ei hun, neu gartref teuluol, byddai'n gallu rhoi gwybod i awdurdodau eraill fel yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol a'r arolygiaeth safonau gofal a gweithio ochr yn ochr gyda hwy, er mwyn amddiffyn pobl hŷn.

Ailadroddaf fy sylwadau i'r Pwyllgor ar Gyfle Cyfartal: mae hwn yn fater i bob un ohonom. Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i geisio nodi'r math hwn o gamdriniaeth, ac, os gwnawn hynny, adrodd amdani. Yr wyf yn ddiolchgar felly i Aelodau am y cyfraniadau a wnaethant at y ddadl. Bu sefydlu Comisiynydd Pobl Hŷn yn garreg filltir yng ngwaith y Llywodraeth i wella bywydau pobl hŷn. Dyma enghraifft arall o sut y gall Cymru osod enghraifft nid yn unig i'r Deyrnas Unedig, ond i Ewrop ac i'r byd. Gwn yr hoffwch oll ymuno â mi i longyfarch Ruth Marks ar y cynnydd y mae wedi'i wneud yn y chwe mis byr ers sefydlu ei

progress that she has made in the six short months since her office was established. I am sure that you will also want to join me in congratulating Sarah Stone on her appointment to the important post of deputy commissioner.

As an ambassador and an authority on older people's issues, the commissioner is a key part of our overall strategy to ensure that the interests of older people are fully integrated into the mainstream policies of the Welsh Assembly Government. As Eleanor Burnham said it is important that the commissioner can share information.

5.40 p.m.

Mae'n hollol bwysig bod y comisiynydd yn gallu rhannu gwybodaeth a bod yn eiriolwr ar ran bobl hŷn yng Nghymru.

Therefore, the commissioner is an ambassador and an authority, and, as I said, will scrutinise the Welsh Assembly Government as well as other public bodies. As the National Assembly for Wales, the Welsh Assembly Government and citizens of Wales, we must value older people more and robustly tackle discrimination on the grounds of age. Sometimes it takes a lot of courage to do that, particularly if it occurs in the public sector. However, we must challenge unfair and outdated attitudes and practices that affect older people. I am sure that our new commissioner will continue to fulfil all of these aspirations and more.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Are there any objections? I see that there are no objections. In that case, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

**The Deputy Presiding Officer:** That brings today's proceedings to a close.

swydd. Yr wyf yn siŵr yr hoffech hefyd ymuno â mi i longyfarch Sarah Stone ar ei phenodiad i swydd bwysig y dirprwy gomisiynydd.

Fel llysgennad ac awdurdod ar faterion pobl hŷn, mae'r comisiynydd yn rhan allweddol o'n strategaeth gyffredinol i sicrhau bod buddiannau pobl hŷn yn cael eu cyfannu'n llawn ym mholisiau prif ffrwd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Fel y dywedodd Eleanor Burnham mae'n bwysig bod y comisiynydd yn gallu rhannu gwybodaeth.

It is important that the commissioner can share information and be an advocate for older people in Wales.

O ganlyniad, mae'r comisiynydd yn llysgennad ac awdurdod, ac, fel y dywedais, bydd yn craffu ar Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ogystal â chyrrff cyhoeddus eraill. Fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru a dinasyddion Cymru, mae'n rhaid inni werthfawrogi pobl hŷn yn fwy a mynd i'r afael yn gadarn â gwahaniaethu ar sail oedran. Mae angen llawer o ddewrder weithiau i wneud hynny, yn benodol os yw'n digwydd yn y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni herio agweddau ac arferion annheg a hen ffasiwn sy'n effeithio ar bobl hŷn. Yr wyf yn siŵr y bydd ein comisiynydd newydd yn parhau i fodloni'r holl uchelgeisiau hyn a mwy.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

**Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â'r cyfarfod heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.41 p.m.  
The meeting ended at 5.41 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**  
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)  
 Asghar, Mohammad (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)  
 Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)  
 Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)  
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)  
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)  
 Davies, Alun (Llafur – Labour)  
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)  
 Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)  
 Griffiths, John (Llafur – Labour)  
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)  
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)  
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)  
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)  
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 James, Irene (Llafur – Labour)  
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Ann (Llafur – Labour)  
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)  
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Law, Trish (Annibynnol – Independent)  
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)  
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)  
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)  
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)  
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)  
 Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)  
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)  
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)  
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Watson, Joyce (Llafur – Labour)  
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)

